TAG

# Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Teithio a Thwristiaeth (Dyfarniad Sengl) (8791)

# Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Teithio a Thwristiaeth (Dyfarniad Dwbl) (8792)

# Edexcel TAG Uwch mewn Teithio a Thwristiaeth (Dyfarniad Sengl) (9791)

# Edexcel TAG Uwch mewn Teithio a Thwristiaeth (Dyfarniad Dwbl) (9792)

Mehefin 2005

dysgu uwch, newid bywyd

Manyleb

Edexcel TAG mewn
Teithio a Thwristiaeth

Mae Edexcel Cyfyngedig yn un o'r prif gyrff arholi a dyfarnu yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd. Mae'n ymgorffori'r holl gymwysterau a ddyfarnwyd cyn hyn o dan frand Edexcel a BTEC. Rydym yn cynnig amrediad eang o gymwysterau gan gynnwys rhai cyffredinol (academaidd) a galwedigaethol a rhaglenni penodol i gyflogwyr.

Trwy rwydwaith o swyddfeydd yn y DU a gwledydd tramor, mae ein canolfannau'n derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i'w helpu i gyflwyno eu rhaglenni addysg a hyfforddiant i ddysgwyr.

Am wybodaeth bellach ffoniwch ein Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar 0870 240 9800, neu ewch i'n gwefan yn www.edexcel.org.uk

*Gwneir cyfeiriadau at ddeunyddiau trydydd parti yn y fanyleb hon yn ddidwyll. Nid yw Edexcel yn cefnogi, yn cymeradwyo nac yn derbyn cyfrifoldeb am gynnwys y deunyddiau, a all fod yn agored i'w newid, nac unrhyw farn a fynegir ynddynt. (Gall y deunydd gynnwys gwerslyfrau, cylchgronau a chyhoeddiadau eraill a gwefannau.)*

Awdurdodwyd gan Jim Dobson
Paratowyd gan Elise James

Mae'r holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn hawlfraint
© Edexcel Cyfyngedig 2005

**Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Teithio a Thwristiaeth (Dyfarniad Sengl)**

**Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Teithio a Thwristiaeth (Dyfarniad Dwbl)**

**Edexcel TAG Uwch mewn Teithio a Thwristiaeth (Dyfarniad Sengl)**

**Edexcel TAG Uwch mewn Teithio a Thwristiaeth (Dyfarniad Dwbl)**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 3

**Gorolwg o'r cymhwyster** 3

Strwythur 3

Oriau dysgu o dan arweiniad 3

Gorolwg o'r unedau 3

Dysgu blaenorol a argymhellir 3

Dilyniant 3

Cod dosbarthu 3

Cysylltiadau â chymwysterau eraill: 3

**Cynnwys y fanyleb** 3

**Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth** 3

**Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth** 3

**Uned 3: Cyrchnod Ewrop** 3

**Uned 4: Cyrchnod Prydain** 3

**Uned 5: Teithio'n Ddiogel** 3

**Uned 6: Gweithrediadau Cyrchfan** 3

**Uned 7: Twristiaeth Gyfrifol** 3

**Uned 8: Materion Cyfredol mewn Teithio a Thwristiaeth** 3

**Uned 9: Gweithio mewn Teithio a Thwristiaeth** 3

**Uned 10: Hyrwyddo a Gwerthiant mewn Teithio a Thwristiaeth** 3

**Uned 11: Gwyliau Diddordebau Arbennig** 3

**Uned 12: Cyrff Teithio** 3

**Gwybodaeth Asesu** 3

Amcanion Asesu 3

Asesu Allanol 3

Asesu Mewnol 3

Iaith yr asesu 3

Datganiad Cymraeg 3

Gofynion statudol 3

**Gwybodaeth graddio** **3**

Bandiau marciau 3

Graddio, cydgrynhoi a chywerthedd 3

Disgrifiadau perfformiad 3

Pwysiadau amcanion asesu 3

**Gwybodaeth ychwanegol** **3**

Gwneud cais am y cymhwyster hwn 3

Ailsefyll 3

Argaeledd 3

Cysylltiad â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol 3

Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig 3

Dysgwyr â gofynion penodol 3

Y cwricwlwm ehangach 3

Cysylltiadau ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol (YMMCD) a rhai eraill y cwricwlwm ehangach 3

Cefnogaeth i athrawon 3

**Atodiadau** **3**

Atodiad A: Mapio sgiliau allweddol 3

Atodiad B: Awgrymiadau datblygu sgiliau allweddol 3

Atodiad C: Y cwricwlwm ehangach 3

Atodiad CH: Disgrifiadau perfformiad 3

# Cyflwyniad

Mae'r gyfres hon o naw cymhwyster yn cynnwys Tystysgrifau Addysg Gyffredinol mewn:

- Celf a Dylunio Cymhwysol
- Busnes Cymhwysol
- TGCh Gymhwysol
- Peirianneg
- Iechyd a Gofal Corffol
- Astudiaethau Hamdden
- Y Cyfryngau
- Y Celfyddydau Perfformio
- Teithio a Thwristiaeth.

Mae'r cymwysterau wedi eu cynllunio i roi cyflwyniad eang i faes galwedigaethol mewn cyd-destun cymhwysol. Maent ar gael i'w dysgu am y tro cyntaf fel cyrsiau dwy flynedd o fis Medi 2005 ac fel cyrsiau un flwyddyn o fis Medi 2006. Caiff y cymwysterau Uwch Gyfrannol eu dyfarnu gyntaf yn haf 2006 a'r cymwysterau TAG Uwch yn haf 2007.

## Edexcel TAG mewn Teithio a Thwristiaeth

Cafodd yr Edexcel TAG mewn Teithio a Thwristiaeth ei datblygu i roi sail addysgol eang ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth addas o fewn y sector teithio a thwristiaeth. Mae wedi'i chynllunio i'w chyflwyno mewn cyd-destun perthynol i waith ac i ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r sector teithio a thwristiaeth.

## Rhif Achredu Cymhwyster QCA (FFCC /QAN)

Dyma'r RhAC QCA am y cymhwyster hwn:

| | |
|---|---|
| 100/4744/X | Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Teithio a Thwristiaeth |
| 100/4745/1 | Edexcel TAG Uwch Gyfrannol mewn Teithio a Thwristiaeth (Dyfarniad Dwbl) |
| 100/4801/7 | Edexcel TAG Uwch mewn Teithio a Thwristiaeth |
| 100/4802/9 | Edexcel TAG Uwch mewn Teithio a Thwristiaeth (Dyfarniad Dwbl) |

# Gorolwg o'r cymhwyster

## Strwythur

**Uwch Gyfrannol/TAG Uwch**

Mae'r holl Ddyfarniadau Sengl TAG Uwch yn y gyfres hon yn cynnwys chwe uned â'r un pwysiad ac yn cynnwys is-set Uwch Gyfrannol o dair uned UG. Hanner cyntaf cwrs TAG yw'r UG ac mae'n cyfrannu 50 y cant at gyfanswm marciau TAG. Mae'r U2, ail hanner y TAG Uwch, yn cynnwys y 50 y cant arall o gyfanswm marciau TAG Uwch.


**Uwch Gyfrannol/TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl)***

Mae'r holl gymwysterau TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl) yn y gyfres hon yn cynnwys 12 uned â phwysiad cyfartal ac yn cynnwys is-set Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl) o chwe uned UG. Yr Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl) yw hanner cyntaf cwrs TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl) ac mae'n cyfrannu 50 y cant o gyfanswm marciau TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl). Mae'r U2, ail hanner y TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl), yn cynnwys y 50 y cant arall o gyfanswm marciau TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl).

**Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl)***

Mae'r holl gymwysterau Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl) yn y gyfres hon yn cynnwys chwe uned UG â'r un pwysiad ac yn cynnwys is-set Uwch Gyfrannol o dair uned UG.

Mae'r diagram isod yn dangos y berthynas rhwng y Dyfarniadau yn y gyfres hon o fanylebau TAG.




## Oriau dysgu o dan arweiniad

Yr oriau dysgu o dan arweiniad am TAG Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Sengl) tair uned yw 180. Yr oriau dysgu o dan arweiniad am TAG Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl) chwe uned yw 360.

Yr oriau dysgu o dan arweiniad am TAG Uwch (Dyfarniad Sengl) chwe uned yw 360. Yr oriau dysgu o dan arweiniad am TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl) 12 uned yw 720.

## Gorolwg o'r unedau

| Uned | Teitl | Cod uned | Lefel | UG | UG (Dwbl) | TAG | TAG (Dwbl) | Dull Asesu | Argaeledd Asesu | Ar gael am y tro cyntaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth | 6987 | UG | Gorfodol | Gorfodol | Gorfodol | Gorfodol | Allanol | Ion/Meh | Ionawr 2006 |
| 2 | Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth | 6988 | UG | Gorfodol | Gorfodol | Gorfodol | Gorfodol | Mewnol | Ion/Meh | Ionawr 2006 |
| 3 | Cyrchnod Ewrop | 6989 | UG | Dewisol | Gorfodol | Dewisol | Gorfodol | Mewnol | Ion/Meh | Ionawr 2006 |
| 4 | Cyrchnod Prydain | 6990 | UG | Dewisol | Gorfodol | Dewisol | Gorfodol | Mewnol | Ion/Meh | Ionawr 2006 |
| 5 | Teithio'n Ddiogel | 6991 | UG | | Gorfodol | | Gorfodol | Allanol | Ion/Meh | Ionawr 2006 |
| 6 | Gweithrediadau Cyrchfan | 6992 | UG | | Gorfodol | | Gorfodol | Mewnol | Ion/Meh | Ionawr 2006 |
| 7 | Twristiaeth Gyfrifol | 6993 | U2 | | | Gorfodol | Gorfodol | Allanol | Ion/Meh | Ionawr 2007 |
| 8 | Materion Cyfredol mewn Teithio a Thwristiaeth | 6994 | U2 | | | Gorfodol | Gorfodol | Mewnol | Ion/Meh | Ionawr 2007 |
| 9 | Gweithio mewn Teithio a Thwristiaeth | 6995 | U2 | | | Dewisol | Gorfodol | Mewnol | Ion/Meh | Ionawr 2007 |
| 10 | Hyrwyddo a Gwerthiant mewn Teithio a Thwristiaeth | 6996 | U2 | | | Dewisol | Gorfodol | Allanol | Ion/Meh | Ionawr 2007 |
| 11 | Gwyliau Diddordebau Arbennig | 6997 | U2 | | | Dewisol | Gorfodol | Mewnol | Ion/Meh | Ionawr 2007 |
| 12 | Cyrff Teithio | 6998 | U2 | | | Dewisol | Gorfodol | Mewnol | Ion/Meh | Ionawr 2007 |

Mae’r gyfres hon o naw Tystysgrif Addysg Gyffredinol yn rhan o ddarpariaeth Lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FFCC / NQF).

Nodau’r TAGau hyn yw:

- ehangu cymryd rhan mewn dysgu’n ymwneud â galwedigaeth
- rhoi i ddysgwyr brofiad o ddysgu’n ymwneud â galwedigaeth i weld a yw’n addas iddynt
- galluogi dysgwyr i wneud dewisiadau personol dilys ar ôl cwblhau’r cymhwyster
- codi cyrhaeddiad ar Lefel 3/lefel Uwch y FFCC / NQF.

Amcanion cyffredinol y TAGau hyn yw:

- cyflwyno dysgwyr i ddysgu perthnasol i waith
- rhoi cyflwyniad eang i ddysgwyr i’r sector galwedigaethol
- rhoi i ddysgwyr yr wybodaeth dechnegol, y sgiliau a’r ddealltwriaeth sy’n gysylltiedig â’r pwnc ar y lefel hon
- rhoi i ddysgwyr rai o’r sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn y gweithle neu mewn addysg bellach neu hyfforddiant
- rhoi’r grym i ddysgwyr reoli eu dysgu a’u datblygiad eu hunain
- cynnig amrediad o arddulliau addysgu, dysgu ac asesu i symbylu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.

Mae’r gyfres hon o TAGau yn cyfrannu at ansawdd a chydlynedd darpariaeth genedlaethol, fel y dangosir yn glir gan eu lle ym Mhapur Gwyrdd y Llywodraeth ‘14-19 Estyn Cyfleoedd, Codi Safonau’.

Mae’r TAG mewn Teithio a Thwristiaeth wedi ei chynllunio i roi sail addysgol eang ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant mewn galwedigaethau cysylltiedig â theithio a thwristiaeth. Gwneir hyn trwy sicrhau bod dysgwyr yn datblygu’r sgiliau cyffredinol, yr wybodaeth a’r ddealltwriaeth sydd eu hangen o fewn y sector. Mae’r fanyleb yn cydymffurfio â Meini Prawf Cymhwyster Cyffredinol am TAGau, unrhyw feini prawf ychwanegol am fanylebau TAG (Dyfarniad Dwbl) ac â’r meini prawf pwnc am fanylebau TAG mewn Teithio a Thwristiaeth, sy’n nodi’r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a chynlluniau asesu sy’n gyffredin i bob manyleb TAG yn y pwnc. Mae meini prawf pwnc yn help i sicrhau safonau cyson a chymharol yn yr un pwnc ar draws cyrff dyfarnu ac yn helpu sefydliadau addysg bellach ac uwch a chyflogwyr i wybod beth sydd wedi ei astudio a’i asesu.

Yn neilltuol, nodau’r cymwysterau TAG mewn Teithio a Thwristiaeth yw symbylu dysgwyr i:

- ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth eang o'r diwydiant teithio a thwristiaeth
- datblygu a chynnal diddordebau mewn teithio a thwristiaeth, y materion sy'n effeithio datblygiad y diwydiant a'i effaith posibl ar gyfleoedd cyflogaeth
- datblygu dealltwriaeth o raddfa a phwysigrwydd y diwydiant teithio a thwristiaeth a chyd-ddibyniaeth ei sectorau
- gwerthfawrogi pwysigrwydd y cwsmer i'r diwydiant teithio a thwristiaeth
- gwerthfawrogi pwysigrwydd cyrchnodau a'r cymunedau sy'n croesawu i'r diwydiant teithio a thwristiaeth a phwysigrwydd datblygiad cynaliadwy
- gwerthfawrogi'r dylanwadau cadarnhaol a negyddol y gall teithio a thwristiaeth eu cael ar bobl, yr amgylchedd a'r economi
- datblygu sgiliau ymarferol a thechnegol perthnasol i'r diwydiant teithio a thwristiaeth
- gwerthfawrogi natur fyd-eang a deinamig y diwydiant teithio a thwristiaeth, sut mae pobl, amgylcheddau a materion yn newid, a sut mae'r diwydiant yn ymateb i'r newidiadau hyn

- gwerthfawrogi dylanwad technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar ddatblygiad y diwydiant teithio a thwristiaeth a'i effaith bosibl ar y gweithgareddau yn y dyfodol
- gwerthfawrogi gwerthoedd ac agweddau budd-ddeiliaid allweddol yn y diwydiant teithio a thwristiaeth
- datblygu'u gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain mewn perthynas â materion teithio a thwristiaeth
- rhoi'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o deithio a thwristiaeth ar waith a defnyddio sgiliau ymchwilio, gwerthuso a datrys problem mewn cyd-destunau galwedigaethol
- cynllunio, blaenoriaethu a chwrdd â dyddiadau cau, gweithio'n annibynnol ac mewn timau
- cymryd rhan mewn ymweliadau â chyrff a chyrchnodau teithio a thwristiaeth.

Trwy gymwysterau UG and UG (Dyfarniad Dwbl) dylai dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o nodweddion y diwydiant teithio a thwristiaeth a'i sectorau unigol a'r sgiliau angenrheidiol i weithredu'n effeithiol ynddynt.

Trwy gymwysterau TAG Uwch a TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl), dylai dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth fwy beirniadol o'r diwydiant teithio a thwristiaeth a'r cysylltiadau rhwng rhannau gwahanol y diwydiant, trwy ddefnydd cyson o amrediad o dechnegau ymchwil, a rhoi'r ddealltwriaeth hon ar waith mewn cyd-destunau anghyfarwydd. At hyn, dylid symbylu dysgwyr i ddatblygu golwg holistaidd o'r diwydiant teithio a thwristiaeth a dealltwriaeth o gydberthynas a chyd-ddibyniaethau ei sectorau gwahanol. Dylent gael cyfle hefyd i wneud astudiaeth drylwyr o un neu fwy o sectorau a sut maen nhw'n gweithredu, ac i ddatblygu sgiliau i ddelio â sefyllfaoedd a phroblemau cymhleth.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

Mae'r dysgwyr a fyddai'n elwa fwyaf o wneud TAG mewn Teithio a Thwristiaeth yn debygol o fod ag un neu fwy o'r canlynol:

- Edexcel Lefel 2 BTEC Diploma Cyntaf mewn Teithio a Thwristiaeth
- TGAU (Dyfarniad Dwbl) mewn Hamdden a Thwristiaeth - graddau A*A*— CC
- CGCC Canolradd mewn Hamdden a Thwristiaeth
- pedwar TGAU graddau A*— C.

## Dilyniant

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dilyniant i addysg uwch a hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth. Mae addysg uwch briodol yn cynnwys Edexcel Lefel 4 BTEC Cenedlaethol Uwch mewn Rheolaeth Teithio a Thwristiaeth. Mae'n cefnogi dilyniant i hyfforddiant megis Prentisiaethau Modern Uwch mewn Gwasanaethau Teithio hefyd.

## Cod dosbarthu

Rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol i bob manyleb gan nodi'r maes pwnc y mae'n perthyn iddo. Cod dosbarthu y fanyleb hon yw 0017.

Dylai canolfannau fod yn ymwybodol na fydd gan ymgeiswyr sy'n gwneud cais am fwy nag un cymhwyster Lefel 3 yn yr un cod dosbarthu ond un radd (yr uchaf) i'w chyfrif at ddibenion tablau perfformiad yr ysgol a'r coleg.

## Cysylltiadau â chymwysterau eraill:

- Edexcel Lefel 3 BTEC Cenedlaethol mewn Teithio a Thwristiaeth
- Lefel 3 CGCau mewn Gwasanaethau Teithio a Thwristiaeth.

# Cynnwys y fanyleb

Yr adrannau sy'n rhoi arweiniad i ddysgwyr yw *Cyflwyniad, Dysgu blaenorol a argymhellir* a *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* ac, ar gyfer unedau i'w hasesu'n fewnol yn unig, *Tystiolaeth asesu.* I roi arweiniad i athrawon y mae'r adrannau eraill.

## Mynegai yr Unedau

Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth

Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth

Uned 3: Cyrchnod Ewrop

Uned 4: Cyrchnod Prydain

Uned 5: Teithio'n Ddiogel

Uned 6: Gweithrediadau Cyrchfan

Uned 7: Twristiaeth Gyfrifol

Uned 8: Materion Cyfredol mewn Teithio a Thwristiaeth

Uned 9: Gweithio mewn Teithio a Thwristiaeth

Uned 10: Hyrwyddo a Gwerthiant mewn Teithio a Thwristiaeth

Uned 11: Gwyliau Diddordebau Arbennig

Uned 12: Cyrff Teithio

# Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth

## UG Uned Orfodol

## Asesiad allanol

## Cyflwyniad

Y diwydiant teithio a thwristiaeth yw un o'r diwydiannau mwyaf ac sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Mae'r uned hon yn rhoi dealltwriaeth i chi o'r diwydiant y gellir ei defnyddio fel sail ar gyfer astudiaeth bellach. Byddwch yn dysgu am natur a nodweddion twristiaeth a sut y mae twristiaeth yn cael ei datblygu. Byddwch yn dysgu hefyd am raddfa a strwythur y diwydiant teithio a thwristiaeth.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

Uned ragarweiniol yw hon ac felly nid oes gofynion am ddysgu blaenorol. Gall gwybodaeth am y diwydiant teithio a thwristiaeth trwy astudio ar gyfer cymwysterau fel TGAU mewn Hamdden a Thwristiaeth (Dyfarniad Dwbl) neu BTEC Tystysgrif/Diploma Gyntaf mewn Teithio a Thwristiaeth gefnogi eich dealltwriaeth o gynnwys yr uned. Bydd yr uned hon yn rhoi'r wybodaeth gynhaliol sylfaenol i gefnogi unedau eraill yn y cymhwyster.

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 1.1 Natur a nodweddion teithio a thwristiaeth a'r diwydiant teithio a thwristiaeth

Bydd angen i chi wybod diffiniadau safonol y term 'twristiaeth' fel y gellwch werthfawrogi cwmpas y maes yr ydych wedi dewis ei astudio. Bydd angen hefyd i chi ddatblygu dealltwriaeth o natur teithio a thwristiaeth, megis y ffaith ei fod yn fyrhoedlog ac anghyffwrdd, a sut mae hyn yn effeithio cyrff yn y diwydiant.

Bydd angen i chi wybod am fathau gwahanol o dwristiaeth:

- sy'n dod i mewn i'r wlad
- domestig
- sy'n ymadael â'r wlad
- busnes
- hamdden
- gwibdeithiau
- antur
- pecyn
- annibynnol
- ymweld â ffrindiau a pherthnasau (YFAP / VFR).

Byddwch yn gallu disgrifio pob math a rhoi enghreifftiau ohonynt, yn ogystal â deall y gwahaniaethau rhyngddynt.

Byddwch yn ennill dealltwriaeth o nodweddion y diwydiant teithio a thwristiaeth:

- mae'r sector preifat sy'n arwain yn bennaf
- bod mwyafrif y mentrau yn fach ac o faint canolig ond bod nifer fechan o gyrff mawr yn dominyddu'r diwydiant
- bod y diwydiant yn gwneud defnydd helaeth o dechnolegau newydd fel Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
- bod y diwydiant yn fregus yn wyneb pwysau allanol e.e. amrywiad mewn arian cyfred, deddfwriaeth y llywodraeth, newidiadau yn yr hinsawdd, rhyfel, aflonyddwch sifil, ymosodiadau terfysgol, yr hinsawdd economaidd
- bod y diwydiant yn dylanwadu'n gadarnhaol ac yn negyddol ar amgylchedd sy'n ei gynnal.

Byddwch yn gallu rhoi enghreifftiau o'r nodweddion hyn yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU trwy ymchwil i weithrediadau mathau gwahanol o gyrff.

| | | |
|---|---|---|
| **1.2** | **Datblygiad y diwydiant teithio a thwristiaeth** | Bydd angen i chi wybod y cyfnodau allweddol yn natblygiad y diwydiant teithio a thwristiaeth, gan gynnwys gorolwg o ddatblygiadau a ddigwyddodd yn yr hen fyd, gan gynnwys gwareiddiadau Groeg a Rhufain, yn ystod y chwyldro diwydiannol ac yn y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel. Byddwch yn ennill dealltwriaeth fwy trwyadl o ddatblygiadau wedi'r ail ryfel byd a'u heffeithiau ar y diwydiant teithio a thwristiaeth.<br><br>Trwy ymchwiliad, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r prif ffactorau sy'n arwain at dwf diwydiant teithio a thwristiaeth y DU:<br>• ffactorau sy'n ysgogi<br>• ffactorau sy'n galluogi<br>• ffactorau cymdeithasol-economaidd<br>• ffactorau technolegol<br>• datblygiad cynnyrch a menter<br>• anghenion cyfnewidiol cwsmeriaid<br>• disgwyliadau a ffasiynau.<br><br>Byddwch yn gallu egluro sut mae'r ffactorau hyn wedi arwain at nodweddion cyfredol, gan roi enghreifftiau addas yr ydych chi wedi ymchwilio iddynt o ddiwydiant teithio a thwristiaeth y DU. |
| **1.3** | **Strwythur diwydiant teithio a thwristiaeth y DU** | Byddwch yn dysgu am y sectorau gwahanol sy o fewn diwydiant teithio a thwristiaeth y DU:<br>• prif ddulliau cludiant<br>• gweithredwyr teithiau<br>• trefnwyr teithiau<br>• atyniadau<br>• darparwyr llety<br>• darparwyr gwasanaeth atodol<br>• gwasanaethau cynnal.<br><br>Trwy ymchwil, byddwch yn gallu adnabod y sefydliadau allweddol ym mhob sector a disgrifio'u cynhyrchion a'u gwasanaethau, eu hamcanion a'u gwerthoedd.<br><br>Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o swyddogaethau'r gwahanol sectorau, eu rolau a'u cyfrifoldebau a sut mae pob sector yn gweithio gydag eraill, fel y gallwch ddadansoddi'r cydberthnasau a'r cyd-ddibyniaethau o fewn y diwydiant. Byddwch yn dysgu dangos eich dealltwriaeth trwy ddefnyddio modelau megis y gadwyn ddosbarthu.<br><br>Trwy ymchwil, byddwch yn dysgu disgrifio hyd a lled yr integreiddiad llorweddol a fertigol o fewn y diwydiant teithio a thwristiaeth ac enwau'r cyrff sy'n cymryd rhan, gan egluro'r rhesymau pam eu bod yn cymryd rhan a graddfa'r ymwneud hwnnw. Byddwch yn gallu esbonio'r effaith y mae'r lefel hon o integreiddiad wedi'i chael ar gyrff teithio a thwristiaeth wahanol ac ar strwythur y diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| **1.4** | **Graddfa'r diwydiant teithio a thwristiaeth** | Byddwch yn dysgu dehongli ystadegau a gyflwynir i chi er mwyn dod i gasgliadau am raddfa'r diwydiant teithio a thwristiaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang o ran niferoedd ymwelwyr, gwariant ymwelwyr a lefelau cyflogaeth. |

## Tystiolaeth Asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu trwy asesiad allanol. Y marc a enillwch chi am yr asesiad hwn fydd eich marc am yr uned.

Bydd yr asesiad allanol ar ffurf prawf wedi'i farcio. Bydd y prawf hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau atebion hir a byr. Bydd cynnwys yr asesiad allanol yn perthyn yn uniongyrchol i'r hyn y dylech chi fod wedi'i ddysgu o ganlyniad i'r gweithgareddau rydych wedi'u cyflawni fel rhan o'ch gwaith ar gyfer yr uned hon.

Bydd angen i chi fod yn gallu cymhwyso'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o'r uned i ofynion y cwestiynau a osodir. Mae'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i sefyllfaoedd gwahanol yn baratoad amhrisiadwy ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg uwch. Mae asesiad allanol yn un enghraifft o lle mae'r trosglwyddiad hwn yn hanfodol e.e trwy ymdopi ag amodau dan reolaeth asesiad allanol a'r senarios a thrwy ymateb i gwestiynau.

Bydd ar yr asesiad allanol angen tystiolaeth o:

(a) fod yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys pwnc yr uned hon a sgiliau cysylltiedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol

(b) bod yn gallu cymhwyso'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o gynnwys pwnc yr uned hon a sgiliau cysylltiedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol

(c) bod yn gallu defnyddio technegau ymchwil priodol i gaffael gwybodaeth i ddadansoddi materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol

(ch) bod yn gallu gwerthuso gwybodaeth i wneud dyfarniadau rhesymegol, tynnu casgliadau a gwneud argymhellion ynglŷn â materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol.

## Cyflwyno'r uned hon

**Adolygu diffiniadau o dwristiaeth**

Gellid cyflwyno dysgwyr i ddiffiniadau gwahanol o dwristiaeth y gellid eu hadolygu a'u trafod i weld sut maen nhw'n cysylltu â'u canfyddiadau hwy'u hunain o dwristiaeth. Bydd hyn yn cynorthwyo i ddatblygu sgiliau dadansoddol a dealltwriaeth o natur teithio a thwristiaeth.

**Astudiaethau achos o sefyllfaoedd twristiaeth gwahanol**

Gellid cyflwyno i ddysgwyr astudiaethau achos byr o sefyllfaoedd twristiaeth gwahanol fel y gallant ddysgu gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o dwristiaeth. Gallen nhw ddatblygu eu hastudiaethau achos byr eu hunain hefyd. Gellid defnyddio'r astudiaethau achos o sefyllfaoedd twristiaeth wrth ystyried nodweddion y diwydiant. Gallai'r astudiaethau achos ganoli ar fathau gwahanol o gyrff a'u defnyddio i egluro nodweddion gwahanol. Er enghraifft, gallent gael astudiaeth achos ar weithredwr teithiau annibynnol a thrafod sut y mae'n fregus yn wyneb pwysau allanol. Gellir defnyddio astudiaethau achos hefyd pan maen nhw'n dysgu am strwythur y diwydiant. Gallent ystyried sut y gallai'r corff weithio gyda sectorau eraill y diwydiant, i'w cynorthwyo i ddysgu sut mae'r sectorau yn perthyn i'w gilydd ac yn gyd-ddibynnol.

**Ymchwil i'r diwydiant teithio a thwristiaeth**

Mae cyfleoedd i wneud ymchwil i agweddau gwahanol yr uned hon er mwyn deall yn llawn nodweddion y diwydiant teithio a thwristiaeth a'r ffactorau sy wedi effeithio ar ei ddatblygiad. Gall ymchwil roi gorolwg iddynt hefyd o ddatblygiad y diwydiant teithio a thwristiaeth. Gallai dysgwyr gael gorolwg o ddatblygiadau arwyddocaol yn mynd yn ôl i'r hen fyd. Gallant weld faint o'r datblygiadau a welwyd yn Oes y Rhufeiniaid a'r Chwyldro Diwydiannol y gellir eu defnyddio i ennill dealltwriaeth o ffactorau sy'n ysgogi ac sy'n galluogi, gwybodaeth y gallai dysgwyr ei chymhwyso wedyn wrth ymchwilio i ddatblygiadau mwy cyfredol. Dylai ffocws ymchwil y dysgwyr fod ar ddatblygiadau diweddarach ers 1945. Trwy ymchwil mae potensial i wneud dysgwyr yn ymwybodol o faterion cyfoes a chaniatáu iddynt ystyried eu gwerthoedd eu hunain, yn enwedig parthed effeithiau cadarnhaol a negyddol twristiaeth a newidiadau yn anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid. Gellid datblygu sgiliau dadansoddol trwy archwiliad trwyadl o ganfyddiadau dysgwyr, efallai trwy drafodaethau dosbarth. Bydd cyflwyno'u syniadau a'u canfyddiadau eu hunain i grŵp yn datblygu sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ac mae cyfle i ymateb i gwestiynu i ddatblygu sgiliau ymresymu. Bydd ymchwil yn rhoi cyfle hefyd i weithio mewn grwpiau ac i ddysgu sgiliau hanfodol gweithio mewn grŵp. Gellid rhoi cyfnod penodol o amser neu nodwedd benodol i bob grŵp ymchwilio iddo/iddi a chyflwyno eu canfyddiadau.

**Defnyddio ystadegau sy ar gael**

Gellir cael amrediad o ystadegau yn hawdd trwy werslyfrau a gwefannau. Gall dysgwyr adolygu'r ystadegau hyn i adnabod pwyntiau allweddol, archwilio tueddiadau, a phenderfynu ar yr achos a'r effaith a arweiniodd at yr ystadegau a gyflwynwyd. Mae dysgwyr yn datblygu sgiliau dadansoddol a'r gallu i brofi casgliadau trwy ddefnyddio ystadegau sy ar gael.

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau ymarferol yn gysylltiedig â sectorau gwahanol y diwydiant** | Tra bod gwerslyfrau yn rhoi gorolwg o swyddogaethau sectorau gwahanol y diwydiant, gall ymgymryd â gweithgareddau ymarferol sy'n copïo sut mae cyrff yn sectorau gwahanol y diwydiant yn gweithredu i gefnogi dealltwriaeth dysgwyr. Trwy'r ymdriniaeth hon, gallai dysgwyr ddatblygu sgiliau technegol y gellid eu defnyddio yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Gall y gweithgareddau hyn eu cynorthwyo hefyd i ystyried y cyfleoedd cyflogaeth a all fod ar gael iddynt ar ôl cwblhau'r cymhwyster, a'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol i lwyddo yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Gellir ymgymryd â gweithgareddau ymarferol mewn grwpiau hefyd, fel y byddai llawer ohonynt yn ei wneud yn y diwydiant. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau gwaith grŵp perthnasol. |
| **Siaradwyr gwadd ac ymweliadau yn gysylltiedig â sectorau gwahanol y diwydiant teithio a thwristiaeth** | Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ennill gwybodaeth o rolau sectorau gwahanol y diwydiant trwy arsylwi a gweithgareddau ymarferol yn hytrach na thrwy archwilio dogfennau ysgrifenedig. Dylai hyn gynorthwyo'u dealltwriaeth gan eu bod yn debyg o gael cyfle i ofyn cwestiynau, rhywbeth na allant ei wneud gyda gwybodaeth a ddarperir mewn gwerslyfr. Trwy holi, bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau cyfathrebu ar lafar a sgiliau ymresymu. |
| **Diweddaru gweithgareddau'r diwydiant yn rheolaidd trwy adolygiadau papurau newydd a chylchgronau** | Mae adolygiadau wythnosol neu fisol adrannau teithio papurau dyddiol neu'r wasg fasnachol fel y *Travel Weekly* a'r *Travel Trade Gazette* yn atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o faterion cyfredol ac ymatebion y diwydiant i'r materion hyn. Maen nhw'n hybu'u dealltwriaeth o rôl y sectorau gwahanol hefyd. Bydd dysgwyr yn ennill dealltwriaeth o gyrff allweddol, eu cynhyrchion a'u gwasanaethau, eu hamcanion a'u gwerthoedd. Mae'n cyflwyno dysgwyr hefyd i ffynonellau gwybodaeth a all fod yn anghyfarwydd iddynt ond a allai fod o ddefnydd wrth astudio unedau eraill. |

## Cysylltau

| | |
|---|---|
| **Unedau eraill** | Mae'r uned hon yn cynnig dealltwriaeth o'r diwydiant teithio a thwristiaeth y gellir ei datblygu ymhellach trwy'r unedau eraill yn y cymhwyster. |

# Adnoddau

## Gwerslyfrau


Cambridge Training and Development Ltd — *Advanced Travel and Tourism* (Oxford University Press, 2000) ISBN 0198328273

Dale G and Oliver H — *Travel and Tourism for Advanced GNVQ* (Hodder Arnold H&S, 2000) ISBN 0340781998

Holloway J C — *The Business of Tourism, Fifth Edition* (Longman, 1998) ISBN 0582328810

Outhart T et al — *Travel and Tourism for Advanced GNVQ* (Collins Educational, 2000) ISBN 000329109X

Prosser R — *Leisure, Recreation and Tourism, Second Edition* (Collins Educational, 2000) ISBN 0003266508

Yale P — *The Business of Tour Operations* (Longman, 1995) ISBN 0582277973

Youell R — *Vocational A-level Travel and Tourism* (Longman, 2000) ISBN 0582404452


## Gwefannau

| | |
|---|---|
| Alton Towers | www.alton-towers.co.uk |
| Association of British Travel Agents | www.abtanet.com |
| Avis | www.avis.co.uk |
| BAA | www.baa.co.uk |
| Best Western Hotels Great Britain | www.bestwestern.co.uk |
| British Airways | www.britishairways.com |
| British Incoming Tour Operators Association | www.bitoa.co.uk |
| Center Parcs | www.centerparcs.com |
| Cosmos | www.cosmos-holidays.co.uk |
| Countryside Agency | www.countryside.gov.uk |
| Countryside Council for Wales | www.ccw.gov.uk |
| Department for Culture, Media and Sport | www.culture.gov.uk |
| English Heritage | www.english-heritage.org.uk |
| First Choice | www.firstchoice.co.uk |
| GNER | www.gner.co.uk |
| Inghams Travel | www.inghams.com |
| Institute of Travel and Tourism | www.itt.co.uk |
| Lunn Poly | www.lunnpoly.com |
| MyTravel | www.mytravel.co.uk |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwefannau** (parhad) | National Statistics | www.statistics.gov.uk |
| | National Trust | www.nationaltrust.org.uk |
| | People 1st | www.people1st.co.uk |
| | Port of Dover | www.doverport.co.uk |
| | Star UK statistics | www.staruk.org.uk |
| | Superbreaks | www.superbreak.com |
| | Thomas Cook | www.thomascook.co.uk |
| | Thomson Holidays | www.thomson.co.uk |
| | Tourism Society | www.tourismsociety.org |
| | Travelbag | www.travelbag.co.uk |
| | Travel Weekly | www.travelweekly.co.uk |
| | Virgin Atlantic | www.virgin-atlantic.com |
| | Visit Britain | www.visitbritain.com |
| | Visit Britain UK Industry | www3.visitbritain.com/ukindustry |
| | Visit Wales (Wales Tourist Board) | www.visitwales.com |
| | Wallace Arnold Holidays | www.wallacearnold.com |
| | Worldspan | www.worldspan.com |
| | World Tourism Organisation | www.world-tourism.org |
| | World Travel and Tourism Council | www.wttc.org |
| | Youth Hostels Association | www.yha.org.uk |

**Fideos**

*Inside a Travel Business* (TV Choice, 2001)

**Darllen arall**

*Insights* – English Tourism Council

*Leisure Management* and *Leisure Opportunities* – Leisure Media Company Ltd

*Travel Trade Gazette* – CNP Information Ltd

*Travel Weekly* – Reed Business Information Ltd

# Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth

## UG Uned Orfodol

## Asesiad mewnol

## Cyflwyniad

Mae'r diwydiant teithio a thwristiaeth yn gystadleuol iawn a gallai cyrff sy'n colli golwg o'r cwsmer golli'u min cystadleuol. Mae'r uned hon yn edrych ar sut y gall cyrff ffocysu ar y cwsmer trwy adnabod a chyflawni'u hanghenion a'u hangenrheidiau, nid o ran cynhyrchion a gwasanaethau a werthir yn unig, ond hefyd trwy unrhyw wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen. Un dull allweddol a ddefnyddir gan gyrff i ffocysu ar y cwsmer yw sicrhau bod lefel uchel o wasanaeth cwsmer yn cael ei darparu. Nod arall yr uned hon yw datblygu eich sgiliau gwasanaeth cwsmer chi'ch hun a rhoi'r cyfle i ystyried lefel y gwasanaeth cwsmer a roir mewn corff teithio a thwristiaeth.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth*

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 2.1 Y corff a'i chwsmeriaid

Byddwch yn dysgu pa mor bwysig yw hi i gyrff fabwysiadu ffocws cwsmer. I wneud hyn bydd angen i chi wybod yn gyntaf pwy yw'r cwsmer. Byddwch yn dysgu sut i wahaniaethu rhwng cwsmeriaid mewnol a rhai allanol corff, gan roi enghreifftiau ohonynt yn sectorau gwahanol y diwydiant. Byddwch yn dysgu hefyd fod y cwsmer mewnol, megis cyflenwr, mor bwysig i lawer corff teithio a thwristiaeth â'r cwsmeriaid allanol sy'n talu am eu cynhyrchion a'u gwasanaethau.

Byddwch yn gallu disgrifio anghenion ac angenrheidiau gwahanol fathau o gwsmeriaid ac yn egluro sut mae sectorau gwahanol y diwydiant teithio a thwristiaeth yn cwrdd â'r anghenion a'r angenrheidiau hyn. Gall anghenion ac angenrheidiau ymwneud â chynhyrchion a gwasanaethau prynadwy ond dylid ystyried gwasanaethau a ddarperir am ddim yn aml yn ogystal, megis:

- oriau agor hwyr
- archebion ffôn
- arwyddo i mewn yn hwyr
- gwasanaeth cyfieithu
- car i godi a gollwng
- gwasanaethau ar-lein.

Byddwch yn dysgu hyn trwy ymchwilio i'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir gan sectorau gwahanol y diwydiant e.e trefnwyr teithiau, gweithredwyr teithiau, atyniadau, cwmnïau hedfan a.y.y.b. a byddwch yn astudio un sector yn drylwyr ar gyfer asesiad.

## 2.2 Darparu gwasanaeth cwsmer effeithiol

Byddwch yn dysgu datblygu'r sgiliau a'r priodoleddau personol a thechnegol angenrheidiol i ddarparu lefel o wasanaeth cwsmer sy'n dangos dull cwsmer-ganolog o weithio ac i safon ddisgwyliedig o fewn y diwydiant. Ymhlith y sgiliau a'r priodoleddau a ddatblygir bydd:

- sgiliau personol — ymddangosiad personol, yr adnoddau gofynnol sy ar gael, defnydd o fenter, datrys problem, agwedd gadarnhaol, i fyny â safonau'r diwydiant
- cyfathrebu — cwestiynu, gwrando, ymateb i gwsmeriaid, darparu gwybodaeth, arddull a thôn, yn ysgrifenedig, ar lafar, cwblhau dogfennaeth briodol, defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
- gwybodaeth am y cynnyrch — defnydd o ffynonellau gwybodaeth priodol, perthnasol i'r sector ac i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid.

Bydd angen i chi amlygu'r sgiliau hyn mewn sefyllfaoedd gwahanol i fathau gwahanol o gwsmeriaid. Wrth ddatblygu'r sgiliau hyn dylech fod yn ystyried sut y dylid trafod y gwahanol gwsmeriaid hyn:

- grwpiau
- pobl o oedrannau gwahanol
- cwsmeriaid busnes
- rhai ag anghenion penodol e.e cwsmeriaid ag anableddau, oedolion â phlant bach, cyflyrau meddygol fel beichiogrwydd, clefyd melys, neu yn gysylltiedig ag oedran
- gwahaniaethau iaith
- gwahaniaethau diwylliannol.

Byddwch yn dysgu trafod cwsmeriaid yn effeithiol mewn sefyllfaoedd sy'n gymhleth ac yn afreolaidd yn ogystal â'r rhai sy'n syml ac yn rheolaidd. Dylech ddysgu hefyd sut i drafod y cwsmeriaid hyn mewn sefyllfaoedd lle maent yn edrych am wybodaeth, yn ceisio cyngor, yn cael problemau a/neu â chanddynt gwyn i'w gwneud.

Dylech ddysgu sut i drafod amrediad o gwsmeriaid mewn amrediad o sefyllfaoedd i baratoi ar gyfer asesiad.

**2.3 Mesur a monitro gwasanaeth cwsmer corff**

Byddwch yn dysgu'r dulliau gwahanol a ddefnyddir i fonitro a mesur lefel dderbyniol o wasanaeth cwsmer, manteision ac anfanteision y dulliau a ddefnyddir a sut y maent yn addas mewn sefyllfaoedd gwahanol ac mewn mathau gwahanol o gyrff. Byddant yn cynnwys dulliau fel:

- cwsmeriaid cudd
- arsylwadau
- arolygon

Byddwch yn dysgu datblygu'r ddogfennaeth a ddefnyddir i gasglu data ar gyfer pob un o'r dulliau hyn.

Byddwch yn dysgu dadansoddi pa rai fyddai'r meini prawf ansawdd mwyaf priodol i'w defnyddio i fonitro a mesur lefel dderbyniol o wasanaeth cwsmer mewn corff fel:

- iechyd a diogelwch
- cyflymder gwasanaeth
- argaeledd gwasanaeth
- y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir
- gwybodaeth a chwrdd ag anghenion eraill ac ati.

Byddwch yn dysgu hefyd sut i roi gwerthusiad beirniadol o wasanaeth cwsmer mewn corff. Byddwch yn dysgu'r safonau meincnodi ar gyfer y meini prawf hyn. Mae meincnodi yn derm a ddefnyddir i osod lleiafswm safon a byddwch yn dysgu gwerthuso gwasanaeth cwsmer yn feirniadol yn erbyn safonau meincnodi.

Byddwch yn dysgu dewis dull priodol addas ar gyfer gwerthuso gwasanaeth cwsmer mewn corff teithio a thwristiaeth penodol ac yn datblygu methodoleg addas y gellwch ei defnyddio. Byddwch yn dysgu sut i ddadansoddi canlyniadau gwerthusiad ac yn defnyddio hyn i benderfynu ar welliannau sydd eu hangen, gan ddysgu cyfiawnhau unrhyw argymhellion a wnewch.

## Tystiolaeth asesu

Gallai tystiolaeth asesu fod ar sawl ffurf wahanol yn unol â'ch hoffterau a'ch cryfderau dysgu. Bydd peth o'r dystiolaeth ar ffurf gosodiadau arsylwi neu ddatganiadau tystion gyda dogfennaeth ategol. Yn ogystal gall fod adroddiadau ysgrifenedig, dogfennaeth wedi'i chwblhau a data. Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o:

(a) disgrifiad o anghenion cwsmeriaid yn un sector o'r diwydiant teithio a thwristiaeth

ac

eglurhad o sut mae cyrff yn y sector hwnnw yn ceisio cwrdd â'r anghenion hynny

(b) eich cysylltiad â chwsmeriaid mewn pedair sefyllfa real neu efelychiadol yn ymwneud â theithio a thwristiaeth sy'n dangos eich sgiliau gwasanaeth cwsmer chi eich hun trwy drafod cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd gwahanol gan gynnwys cwyno a chwblhau'r ddogfennaeth berthnasol

(c) defnyddio methodoleg briodol i ymchwilio safon gwasanaeth cwsmer mewn corff teithio a thwristiaeth gan gynnwys dogfennaeth a'r meini prawf ansawdd i'w defnyddio ar gyfer gwerthuso.

(ch) gwerthusiad o wasanaeth cwsmer mewn corff teithio a thwristiaeth yn erbyn meini prawf ansawdd ac argymhellion am welliannau.

## Meini prawf asesu

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **a**<br><br>**(AA1)** | Disgrifiad elfennol o anghenion cwsmeriaid yn un sector o'r diwydiant sy'n brin o fanylion parthed y mathau o gwsmeriaid ac anghenion y rhai a nodwyd.<br><br>Eglurhad elfennol o sut mae cyrff yn y sector hwnnw yn ceisio cwrdd â'r anghenion hynny sy'n ddisgrifiadol yn bennaf ac yn gyfyng o safbwynt enghreifftiau penodol.<br><br>**(1-9)** | Disgrifiad o anghenion cwsmeriaid yn un sector o'r diwydiant sy â chanddo beth manylder o safbwynt mathau o gwsmeriaid ac anghenion y rhai a nodwyd. Enghreifftir rhai anghenion a mathau o gwsmeriaid.<br><br>Eglurhad o sut mae cyrff yn y sector hwnnw yn ceisio cwrdd â'r anghenion hynny gan ddefnyddio rhai enghreifftiau penodol i gefnogi ymatebion.<br><br>**(10-14)** | Disgrifiad cynhwysfawr o amrediad eang o anghenion cwsmeriaid yn un sector o'r diwydiant sy'n fanwl ac a enghreifftir o ran mathau o gwsmeriaid ac anghenion y rhai a nodwyd.<br><br>Eglurhad trwyadl o sut mae cyrff yn y sector hwnnw yn ceisio cwrdd â'r anghenion hynny gan ddefnyddio amrediad o enghreifftiau i gefnogi ymatebion.<br><br>**(15-18)** | **18** |
| **b**<br><br>**(AA2)** | Deliwyd â chwsmeriaid mewn pedair sefyllfa teithio a thwristiaeth real neu efelychiadol. Mae'r sefyllfaoedd ar y cyfan yn syml ac yn rheolaidd. Mae prif anghenion cwsmeriaid wedi'u cwrdd yn y rhan fwyaf o'r sefyllfaoedd. Dangoswyd sgiliau cyfathrebu priodol. Cwblhawyd dogfennaeth briodol ond gall fod rhai anghywirdebau. Delir â chwyno yn rhannol gan adael materion heb eu datrys.<br><br>**(1-7)** | Deliwyd â chwsmeriaid mewn pedair sefyllfa teithio a thwristiaeth real neu efelychiadol. Mae'r sefyllfaoedd y deliwyd â nhw yn gymhleth ar y cyfan. Deliwyd â rhai mathau gwahanol o gwsmeriaid mewn mathau gwahanol o sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth. Ym mhob sefyllfa diwallwyd prif anghenion cwsmeriaid yn effeithiol. Mewn rhai sefyllfaoedd diwallwyd anghenion atodol. Dangoswyd sgiliau cyfathrebu priodol ac mewn ambell sefyllfa mae ymdriniaeth gwsmer-ganolog yn amlwg. Mae dogfennaeth briodol wedi'i chwblhau yn gywir ar gyfer pob sefyllfa. Delir â chwyno yn effeithiol ond gall fod rhai materion heb eu datrys.<br><br>**(8-12)** | Deliwyd â chwsmeriaid mewn pedair sefyllfa teithio a thwristiaeth real neu efelychiadol. Mae'r sefyllfaoedd y deliwyd â hwy yn gymhleth. Deliwyd ag amrediad o fathau gwahanol o gwsmeriaid mewn mathau gwahanol o sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth trwy adnabod a chwrdd â'u holl anghenion yn effeithiol. Dangosir lefelau uchel o sgiliau cyfathrebu llafar ac mae ymdriniaeth gwsmer-ganolog i'r sefyllfaoedd yn amlwg ym mhob sefyllfa. Mae dogfennaeth briodol wedi'i chwblhau yn gywir ar gyfer pob sefyllfa. Delir â'r gwyn yn llawn gan ddangos sensitifrwydd tuag at y cwsmer.<br><br>**(13-15)** | **15** |

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **c** **(AA3)** | Cynigir dull ar gyfer gwerthuso gwasanaeth cwsmer. Cynhyrchir peth dogfennaeth ond mae'n brin o fanylder. Defnyddir rhai meini prawf ansawdd ond gall rhai fod yn amherthnasol. Rhoir eglurhad o pam fod y fethodoleg yn addas ar gyfer y corff a ddetholwyd ond mae hwn yn ddisgrifiadol yn bennaf ac mae ynddo rai bylchau. **(1-7)** | Cynigir dull addas ar gyfer gwerthuso gwasanaeth cwsmer. Cynhyrchir dogfennaeth briodol ar gyfer y dull a ddewiswyd i gasglu data. Defnyddir meini prawf priodol. Rhoir eglurhad o pam fod y fethodoleg yn addas ar gyfer y corff a ddetholwyd, gyda pheth ymresymu clir. **(8-12)** | Cynigir dull addas ar gyfer gwerthuso gwasanaeth cwsmer. Cynhyrchir dogfennaeth briodol a manwl ar gyfer y dull a ddewiswyd a fydd yn cynorthwyo i gasglu a dadansoddi data. Defnyddir meini prawf ansawdd priodol. Rhoir eglurhad cynhwysfawr o pam fod y fethodoleg yn addas ar gyfer y corff a ddetholwyd gyda'r ymresymu wedi'i gyflwyno'n glir. **(13-15)** | **15** |
| **ch** **(AA4)** | Gwerthusiad o wasanaeth cwsmer mewn corff teithio a thwristiaeth yn ymdrin â meini prawf ansawdd cyfyngedig ac sy'n brin o fanylion neu ddyfarniadau. Mae casgliadau a wneir yn syml a goddrychol. Gwneir rhai argymhellion am welliant. **(1-6)** | Gwerthusiad o wasanaeth cwsmer mewn corff teithio a thwristiaeth yn ymdrin ag amrediad o feini prawf ansawdd priodol â pheth dyfnder. Mae peth ymresymu yn y casgliadau a wnaed, gyda rhywfaint o gyswllt â safonau meincnodi, ac mae rhai wedi'u profi. Gwneir argymhellion am welliant ac maent ar y cyfan yn addas yn seiliedig ar gasgliadau a wnaethpwyd. Gwneir peth ymdrech i gyfiawnhau canlyniadau. **(7-9)** | Gwerthusiad cynhwysfawr o wasanaeth cwsmer mewn corff teithio a thwristiaeth yn ymdrin ag amrediad eang o feini prawf ansawdd priodol mewn dyfnder. Mae'r casgliadau a wnaed yn rhesymegol, wedi'u cysylltu â safonau meincnodi ac wedi'u gwirio. Gwneir argymhellion am welliant ac maent wedi'u seilio ar ganfyddiadau'r gwerthusiad. Cyfiawnheir y rhain. **(10-12)** | **12** |
| | | | **Cyfanswm marciau** | **60** |

(Am ddisgrifiad o'r Amcanion Asesu gweler tudalen 3.)

## Canllawiau asesu

### Band Marciau 1

Bydd tystiolaeth dysgwyr yn tueddu i fod yn brin o fanylder, yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ffocws cwsmer ond mewn modd sy'n ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol. Bydd peth tystiolaeth fod y dysgwr yn gallu arddangos sgiliau gwasanaeth cwsmer a chwrdd ag anghenion cwsmer. Ar gyfer tasg (b) bydd yn rhaid i ddysgwyr drafod cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth real neu efelychiadol. Rhaid i'r sefyllfaoedd fod yn amlwg gysylltiedig â theithio a thwristiaeth. Gallai sefyllfaoedd real fod trwy gyfrwng profiad gwaith neu waith rhan-amser. Bydd angen disgrifio manylion y sefyllfa i gadarnhau cymhlethdod y sefyllfa, natur y sefyllfa a'r math o gwsmer a drafodwyd.

Bydd angen cynhyrchu tystiolaeth oddi wrth dystion ar ffurf datganiad tyst sy wedi'i ddilysu gan yr aseswr trwy drafodaethau gyda'r tyst neu'r dysgwr. Dylai'r rhain gael eu hategu gan y ddogfennaeth a gwblheir gan y dysgwr. Dylid bod digon o dystiolaeth i gefnogi'r marc a ddyfernir. Cynghorir canolfannau i beidio â dibynnu'n llwyr ar sefyllfaoedd real gan y gallant ddarparu cyfleoedd cyfyngedig i ddysgwyr i gwrdd â gofynion y bandiau marciau uwch. Lle defnyddir sefyllfaoedd efelychiadol, dylid cyflwyno gosodiad arsylwi fel tystiolaeth ar gyfer pob sefyllfa. Dylai hwn ddisgrifio'r sefyllfa i gadarnhau cymhlethdod y sefyllfa, natur y sefyllfa a'r math o gwsmer a drafodwyd. Dylid bod disgrifiad manwl o safon perfformiad y dysgwr wrth iddo gwrdd ag anghenion y cwsmer. Dylai aseswr arwyddo a dyddio datganiadau tystion a gosodiadau arsylwi.

Gellir datblygu senarios ar gyfer sefyllfaoedd efelychiadol sy'n cwrdd â dyheadau gyrfa dysgwyr unigol a photensial eu cyflawniad. Gall dysgwyr ddelio â phedair sefyllfa fel asiant teithio neu bedair fel cynrychiolydd tramor neu bedair fel criw caban a.y.y.b. Neu, gall yr holl ddysgwyr mewn carfan weithio gyda'r un senarios sy'n ymdrin ag amrediad o sectorau teithio a thwristiaeth wahanol. Gall yr aseswr gynllunio senarios addas ar gyfer band marciau penodol neu sicrhau bod digon o gymhlethdod, ystod o gwsmeriaid ac amrediad o sefyllfaoedd i gefnogi dysgwyr sy'n ceisio mynediad i fandiau marciau uwch lle bo ganddynt y potensial i wneud hynny ym mhob senario. Darperir manylion pellach o ddatganiadau tystion, gosodiadau arsylwi a senarios yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân.

(a) Disgwylir i'r dysgwr ffocysu ar sector o'r diwydiant megis trefnwyr teithiau, gweithredwyr teithiau, cwmnïau hedfan ac ati ond yn y band marciau yma gallant fod wedi ffocysu ar un corff o fewn y diwydiant. Maent wedi rhoi rhai manylion am anghenion cwsmeriaid y corff neu'r sector hwnnw. Dynodir naill ai'r cwsmeriaid a/neu eu hanghenion ond heb fawr o fanylion, megis cyfeirio at unigolion a grwpiau yn hytrach nag at unigolion o oedrannau gwahanol neu bobl fusnes sy ar lefel rheolwyr neu pwy fydd angen adloniant ar yr awyren. Efallai na wahaniaethir rhwng cwsmeriaid mewnol ac allanol. Mae'r rhain yn berthnasol i’r corff neu i sector o'r diwydiant.

Mae eglurhad elfennol o sut mae cyrff yn y sector hwnnw yn ceisio cwrdd â'r anghenion hynny ond mae'r ymresymu yn gyfyng gan fod y gwaith yn ddisgrifiadol yn bennaf, megis bod 12 sianel adloniant ar yr awyren gan gynnwys ffilmiau, cerddoriaeth a rhaglenni dogfen. Efallai yr ysgrifennir ynglŷn â sut mae anghenion yn cael eu diwallu mewn termau cyffredinol yn hytrach na'u cysylltu ag enghreifftiau penodol o gyrff yn y sector hwnnw.

(b) Mae'r dysgwr wedi trafod cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth real neu efelychiadol. Dim ond sefyllfaoedd cysylltiedig â theithio a thwristiaeth y gellir eu hystyried. Rhaid i un o'r sefyllfaoedd fod yn gwyn. Rhaid i'r lleill fod mewn mathau gwahanol o sefyllfaoedd e.e darparu gwybodaeth, rhoi cyngor a.y.y.b. Bydd o leiaf dwy sefyllfa y delir â nhw yn effeithiol trwy i brif anghenion cwsmeriaid gael eu diwallu. Gall hyn fod oherwydd mai dim ond dwy sefyllfa mae'r dysgwyr wedi delio â nhw neu, oherwydd mai dim ond â dwy o'r sefyllfaoedd y deliwyd yn effeithiol. Mae'r sefyllfaoedd yn syml ar y cyfan e.e bydd cwpl yn galw yn eich asiantaeth eisiau gwyliau yn Benidorm am wythnos o Orffennaf 7 gan adael o faes awyr Gatwick Llundain a chan aros mewn gwesty tair seren. Rhaid delio ag o leiaf un sefyllfa wyneb yn wyneb. Bydd sgiliau cyfathrebu llafar priodol wedi cael eu harddangos.

Bydd y dysgwr wedi dangos rhai sgiliau gwrando a bydd wedi siarad yn glir mewn traw, arddull a thôn addas. Mae rhywfaint o ddogfennaeth briodol wedi'i chwblhau ond gall fod rhai anghywirdebau. Ni fydd y rhain yn arwyddocaol. Delir â chwyn yn rhannol gan adael materion heb eu datrys. Gall hyn fod oherwydd i'r gwyn gael ei chyfeirio at uwch-swyddog neu na nodwyd rhai agweddau o'r gwyn. Gellir trafod y gwyn mewn ysgrifen. Disgwylir i'r dysgwyr ddangos sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol.

(c) Cynigir dull ymchwilio i'w ddefnyddio wrth werthuso gwasanaeth cwsmer o fewn corff. Bydd y dull yn addas. Caiff peth dogfennaeth ei chynhyrchu ond mae'n brin o fanylder megis rhestr wirio syml. Dynodir rhai meini prawf ansawdd fel meysydd ymchwil ond mae ambell beth amherthnasol gan nad yw rhai ohonynt yn addas ar gyfer y corff. Mae eglurhad sylfaenol o'r fethodoleg ond mae hwn yn gyfyngedig o safbwynt rhesymeg ac ymdriniaeth h.y. gall ei fod yn cyfeirio at feini prawf ansawdd neu ddull cofnodi yn unig. Bydd yn ddisgrifiadol yn bennaf.

(ch) Mae'r dysgwr wedi ceisio gwerthuso gwasanaeth cwsmer mewn corff teithio a thwristiaeth ond mae'n elfennol gan ei fod yn ymdrin â meini prawf ansawdd cyfyngedig neu am nad ydynt yn glir. Mae'n brin o fanylder gyda'r dysgwr yn ymdrin yn arwynebol â ffocws cwsmer y sefydliad. Mae'r dyfarniadau a wneir yn simplistaidd a'r casgliadau yn syml heb fawr neu ddim rhesymeg. Gall dyfarniadau fod yn oddrychol yn bennaf. Gwneir rhai argymhellion am welliant ond mae'r rhain yn tueddu i fod yn brin o fanylion ac nid ydynt bob amser yn berthnasol i wella ffocws cwsmer.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 2**

Bydd dysgwyr yn tueddu i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd â gofynion y dasg gyda pheth manylder a pheth eglurder. Byddant yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn trwy'r gallu i gymhwyso peth o hynny mewn sefyllfaoedd galwedigaethol. Byddant yn dangos fod ganddynt rai sgiliau i ddarparu ffocws cwsmer mewn sefyllfaoedd real neu efelychiadol. Ar gyfer tasg (b) bydd yn rhaid i ddysgwyr drafod cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth real neu efelychiadol. Rhaid i'r sefyllfaoedd fod yn amlwg ynghlwm wrth deithio a thwristiaeth. Gallai sefyllfaoedd real fod trwy gyfrwng profiad gwaith neu waith rhan-amser. Bydd angen disgrifio manylion y sefyllfa i gadarnhau cymhlethdod y sefyllfa, natur y sefyllfa a'r math o gwsmer a drafodwyd.

Bydd angen cynhyrchu tystiolaeth oddi wrth dystion ar ffurf datganiad tyst sy wedi'i ddilysu gan yr aseswr trwy drafodaethau gyda'r tyst neu'r dysgwr. Dylid cefnogi'r rhain gan y ddogfennaeth a gwblhawyd gan y dysgwr. Dylid bod digon o dystiolaeth i gefnogi'r marc a ddyfarnwyd. Cynghorir canolfannau i beidio â dibynnu'n llwyr ar sefyllfaoedd real gan y gallant roi cyfleoedd cyfyngedig i ddysgwyr gwrdd â gofynion y bandiau marciau uwch. Lle defnyddir sefyllfaoedd efelychiadol, dylid cyflwyno gosodiad arsylwi fel tystiolaeth ar gyfer pob sefyllfa. Dylai'r rhain ddisgrifio'r sefyllfa i gadarnhau'i chymhlethdod, natur y sefyllfa a'r math o gwsmer a drafodwyd. Dylid bod disgrifiad manwl o safon perfformiad y dysgwr yn cwrdd ag anghenion cwsmer. Dylai aseswr arwyddo a dyddio datganiadau tyst a gosodiadau arsylwi.

Gellir datblygu senarios ar gyfer sefyllfaoedd efelychiadol sy'n cwrdd â dyheadau gyrfa'r dysgwyr unigol a'u cyflawniad posibl. Gall dysgwyr ddelio â phedair sefyllfa fel asiant teithio neu bedair fel cynrychiolydd tramor neu bedair fel criw caban ac ati. Neu, gall yr holl ddysgwyr mewn carfan weithio gyda'r un senarios sy'n ymdrin ag amrediad o sectorau teithio a thwristiaeth wahanol. Gall yr aseswr gynllunio senarios addas ar gyfer band marciau penodol neu sicrhau bod digon o gymhlethdod, amrediad o gwsmeriaid ac ystod o sefyllfaoedd i gefnogi dysgwyr i gael mynediad i'r bandiau marciau uwch lle bo ganddynt y potensial i wneud hynny, ym mhob senario. Darperir manylion pellach o ddatganiadau tystion, gosodiadau arsylwi a senarios yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân.

(a) Bydd y dysgwr wedi dethol sector o'r diwydiant megis trefnwyr teithiau, gweithredwyr teithiau, cwmnïau hedfan a.y.y.b. Maent wedi rhoi disgrifiad o fanylion anghenion cwsmeriaid o'r sector hwnnw. Cyfeirir at gwsmeriaid mewnol ac allanol. Maen nhw a'u hanghenion yn perthnasu'n glir i'r sector. Mae peth manylder yn y disgrifiadau yn nhermau'r math o gwsmer a'u hanghenion. Bydd hyn yn cynnwys anghenion cynnyrch a gwasanaeth. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno yn glir i wahaniaethu rhwng anghenion mathau gwahanol o gwsmeriaid. Bydd rhai o'r disgrifiadau o gwsmeriaid a'u hanghenion yn cael eu henghreifftio a byddant yn perthnasu i gyrff gwahanol o fewn y sector.

Mae disgrifiad o sut mae cyrff yn y sector hwnnw yn ceisio cwrdd â'r anghenion hynny. Bydd hwn yn cynnwys peth rhesymu clir yn cysylltu anghenion â chyflenwad. Rhoir enghreifftiau penodol o sut mae cyrff yn y sector yn cwrdd ag anghenion mathau gwahanol o gwsmeriaid a defnyddir rhai o'r rhain i gefnogi'u rhesymu.

(b) Mae'r dysgwr wedi trafod cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth real neu efelychiadol. Dim ond sefyllfaoedd perthynol i deithio a thwristiaeth y gellir eu hystyried. Rhaid i un o'r sefyllfaoedd fod yn gwyn. Rhaid i'r lleill fod mewn mathau gwahanol o sefyllfaoedd e.e darparu gwybodaeth, rhoi cyngor, datrys problem a.y.y.b. Dylid bod gwahanol fathau o gwsmeriaid . Bydd pedair sefyllfa y delir â nhw yn effeithiol trwy i anghenion cwsmeriaid gael eu hadnabod a'u diwallu gan y dysgwr. Mae'r dysgwr wedi dangos ymagwedd cwsmer-ganolog, mewn rhai achosion mae wedi mynd tu hwnt i'r safonau isaf i gwrdd ag anghenion atodol y cwsmeriaid. Mae un neu ddwy o'r sefyllfaoedd y deliwyd â nhw yn fwy cymhleth ac afreolaidd e.e mae teulu eisiau gwyliau na allant gael hyd iddo yn y pamffled. Mae'n wyliau dwy-ganolfan. Maen nhw'n hyblyg ar ddyddiadau ymadael ac mae ganddynt gyllideb gyfyngedig. Mae ganddynt ofynion penodol yn ystod eu harhosiad. Delir ag o leiaf dair sefyllfa wyneb yn wyneb.

Dangoswyd sgiliau cyfathrebu llafar priodol. Bydd y dysgwr wedi arddangos sgiliau gwrando gan ymateb ac addasu i ymatebion cwsmer. Byddant wedi siarad yn glir mewn traw, arddull a thôn briodol. Mae dogfennaeth briodol wedi'i chwblhau yn gywir. Delir â chwyn yn effeithiol gan fod y cwsmer wedi'i fodloni ar y cyfan er bod rhai materion efallai heb eu datrys. Gellir delio â'r gwyn mewn ysgrifen. Disgwylir i ddysgwyr arddangos sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol gyda'r llythyr ymateb yn defnyddio confensiynau busnes safonol a sillafu a gramadeg priodol.

(c) Cynigir dull ymchwilio i'w ddefnyddio wrth werthuso gwasanaeth cwsmer mewn corff. Bydd y dull yn addas. Cynhyrchir dogfennaeth i gasglu data sydd yn fanwl parthed meini prawf ansawdd i'w mesur, agweddau penodol o feini prawf ansawdd a safonau meincnodi. Gall hyn fod yn gyfyng mewn rhai agweddau. Dynodir meini prawf ansawdd priodol fel meysydd ar gyfer ymchwil. Ceir eglurhad o'r fethodoleg i'w defnyddio sy'n cynnwys peth rhesymu clir. Gall peth o'r rhesymu fod yn gyfyngedig parthed y fethodoleg a ddefnyddiwyd e.e gall na fydd yn cynnwys rhesymu am yr holl feini prawf ansawdd a ddewiswyd neu gall y rhesymu fod yn gyfyngedig o ran dewis dull.

(ch) Mae'r dysgwr wedi cynhyrchu gwerthusiad o wasanaeth cwsmer mewn corff teithio a thwristiaeth. Mae peth manylder yn hwn ac mae'n ymdrin ag amrediad o feini prawf ansawdd sy'n addas i'r corff . Cyflwynir y rhan fwyaf o'r meini prawf hyn yn eglur ac mae peth dyfnder yn hytrach nag ymdriniaeth arwynebol i'r gwerthusiadau. Mae rhesymu yn y dyfarniadau a'r casgliadau a wnaed. Profir rhai naill ai trwy ddata a gyflenwyd gan y corff neu trwy arolygon cwsmeriaid, staff a.y.y.b. Gwneir rhai argymhellion am welliant sy'n cael eu cefnogi gan y casgliadau a'r dyfarniadau yn y gwerthusiad. Gwneir peth ymdrech i gyfiawnhau casgliadau.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 3**

Bydd dysgwyr yn cyflwyno tystiolaeth sy'n amlwg yn cwrdd â gofynion y dasg yn fanwl a chydag eglurder. Bydd y gwaith yn amlwg yn ddadansoddol ac arfarnol. Bydd dysgwyr yn arddangos lefel uchel o sgiliau gwasanaeth cwsmer. Ar gyfer tasg (b) bydd yn rhaid i ddysgwyr drafod cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth real neu efelychiadol. Rhaid i'r sefyllfaoedd fod yn amlwg gysylltiedig â theithio a thwristiaeth. Gallai sefyllfaoedd real fod trwy gyfrwng profiad gwaith neu waith rhan-amser. Bydd angen disgrifio manylion y sefyllfa i gadarnhau cymhlethdod a natur y sefyllfa a'r math o gwsmer a drafodwyd.

Bydd angen cynhyrchu tystiolaeth oddi wrth dystion ar ffurf datganiad tyst sy wedi'i ddilysu gan yr aseswr trwy drafodaethau gyda'r tyst neu'r dysgwr. Dylai'r rhain gael eu cefnogi gan y ddogfennaeth a gwblhawyd gan y dysgwr. Dylid bod digon o dystiolaeth i gefnogi'r marc a ddyfarnwyd. Cynghorir canolfannau i beidio â dibynnu'n llwyr ar sefyllfaoedd real gan y gallant roi cyfleoedd cyfyngedig i'r dysgwyr i gwrdd â gofynion y bandiau marciau uwch. Lle defnyddir sefyllfaoedd efelychiadol, dylid cyflwyno gosodiad arsylwi fel tystiolaeth ar gyfer pob sefyllfa. Dylai'r rhain ddisgrifio'r sefyllfa i gadarnhau'i chymhlethdod, ei natur a'r math o gwsmer a drafodwyd. Dylid bod disgrifiad manwl o safon perfformiad y dysgwr yn cwrdd ag anghenion cwsmer. Dylai aseswr arwyddo a dyddio datganiadau tystion a gosodiadau arsylwi.

Gellir datblygu senarios ar gyfer sefyllfaoedd efelychiadol sy'n cwrdd â dyheadau gyrfa'r dysgwyr unigol a'u cyflawniad posibl. Gall dysgwyr ddelio â phedair sefyllfa fel asiant teithio neu bedair fel cynrychiolydd tramor neu bedair fel criw caban ac ati. Neu, gall yr holl ddysgwyr mewn carfan weithio gyda'r un senarios sy'n ymdrin ag amrediad o sectorau teithio a thwristiaeth wahanol. Gall yr aseswr gynllunio senarios addas ar gyfer band marciau penodol neu sicrhau bod digon o gymhlethdod, amrediad o gwsmeriaid ac ystod o sefyllfaoedd i gefnogi dysgwyr i gael mynediad i'r bandiau marciau uwch lle bo ganddynt y potensial i wneud hynny ym mhob senario. Darperir manylion pellach o ddatganiadau tystion, gosodiadau arsylwi a senarios yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân.

(a) Mae'r dysgwr yn rhoi disgrifiad manwl o anghenion cwsmeriaid o sector detholedig o'r diwydiant teithio a thwristiaeth e.e trefnwyr teithiau, gweithredwyr teithiau, cwmnïau hedfan. Gwahaniaethir rhwng cwsmeriaid mewnol ac allanol. Maen nhw a'u hanghenion yn amlwg yn perthnasu i'r sector. Mae'r disgrifiadau yn fanwl parthed y mathau o gwsmeriaid a'u hanghenion cynnyrch a gwasanaeth. Caiff y rhain eu henghreifftio gydag enghreifftiau penodol o'r sector. Cyflwynir y rhain yn eglur i wahaniaethu rhwng anghenion gwahanol fathau o gwsmeriaid.

Mae eglurhad clir a thrylwyr o sut mae cyrff yn y sector hwnnw yn ceisio cwrdd ag anghenion cwsmeriaid fel y'u nodwyd yn y disgrifiad. Bydd hwn yn cynnwys rhesymu clir yn cysylltu anghenion â chyflenwad. Defnyddir enghreifftiau penodol o gyrff yn y sector a sut y maen nhw yn cwrdd ag anghenion mathau gwahanol o gwsmeriaid i gefnogi'u rhesymu.

(b) Mae'r dysgwr wedi trafod cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth real ac efelychiadol. Dim ond sefyllfaoedd cysylltiedig â theithio a thwristiaeth y gellir eu hystyried. Rhaid i un o'r sefyllfaoedd fod yn gwyn. Rhaid i'r lleill fod mewn mathau gwahanol o sefyllfaoedd e.e darparu gwybodaeth, rhoi cyngor, datrys problem ac ati. Dylid bod gwahanol fathau o gwsmeriaid ym mhob sefyllfa. Ceir pedair sefyllfa y delir â hwy'n effeithiol o safbwynt bod anghenion cwsmeriaid yn cael eu hadnabod a'u cwrdd gan y dysgwr. Mae'r dysgwr wedi dangos ymagwedd cwsmer-ganolog, gan fynd tu hwnt i'r safonau isaf i gwrdd ag anghenion atodol y cwsmeriaid ym mhob sefyllfa. Mae sefyllfaoedd yn gymhleth gan eu bod yn afreolaidd ac yn cynnwys mwy na gofynion syml e.e mae teulu eisiau mynd ar wyliau na allant gael hyd iddo yn y pamffled. Mae'n wyliau dwy-ganolfan. Maen nhw'n hyblyg ar ddyddiadau ymadael ac mae ganddynt gyllideb gyfyngedig. Mae ganddynt ofynion penodol yn ystod eu harhosiad. Delir ag o leia dair sefyllfa wyneb yn wyneb. Mae sgiliau cyfathrebu llafar priodol wedi cael eu harddangos. Bydd y dysgwr wedi dangos sgiliau gwrando, gan ymateb ac addasu'u cyfathrebiad i ymatebion y cwsmer. Byddant wedi siarad yn eglur mewn traw, arddull a thôn briodol, gan ymateb i unrhyw broblemau a all fod gan y cwsmeriaid e.e gwahaniaethau iaith, brys, cyfathrebu â phawb yn y grŵp. Mae'r ddogfennaeth briodol wedi'i chwblhau'n gywir. Delir â chwyn yn llawn ac yn effeithiol gan fod y cwsmer wedi'i fodloni yn gyffredinol ac mae'r dysgwr wedi dangos sensitifrwydd yn y modd y trafodwyd y gwyn. Gellir delio â'r gwyn yn ysgrifenedig. Disgwylir i ddysgwyr arddangos sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol gyda'r llythyr ateb yn defnyddio confensiynau busnes safonol a sillafu a gramadeg priodol. Byddant wedi ymateb hefyd trwy ddangos dealltwriaeth o sut y byddai'r diwydiant yn ymateb mewn sefyllfaoedd cyffelyb e.e trwy lefel yr iawndal a gynigid os yn addas.

(c) Cynigir dull ymchwilio i'w ddefnyddio wrth werthuso gwasanaeth cwsmer o fewn corff. Bydd y dull yn addas. Cynhyrchir dogfennaeth i gasglu data sy'n fanwl parthed meini prawf ansawdd i'w mesur, agweddau penodol o feini prawf ansawdd a safonau meincnodi. Mae'r ddogfennaeth wedi'i chynllunio hefyd i gefnogi dadansoddiad o ddata e.e hawdd ei drosglwyddo i daenlen neu gronfa ddata. Caiff meini prawf ansawdd eu hadnabod fel meysydd ymchwil. Ceir eglurhad cynhwysfawr o'r fethodoleg i'w defnyddio gyda rhesymu clir pam fod holl agweddau'r fethodoleg yn addas ar gyfer y sefydliad detholedig.

(ch) Mae'r dysgwr wedi cynhyrchu gwerthusiad manwl o wasanaeth cwsmer mewn corff teithio a thwristiaeth. Mae hwn yn ymdrin ag amrediad eang o feini prawf ansawdd sy'n addas i'r corff . Cyflwynir y meini prawf hyn yn glir ac mae dyfnder yn hytrach nag ymdriniaeth arwynebol yn y gwerthusiadau. Gwneir dyfarniadau a chasgliadau yn erbyn safonau meincnodi ac fe'u profir naill ai trwy ddata a gyflenwyd gan y corff neu trwy arolygon cwsmeriaid, staff a.y.y.b. Gwneir argymhellion ar gyfer gwelliant sy'n cael eu cefnogi gan y casgliadau a'r dyfarniadau yn y gwerthusiad ac mae'r dysgwr wedi cyfiawnhau'u cynnwys. Maent yn perthnasu'n glir i sut y gellir gwella gwasanaeth cwsmer yn y corff detholedig.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

## Cyflwyno'r Uned hon

**Ymchwil**

Mae cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu amrediad o sgiliau ymchwilio drwy'r uned hon. Gellid ymchwilio cyrff mewn sectorau gwahanol o'r diwydiant trwy archwilio'r wasg deithio, megis *Travel Trade Gazette* a *Travel Weekly* yn rheolaidd. Bydd hyn hefyd yn gwneud dysgwyr yn gyfarwydd â gweithgareddau cyfredol yn y diwydiant a gallant roi diweddariadau rheolaidd i eraill yn y grŵp. Gellir caffael yr wybodaeth hon hefyd trwy arsylwi yn ystod profiad gwaith neu trwy arolygon o gwsmeriaid cyrff neu fathau o gyrff; er enghraifft efallai bod digon o bobl o fewn ysgol neu goleg yn defnyddio trefnwyr teithiau, gweithredwyr teithiau ac ati y gellid eu cynnwys mewn sampl i benderfynu ar anghenion a sut y cânt eu cwrdd. Datblygir sgiliau ymchwil hefyd wrth baratoi i werthuso ffocws cwsmer corff. Efallai y cânt gyfle i sicrhau data trwy gysylltiad uniongyrchol â chorff neu trwy archwilio cyfrifon a gwefannau cwmni.

**Siaradwyr Gwadd**

Gall siaradwyr gwadd roi gwybodaeth ar y ffocws cwsmer a ddarperir gan gorff. Gallant roi mewnbwn ar weithgareddau a gwasanaethau a ddarperir gan gyrff a'r mathau o gwsmeriaid sy'n cael mynediad iddynt. Gellid cyflwyno'r dulliau a ddefnyddir i fonitro a chynnal ffocws cwsmer mewn corff gan amlinellu'r ddogfennaeth a ddefnyddir a'r safonau a ddisgwylir fel y gellid cymhwyso hyn wrth baratoi ar gyfer asesiad.

Gellid defnyddio siaradwyr gwadd hefyd i gefnogi datblygu sgiliau gwasanaeth cwsmer. Gallent gyflwyno senarios, dogfennaeth ac adborth ar berfformiad y dysgwyr a fyddai'n gymorth i'w datblygiad.

**Chwaraeon Rôl**

Mae hon yn agwedd allweddol o addysgu a dysgu. Mae prif ffocws chwarae rôl ar ddatblygu'r sgiliau gwasanaeth cwsmer angenrheidiol i gael mynediad i'r dasg asesu. Trwy chwaraeon rôl, gall dysgwyr ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu, yn enwedig holi a gwrando. Gallant ddysgu hefyd i addasu'u hymatebion i anghenion y cwsmer. Bydd hyn yn datblygu'u sgiliau datrys-problem - gofyniad pwysig yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Trwy chwaraeon rôl, gall dysgwyr ddatblygu sgiliau technegol hefyd - er enghraifft, os bydd cyd-destun asiantaeth deithio i'r chwaraeon rôl, byddant yn dysgu dehongli pamffledi, amserlenni ac ati. Trwy chwaraeon rôl, byddant yn datblygu dealltwriaeth fwy eglur o rolau sectorau gwahanol y diwydiant hefyd. Gall chwarae rôl ddatblygu gallu dysgwyr i werthuso'u perfformiad eu hunain ac eraill trwy arsylwi ar ei gilydd a thrwy gwblhau taflenni adborth asesu safonol. Bydd angen sgiliau gwerthuso i gwblhau tasg (ch) a bydd yr ymagwedd hon yn ysgogi dysgwyr i fod yn wrthrychol wrth wneud dyfarniadau.

**Ymweliadau allanol**

Byddai ymweliadau â chyrff teithio a thwristiaeth yn hybu dealltwriaeth dysgwyr o gwsmeriaid y sectorau gwahanol a'u hanghenion trwy arsylwi uniongyrchol. Gall ymweliadau i faes awyr, atyniad a gwesty ac ati fod yn brofiad newydd i lawer a gallai'u galluogi i ddarlunio gweithgareddau. Gellir defnyddio ymweliadau hefyd i werthuso ffocws cwsmer corff. Cyn yr ymweliad, dylid trafod meini prawf ansawdd a phenderfynu ar safonau meincnodi. Gallai dysgwyr gwblhau rhestri gwirio yn ystod yr ymweliad a gellir trafod y rhain ar ôl dychwelyd i sicrhau'u bod yn gyfarwydd â sut y cânt eu defnyddio a sut y gellir tynnu casgliadau o ddata. Byddai hyn yn cynorthwyo paratoi ar gyfer asesiad o'r dasg berthynol. Gellir trefnu ymweliadau allanol i wneud arolygon cwsmer o gyrff teithio a thwristiaeth wahanol hefyd.

Mae ymweliadau preswyl tramor yn rhoi cyd-destun ac amgylchedd lle gall dysgwyr ymarfer a datblygu'u sgiliau cyfathrebu. Byddant yn profi sectorau gwahanol o'r diwydiant y gellid eu gwerthuso yn nhermau'u ffocws cwsmer yn ogystal.

## Cysylltau

**Unedau eraill**

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth* — mae'r uned hon yn adeiladu ar ddealltwriaeth y dysgwyr o sectorau gwahanol y diwydiant teithio a thwristiaeth a'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir.

*Uned 6: Gweithrediadau Cyrchfan* - lle bydd dysgwyr yn defnyddio'r sgiliau gwasanaeth-cwsmer a ddatblygwyd yma ymhellach.

**Diwydiant**

Byddai defnyddio siaradwyr allanol a darpariaeth defnydd o'r diwydiant teithio a thwristiaeth yn helpu dysgwyr i benderfynu ar anghenion cwsmeriaid a'r safonau a ddisgwylir ohonynt pan yn y diwydiant ac yn delio â chwsmeriaid.

Byddai ymweliad preswyl tramor yn rhoi amrediad o amgylcheddau lle gellid datblygu sgiliau gwasanaeth cwsmer.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)**

Gall yr uned hon ddarparu cysylltiadau â'r unedau canlynol o CGCau Gwasanaethau Teithio a Thwristiaeth:

- T4 Cynorthwyo cwsmeriaid cyn ac ar ôl teithio
- T6 Rhoi argraff bositif i gwsmeriaid ohonoch chi'ch hun ac o'ch corff
- T10 Datblygu a chynnal eich effeithiolrwydd
- T14 Adnabod a darparu gwybodaeth a chyngor cysylltiedig â thwristiaeth
- T15 Casglu a chynnal gwybodaeth a data twristiaeth
- T19 Helpu cwsmer i ddewis ac archebu gwasanaethau teithio
- T23 Gwella'r berthynas â'r cwsmer
- T24 Monitro a datrys problemau gwasanaeth cwsmer
- T29 Arwain pobl ar daith dywysedig
- T48 Datrys problemau gwasanaeth cwsmer.

## Adnoddau

**Gwerslyfrau**

Cambridge Training and Development Ltd — *Advanced Travel and Tourism* (Oxford University Press, 2000) ISBN 0198328273

Dale G and Oliver H — *Travel and Tourism for Advanced GNVQ* (Hodder Arnold H&S, 2000) ISBN 0340781998

Holloway J C — *Business of Tourism, Fifth Edition* (Longman Press, 1998) ISBN 0582328810

Outhart T et al — *Travel and Tourism for Vocational A-Level Teacher Support Pack* (Collins Educational, 2001) ISBN 0007113854

Prosser R — *Leisure, Recreation and Tourism* (Collins Educational, 2000) ISBN 0003266508

Yale P — *The Business of Tour Operations* (Longman, 1995) ISBN 0582277973

Youell R — *Vocational A-level Travel and Tourism* (Longman, 2000) ISBN 0582404452

**Fideos**

*Inside a Travel Business* — TV Choice, 2001

*I Am a Visitor* — English Heritage, 2000

*The Holidaymaker* — Sianel 4

**Amlgyfrwng**

*Airline*

*Airport*

BBC Learning Zone — rhaglenni teithio a thwristiaeth

*The Holiday Programme*

*Wish You Were Here*

**Darllen arall**

*Insights* — English Tourism Council

*Leisure Management* and *Leisure Opportunities*

*Travel Trade Gazette* — CNP Information Ltd

*Travel Weekly*

# Uned 3: Cyrchnod Ewrop

## Uned ddewisol UG (Dyfarniad Sengl)
## UG Uned Orfodol (Dyfarniad Dwbl)

## Asesiad mewnol

## Cyflwyniad

Yn yr uned hon byddwch yn edrych ar gyrchnodau yn Ewrop y mae teithwyr hamdden a busnes yn ymweld â nhw. Byddwch yn edrych ble maen nhw wedi'u lleoli, y nodweddion sy'n eu gwneud yn boblogaidd ac yn apelgar a'r llwybrau cludiant sy'n cysylltu'r cyrchnod â'r teithiwr. Byddwch yn cael cyfle i ddysgu am amrediad o gyrchnodau yn Ewrop, mewn peth manylder.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth*

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 3.1 Lleoliad a mathau o gyrchnodau twristiaeth

Byddwch yn dysgu categoreiddio cyrchnodau yn Ewrop a lleoli enghreifftiau o bob categori ar fap. Y mathau gwahanol y bydd angen i chi ddysgu amdanyn nhw yw:

- ardaloedd arfordirol
- dinasoedd a threfi twristaidd
- cyrchnodau busnes a chynhadledd
- ardaloedd cefn gwlad
- cyrchnodau treftadaeth a diwylliannol
- wedi eu codi’n bwrpasol - wedi'u hadeiladu yn benodol i gwrdd ag anghenion twristiaid.

Byddwch yn dysgu nad yw pob cyrchnod yn hawdd ei gategoreiddio. Byddwch yn dysgu defnyddio enghreifftiau i egluro'r nodweddion sy'n gwahaniaethu rhwng pob categori a sut y mae'r rhain yn aml yn gorgyffwrdd.

## 3.2 Nodweddion ac apêl cyrchnodau i fathau gwahanol o dwristiaid

Byddwch yn dysgu am y nodweddion sy'n denu twristiaid i gyrchnodau fel y gallwch adnabod a disgrifio'r nodweddion allweddol sy'n rhoi apêl iddynt. Byddwch yn dysgu gwahaniaethu rhwng y nodweddion hynny sy'n rhoi apêl i gyrchnod a'r rhai hynny sy'n bodoli ond nad ydynt yn berthnasol. Byddwch yn dysgu ble i gael hyd i wybodaeth am nodweddion cyrchnodau ac yn defnyddio'r ffynonellau hyn i ymchwilio i amrediad o gyrchnodau a'u nodweddion. Ymhlith y nodweddion y dylech eu hystyried mae:

- yr hinsawdd
- y tirlun
- cysylltiadau cludiant a chyfathrebu
- llety
- y cyfleusterau a ddarperir ar gyfer gweithgareddau, busnes, cyffredinol
- atyniadau naturiol ac wedi'u hadeiladu
- digwyddiadau ac adloniant
- cost ymweld a byw
- diwylliant lleol gan gynnwys bwyd a diod.

Mae gan fathau gwahanol o dwristiaid anghenion a disgwyliadau gwahanol o gyrchnodau a byddwch yn dysgu am yr anghenion hyn. Bydd eich tiwtor yn rhoi ysgrifau portread o dwristiaid i chi. Astudiaethau achos yw'r rhain sy'n rhoi manylion am gwsmeriaid a'u hanghenion, eu dyheadau a'u diddordebau. Byddwch yn dysgu cymhwyso'ch gwybodaeth am nodweddion allweddol sy'n gwneud cyrchnodau yn apelgar trwy argymell cyrchnodau ar gyfer mathau gwahanol o dwristiaid sy'n cwrdd â'u hanghenion a'u hamgylchiadau, fel y'u disgrifir mewn ysgrifau portread. Dylech ddysgu argymell cyrchnodau sy'n cwrdd ag anghenion ac amgylchiadau cymhleth twristiaid, er y byddwch yn debygol ar y dechrau o gymeradwyo cyrchnodau sy'n cwrdd â'u hanghenion mwy syml. Byddwch yn dysgu cyfiawnhau unrhyw argymhellion a wnewch yn ogystal. Mae llawer o fathau gwahanol o dwristiaid fel y gwelir isod:

- teuluoedd
- pobl ifanc
- yr henoed
- cyplau
- ymwelwyr ag anghenion penodol
- ymwelwyr â diddordebau arbennig
- teithwyr busnes.

Byddwch yn dysgu am nifer o gyrchnodau ac yn ffocysu ar un cyrchnod ar gyfer asesiad o'r pwnc hwn.

| | | |
|---|---|---|
| **3.3** | **Dulliau cludiant a'r llwybrau sy ar gael i gyrchnodau teithio Ewropeaidd** | Byddwch yn dysgu am y pyrth cludiant allweddol yn Ewrop fel y gellwch eu lleoli ar fap. Byddwch yn dysgu lleoli llwybrau rheilffyrdd a ffyrdd allweddol sy'n cysylltu ardaloedd sy'n derbyn ac sy'n cynhyrchu twristiaid Ewropeaidd ar fap.<br><br>Byddwch yn dysgu am addasrwydd dulliau gwahanol o gludiant sy ar gael rhwng ardaloedd sy'n derbyn ac sy'n cynhyrchu twristiaid fel y gellwch gymhwyso'ch dealltwriaeth i anghenion ac amgylchiadau mathau gwahanol o dwristiaid. Bydd eich tiwtor yn rhoi'r anghenion a'r amgylchiadau i chi ar ffurf ysgrifau portread. Byddwch yn dysgu ystyried anghenion cymhleth twristiaid, er ar y dechrau byddwch yn dysgu sut i asesu addasrwydd gwahanol fathau o gludiant i gwrdd ag anghenion symlach. Byddwch yn dysgu dadansoddi addasrwydd gwahanol ddulliau cludiant yn nhermau:<br><br>• hyd amser siwrnai yn gyffredinol<br>• cost y siwrnai gyfan<br>• ansawdd a chyfleustra e.e amseroedd ymadael, cysylltiadau trosglwyddo<br>• argaeledd gwasanaethau e.e dosbarth y gwasanaeth, cefnogaeth i anghenion penodol<br>• diogelwch a diogeliad.<br><br>Byddwch yn dysgu am gael mynediad i ystod o gyrchnodau Ewropeaidd gwahanol, gan ymadael o fannau gwahanol yn Ewrop. Ar gyfer asesiad, byddwch yn ffocysu ar fynediad i un cyrchnod. |
| **3.4** | **Ffactorau sy'n effeithio ar boblogrwydd ac apêl cyrchnodau teithio Ewropeaidd** | Byddwch yn dysgu am y ffactorau sy wedi effeithio ar boblogrwydd ac apêl cyrchnodau twristiaid i ennill dealltwriaeth o pam mae rhai cyrchnodau â nodweddion cyffelyb yn fwy poblogaidd nag eraill. Mae'r cyrchnod yn gallu rheoli rhai ffactorau ond nid eraill. Byddwch yn dysgu ymchwilio cyrchnodau yn Ewrop i werthuso sut y maen nhw wedi rheoli ffactorau i uchafu'u hapêl a'u poblogrwydd. Mae'r ffactorau yn cynnwys:<br><br>• hygyrchedd<br>• delwedd a hyrwyddiad<br>• argaeledd atyniadau a chyfleusterau twristaidd eraill<br>• rheolaeth cyrchnod<br>• cost ymweld<br>• ffactorau gwleidyddol.<br><br>Byddwch yn dysgu defnyddio amrediad o ffynonellau gwahanol o wybodaeth wrth wneud ymchwil ac yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddefnyddiwch yn gyfredol a pherthnasol i'r diwydiant teithio a thwristiaeth heddiw. Byddwch yn ffocysu ar un cyrchnod ar gyfer asesu. Dylai fod yn gyrchnod sy wedi tyfu mewn poblogrwydd yn ystod y 15 mlynedd diwethaf. |

## Tystiolaeth asesu

Gallai tystiolaeth asesu fod ar sawl ffurf wahanol yn unol â'ch hoffterau a'ch cryfderau dysgu. Bydd dysgwyr yn cynnwys mapiau yn eu gwaith, ond gellid cael tystiolaeth ar gyfer llawer o dasgau trwy adroddiadau ysgrifenedig, cynhyrchu defnydd hyrwyddo neu ddatganiadau tyst o gyflwyniadau llafar neu chwaraeon rôl gwasanaeth cwsmer gyda nodiadau ategol.

Bydd gofyn i chi archwilio **tri** chyrchnod yn gyfan ar gyfer yr uned. Ni fyddwch yn archwilio'r tri chyrchnod ar gyfer pob tasg, bydd gan bob ymchwiliad ei ffocws penodol ei hun:

- un cyrchnod ar gyfer tasg (b) yn ffocysu ar nodweddion
- un cyrchnod ar gyfer tasg (c) yn ffocysu ar y ffactorau a oedd wedi effeithio poblogrwydd ac apêl
- un cyrchnod ar gyfer tasg (ch) yn ffocysu ar hygyrchedd.

Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o:

(a) chwe map, un ar gyfer pob math o gyrchnod. Dylai pob map leoli'r cyrchnodau teithio Ewropeaidd priodol sy'n boblogaidd gan dwristiaid y DU ac amlygu'r pyrth perthnsaol a'r llwybrau ffyrdd a rheilffyrdd ar gyfer y cyrchnodau hyn o'r DU

ac

ar gyfer pob un o'r chwe math o gyrchnod, eglurhad o'r nodweddion sy'n eu gwahaniaethu a'r anawsterau wrth gategoreiddio rhai cyrchnodau, gan roi enghreifftiau.

(b) y nodweddion allweddol sy'n gwneud cyrchnodau yn apelgar i fathau gwahanol o dwristiaid. Argymhellion ar gyfer cyrchnod Ewropeaidd sy'n cwrdd ag anghenion twrist y cewch ei anghenion a'i amgylchiadau gan eich tiwtor ar ffurf ysgrif bortread. Gallai'r rhain fod yn gymhleth. Disgrifiad o'r prif nodweddion sy'n gwneud y cyrchnod a argymhellwyd yn apelgar ac eglurhad o sut mae e'n cwrdd ag anghenion y twrist a nodwyd.

(c) ymchwil a wnaethpwyd i gwblhau'r holl dasgau

a

dadansoddiad o'r ffactorau sy wedi arwain at dwf ym mhoblogrwydd ac apêl un cyrchnod teithio Ewropeaidd a sut mae'r cyrchnod wedi rheoli ffactorau i uchafu'u hapêl a'u boblogrwydd

(ch) asesiad o addasrwydd dulliau gwahanol o gludiant i gyrchnod teithio Ewropeaidd ar gyfer math o dwrist. Cewch fanylion y math o dwrist a'i anghenion a'i amgylchiadau ar ffurf ysgrif bortread. Bydd yn cynnwys manylion ynglŷn â'u man ymadael a'u cyrchnod. Gall fod gan y twrist anghenion ac amgylchiadau cymhleth.

## Meini prawf asesu

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **a** **(AA1)** | Cynhyrchir mapiau ar gyfer pob math o gyrchnod sy'n dangos lleoliad cyrchnodau teithio Ewropeaidd addas. Dangosir rhai pyrth a llwybrau ffyrdd a rheilffyrdd ar fapiau yn ogystal. Ychydig o fanylion fydd ar y mapiau ac eithrio'r cyrchnodau a gall fod rhai bylchau neu gamgymeriadau mân yn y lleoliadau.<br><br>Mae'r eglurhad o'r nodweddion sy'n gwahaniaethu rhwng mathau o gyrchnodau yn gyfyngedig, ac yn ddisgrifiadol yn bennaf.<br><br>**(1-9)** | Cynhyrchir mapiau ar gyfer pob math o gyrchnod yn dangos lleoliad cywir cyrchnodau teithio Ewropeaidd allweddol addas. Dangosir yr holl brif byrth o'r DU ar gyfer dulliau gwahanol o gludiant. Dangosir y prif lwybrau rheilffyrdd a ffyrdd o fewn Ewrop yn ogystal. Mae'r mapiau yn eithaf manwl a phrin yw'r bylchau. Gall fod rhai mân anghywirdebau yn y lleoliadau.<br><br>Mae'r eglurhad o'r nodweddion yn perthnasu i bob math o gyrchnod ac mae peth manylder ynddo. Mae eglurhad o sut y defnyddir y rhain i gategoreiddio cyrchnodau. Mae eglurhad hefyd o anawsterau categoreiddio cyrchnodau.<br><br>**(10-14)** | Cynhyrchir mapiau manwl ar gyfer pob math o gyrchnod gan ddangos lleoliad cywir cyrchnodau teithio Ewropeaidd allweddol addas a rhai cyrchnodau ychwanegol sy'n dechrau tyfu mewn poblogrwydd. Dangosir pob prif borth a rhai llai pwysig o'r DU. Lleolir y prif lwybrau rheilffyrdd a ffyrdd o fewn Ewrop. Does dim bylchau o bwys ar y mapiau ac mae pob lleoliad yn gywir.<br><br>Mae'r eglurhad o'r nodweddion yn glir a manwl ac yn perthnasu i bob math o gyrchnod. Mae eglurhad clir a manwl o sut y defnyddir y nodweddion hyn i gategoreiddio cyrchnodau gydag enghreifftiau penodol. Mae eglurhad clir a manwl hefyd o anawsterau categoreiddio cyrchnodau gan ddefnyddio enghreifftiau penodol i ddarlunio hyn.<br><br>**(15-18)** | **18** |
| **b** **(AA2)** | Disgrifir nodweddion cyrchnod â pheth manylder. Gall fod prinder dirnadaeth o'r gwahaniaethau rhwng nodweddion sy'n bodoli a rhai sy'n ei wneud yn apelgar. Mae eglurhad o sut mae nodweddion cyrchnod yn cwrdd ag anghenion twrist fel y'u nodir yn yr ysgrif bortread yn gyfyngedig ac yn ddisgrifiadol yn bennaf. Mae'r eglurhad yn cyfeirio at anghenion syml twristiaid.<br><br>**(1-7)** | Disgrifir y nodweddion allweddol sy'n gwneud cyrchnod yn apelgar yn fanwl. Gall fod rhai nodweddion amherthnasol mân. Rhoddir eglurhad o sut mae nodweddion cyrchnod yn cwrdd ag anghenion y twrist fel y'u nodwyd yn yr ysgrif bortread. Mae rhai cysylltiadau clir rhwng y nodweddion sy ar gael yn y cyrchnod ag anghenion y twrist. Mae'r eglurhad yn cyfeirio at rai o anghenion cymhleth y twrist.<br><br>**(8-12)** | Disgrifir y nodweddion allweddol sy'n gwneud y cyrchnod yn apelgar yn fanwl heb unrhyw nodweddion amherthnasol. Rhoddir eglurhad trwyadl o sut mae cyrchnod yn cwrdd yn glir ag anghenion y twrist fel y'u nodir yn yr ysgrif bortread gyda chysylltiadau clir rhwng y nodweddion sy ar gael yn y cyrchnod â holl anghenion cymhleth y twrist.<br><br>**(13-15)** | **15** |

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **c** **(AA3)** | Gwnaed peth ymchwil a cheir tystiolaeth ohoni'n bennaf trwy lyfryddiaeth. Defnyddiwyd ffynonellau y cyfeiriwyd atynt neu a ddarparwyd gan eraill.<br>Ceir peth dadansoddi elfennol o'r ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod teithio Ewropeaidd ond tuedda'r dystiolaeth i fod yn ddisgrifiadol. Gall y cyrchnod a ddewiswyd fod wedi'i hen sefydlu ac felly gall rhai o'r ffactorau a nodwyd fod wedi dyddio. Ceir peth cyfeirio at sut mae'r ffactorau rheoladwy wedi'u huchafu ond nid yw'r rhain wedi'u cyflwyno'n glir ac mae tuedd at ymdriniaeth arwynebol heb fawr ddadansoddi.<br>**(1-7)** | Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol, y cafwyd rhai ohonynt yn annibynnol. Cyfeirnodir rhywfaint o dystiolaeth o ymchwil.<br>Ceir peth dadansoddi o amrywiaeth o ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod teithio Ewropeaidd. Mae'r cyrchnod a ddewiswyd yn un sy wedi dod yn boblogaidd yn ddiweddar ac felly mae'r ffactorau a nodwyd yn gyfredol ar y cyfan er y gall rhai fod yn ddamcaniaethol. Ceir peth dadansoddi hefyd o sut mae'r ffactorau rheoladwy wedi'u huchafu gan y cyrchnod i gynyddu'u poblogrwydd. Ar y cyfan cyflwynir y dadansoddiad yn glir.<br>**(8-12)** | Gwnaed ymchwil yn defnyddio amrediad o ffynonellau gwahanol a gafwyd yn annibynnol. Cyfeirnodir llawer o'r dystiolaeth o ymchwil<br>Mae dadansoddiad o amrediad eang o ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod teithio Ewropeaidd. Mae'r cyrchnod a ddewiswyd yn un sy wedi dod yn boblogaidd yn ddiweddar, a nodir a dadansoddir ffactorau cyfredol a pherthnasol. Ceir dadansoddiad clir a manwl hefyd o sut mae'r cyrchnod wedi uchafu'r ffactorau rheoladwy i gynyddu'u poblogrwydd.<br>**(13-15)** | **15** |
| **ch** **(AA4)** | Ceir peth asesu o addasrwydd dulliau cludiant i gyrchnod teithio Ewropeaidd i dwrist fel y'i nodwyd mewn ysgrif bortread, ond mae'r dystiolaeth yn ddisgrifiadol yn bennaf. Prin yw'r dystiolaeth parthed dulliau amgen o gludiant a'r ffactorau a ystyriwyd. Gall mynediad i'r cyrchnod fod yn syml a chyfeiria'r asesiad at anghenion syml twristiaid.<br>**(1-6)** | Ceir asesiad o addasrwydd dulliau gwahanol o gludiant i gyrchnod teithio Ewropeaidd i dwrist fel y'i nodwyd mewn ysgrif bortread. Ystyrir amrediad o ffactorau a dulliau cludiant. Gall fod peth anhawster cael mynediad i gyrchnod. Cyfeiria'r asesiad at rai o anghenion cymhleth twristiaid.<br>**(7-9)** | Ceir asesiad o addasrwydd dulliau gwahanol o gludiant i gyrchnod teithio Ewropeaidd i dwrist fel y'i nodwyd mewn ysgrif bortread. Ystyrir amrediad o ffactorau a dulliau cludiant. Gall fod peth anhawster cael mynediad i gyrchnod. Cyfeiria'r asesiad at anghenion cymhleth twristiaid.<br>**(10-12)** | **12** |
| | | | **Cyfanswm marciau** | **60** |

(Ar gyfer disgrifiad o'r Amcanion Asesu gweler tudalen 155.)

# Canllawiau asesu

**Band Marciau 1**

Bydd tystiolaeth dysgwyr yn tueddu i fod yn gyfyngedig o ran manylder, gyda bylchau ynddi, ac yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol neu'n dangos rhesymu manwl. Bydd angen i ddysgwyr gael ysgrifau portread ar gyfer tasgau (b) a (ch). Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Darperir enghreifftiau o ysgrifau portread yn y *Canllaw Athrawon* sydd i'w gyhoeddi ar wahân. Gall y rhain fod yr un fath ar gyfer carfan o ddysgwyr neu gellir eu hysgrifennu i dargedu band marciau penodol. Byddai hyn yn cefnogi dysgwyr i gyflawni ar lefel briodol i'w potensial. Os ysgrifennir hwy ar gyfer band marciau penodol, gweler y sylwadau isod ynglŷn â chynnwys.

(a) Ar gyfer y band marciau hwn, fe all nad yw'r dysgwr wedi darparu mapiau ar gyfer pob math o gyrchnod a nodir yn y fanyleb. O'r mapiau hynny a gwblhawyd, efallai yr ystyrir un neu ddau yn anghyflawn er bod y rhan fwyaf o 'r cyrchnodau allweddol yn cael eu dangos ar gyfer pob math o gyrchnod. Y cyrchnodau allweddol yw'r rhai sy'n boblogaidd gan dwristiaid y DU. Bydd peth tystiolaeth o ddirnadaeth gan y bydd cyrchnodau yn briodol i'r categori ac nad yw'r dysgwr ddim ond wedi dangos pob cyrchnod posibl ar gyfer y categori hwnnw. Gall fod rhai anghywirdebau wrth leoli cyrchnodau. Neu, gall fod pob map wedi'i gwblhau ond fod rhai bylchau arwyddocaol, elfennau amherthnasol ac/neu anghywirdebau. Ychydig fanylion fydd ar y mapiau ac eithrio lleoliad y cyrchnodau h.y. ni ddangosir unrhyw gyfeirbwynt ffisegol arall. Dangosir rhai pyrth a llwybrau rheilffyrdd a ffyrdd ar y mapiau. Gall y rhain fod wedi'u hymgorffori i'r mapiau ar gyfer pob math o gyrchnod neu'n cael eu dangos ar wahân. Gall na fydd pyrth a llwybrau ffyrdd a rheilffyrdd bob amser wedi'u labelu yn glir a gallant ffocysu ar un math e.e meysydd awyr yn hytrach nag yn cynnwys porthladdoedd fferi.

Mae tuedd i nodweddion pob math o gyrchnod fod yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn eglurhad o sut y gellir defnyddio'r nodweddion i gategoreiddio cyrchnodau. Mae'n debygol y bydd bylchau yn y mathau o gyrchnodau yr ymdrinnir â nhw. Ni cheir dim neu dim ond ychydig o gyfeirio at anawsterau categoreiddio cyrchnodau na dealltwriaeth o orgyffwrdd.

(b) Bydd dysgwyr yn disgrifio nodweddion cyrchnod Ewropeaidd. Bydd peth manylder yn y disgrifiad naill ai parthed amrediad y nodweddion a ddisgrifir neu yn nhrylwyredd y disgrifiad o'r nodweddion. Mae'n debygol na fydd y dysgwr wedi gwahaniaethu'n glir rhwng y nodweddion hynny sy'n allweddol i apêl y cyrchnod a'r nodweddion hynny sy'n bodoli yno ond nad sy'n cyfrannu at yr apêl. Yn nodweddiadol, byddent wedi ysgrifennu am bob math o nodwedd a nodir yn 'Beth sydd angen i chi ei ddysgu' neu'n syml wedi ysgrifennu disgrifiad cynhwysfawr o'r cyrchnod. Mae'r cyrchnod yn berthnasol i anghenion y twrist ond nid yw'r perthnasedd yn cael ei amlygu'n glir gan y dysgwr. Bydd y dysgwr naill ai wedi derbyn ysgrif bortread o dwrist sydd ag anghenion syml neu wedi methu ystyried yr anghenion cymhleth oedd yn yr ysgrif bortread. Manylion cyfyngedig fydd mewn ysgrif bortread sy'n ffocysu ar anghenion syml e.e bydd yn ymdrin â math, nifer, hyd, anghenion cyffredinol e.e cael hwyl, ymlacio.

(c) Gwnaed peth ymchwil ond mae tuedd iddo fod o un neu ddwy ffynhonnell, efallai dim ond y rhai y cyfeiriwyd atynt gan diwtor/ aseswr, a chyfyngir tystiolaeth ohono efallai i lyfryddiaeth yn unig.

Amlygir y ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod Ewropeaidd detholedig a'u disgrifio yn bennaf gyda pheth dadansoddi elfennol. Gall fod rhywfaint o'r cynnwys wedi dyddio felly nad yw ffactorau yn berthnasol bellach. Mae hyn yn debygol o ddigwydd oherwydd bod y dysgwr wedi dewis cyrchnod sy wedi'i hen sefydlu, fel Benidorm am ei bod yn hawdd cael hyd i wybodaeth amdano. Ceir rhai cyfeiriadau at sut mae'r cyrchnod wedi defnyddio ffactorau i uchafu'i apêl ond mae hyn yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol.

(ch) Mae'r dysgwr wedi cyflwyno manylion am y dulliau cludiant sy ar gael i gyrchnod yn Ewrop. Mae'r manylion yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol ac nid oes llawer o asesiad o'u haddasrwydd ar gyfer y math o dwrist. Ystyrir un neu ddwy ffactor ac mae'r rhain yn fwy uniongyrchol, fel amser neu gost. Bydd yr aseswr yn rhoi ysgrif bortread i'r dysgwr a fydd yn cynnwys manylion o lle bydd y twrist yn ymadael â'u cyrchnod, yn ogystal ag anghenion ac amgylchiadau'r twrist. Bydd hyn ar ffurf ysgrif bortread. Bydd gan yr ysgrif bortread sy'n targedu'r band marciau hwn gyrchnod hygyrch o'r man ymadael a nodwyd e.e Llundain neu Baris. Bydd anghenion ac amgylchiadau'r twrist yn ddigymhlethdod, fel yr angen i fynychu cyfarfod. Os defnyddir ysgrif bortread â chyrchnod nad yw'n hygyrch, yn y band marciau hwn, mae'r dysgwr yn debygol o fod wedi ffocysu ar un neu ddau ddull cludiant yn unig a phrin wedi ystyried y dewisiadau eraill. Lle bo anghenion y twrist yn gymhleth, mae'r dysgwr yn debygol o fod wedi ffocysu ar ei anghenion syml.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 2**

Bydd dysgwyr yn tueddu i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd â gofynion y dasg gyda pheth manylder a pheth eglurder. Byddant yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn trwy'r gallu i gymhwyso peth o hynny mewn sefyllfaoedd galwedigaethol. Byddant yn dangos peth gallu i ymchwilio'n annibynnol a defnyddio'u canfyddiadau i wneud rhai dyfarniadau rhesymegol. Bydd angen cyflwyno ysgrifau portread i ddysgwyr ar gyfer tasgau (b) a (ch). Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Darperir enghreifftiau o ysgrifau portread yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân. Gall y rhain fod yr un fath ar gyfer carfan o ddysgwyr neu gellir eu hysgrifennu i dargedu band marciau penodol. Byddai hyn yn cefnogi dysgwyr i gyflawni ar lefel briodol i'w potensial. Os ysgrifennir hwy i dargedu bandiau marciau penodol, gweler y sylwadau isod ynglŷn â chynnwys.

(a) Darperir mapiau ar gyfer pob math o gyrchnod a nodir yn y fanyleb. Gall fod rhai bylchau yn un neu ddau ohonynt. Dangosir cyrchnodau allweddol ar gyfer pob math o gyrchnod. Y cyrchnodau allweddol yw'r rhai sy'n boblogaidd gan dwristiaid y DU. Mae'r cyrchnodau a ddetholwyd yn amlygu gwybodaeth o'r cyrchnodau allweddol gan fod y dysgwr wedi gwahaniaethu'n glir yn eu dewis o enghreifftiau i'w cynnwys, gan eu bod yn berthnasol i'r categori a chan mai dim ond cyrchnodau allweddol a gynhwysir. Mae lleoliadau yn gywir er y gall fod rhai mân anghywirdebau, megis bod Nice ychydig ymhellach ar hyd yr arfordir nag y dylai fod neu fod Madrid ychydig yn fwy i'r gogledd nag y dylai fod. Dangosir y rhan fwyaf o brif byrth y DU i Ewrop ar y mapiau. Gall y rhain fod wedi'u hymgorffori i'r mapiau ar gyfer pob math o gyrchnod a dangosir hwy'n glir fel pyrth neu cânt eu dangos ar wahân. Os cânt eu dangos ar wahân, mae rhyw gyswllt â'r categorïau y maent yn perthyn iddynt; er enghraifft ni fyddai Paris yn cael ei dangos fel porth i ardal arfordirol. Cynhwysir pyrth i wahanol fathau o gludiant e.e awyren, rheilffordd, fferi. Lleolir a labelir y prif lwybrau rheilffyrdd a ffyrdd ac maen nhw'n berthnasol i'r categori. Mae'r mapiau yn eithaf manwl ac maen nhw'n cynnwys cyfeiriadau at rai o'r nodweddion ffisegol perthnasol i'r categori.

Ceir eglurhad o leiaf, gyda pheth rhesymegu, ar gyfer mwyafrif y mathau o gyrchnodau o sut y gellir defnyddio nodweddion i gategoreiddio cyrchnod. Bydd peth cyfeirio o leia at orgyffwrdd rhwng cyrchnodau a sut mae hyn yn codi anawsterau wrth geisio categoreiddio. Gwneir hyn trwy enghreifftiau neu eglurhad elfennol gyda pheth ymresymu.

(b) Bydd dysgwyr yn disgrifio nodweddion cyrchnod Ewropeaidd. Bydd disgrifiadau'r nodweddion yn fanwl parthed amrediad y nodweddion a thrylwyredd y disgrifiad. Mae'r nodweddion a ddisgrifir yn dangos fod y dysgwr yn deall y rheiny sy'n allweddol i roi apêl i'r cyrchnod gyda'r dysgwr yn gwahaniaethu rhwng y rhain a'r rhai sy'n bodoli ond nad ydynt yn cyfrannu at yr apêl. Gall fod rhai nodweddion yn amherthnasol ond mae'r rhain yn gyfyngedig. Mae'r cyrchnod a ddetholwyd yn addas. Mae'r dysgwr wedi egluro sut mae'r cyrchnod yn addas ar gyfer y math o dwrist fel y'i nodwyd yn yr ysgrif bortread, gyda rhai cysylltiadau amlwg rhwng anghenion penodol a nodweddion penodol. Bydd y dysgwr wedi derbyn ysgrif bortread o fath o dwrist a chanddo rai anghenion cymhleth a dim ond rhai o'r rhain a ystyriwyd. Bydd peth manylder yn yr ysgrif bortread e.e teulu â thri phlentyn dan bump ac un baban sy ddim yn hoffi teithiau hir mewn awyren a thad sy'n bwriadu rhedeg marathon Llundain ar ôl dychwelyd. Gall y dysgwr fod wedi methu cyfeirio at rai o'r manylion yn yr ysgrif bortread.

(c) Gwnaed rhywfaint o ymchwil yn defnyddio ystod o ffynonellau megis gwefannau, gwerslyfrau, pamffledi, arweinlyfrau, y wasg. Gall rhai o'r rhain fod wedi cael eu hawgrymu gan diwtor ond bydd rhai ohonynt wedi'u cael yn annibynnol. Bydd llyfryddiaeth yn manylu ar y ffynonellau a ddefnyddiwyd a bydd rhywfaint o gyfeirio at ffynonellau o fewn y cynnwys yn ogystal.

Mae'r dysgwr wedi rhoi dadansoddiad o'r ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod Ewropeaidd detholedig. Gall fod rhai elfennau disgrifiadol yn y cynnwys, ond mae'r gwaith yn ddadansoddol ar y cyfan. Efallai y bydd rhai bylchau yn y ffactorau perthnasol ond ymdrinnir â'r ffactorau allweddol. Gall peth o'r ymdriniaeth fod yn ddamcaniaethol yn hytrach nag wedi'i chymhwyso. Bydd y cynnwys yn eithaf cyfredol a pherthnasol i'r diwydiant twristiaeth heddiw trwy iddynt ddewis cyrchnod sy wedi ennill poblogrwydd yn reit ddiweddar (o fewn y pymtheng mlynedd diwethaf). Ceir rhywfaint o ddadansoddi o sut mae'r cyrchnod wedi defnyddio ffactorau rheoladwy i uchafu'i apêl a chyflwynir peth o'r dadansoddiad hwn yn glir.

(ch) Mae'r dysgwr wedi cyflwyno manylion am ddulliau gwahanol o gludiant rhwng man ymadael a chyrchnod yn Ewrop. Gwneir asesiad o addasrwydd gwahanol fathau o gludiant ar gyfer math o dwrist fel y'i nodwyd mewn ysgrif bortread. Ystyrir nifer o ffactorau yn yr asesiad a wneir. Bydd yr aseswr yn rhoi ysgrif bortread i'r dysgwr a fydd yn cynnwys manylion man ymadael y twristiaid a'u cyrchnod yn ogystal â'u hanghenion a'u hamgylchiadau. Bydd gan yr ysgrif bortread sy'n targedu'r band marciau hwn gyrchnod a fydd yn eithaf anodd cael mynediad iddo naill ai o unrhyw fan ymadael neu o'r man ymadael a nodwyd e.e ni fydd yn hygyrch trwy deithiau awyren unionsyth. Bydd peth manylder am anghenion ac amgylchiadau'r math o dwrist e.e pum dyn ifanc yn teithio o Limoges, Ffrainc ac yn teithio gyda'u hoffer sgïo'u hunain i Courcheval. Neu, bydd y dysgwyr wedi derbyn ysgrif bortread fwy cymhleth ond wedi methu â chyfeirio at yr holl anghenion ac amgylchiadau nac ystyried amrediad llawn o ddewisiadau eraill. Ni ddefnyddir cyrchnodau a ddefnyddir mewn mannau eraill yn yr uned hon.

(Gweler yr adran ar *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 3**

Bydd dysgwyr yn cyflwyno tystiolaeth sy'n amlwg yn cwrdd â gofynion y dasg gyda manylder a pheth eglurder. Byddant yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ac yn eu cymhwyso i sefyllfaoedd galwedigaethol. Byddant yn gwneud ymchwil gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau maen nhw wedi cael hyd iddynt a'u defnyddio yn annibynnol. Byddant yn dangos sut y gallant ddefnyddio'u canfyddiadau i gwrdd ag anghenion cwsmer cymhleth, gan ddefnyddio rhesymu drwodd a thro gan gynnwys gwneud dyfarniadau rhesymegol. Bydd angen cyflwyno ysgrifau portread i ddysgwyr ar gyfer tasgau (b) a (ch). Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Darperir enghreifftiau o ysgrifau portread yn y Canllaw Athrawon i'w gyhoeddi ar wahân. Gall y rhain fod yr un fath ar gyfer carfan o ddysgwyr neu gellir eu hysgrifennu i dargedu band marciau penodol. Byddai hyn yn cefnogi dysgwyr i gyflawni ar lefel briodol i'w potensial. Os ysgrifennir hwy i dargedu bandiau marciau penodol, gweler y sylwadau isod am y cynnwys:

(a) Darperir mapiau ar gyfer pob math o gyrchnod a nodir yn y fanyleb. Dangosir cyrchnodau allweddol ar bob map. Y cyrchnodau allweddol yw'r rhai sy'n boblogaidd gan dwristiaid y DU. Dengys y cyrchnodau a ddetholir gwybodaeth drylwyr o'r cyrchnodau hynny sy'n allweddol gan nad oes dim un ohonynt yn anaddas i'r categori. Gall y bydd pob map hefyd yn cynnwys lleoliad cyrchnodau sy'n datblygu mewn poblogrwydd a gwahaniaethir yn eglur rhwng y rhain a'r rhai hynny sy wedi'u hen sefydlu. Mae'r lleoliadau'n gywir er y gall fod un neu ddau fân anghywirdeb megis bod Nice ychydig yn nes i fyny'r arfordir nag y dylai fod neu fod Madrid yn fwy i'r gogledd nag y dylai fod. Bydd yr anghywirdebau'n gyfyngedig. Dangosir pob prif borth o'r DU i Ewrop ar fapiau ynghyd â rhai llai pwysig, er enghraifft rhai meysydd awyr sy'n dod yn fwy poblogaidd. Gall y rhain fod wedi'u hymgorffori yn y mapiau ar gyfer pob cyrchnod ond bydd y gwahaniaeth rhyngddynt a'r cyrchnodau yn glir neu cânt eu dangos ar wahân ond dangosir y cyswllt â'r categori. Cynhwysir pyrth ar gyfer dulliau gwahanol o gludiant e.e awyren, rheilffordd a fferi. Lleolir a labelir y prif lwybrau ffyrdd a rheilffyrdd ac maent yn amlwg yn berthnasol i'r categori. Mae'r mapiau yn eithaf manwl ac yn cynnwys nodweddion ffisegol priodol perthnasol i'r categori.

    Mae eglurhad o sut y gellir defnyddio nodweddion i gategoreiddio cyrchnod. Bydd hyn yn berthnasol i bob math o gyrchnod. Bydd yr esboniadau yn fanwl ac wedi'u rhesymu'n eglur gan ddefnyddio enghreifftiau penodol i eglurebu hyn. Bydd eglurhad o sut mae categoreiddio cyrchnodau yn creu anawsterau gydag enghreifftiau penodol yn cael eu defnyddio i gefnogi'r eglurhad. Bydd yr eglurhad yn dangos dealltwriaeth o pam fod gorgyffwrdd wrth gategoreiddio cyrchnodau.

(b) Bydd dysgwyr yn disgrifio nodweddion cyrchnod Ewropeaidd. Bydd manylder yn nisgrifiadau'r nodweddion ac yn amrediad y nodweddion a ddisgrifir. Mae'r nodweddion a ddisgrifir yn dangos fod y dysgwr yn llwyr ddeall pa rai sy'n allweddol i wneud cyrchnod yn apelgar i'r math yna o dwrist ac ni fydd yn cynnwys unrhyw rai sy'n amherthnasol. Mae'r cyrchnod a ddewiswyd yn addas. Bydd y dysgwr yn rhoi eglurhad clir a thrylwyr o sut mae'r cyrchnod yn addas ar gyfer y twrist gyda chysylltiadau clir rhwng anghenion penodol a nodir yn yr ysgrif bortread a nodweddion penodol. Bydd gan y math o dwrist y manylir arno yn yr ysgrif bortread anghenion cymhleth y caiff pob un ohonynt eu hystyried e.e. teulu â thri o blant dan 5 gydag un yn faban sy ddim yn hoffi teithiau awyren hir. Maen nhw eisiau trosglwyddiadau byrion o'r porth. Mae gan y fam pasbort Awstralaidd. Mae'r tad yn bwriadu rhedeg marathon Llundain ar ôl dychwelyd. Mae'r teulu yn frwd dros ddiwylliant ac eisiau profi digwyddiad neu weithgaredd traddodiadol. Maen nhw eisiau teithio dros y Pasg.

(c) Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio amrediad eang o ffynonellau, megis gwefannau, gwerslyfrau, pamffledi, defnyddiau hyrwyddo cyrchfannau, arweinlyfrau teithio, cyfryngau cyrchnodau, erthyglau yn y wasg genedlaethol a masnachol. Ar y cyfan sicrheir y ffynonellau hyn yn annibynnol heb gyfeiriad gan diwtor. Bydd llyfryddiaeth yn manylu ar y ffynonellau a ddefnyddiwyd a bydd tystiolaeth o'r ffynonellau hefyd drwy gyfeirnodi drwy'r cynnwys.

Mae'r dysgwr wedi rhoi dadansoddiad clir o amrediad eang o ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod Ewropeaidd detholedig. Mae'r dadansoddiad yn glir ac wedi'i gymhwyso i'r cyrchnod. Bydd y cynnwys yn gyfredol ac yn berthnasol i'r diwydiant twristiaeth heddiw trwy'r dewis o gyrchnod sy wedi dod yn boblogaidd yn bur ddiweddar (o fewn y pymtheng mlynedd diwethaf). Mae dadansoddiad o sut mae'r cyrchnod wedi defnyddio ffactorau rheoladwy i uchafu'i apêl a chynyddu'i boblogrwydd a chyflwynir y dadansoddiad yn glir.

(ch) Mae'r dysgwr wedi gwneud asesiad clir a manwl o addasrwydd amrediad cynhwysfawr o ddulliau cludiant rhwng y man ymadael a'r cyrchnod yn Ewrop. Ystyrir amrediad o ffactorau yn llawn yn yr asesiad. Gwneir yr asesiad yng ngoleuni anghenion ac amgylchiadau math o dwrist a ddynodir mewn ysgrif bortread. Bydd gan yr ysgrif bortread sy'n targedu'r band marciau hwn gyrchnod anodd cael mynediad iddo a man ymadael a fydd y tu allan i'r DU a ddim yn uniongyrchol hygyrch i'r cyrchnod. Bydd disgrifiad manwl o anghenion ac amgylchiadau math o dwrist e.e cwpl mewn oed yn dymuno teithio o Barcelona i Fflorens. Bydd gan un ohonynt anawsterau symudedd ond nid yw'n defnyddio cadair olwyn, er y bydd angen iddo/iddi symud o gwmpas yn rheolaidd. Mae'r ddau yn mwynhau gweld tirluniau gwahanol i rai'u cynefin ac yn hoffi gweld delweddau o'r amgylchedd lleol. Byddant yn mynd â pheth offer gyda nhw ar y daith gan eu bod yn bwriadu paentio yn ystod eu harhosiad. Does dim cyfyngiadau amser nac arian arnynt. Mae gan y ddau drwydded yrru gyfredol ac maen nhw'n berchen car. Mae ganddynt gardiau rheilffordd sy'n caniatáu iddynt gael tocynnau trên rhatach yn ogystal. Dim ond Sbaeneg mae'r ddau yn ei siarad. Ni ddefnyddir y cyrchnodau hyn mewn mannau eraill yn yr uned.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

## Cyflwyno'r uned

### Ymchwil

Efallai y bydd angen cyflwyno dysgwyr i ffynonellau sy'n darparu gwybodaeth briodol i'w cynorthwyo i gwblhau'r uned. Gall y rhain gynnwys atlasau, amserlenni, arweinlyfrau taith, y wasg deithio, y cyfryngau cenedlaethol a'r rhyngrwyd. Bydd angen i ddysgwyr wybod sut i gynhyrchu llyfryddiaeth a chyfeirio at ffynonellau. Dylid trafod y math o wybodaeth y byddant yn cael hyd iddi yn y ffynonellau hyn hefyd. Gellir gwneud hyn trwy gyfrwng cyflwyniad enghreifftiol o ganfyddiadau ar un neu fwy o gyrchnodau. Bydd angen i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ymchwil er mwyn cwblhau gofynion asesiad yr uned ond fel paratoad bydd angen cyfarwyddyd clir o safbwynt ehangder, dyfnder a defnyddioldeb yr wybodaeth sy ar gael. Mae ymchwil yn berthnasol i bob agwedd o'r uned. Gall dysgwyr ymchwilio i leoliadau cyrchnodau, nodweddion cyrchnodau, cysylltiadau cludiant a ffactorau sy'n effeithio ar boblogrwydd ac apêl. Mae'r diwydiant teithio a thwristiaeth yn nodi'n barhaus ddiffyg gwybodaeth am y cyrchnodau teithio'r rhai sy'n ceisio am swyddi. Drwy'r uned hon, mae cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o amrediad o fathau gwahanol o gyrchnodau trwy weithgareddau addysgu. Gallai cyrchnodau poblogaidd a rhai sy wedi'u hen sefydlu fod yn ffocws y gweithgareddau dysgu fel y gall y rhai sy wedi'i datblygu'n fwy diweddar fod yn ffocws asesu. Gallai dysgwyr wneud ymchwil mewn grwpiau bach a bwydo'r canfyddiadau yn ôl i weddill y grŵp. Yn y modd hwn, bydd y grŵp yn cael gorolwg o amrediad eang o gyrchnodau. Gallent ddatblygu sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig effeithiol trwy'r adborth a dderbynient yn ogystal. Gallai adborth fod ar fformat cyfarfod croeso neu chwarae rôl cwsmer neu stondin arddangosfa.

### Siaradwyr gwadd

Gall siaradwyr gwadd fod yn gaffaeliad mawr a gallant roi gwybodaeth nad yw ar gael o ffynonellau confensiynol yn seiliedig ar brofiad personol. Yn wahanol i werslyfrau gallant ymateb i gwestiynau, ac mae cwestiynu yn datblygu sgiliau rhesymu a chyfathrebu. At hyn mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr adolygu'u hagweddau a'u gwerthoedd eu hunain o ran apêl gwahanol fathau o gyrchnodau ac addasrwydd dulliau gwahanol o gludiant.

Gellir gwneud defnydd o drefnwyr teithiau lleol sy'n gwerthu cyrchnodau gwahanol yn gyson ac sy'n ymwybodol o amrediad y dulliau masnachol o gludiant sy ar gael. Gall cynrychiolwyr tramor fod ar gael yn ystod misoedd y gaeaf i roi cyflwyniadau ar gyrchnodau lle buon nhw'n gweithio a'r math o dwrist y buon nhw'n ymwneud â nhw. Gallai gweithredwyr cludiant roi manylion dulliau gwahanol o gludiant a'u haddasrwydd. Gellid gwahodd mathau gwahanol o dwristiaid posibl i fod yn gwsmeriaid efelychiadol hefyd lle mae'u hanghenion wedi'u penderfynu a'u defnyddio i ddatblygu ysgrifau portread.

**Ysgrifau portread**

Er mwyn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o apêl a phoblogrwydd cyrchnodau teithio Ewropeaidd, mae angen i ddysgwyr fod yn gyfarwydd ag anghenion mathau gwahanol o dwristiaid. Trwy'r uned hon, gellid darparu ysgrifau portread ar gyfer dysgwyr neu gallent ddatblygu'u rhai eu hunain o fathau gwahanol o dwristiaid ag anghenion cynyddol-gymhleth. Gellid cyflwyno'r rhain mewn ysgrifen, efallai fel cais am wybodaeth gan fwrdd twristiaeth neu weithredwr cludiant neu trwy chwaraeon rôl. Trwy gwestiynu, gall dysgwyr benderfynu ar anghenion a rhoi adborth o'u canfyddiadau. Mae hyn yn datblygu sgiliau cyfathrebu megis gwrando, siarad ac ysgrifennu yn ogystal â sgiliau rhesymu, ac mae'n caniatáu defnyddio gwahanol arddulliau dysgu. Gan mai dim ond trwy ymateb i anghenion cymhleth y gall dysgwyr gyrraedd marciau yn y bandiau uchaf, dylai ysgrifau portread fynd yn fwyfwy cymhleth.

**Ymweliadau allanol**

O fewn y DU, yr ymweliad mwyaf defnyddiol fyddai i borth cludiant neu at weithredwr cludiant lle gellid arsylwi ar ddulliau cludiant o safbwynt y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir. Efallai nad yw llawer o ddysgwyr wedi teithio ar drên *'inter-city'* neu ar fferi er enghraifft.

Gall ymweliadau preswyl tramor roi gwybodaeth uniongyrchol i ddysgwyr o gyrchnodau twrist Ewropeaidd unigol ac fe'u cymeradwyir os ydy hyn yn bosibl. Gallai dysgwyr wneud ymchwil gychwynnol i benderfynu ar addasrwydd cyrchnodau gwahanol ar gyfer y pwrpas hwn ac mewn cynllunio gweithgareddau i'w gwneud yn ystod yr ymweliad.

## Cysylltau

**Unedau eraill**

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth* — mae'r uned hon yn adeiladu ar ddealltwriaeth y dysgwyr o'r diwydiant teithio a thwristiaeth

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth* - lle mae'r dysgwyr yn dysgu am gwsmeriaid a'u hanghenion

*Uned 4: Cyrchnod Prydain* — lle astudir mathau tebyg o adnoddau i gael gwybodaeth

*Uned 5: Teithio'n Ddiogel* — lle ystyrir diogelwch a diogeliad dulliau gwahanol o gludiant

*Uned 6: Gweithrediadau Cyrchfan* — lle bydd dysgwyr yn datblygu defnyddiau ar gyfer cyfarfod croeso yn seiliedig ar gyrchnod a all fod yn Ewrop.

**Diwydiant**

Byddai defnyddio siaradwyr allanol a chael y diwydiant teithio a thwristiaeth i ddarparu defnyddiau yn sicrhau llawer iawn o wybodaeth werthfawr.

Byddai ymweliad preswyl tramor yn rhoi cyfle i brofi cyrchnod a'i gysylltiadau cludiant.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)**

Gall yr uned hon ddarparu cysylltiadau â'r unedau canlynol o CGCau Gwasanaethau Teithio a Thwristiaeth:

- T1 Gwerthu gwasanaethau teithio
- T14 Adnabod a darparu gwybodaeth a chyngor cysylltiedig â thwristiaeth
- T15 Casglu a chynnal gwybodaeth a data twristiaeth
- T16 Dadansoddi a chyflwyno data twristiaeth
- T33 Cyflwyno a gwerthuso sylwebaethau dehongliadol.

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Cambridge Training and Development Ltd — *Advanced Travel and Tourism* (Oxford University Press, 2000) ISBN 0198328273

Dale G and Oliver H — *Travel and Tourism for Advanced GNVQ* (Hodder Arnold H&S, 2000) ISBN 0340781998

Holloway J C — *Business of Tourism, Fifth Edition* (Longman, 1998) ISBN 0582328810

Outhart T — *Travel and Tourism for Vocational A-level Teacher Support Pack* (Collins Educational, 2001) ISBN 0007113854

Page S J — *Transport for Tourism* (International Thomson Business Press, 1994) ISBN 0415102383

Youell R — *Vocational A-level Travel and Tourism* (Longman, 2000) ISBN 0582404452

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| British Airways | www.britishairways.com |
| Eurostar | www.eurostar.com |
| Expedia | www.expedia.co.uk |
| First Choice | www.firstchoice.co.uk |
| Geoprojects | www.geoprojects.co.uk |
| Holiday Travel Watch | www.holidaytravelwatch.org |
| Lonely Planet | www.lonelyplanet.com |
| MyTravel | www.mytravel.co.uk |
| National Express | www.nationalexpress.com |
| P&O Ferries | www.poferries.com |
| Rough Guide | www.roughguides.com |
| Thomas Cook | www.thomascook.co.uk |
| Thomson Holidays | www.thomson.co.uk |
| Tourism Concern | www.tourismconcern.org.uk |
| Travel Weekly | www.travelweekly.co.uk |
| World Travel Guide | www.wtg-online.com |

### Amlgyfrwng

*Travel Geography* CD-Rom — The Travel Training Company, 2000

| | |
|---|---|
| **Defnyddiau eraill** | Amserlenni rheilffyrdd a bysys<br>Arweinlyfrau *Lonely Planet*<br>*OAG Cruise and Ferry Guide*<br>*OAG Guide to International Travel*<br>*Rough Guides*<br>Defnydd hyrwyddo cludiant<br>Sianeli teithio ar y teledu<br>Adrannau teithio yn y papurau dyddiol a Sul<br>*Travel Trade Gazette*<br>*Travel Weekly*<br>*World Travel Guide* — Columbus Press |

# Uned 4: Cyrchnod Prydain

## Uned ddewisol UG (Dyfarniad Sengl)
## UG Uned Orfodol (Dyfarniad Dwbl)

## Asesiad Mewnol

## Cyflwyniad

Mae Ynysoedd Prydain yn gyrchnod poblogaidd i lawer o ymwelwyr tramor. Byddwch yn darganfod pa mor boblogaidd ydyn nhw mewn gwirionedd trwy ymchwilio i raddfa twristiaeth i Ynysoedd Prydain. Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i chi i edrych ar y cyrff sy'n ymwneud â chynnal y poblogrwydd a'r apêl hynny. Byddwch yn archwilio amrediad o gyrchnodau twrist poblogaidd ar draws Ynysoedd Prydain i gyd a'r nodweddion sy wedi'u gwneud yn boblogaidd ac yn apelgar. Cewch gyfle i ddatblygu teithlenni ar gyfer twristiaid sy'n cynllunio i ymweld ag un neu fwy o'r ynysoedd hyn. At hyn byddwch yn edrych ar y ffactorau fydd yn effeithio ar boblogrwydd ac apêl cyrchnodau twrist Ynysoedd Prydain at y dyfodol.

At gyfer yr uned hon, gall 'Ynysoedd Prydain' gynnwys Lloegr, yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth*

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 4.1 Y Cyrff Teithio a thwristiaeth sy'n cefnogi twristiaeth yn Ynysoedd Prydain

Mae llawer o gyrff teithio a thwristiaeth wahanol yn cefnogi twristiaeth yn Ynysoedd Prydain. Mae cyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n cynnwys:

- adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth
- byrddau twrist rhanbarthol a swyddfeydd twrist cenedlaethol
- adrannau twrist awdurdodau lleol
- asiantaethau datblygu rhanbarthol
- canolfannau gwybodaeth twristiaid
- cyrff aelodaeth
- gweithredwyr cludiant, darparwyr llety, gweithredwyr teithiau i'r wlad.

Byddwch yn dysgu adnabod y cyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cefnogi twristiaeth i ardal benodedig o Ynysoedd Prydain ac yn egluro'u rôl. Gallai ardal benodedig fod yn rhanbarth bwrdd twrist, yn un neu fwy o siroedd neu yn ardal thematig.

Byddwch yn dysgu egluro cyd-ddibyniaeth a chydberthnasau'r cyrff hyn, o fewn ardal benodedig, i gefnogi twristiaeth yn Ynysoedd Prydain.

## 4.2 Nodweddion cyrchnodau yn Ynysoedd Prydain

Byddwch yn dysgu bod gwahanol fathau o gyrchnodau yn Ynysoedd Prydain. Gellid categoreiddio'r rhain fel:

- ardaloedd arfordirol
- dinasoedd a threfi twristaidd
- cyrchnodau busnes a chynhadledd
- ardaloedd cefn gwlad
- cyrchnodau treftadaeth a diwylliannol
- rhai wedi'u hadeiladu i bwrpas — wedi'u hadeiladu yn benodol i gwrdd ag anghenion twristiaid.

Byddwch yn gallu rhoi enghreifftiau o'r prif gyrchnodau o fewn y categorïau hyn sy'n boblogaidd gan dwristiaid sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Byddwch yn dysgu lleoli'r cyrchnodau hyn ar fap.

Gall fod gan gyrchnodau lawer o nodweddion sy'n eu gwneud yn apelgar i dwristiaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- hinsawdd
- tirlun
- cysylltiadau cludiant a chyfathrebu
- llety
- y cyfleusterau a ddarperir
- atyniadau naturiol ac wedi'u hadeiladu
- digwyddiadau ac adloniant
- diwylliant lleol gan gynnwys bwyd a diod.

Byddwch yn dysgu gwahaniaethu rhwng y nodweddion hynny sy'n allweddol i'r apêl a'r rhai sy'n bodoli ond nad ydynt yn dylanwadu ar yr apêl. Byddwch yn dysgu disgrifio'r nodweddion allweddol sy'n gwneud cyrchnodau poblogaidd yn apelgar ac yn egluro sut maen nhw'n cwrdd â gofynion gwahanol fathau o ymwelwyr sy'n dod i mewn i'r wlad. Byddwch yn dysgu am anghenion y mathau gwahanol o dwristiaid gan gynnwys:

- grwpiau
- pobl o oedrannau gwahanol
- cwsmeriaid busnes
- rhai ag anghenion penodol e.e cwsmeriaid ag anableddau, oedolion â phlant ifanc, cyflyrau meddygol fel beichiogrwydd, clefyd melys, neu yn gysylltiedig ag oedran
- gwahaniaethau o ran iaith
- gwahaniaethau diwylliannol.

Byddwch yn dysgu adnabod anghenion o wybodaeth a ddarperir ac yn argymell cyrchnodau addas i gwrdd â'r gofynion hynny, gan gyfiawnhau eich dewisiadau. Cewch wybodaeth am anghenion ymwelwyr gan eich tiwtor ar ffurf ysgrif bortread.

## 4.3 Llunio teithlenni ar gyfer twristiaid

Mae teithlen yn gynllun neu'n rhaglen i dwristiaid ei dilyn. Byddwch yn dysgu cynnwys y canlynol mewn teithlen:

- ar gyfer pwy y paratowyd y deithlen
- dyddiadau
- amseriad
- beth a gynhwysir, fel llety
- manylion cyswllt
- manylion y cyrchnod megis yr atyniadau a nodir.

Byddwch yn dysgu faint o fanylder sydd ei angen a'r fformat sy'n briodol. Byddwch yn dysgu sut i lunio teithlen o gyrchnodau sy'n cydweddu i gwrdd ag anghenion penodol ymwelydd. Cewch anghenion penodol yr ymwelydd gan eich tiwtor ar ffurf ysgrif bortread.

## 4.4 Graddfa twristiaeth i Ynysoedd Prydain

Byddwch yn dysgu defnyddio ffynonellau gwahanol o wybodaeth i ymchwilio graddfa twristiaeth i Ynysoedd Prydain. Trwy ymchwil, byddwch yn caffael data ystadegol ac yn dysgu dehongli a dadansoddi'r data i dynnu casgliadau rhesymegol ynglŷn â graddfa twristiaeth i Ynysoedd Prydain ohono. Byddwch yn ymchwilio i bwysigrwydd twristiaid i Ynysoedd Prydain parthed:

- niferoedd ymwelwyr
- gwariant ymwelwyr
- math o ymwelwyr
- nosweithiau gwely a ddefnyddiwyd.

## 4.5 Y ffactorau sy'n effeithio ar boblogrwydd ac apêl cyrchnodau

Byddwch yn dysgu am y ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnodau Prydeinig gwahanol. Mae'r ffactorau yn cynnwys:

- hygyrchedd
- argaeledd atyniadau a chyfleusterau twristaidd eraill
- cost ymweld
- newid yn anghenion a disgwyliadau ymwelwyr
- rheolaeth cyrchnod
- delwedd a hyrwyddiad
- ffactorau gwleidyddol.

Byddwch yn dysgu bod cyrchnodau yn cael eu heffeithio gan ffactorau gwahanol ac yn adnabod a disgrifio’r rhai sy'n berthnasol. Byddwch yn dysgu sut i werthuso'r ffactorau sy'n allweddol i boblogrwydd ac apêl cyrchnodau gwahanol a sut i asesu'r effaith y gall y ffactorau hyn eu cael. Byddwch yn dysgu argymell ffyrdd y gall cyrchnodau gynyddu'u hapêl i'w gwneud yn fwy poblogaidd i dwristiaid sy'n dod i mewn i'r wlad, gan gyfiawnhau eich argymhellion. Byddwch yn archwilio amrediad o gyrchnodau ac yn ffocysu ar un cyrchnod ar gyfer asesiad.

## Tystiolaeth Asesu

Gall tystiolaeth asesu fod ar sawl ffurf wahanol yn unol ag arddulliau a hoffterau dysgu dysgwyr. Cynhyrchir teithlenni ar gyfer tasg (b) ond gellid cael tystiolaeth ar gyfer tasgau eraill trwy adroddiadau ysgrifenedig, erthyglau papur newydd, sgriptiau radio neu deledu neu ddatganiadau tystion o gyflwyniadau llafar gyda thystiolaeth ategol.

Ar gyfer tasg (a) byddwch yn tynnu'ch tystiolaeth o un ardal ddetholedig. Ar gyfer tasg (b) bydd y dystiolaeth wedi'i thynnu o amrediad o gyrchnodau. Tynnir y dystiolaeth ar gyfer tasg (ch) o un cyrchnod. Gallai fod yn un o'r cyrchnodau a amlygwyd yn y dystiolaeth ar gyfer tasg (b).

Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o:

(a) ddisgrifiad o rolau Cyrff Teithio a thwristiaeth allweddol sy'n cefnogi twristiaeth mewn ardal ddetholedig yn Ynysoedd Prydain

ac

eglurhad o gyd-ddibyniaeth a chydberthnasau'r cyrff hyn wrth iddynt gefnogi twristiaeth mewn ardal ddetholedig yn Ynysoedd Prydain

(b) teithlen yn cynnwys enghreifftiau o fathau gwahanol o gyrchnodau Prydeinig. Cewch fanylion am dwristiaid sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain gan eich tiwtor ar ffurf ysgrif bortread a dylai'ch teithlen gynnwys cyrchnodau sy'n cwrdd â'r anghenion a nodir yn yr wybodaeth a gawsoch. Dylid lleoli cyrchnodau ar fap a dylid disgrifio'r nodweddion sy'n rhoi apêl i bob cyrchnod yn y deithlen. Dylid bod eglurhad o sut mae'r deithlen yn cwrdd ag anghenion twristiaid sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain.

(c) ymchwil a dadansoddiad o raddfa twristiaeth i Ynysoedd Prydain o ran niferoedd ymwelwyr, gwariant ymwelwyr, math o ymwelwyr a nosweithiau gwely a ddefnyddiwyd

(ch) gwerthusiad o'r ffactorau sy wedi effeithio ar boblogrwydd ac apêl cyrchnod detholedig

ac

argymhellion ynglŷn â sut y gall y cyrchnod hwn ddatblygu'i boblogrwydd a'i apêl at y dyfodol er mwyn derbyn rhagor o ymwelwyr sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain.

## Meini prawf Asesu

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **a**<br><br>**(AA1)** | Disgrifiad o'r Cyrff Teithio a thwristiaeth sy'n cefnogi twristiaeth yn Ynysoedd Prydain ar gyfer ardal ddetholedig. Gall fod prinder manylion yn cael eu darparu am rai cyrff ac nad ydynt yn benodol ar gyfer yr ardal a ddewiswyd.<br><br>Eglurhad o gyd-ddibyniaethau a chydberthnasau'r cyrff a ddewiswyd mewn ardal o Ynysoedd Prydain. Gall yr eglurhad fod yn gyfyngedig ac yn ddisgrifiadol yn bennaf.<br><br>**(1-9)** | Disgrifiad manwl o'r prif gyrff teithio a thwristiaeth sy'n cefnogi twristiaeth yn Ynysoedd Prydain mewn ardal ddetholedig. Mae'r cyrff yn benodol i'r ardal a ddewiswyd.<br><br>Eglurhad o gyd-ddibyniaethau a chydberthnasau'r cyrff a ddewiswyd mewn ardal o Ynysoedd Prydain. Mae'r eglurhad yn fanwl ac yn ymwneud â denu twristiaid i'r ardal.<br><br>**(10-14)** | Disgrifiad manwl a chynhwysfawr o gyrff teithio a thwristiaeth sy'n cefnogi twristiaeth i Ynysoedd Prydain ar gyfer ardal ddetholedig.<br><br>Eglurhad clir a manwl o gyd-ddibyniaethau a chydberthnasau'r cyrff a ddewiswyd mewn rhanbarth o Ynysoedd Prydain. Mae'r eglurhad yn dangos yn glir y cyd-ddibyniaethau a'r cydberthnasau ar gyfer denu twristiaid i'r ardal.<br><br>**(15-18)** | **18** |
| **b**<br><br>**(AA2)** | Mae'r deithlen a gyflwynir yn dangos mathau gwahanol o gyrchnodau ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth bwysig y bydd ei hangen ar y twrist. Lleolir cyrchnodau ar fap gyda mân anghywirdebau yn y lleoliadau.<br><br>Disgrifiad o'r nodweddion sy'n rhoi apêl i bob cyrchnod gyda rhai mân nodweddion yn cael eu hepgor. Gall fod diffyg gwahaniaethu rhwng nodweddion sy'n bodoli a'r rheiny sy'n ei wneud yn apelgar.<br><br>Yr eglurhad o sut mae'r deithlen yn cwrdd â gofynion twrist sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain yn gyfyngedig ac yn ddisgrifiadol yn bennaf.<br><br>**(1-7)** | Teithlen strwythuredig sy'n dangos amrediad o fathau priodol o gyrchnodau. Y deithlen yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i'r twrist. Lleolir y cyrchnodau detholedig yn gywir ar fap.<br><br>Disgrifir nifer o nodweddion ym mhob cyrchnod yn fanwl. Amlygir nodweddion allweddol pob cyrchnod. Gall fod rhai elfennau amherthnasol dibwys.<br><br>Darperir eglurhad o sut mae dethol y cyrchnodau yn y deithlen yn cwrdd ag anghenion y twrist sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain, gyda chysylltiadau clir rhwng anghenion dynodedig y twrist a'r nodweddion a ddarperir yn y cyrchnod yn y deithlen.<br><br>**(8-12)** | Teithlen fanwl ac wedi'i strwythuro'n dda sy'n dangos amrediad o fathau gwahanol ac addas o gyrchnodau. Y deithlen yn cyfathrebu'r holl wybodaeth berthnasol a geisir gan y twrist yn glir. Lleolir y cyrchnodau yn gywir ar fap.<br><br>Disgrifiad manwl o'r nodweddion allweddol sy'n rhoi apêl i bob cyrchnod. Pob nodwedd a ddetholir yn berthnasol i'r cyrchnod ac anghenion yr ymwelwyr yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'r nodweddion hynny sy'n gwneud cyrchnod yn apelgar.<br><br>Eglurhad trylwyr o sut mae'r deithlen yn cwrdd ag anghenion twristiaid sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain gyda chysylltiadau clir rhwng eu hanghenion a'r nodweddion sy ar gael yn y cyrchnodau yn y deithlen.<br><br>**(13-15)** | **15** |

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **c**<br><br>**(AA3)** | Gwnaed ymchwil ond mae'n gyfyngedig yn nhermau'r amrediad o ffynonellau a ddefnyddiwyd. Mae'n debygol y cyflwynir tystiolaeth o'r ymchwil mewn llyfryddiaeth â chyfeirnodi cyfyngedig. Ffynonellau a ddarparwyd a ddefnyddiwyd yn bennaf.<br><br>Dadansoddiad elfennol o raddfa twristiaeth Brydeinig o dwristiaid sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain ac sy'n tueddu i fod yn ddisgrifiadol yn bennaf. Gall fod rhai elfennau amherthnasol yn y data a ddefnyddiwyd neu nad yw'r data wedi'u defnyddio'n llawn.<br><br>**(1-7)** | Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau gwybodaeth a gwelir cyfeiriadaeth drwyddo. Cafwyd gafael ar rai ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol.<br><br>Dadansoddiad o raddfa'r dwristiaeth Brydeinig o dwristiaid sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Y dadansoddiad yn defnyddio data ystadegol i benderfynu ar y raddfa sy'n briodol ar y cyfan.<br><br>**(8-12)** | Tystiolaeth o ymchwil trylwyr o ddata ystadegol i benderfynu ar raddfa'r dwristiaeth i Ynysoedd Prydain o dwristiaid sy'n dod i mewn iddynt. Defnyddir amrediad eang o ffynonellau gwybodaeth y cafwyd hyd iddynt yn annibynnol ac maent wedi'u cyfeirnodi drwyddo.<br><br>Dadansoddiad trylwyr o raddfa'r dwristiaeth Brydeinig o dwristiaid sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Mae'r dadansoddiad yn tynnu o ddata perthnasol heb unrhyw elfennau amherthnasol nac anghywirdebau.<br><br>**(13-15)** | **15** |

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **ch**<br><br>**(AA4)** | Gwerthusiad o rai o'r ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod detholedig yn Ynysoedd Prydain. Tuedda'r gwerthusiad i fod yn brin o fanylder ac yn ddisgrifiadol.<br><br>Rhai argymhellion ar sut y gall y cyrchnod detholedig ddatblygu yn y dyfodol i ddenu twristiaid yn dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Efallai na fydd rhai ohonynt yn ddichonadwy. Gall fod rhai o'r argymhellion yn awgrymiadau yn hytrach nag yn argymhellion wedi'u cyfiawnhau.<br><br>**(1-6)** | Gwerthusiad manwl o'r prif ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod detholedig yn Ynysoedd Prydain. Mae'r ffactorau a ddetholwyd yn cysylltu'n dda â sut mae'r cyrchnod wedi dod yn boblogaidd ac apelgar. Profir rhai casgliadau.<br><br>Darperir argymhellion ar sut y gall cyrchnodau detholedig ddatblygu yn y dyfodol i gynyddu'u poblogrwydd a'u hapêl i dwristiaid sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain mewn peth manylder. Mae'r argymhellion ar y cyfan yn berthnasol a dichonadwy a chyfiawnheir rhai ohonynt. Mae naill ai'r prif ffactorau neu'r argymhellion ar gyfer datblygu yn fanwl.<br><br>**(7-9)** | Gwerthusiad beirniadol o'r prif ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod detholedig yn Ynysoedd Prydain. Mae'r ffactorau a ddetholwyd yn briodol a'r ymdriniaeth yn fanwl. Ar y cyfan profir y casgliadau a wneir.<br><br>Cyfiawnheir yr argymhellion o sut y gall cyrchnodau detholedig ddatblygu yn y dyfodol i gynyddu'u poblogrwydd a'u hapêl i dwristiaid sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Gwneir argymhellion ar sail casgliadau a wnaed mewn gwerthusiad.<br><br>**(10-12)** | **12** |
| | (Am ddisgrifiad o'r AAau gweler tudalen 155.) | | **Cyfanswm marciau** | **60** |

## Canllawiau Asesu

**Band Marciau 1**

Bydd tystiolaeth dysgwyr yn tueddu i fod yn brin o fanylder, yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn arfarnol neu'n dangos rhesymu manwl, ac yn cynnwys bylchau. Mae'r ymchwil yn debyg o fod o ffynonellau cyfyngedig y cyfeiriwyd atynt yn bennaf gan eraill. Ar gyfer tasg (a) bydd angen i ddysgwyr ddethol ardal yn Ynysoedd Prydain. Gall hyn fod mewn ardal Bwrdd Twristiaeth Rhanbarthol fel *Heart of England*, ardal Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol fel *One North East*, sir fel Sir Benfro, grŵp o siroedd fel Gogledd Iwerddon, neu ardal thematig fel *Hardy Country*. Ar gyfer tasg (b), bydd angen i ddysgwyr gael ysgrifau portread. Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Bydd enghreifftiau o ysgrifau portread yn cael eu darparu yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân.

(a) Rhaid i ddysgwyr ddisgrifio rhai o'r Cyrff Teithio a thwristiaeth sy'n cefnogi twristiaeth yn Ynysoedd Prydain o fewn ardal ddetholedig. Mwy na thebyg bydd y disgrifiad yn brin o fanylder ac ni chynhwysir yr holl gyrff perthnasol sy'n ymwneud â hi. Gall dysgwyr fod wedi ysgrifennu am gyrff mewn termau cyffredinol yn hytrach na'r rhai mewn ardal ddetholedig. Bydd y dystiolaeth felly yn fwy damcaniaethol. Gall fod prinder manylder parthed amrediad y cyrff a gynhwyswyd neu'r disgrifiadau o'u rolau. Rhaid i ddysgwyr gynnwys eglurhad o gyd-ddibyniaethau a chydberthnasau'r cyrff yr ymwneir â nhw hefyd. Bydd esboniadau yn tueddu i fod yn gyffredinol ac nid yn benodol i'r ardal ddetholedig ac yn brin o fanylder. Mae'n debyg y bydd y dystiolaeth yn ddisgrifiadol heb fawr ddim rhesymu, felly bydd dealltwriaeth yn debyg o fod yn gyfyngedig.

(b) Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu teithlen ar gyfer twrist sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Bydd mathau gwahanol o gyrchnodau. Cynhwysir gwybodaeth berthnasol ond gall fod rhai bylchau. Gall gwybodaeth fod yn gyfyngedig yn nhermau'r manylion a ddarperir. Bydd dysgwyr yn lleoli'r cyrchnodau ar fap ond mae'n debyg y bydd rhai bylchau ac anghywirdebau. Disgrifir nodweddion y cyrchnodau a gynhwysir yn y deithlen. Ar gyfer y band marciau hwn, mae'n debyg na fydd llawer o wahaniaethu rhwng y nodweddion sy'n apelio a'r rhai sy'n bodoli. Mae'n debygol mai taflen ffeithiau a ddefnyddir. Gall disgrifiadau fod yn brin o fanylion mewn rhai nodweddion. Rhaid i'r deithlen ddangos rhyw gyswllt ag anghenion y twrist sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain er y gall fod rhai agweddau o'r deithlen sy ddim yn cwrdd yn union â'u hanghenion. Dylid bod rhyw eglurhad o sut mae'r deithlen yn cwrdd ag anghenion y twristiaid a nodwyd yn yr ysgrif bortread. Gall hyn fod yn ddisgrifiadol yn bennaf neu wedi'i ysgrifennu mewn termau cyffredinol heb gyfeiriad penodol at eu hanghenion.

(c) Gwnaed peth ymchwil ond mae'n tueddu i ddod o un neu ddwy ffynhonnell, efallai dim ond y rhai y cyfeiriwyd atynt gan diwtor/aseswr, ac mae'r dystiolaeth wedi'i chyfyngu efallai i lyfryddiaeth yn unig. Bydd angen i ddysgwyr ddangos rhywfaint o ddadansoddiad o raddfa'r dwristiaeth sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Mae ystadegau yn amlwg ond ni ddefnyddir hwy'n llawn. Gall rhai fod yn amherthnasol. Mae'r dystiolaeth yn debyg o fod yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol.

(ch) Rhaid i'r dystiolaeth geisio adolygu a gwerthuso rhai o'r ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod Prydeinig. Gall y dystiolaeth amlygu rhywfaint o werthusiad ond gall hwn fod yn gyfyngedig ac yn fwy disgrifiadol. Efallai na fydd y dystiolaeth yn cynnwys yr holl ffactorau sy wedi effeithio ar y cyrchnod detholedig. Gall fod rhai ffactorau cyffredinol wedi'u cynnwys. Rhaid i ddysgwyr awgrymu rhai syniadau sut y gall cyrchnod detholedig ddenu twristiaid sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain yn y dyfodol ond awgrymiadau fydd y rhain sy'n brin iawn o gyfiawnhad.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 2**

Bydd tystiolaeth dysgwyr yn dangos eu bod wedi deall gofynion yr holl dasgau. Bydd y dystiolaeth yn tueddu i fod yn eithaf manwl, yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir. Bydd peth gwerthuso a rhesymu clir yn y gwaith a gyflwynir. Mae dysgwyr yn debygol o fod wedi ymgymryd â pheth ymchwil drwyadl ac ar raddfa eang, rhywfaint ohono'n annibynnol. Byddant wedi defnyddio rhai o'u canfyddiadau i dynnu casgliadau. Ar gyfer tasg (a) bydd angen i ddysgwyr ddewis ardal o Ynysoedd Prydain. Gall hyn fod mewn ardal Bwrdd Twristiaeth Rhanbarthol fel *Heart of England*, ardal Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol fel *One North East*, sir fel Sir Benfro, grŵp o siroedd fel Gogledd Iwerddon, neu ardal thematig fel *Hardy Country*. Ar gyfer tasg (b), bydd angen i ddysgwyr gael ysgrifau portread. Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Bydd enghreifftiau o ysgrifau portread yn cael eu darparu yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân.

(a) Rhaid i ddysgwyr roi disgrifiad manwl o'r prif gyrff teithio a thwristiaeth sy'n cefnogi twristiaeth yn Ynysoedd Prydain o fewn ardal ddetholedig. Rhaid i'r disgrifiad ddangos manylion y cyrff perthnasol. Y cyrff fydd y rhai hynny sy'n benodol i'r ardal ddetholedig er y gall y bydd rhai sy'n amherthnasol neu'n gyffredinol. Rhaid i ddysgwyr gynnwys eglurhad yn ogystal o gyd-ddibyniaethau a chydberthnasau'r cyrff sy'n ymwneud â hyn. Bydd peth rhesymu manwl yn yr esboniadau parthed sut mae'r sefydliadau yn denu twristiaid i'r ardal.

(b) Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu teithlen ar gyfer ymwelydd sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Bydd amrediad eang o fathau gwahanol o gyrchnodau wedi'u cynnwys. Dylai teithlenni fod yn strwythuredig ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i'r ymwelydd. Darperir peth manylder yn y deithlen. Dangosir lleoliad pob cyrchnod yn y deithlen yn gywir ar fap. Disgrifir nodweddion allweddol y cyrchnodau a gynhwysir yn y deithlen yn fanwl. Y rhai a ddisgrifir yn fanwl yw'r rhai sy'n berthnasol i wneud y cyrchnod yn boblogaidd ac apelgar, gan arddangos dealltwriaeth o anghenion y twrist a'r nodweddion sy'n bodoli. Rhaid i'r deithlen ddangos cysylltiadau â'r twrist sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain a chwrdd â'u hanghenion. Bydd eglurhad o sut mae'r cyrchnodau a gynhwysir yn y deithlen yn cwrdd ag anghenion y twrist. Caiff hyn ei resymu a bydd yn dangos cysylltiadau â'u hanghenion cydnabyddedig.

(c) Gwnaed peth ymchwil gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau megis gwefannau, gwerslyfrau, pamffledi, arweinlyfrau, y wasg. Gall rhai o'r rhain fod wedi'u cymeradwyo gan diwtor ond defnyddiwyd rhai yn annibynnol. Bydd llyfryddiaeth yn manylu ar y ffynonellau a ddefnyddiwyd a chyfeirnodir rhai ffynonellau o fewn y cynnwys hefyd.

Bydd angen i ddysgwyr arddangos dadansoddiad o raddfa'r twristiaid sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Defnyddir a dadansoddir ystadegau yn y dadansoddiad. Gall rhai fod yn amherthnasol. Ceir rhai casgliadau ynglŷn â graddfa twristiaeth i Ynysoedd Prydain. Mae'r dadansoddiad yn glir.

(ch) Rhaid i dystiolaeth gynnwys gwerthusiad o'r ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod Prydeinig detholedig. Rhaid i ddysgwyr awgrymu sut y gall y cyrchnod detholedig barhau i ddenu twristiaid yn dod i mewn i Ynysoedd Prydain yn y dyfodol. Dylai'r awgrymiadau hyn fod yn realistig a phriodol i'r cyrchnod a'r ymwelydd sy'n dod i mewn. Rhaid i'r gwerthusiad fod yn fanwl. Rhaid i ffactorau fod wedi'u cysylltu'n benodol â phoblogrwydd ac apêl y cyrchnod detholedig.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r Bandiau Marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 3**

Bydd dysgwyr yn cwrdd yn glir â gofynion pob tasg. Bydd y dystiolaeth yn fanwl a chynhwysfawr, yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr. Bydd gwerthuso a rhesymu clir yn y gwaith a gyflwynir. Bydd dysgwyr wedi ymchwilio yn eang ac yn annibynnol gan ddefnyddio'u canfyddiadau i brofi casgliadau. Ar gyfer tasg (a) bydd angen i ddysgwyr ddewis ardal o Ynysoedd Prydain. Gall hyn fod mewn ardal Bwrdd Twristiaeth Rhanbarthol fel *Heart of England*, ardal Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol fel *One North East*, sir fel Sir Benfro, grŵp o siroedd fel Gogledd Iwerddon, neu ardal thematig fel *Hardy Country*. Ar gyfer tasg (b), bydd angen i ddysgwyr gael ysgrifau portread. Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Bydd enghreifftiau o ysgrifau portread yn cael eu darparu yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân.

(a) Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu disgrifiadau manwl a chynhwysfawr o bob prif gorff deithio a thwristiaeth allweddol sy'n cefnogi twristiaeth yn Ynysoedd Prydain ar gyfer yr ardal ddetholedig. Bydd y disgrifiadau yn gynhwysfawr o safbwynt y cyrff a nodir ac yn fanwl o safbwynt eu rolau. Lle ymdrinnir â chyrff o du allan i'r ardal, dangosir y gwahaniaeth yn eglur. Mae angen i ddysgwyr roi eglurhad manwl o gyd-ddibyniaethau a chydberthnasau'r cyrff gan arddangos dealltwriaeth drylwyr o sut y maent yn denu twristiaid i'r ardal. Mae'r esboniad yn amlygu cyd-ddibyniaethau a chydberthnasau yn glir.

(b) Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu teithlen ar gyfer twrist sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Cynhwysir amrediad eang o fathau gwahanol o gyrchnodau. Dylai teithlenni fod wedi'u strwythuro'n dda, yn cyfathrebu yn glir yr holl wybodaeth berthnasol yn fanwl i'r twrist. Bydd teithlenni yn amlygu cynllunio yn newis a threfn y cyrchnodau a gynhwysir yn y deithlen. Caiff lleoliad pob cyrchnod yn y deithlen ei nodi yn gywir ar fap. Rhaid i ddysgwyr ddisgrifio'n fanwl nodweddion allweddol pob cyrchnod a gynhwysir yn y deithlen. Byddant wedi gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n gwneud y cyrchnod yn apelgar a'r rhai sy'n bodoli. Byddant wedi adnabod rhai nodweddion llai adnabyddus gan ddangos ymgais glir i gwrdd ag anghenion twristiaid. Dylai holl agweddau'r deithlen gysylltu'n glir ag anghenion y twrist a dylai pob cyrchnod a ddetholir fod yn briodol. Rhaid bod eglurhad manwl o sut mae'r deithlen yn cwrdd ag anghenion y twrist sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Bydd hwn yn cynnwys rhesymu manwl a chysylltiadau clir ag anghenion twristiaid. Mae'r eglurhad yn debygol o fynd y tu hwnt i'r anghenion penodedig gan y byddant wedi sylweddoli fod rhai gofynion ychwanegol pendant.

(c) Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio amrediad eang o ffynonellau, megis gwefannau, gwerslyfrau, cyfryngau cyrchnodau, erthyglau'r wasg genedlaethol a'r wasg fasnachol. Cafwyd hyd i'r ffynonellau hyn yn bennaf yn annibynnol heb gyfarwyddyd tiwtor. Bydd llyfryddiaeth yn manylu ar y ffynonellau a ddefnyddiwyd a bydd tystiolaeth o'r ffynonellau yn y cyfeirnodi trwy'r cynnwys hefyd.

Bydd angen i ddysgwyr amlygu dadansoddiad manwl o raddfa'r dwristiaeth sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Rhaid i ddysgwyr ddefnyddio gwybodaeth ystadegol a data arall. Mae'r holl ddata yn berthnasol, yn cael ei ddefnyddio a'i ddehongli. Rhaid tynnu casgliadau sy wedi'u profi o'r ymchwil a wnaethpwyd.

(ch) Rhaid i dystiolaeth gynnwys gwerthusiad beirniadol o'r holl ffactorau sy wedi arwain at boblogrwydd ac apêl cyrchnod Prydeinig detholedig. Dylai'r casgliadau a wneir gael eu profi. Rhaid i ddysgwyr wneud awgrymiadau o sut y gall cyrchnod detholedig ddenu ymwelwyr sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain yn y dyfodol. Dylai'r awgrymiadau hyn fod yn realistig a phriodol ar gyfer y cyrchfan yn ogystal â'r ymwelydd sy'n dod i mewn a rhaid eu profi a'u cyfiawnhau.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marc* am gyfarwyddyd pellach.)

## Cyflwyno'r uned hon

**Ymchwil**

Dylid annog dysgwyr i gyrchu'r rhyngrwyd i gefnogi datblygu gwybodaeth o fathau gwahanol o gyrchnodau yn Ynysoedd Prydain, a'r cyrff sy'n ymwneud â chefnogi twristiaeth yma. Gallent ddechrau trwy edrych ar y gwahanol fathau o gyrchnodau a nodweddion pob un. Gellid defnyddio'r rhyngrwyd hefyd fel adnodd i ymchwilio i wybodaeth am gyrchnod, a fyddai'n gefn i gynhyrchu'r deithlen ac hefyd i ymchwilio i'r ffactorau sy'n effeithio cyrchnod. Gellir ei defnyddio i gyrchu gwybodaeth ystadegol. Dylid annog dysgwyr hefyd i gasglu erthyglau o bapurau newyddion a chylchgronau sy'n darlunio cyrchnodau yn Ynysoedd Prydain. Dylent ddilyn cyfryngau eraill yn ogystal i ehangu'u gwybodaeth am y ffactorau sy'n effeithio cyrchnodau twristiaeth a phoblogrwydd cyrchnodau yn Ynysoedd Prydain.

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniadau** | Dylai dysgwyr roi cyflwyniadau byrion ar eu hymchwil o fathau gwahanol o gyrchnodau ledled Ynysoedd Prydain. Dylid defnyddio cyflwyniadau hefyd fel dull asesu tasgau. Gallai dysgwyr gyflwyno'u canfyddiadau ar y cyrff yn eu hardal ddetholedig a chyd-ddibyniaethau a chydberthnasau'r cyrff. Neu gallai'r cyflwyniadau fod ar y deithlen ar gyfer ymwelydd penodol sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain. Gallent wneud eu cyflwyniadau i'w cyfoedion. |
| **Ysgrifau portread** | Gellid cyflwyno ysgrifau portread o fathau gwahanol o dwristiaid sy'n dod i mewn i ddysgwyr ar gyfer trafodaeth. Ar y cychwyn gallent ffocysu ar ddysgwyr yn adnabod un cyrchnod addas ac adeiladu yn gynyddol ar hynny i rywbeth mwy cymhleth. Gallai dysgwyr ysgrifennu'u hysgrifau portread eu hunain, efallai o'r math o dwrist a fyddai'n cael cyrchnod yn apelgar, gan ddysgu cyfiawnhau'u hargymhellion. |
| **Astudiaethau achos** | Gellid defnyddio astudiaethau achos o gyrchnodau gwahanol i ddatblygu dealltwriaeth o'r math o gyrchnod, nodweddion ac apêl y cyrchnod hwnnw. Gall astudiaethau achos roi cyfleoedd i drafod ymhellach yn ogystal â gwneud y dysgwr yn gyfarwydd ag amrywiaeth o fathau o gyrchnodau. |
| **Siaradwyr gwadd** | Gall y defnydd o gyrff megis English Heritage, Bwrdd Croeso Cymru, Blue Badge Guides, asiantaethau datblygu rhanbarthol a.y.y.b. roi dealltwriaeth dda i ddysgwyr o unrhyw agwedd o'r uned hon. Gall siaradwyr gwadd gynnig hygrededd yn ogystal â chynnig cyfle i ddysgwyr ofyn cwestiynau. Dylai hŷm gefnogi'u dealltwriaeth gan y gall siaradwr gwadd ymateb i gwestiynau rhywbeth na ellir ei wneud trwy werslyfr. Byddant yn datblygu'u sgiliau cyfathrebu llafar hefyd. |
| **Ymweliadau** | Efallai mai profiad cyfyngedig fydd gan lawer o ddysgwyr o dwristiaeth yn Ynysoedd Prydain neu dwristiaeth mewn mathau gwahanol o gyrchnodau. Gall ymweliadau trwy deithiau dydd neu breswyl gynorthwyo'u dealltwriaeth o apêl mathau gwahanol o gyrchnodau, a rhoi profiad iddynt o rai o'r nodweddion sy'n gwneud y cyrchnod hwnnw yn apelgar. Yn ystod ymweliadau, dylent wneud ymchwil, trwy arolwg er enghraifft, o'r hyn oedd yn apelgar am y cyrchnod. |
| **Fideos** | Mae nifer o fideos dogfennol megis rhaglenni Travel and Tourism Learning Zone y BBC sy'n rhoi delwedd weledol o gyrchnodau i ddysgwyr ac sy'n amlygu apêl y cyrchnod. Gall y fideos roi cyfle i drafod ymhellach yn ogystal â gweld apêl amrywiaeth o gyrchnodau. Mae llawer o gyrchnodau fel Center Parcs yn cynhyrchu fideos hyrwyddo hefyd. |

## Cysylltau

**Unedau eraill**

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth* — Mae'r uned hon yn adeiladu ar eu dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau mathau gwahanol o sefydliadau yn y diwydiant teithio a thwristiaeth.

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth* - mae'n rhoi'r cyfle i ystyried anghenion ymwelwyr sy'n dod i mewn i Ynysoedd Prydain a ddatblygwyd yn yr uned gwasanaethau cwsmer wrth archwilio addasrwydd cyrchnodau ar gyfer twrsitiaid sy'n dod i mewn, apêl a nodweddion cyrchnod.

*Uned 10: Hyrwyddo a Gwerthiant mewn Teithio a Thwristiaeth* -gallai nodweddion cyrchnodau yn Ynysoedd Prydain adeiladu ar eu dealltwriaeth o werthiant a hyrwyddiad wrth ystyried apêl cyrchnod.

*Uned 12: Cyrff Teithio* — yn darparu dealltwriaeth o amrediad o gyrff teithio.

**Diwydiant**

Gallai ymweliad â chyrchnod yn Ynysoedd Prydain roi cyfle i gymharu nodweddion ac apêl yr ardal leol yn ogystal â chefnogi gwybodaeth o amrywiaeth o gyrchnodau. Gallai siaradwyr gwadd ddarparu gwybodaeth wych am gyrchnodau hefyd. Gellid sefydlu cysylltiadau defnyddiol gyda'r Ganolfan Wybodaeth Dwristiaeth leol, swyddfa / adran dwrist awdurdod lleol a'r Blue Badge Guides.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)**

Gall yr uned hon ddarparu cysylltiadau â'r unedau canlynol o CGCau Gwasanaethau Teithio a Thwristiaeth:

T1 Gwerthu gwasanaethau teithio

T14 Adnabod a darparu gwybodaeth a chyngor cysylltiedig â thwristiaeth

T33 Cyflwyno a gwerthuso sylwebaethau dehongliadol

T39 Ymchwilio a datblygu teithlenni teithiau pleser.

---

## Adnoddau

**Gwerslyfrau**

Holloway J C — *The Business of Tourism, Fifth Edition* (Longman, 1998) ISBN 0582328810

Horner P — *The Travel Industry in Britain* (Stanley Thornes, 1991) ISBN 0748705996

Law C — *Urban Tourism* (Thomson Learning, 2002) ISBN 0826449263

Page S — *Transport for Tourism* (International Thomson Business Press, 1999) ISBN 1861529694

Youell R — *Vocational A-level Travel and Tourism Options, Second Edition* (Longman, 2000) ISBN 0582404460

| | | |
|---|---|---|
| **Gwefannau** | British Incoming Tour Operators Association | www.bitoa.co.uk |
| | Department for Culture, Media and Sport | www.culture.gov.uk |
| | English Heritage | www.english-heritage.org.uk |
| | GeoProjects | www.geoprojects.co.uk |
| | Guild of Registered Tourist Guides | www.blue-badge.org.uk |
| | Lake District National Park Authority | www.lake-district.gov.uk |
| | Yr Ymddiriedolaeth genedlaethol | www.nationaltrust.org.uk |
| | Northern Ireland Tourist Board | www.discovernorthernireland.com |
| | Scottish Youth Hostels Assoc. | www.syha.org.uk |
| | Star UK (ystadegau ar dwristiaeth) www.staruk.com | |
| | Tourism Concern | www.tourismconcern.org.uk |
| | Visit Britain | www.visitbritain.com |
| | Visit Scotland | www.visitscotland.com |
| | Visit Wales | www.visitwales.com |
| | Youth Hostels Association (England and Wales) | www.yha.org.uk |

**Fideos**

BBC Learning Zone —rhaglenni teithio a thwristiaeth

*The Holiday Programme*

*Wish You Were Here*

**Amlgyfrwng**

*Travel Geography* CD-Rom — The Travel Training Company, 2000

**Darllen arall**

Adrannau teithio papurau dyddiol

*In Britain* (Visit Britain)

*Insights* (English Tourism Council)

*Travel Trade Gazette* — CNP Information Ltd

# Uned 5: Teithio'n Ddiogel

## UG Uned Orfodol (Dyfarniad Dwbl)

## Asesiad allanol

## Cyflwyniad

Drwy'r uned hon byddwch yn dod i wybod sut mae'r diwydiant teithio a thwristiaeth yn gweithredu i sicrhau diogelwch y teithiwr - y person, ei eiddo a'i arian. Mae diogelwch yn golygu eu hiechyd a'u diogelwch. Byddwch yn archwilio'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol y mae llywodraethau ac asiantaethau wedi'u gosod ar gyrff, a sut y gweithredir y gofynion hyn mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae llawer o wledydd yn amddiffyn y teithiwr trwy gyfyngu mynediad. Byddwch yn dysgu am y mesurau a ddefnyddir a'u goblygiadau i'r teithiwr. Byddwch yn archwilio hefyd sut mae'r diwydiant yn delio â sefyllfaoedd argyfyngus, p'un ai ar raddfa fechan megis problemau meddygol a ddaw ar draws teithiwr, neu rai ar raddfa fawr fel corwyntoedd a ffrwydradau llosgfynyddoedd.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth*

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth*

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 5.1 Gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol

Byddwch yn dysgu am y cyrff allweddol sy’n ymwneud â rheoleiddio'r diwydiant teithio a thwristiaeth. Byddwch yn dysgu gwahaniaethu rhwng y cyrff hyn trwy grynhoi'u prif gyfrifoldebau rheoleiddiol a'r rheoliadau y maent wedi'u sefydlu. Y cyrff y mae angen i chi ddysgu amdanynt yw'r:

- Awdurdod Hedfan Sifil (CAA)
- Cymdeithas Trefnwyr teithiau Prydain (ABTA)
- Cymdeithas Cludiant Awyr Rhyngwladol (IATA)
- Cyd-Awdurdodau Hedfan (JAA).

Byddwch yn dysgu hefyd i ddadansoddi sut mae'r cyrff hyn yn effeithio ar fathau gwahanol o gyrff teithio a thwristiaeth.

Gosodir llawer o ofynion cyfreithiol ar y diwydiant. Mae rhai o'r rhain yn benodol i'r diwydiant ac mae rhai eraill yn ymwneud â phob corff. Byddwch yn archwilio'r deddfau hyn fel y gellwch wahaniaethu rhyngddynt a rhoi crynodebau cywir o bob un. Y deddfwriaethau y mae angen i chi ddysgu amdanynt yw:

- Cyfarwyddeb yr UE
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
- Deddf Gwrachod Data
- Deddf Disgrifiadau Masnachol
- Deddf Masnachu Teg
- Deddf Gwerthiant Nwyddau a Gwasanaethau.

Sylwer, ni nodir dyddiad y ddeddfwriaeth gan y bydd disgwyl i chi wybod y Deddfau sy'n gyfredol yn ystod cyfnod eich astudiaethau chi.

Byddwch yn dysgu dadansoddi sefyllfaoedd a gewch mewn astudiaeth achos i benderfynu pa ddeddfwriaeth sy'n berthnasol. Byddwch yn dysgu hefyd i ddadansoddi sut mae Cyrff Teithio a thwristiaeth yn trefnu'u harferion a'u gweithdrefnau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Byddwch yn dysgu gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau i arferion a gweithdrefnau ac yn dadansoddi goblygiadau posibl hyn i deithwyr a chyrff teithio a thwristiaeth.

## 5.2 Cyfyngiadau ar deithio

Mae llawer o lywodraethau cenedlaethol yn cyfyngu ar symudiadau twristiaid. Gall hyn fod i mewn i, o fewn neu allan o'r wlad. Digwydd hyn yn bennaf trwy ddefnyddio trwyddedau teithio neu deithebau (*visas)*. Mae gan gyrff teithio a thwristiaeth fesurau hefyd sy'n cyfyngu ar deithio megis tocynnau a thocynnau byrddio *(boarding passes)*. Byddwch yn dysgu defnyddio'r wybodaeth a ddarperir i gynghori teithwyr am drwyddedau teithio, teithebau a mesurau eraill a ddefnyddir i gyfyngu ar deithio. At hyn, byddwch yn dysgu dadansoddi'r goblygiadau i gyrff yn y diwydiant teithio a thwristiaeth o fethu â gweithredu'r cyfyngiadau hyn.

Gyda theithio rhyngwladol yn cynyddu, mae'r potensial i glefydau ledu ar draws ffiniau yn cynyddu hefyd. Yn fynych cyfyngir teithwyr rhag mynd i mewn i wlad o wlad arall lle mae clefydau heintus yn gyffredin. Byddwch yn dysgu am y prif glefydau heintus sy yn y byd fel y gellwch adnabod ble maen nhw a disgrifio'r achosion a'r symptomau a sut y lleiheir lledu'r risg. Y clefydau y bydd angen i chi ddysgu amdanynt yw:

- colera
- teiffoid
- HIV a chlefyd AIDS
- y dwymyn felen
- malaria
- Hepatitis C.

Byddwch yn dysgu defnyddio'r wybodaeth sy ar gael i gynghori teithwyr am y risg a'r cyfyngiadau posibl.

## 5.3 Sefyllfaoedd argyfyngus

Byddwch yn dysgu am sefyllfaoedd argyfyngus ar raddfa-fechan, gan gynnwys:

- gwyliau wedi'u canslo
- gwyliau wedi'u cwtogi
- problemau meddygol
- pasbort ar goll
- arian ar goll
- bagiau ar goll
- lladrad ac ymosodiadau
- arestio a charchariad.

Byddwch yn dysgu dehongli gwybodaeth, megis polisïau yswiriant a chytundebau gweithredwyr teithiau, fel y gellir cynghori cwsmeriaid ynglŷn â sut i ddelio â sefyllfaoedd argyfyngus ar raddfa fechan.

Byddwch yn dysgu am gyrff allweddol sy'n gallu darparu cymorth i ddelio â sefyllfaoedd argyfyngus, megis y Swyddfa Dramor a'u llysgenadaethau a'u consyliaethau, cwmnïau yswiriant, cwmnïau cymorth meddygol, gweithredwyr teithiau a chwmnïau hedfan. Byddwch yn dysgu enwi'r corff neu'r asiantaeth a all roi cymorth ac egluro'r math o gymorth y gallant ei roi.

Byddwch yn dysgu hefyd am sefyllfaoedd argyfyngus sylweddol, difrifol a elwir *force majeure*, megis:

- rhyfeloedd
- ymosodiadau terfysgwyr
- streiciau
- trychinebau naturiol megis ffrwydradau llosgfynyddoedd, llifogydd
- tywydd difrifol megis corwyntoedd
- cychwyn clefyd difrifol
- trychinebau eraill fel damweiniau awyren a thrên.

Trwy ymchwil, byddwch yn dysgu sut mae'r diwydiant yn delio â'r sefyllfaoedd hyn. Byddwch yn dysgu disgrifio sefyllfaoedd a dadansoddi sut yr ymdopwyd â hwy gan gyrff yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Byddwch yn dysgu gwneud argymhellion hefyd ynglŷn â sut y gallai cyrff yn y diwydiant teithio a thwristiaeth ddelio â sefyllfaoedd argyfyngus.

## Tystiolaeth Asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu trwy asesiad allanol.

Y marc a gewch am yr asesiad hwn fydd eich marc am yr uned.

Bydd yr asesiad allanol ar ffurf prawf wedi'i farcio. Bydd y prawf yn cynnwys cyfres o gwestiynau atebion-byr a hir. Bydd cynnwys yr asesiad allanol yn perthnasu'n uniongyrchol i'r hyn y dylech fod wedi'i ddysgu o ganlyniad i'r gweithgareddau yr ydych wedi'u gwneud fel rhan o'ch gwaith yn yr uned hon.

Bydd angen i chi allu cymhwyso'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o'r uned i alwadau'r cwestiynau a osodwyd. Mae'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i sefyllfaoedd gwahanol yn baratoad amhrisiadwy ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg uwch. Mae asesu allanol yn un enghraifft lle mae'r trosglwyddiad hwn yn hanfodol e.e ymdopi ag amodau dan reolaeth asesiad allanol, y senarios ac ymateb i gwestiynau.

Bydd ar yr aseswr allanol angen tystiolaeth o:

(a) gallu i arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth, o gynnwys pwnc yr uned hon, ac o sgiliau cysylltiedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol

(b) gallu cymhwyso'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o gynnwys pwnc yr uned hon ac o sgiliau cysylltiedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol

(c) gallu defnyddio technegau ymchwil priodol i gaffael gwybodaeth i ddadansoddi materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol

(ch) gallu gwerthuso gwybodaeth i wneud dyfarniadau rhesymegol, tynnu casgliadau a gwneud argymhellion ynglŷn â materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol.

---

## Cyflwyno'r uned hon

**Seminarau wedi'u harwain gan ddysgwyr**

Mae amrediad o ffynonellau gwybodaeth y gall dysgwyr gael hyd iddynt yn ymwneud â'r pynciau a amlinellir yn yr uned hon. Ni fydd pob un ohonynt yn ymwneud yn benodol â theithio a thwristiaeth ond bydd cynnwys perthnasol iddynt. Gellid rhannu dysgwyr yn grwpiau bach i wneud ymchwil ar agweddau gwahanol yr uned. Gallai hynny ddigwydd wrth archwilio deddfwriaeth a rheoliad gwahanol, er enghraifft neu fathau gwahanol o sefyllfaoedd argyfyngus. Gallai pob grŵp ymgymryd ag ymchwil lle mae'r canfyddiadau yn cael eu cyflwyno i weddill y dosbarth. Gallai hyn fod ar ffurf seminar 30-munud gyda phob grŵp yn cael ffocws clir. Bydd angen i ddysgwyr fod wedi cael profiad o seminarau cyn ymgymryd â'r gweithgaredd hwn fel eu bod yn deall y pwrpas a'r broses y byddant yn ei arwain. Bydd y gweithgareddau hyn yn datblygu amrediad o sgiliau gan y byddant yn gweithio mewn grŵp, yn ymchwilio i wybodaeth ac yn cyfathrebu canfyddiadau. Ar y llaw arall gallai'r seminarau fod yn 'sesiwn hyfforddiant i grŵp o staff yn eich corff' fel y gall dysgwyr weld perthnasedd galwedigaethol eu gweithgaredd a datblygu eu gallu i ymgymryd â chyfrifoldebau goruchwylio wrth weithio yn y diwydiant yn ogystal.

**Astudiaethau achos o sefyllfaoedd argyfyngus gwahanol**

Mae llawer o enghreifftiau o sefyllfaoedd argyfyngus, ar raddfa fach a mawr, y gellir cael hyd iddynt ar y rhyngrwyd ac yn y wasg genedlaethol a'r wasg deithio. At hyn, gall y dysgwyr eu hunain fod wedi cael profiad o sefyllfa argyfyngus. Gallent ysgrifennu astudiaethau achos o'u profiadau eu hunain neu o'r rhai y maent wedi arsylwi arnynt. Neu, gellid gofyn iddynt gynhyrchu astudiaethau achos efelychiadol. Bydd astudiaethau achos yn caniatáu i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth i sefyllfaoedd galwedigaethol. I ddechrau, dylid defnyddio astudiaethau achos mewn trafodaethau lle gallant ddod yn gyfarwydd â'r cynnwys. Yn gynyddol, dylid eu cyflwyno i astudiaethau achos nad ydynt yn gyfarwydd â nhw er mwyn eu paratoi ar gyfer yr arholiad lle bydd yr astudiaeth achos a gyflwynir yn anghyfarwydd.

**Ymchwil i'r diwydiant teithio a thwristiaeth**

Mae'n bosibl y gellir cyflwyno llawer o gynnwys yr uned hon i ddysgwyr ar ffurf taflenni ond ni fyddai hynny yn cefnogi dysgu a datblygiad llawer o ddysgwyr. Mae'n well i ddysgwyr gymryd peth cyfrifoldeb dros wneud eu hymchwil eu hunain fel y dônt yn gyfarwydd â ffynonellau gwahanol a sut y gellid eu defnyddio ar gyfer unedau eraill. Mae'r wasg genedlaethol a'r wasg deithio yn darparu cyfoeth o wybodaeth am sefyllfaoedd argyfyngus gwahanol a sut yr ymdopir â nhw. Bydd angen i ddysgwyr ymchwilio i fathau gwahanol o sefyllfaoedd er mwyn paratoi ar gyfer yr arholiad. Gellid cyflwyno canlyniadau'u hymchwil mewn seminar, fel y nodwyd uchod, neu trwy chwaraeon rôl (gweler isod). Gallai dysgwyr gynhyrchu bwrdd stori ar gyfer sioe radio neu deledu hefyd neu gyflwyno arddangosfa o'u canfyddiadau.

**Chwaraeon rôl**

Rhydd yr uned hon gyfleoedd i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, rhyngbersonol a datrys problem. Mae'n bwysig fod dysgwyr yn gallu cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol y maent wedi'u caffael i sefyllfaoedd galwedigaethol. Mae'r uned yn gofyn am gaffael swm sylweddol o wybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol ond dim ond os gellir eu cymhwyso y maent yn ddefnyddiol. Tra bydd yr asesiad allanol yn gofyn i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn ysgrifenedig, gallai'r uned roi cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso mewn sefyllfaoedd efelychiadol lle maent yn dysgu delio â gwahanol fathau o gwsmeriaid mewn cyd-destunau gwahanol. Gall hyn gynorthwyo'u dealltwriaeth o gyfrifoldebau asiantaethau gwahanol os chwaraeant rôl aelod o staff o fewn y corff.

**Gweithgareddau ysgrifenedig**

Drwy'r uned hon, mae llawer o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau ymarferol y dysgwyr trwy chwaraeon rôl a thrwy ddefnyddio astudiaethau achos. Mae bod â sgiliau cyfathrebu llafar effeithiol yn un o ofynion allweddol y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant teithio a thwristiaeth a chymeradwyir gweithgareddau sy'n datblygu'r sgiliau hyn. Mae'r asesiad allanol, fodd bynnag, ar ffurf arholiad ysgrifenedig. Dylai dysgwyr baratoi ar gyfer yr arholiad hwn trwy gwblhau rhai gweithgareddau yn ysgrifenedig fel y gallant ddysgu sut i strwythuro'u hymatebion yn glir.

**Siaradwyr gwadd ac ymweliadau yn ymwneud â sectorau gwahanol y diwydiant teithio a thwristiaeth**

Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ennill gwybodaeth o rolau gwahanol sectorau'r diwydiant trwy arsylwi. Byddai ymweliad â maes awyr, porthladd fferi a/neu derfynfa reilffordd, er enghraifft, yn galluogi dysgwyr i weld sefyllfaoedd argyfyngus posibl drostyn nhw'u hunain a sut mae deddfwriaeth a rheoleiddio wedi effeithio'r gweithredu. Dylai hyn hybu'u dealltwriaeth gan eu bod yn debygol o gael cyfle i ofyn cwestiynau, rhywbeth na allant ei wneud o wybodaeth a geir mewn gwerslyfr. Gallai siaradwyr gwadd fod yn bobl sy'n gweithio ar hyn o bryd neu sy wedi gweithio yn y diwydiant ac sy wedi delio â sefyllfa argyfyngus. Yn ystod y gaeaf, bydd llawer o gynrychiolwyr tramor a chriw caban yn y DU y gellid eu gwahodd i drafod eu profiadau. Gallai siaradwyr gwadd fod yn aelodau o'r gymuned leol sy wedi profi sefyllfa argyfyngus yn ogystal. Effeithiodd corwyntoedd difrifol yn y Caribî yn ddiweddar ar lawer o dwristiaid o'r DU a all fod ar gael i drafod eu profiadau.

**Diweddaru gweithgareddau'r diwydiant yn rheolaidd trwy adolygiadau papurau newydd a chylchgronau.**

Mae adolygiadau wythnosol neu fisol yn adrannau teithio papurau dyddiol neu yn y wasg fasnachol fel *Travel Weekly* a *Travel Trade Gazette* yn atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o sefyllfaoedd argyfyngus diweddar ac o ymatebion y diwydiant iddynt. Mae'n hybu'u dealltwriaeth o rôl y gwahanol gyrff hefyd.

## Cysylltau

### Unedau eraill

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth* — mae'r uned hon yn adeiladu ar eu dealltwriaeth o fathau gwahanol o gyrff yn y diwydiant teithio a thwristiaeth.

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth* -gall dysgwyr ddefnyddio'u gwybodaeth am gyfathrebu â chwsmeriaid i roi cyngor ar gyfyngiadau teithio a delio â sefyllfaoedd argyfyngus.

*Uned 6: Gweithrediadau Cyrchfan* bydd dysgwyr yn dysgu delio â sefyllfaoedd problematig fel cynrychiolwyr tramor ac am rôl swyddfa'r cyrchfan yn trafod sefyllfaoedd argyfyngus.

*Uned 8: Materion Cyfredol mewn Teithio a Thwristiaeth* — efallai y bydd dysgwyr yn datblygu diddordeb yn niogelwch a diogeliad teithwyr y gellid ei astudio yn fwy trwyadl.

*Uned 9: Gweithio Mewn Teithio a Thwristiaeth* — gallai gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r diwydiant teithio a thwristiaeth yn cynnal diogelwch teithwyr fod o gymorth i ddysgu am y sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen yn rhai sectorau o'r diwydiant.

*Uned 12: Cyrff Teithio* — efallai y bydd dysgwyr yn dymuno archwilio sector o'r diwydiant lle mae diogelwch y teithiwr yn elfen allweddol o'u gweithrediadau.

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)

Gall yr uned hon gynnig cysylltiadau â'r unedau canlynol o CGCau Gwasanaethau Teithio a Thwristiaeth:

T9 Cynorthwyo gyda phroblemau ac argyfyngau teithio a thwristiaeth

T34 Monitro gweithdrefnau i reoli risg i Iechyd a Diogelwch

T37 Delio ag argyfyngau teithio a thwristiaeth.

## Adnoddau

**Gwerslyfrau**

Cambridge Training and Development Ltd — *Advanced Travel and Tourism* (Oxford University Press, 2000) ISBN 0198328273

Dale G and Oliver H — *Travel and Tourism for Advanced GNVQ* (Hodder Arnold H&S, 2000) ISBN 0340781998

Holloway J C — *The Business of Tourism* (Longman, 1998) ISBN 0582328810

Outhart T et al — *Travel and Tourism for Advanced GNVQ* (Collins Educational, 2000) ISBN 000329109X

Prosser R — *Leisure, Recreation and Tourism* (Collins Educational, 2000) ISBN 0003266508

Yale P — *The Business of Tour Operations* (Longman, 1995) ISBN 0582277973

Youell R — *Vocational A-level Travel and Tourism Options, Second Edition* (Longman, 2000) ISBN 0582404460

**Gwefannau**

| | |
|---|---|
| Association of British Travel Agents | www.abtanet.com |
| BBC Watchdog | www.bbc.co.uk/watchdog |
| Civil Aviation Authority | www.caa.co.uk |
| Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad | www.fco.gov.uk |
| Y Swyddfa Gartref | www.homeoffice.gov.uk |
| International Air Transport Association | www.iata.org |
| Travel Weekly | www.travelweekly.co.uk |
| UK Passport Service | www.ukpa.gov.uk |
| World Travel Guide | www.wtg-online.com |

**Fideos**

*Airline*

*Airport*

*Watchdog*

**Darllen arall**

*Insights* — English Tourism Council

Polisïau yswiriant

Pamffledi gweithredwyr teithiau

*Travel Trade Gazette* — CNP Information Ltd

*Travel Weekly* — Reed Business Information Ltd

# Uned 6: Gweithrediadau Cyrchfan

## UG Uned Orfodol (Dyfarniad Dwbl)

## Asesiad mewnol

## Cyflwyniad

Mae 'Gweithrediadau cyrchfan' yn ymwneud â gwaith gweithredwr teithiau mewn cyrchfan. Mae'n chwarae rhan allweddol yn galluogi gweithredwr teithiau i gyflwyno'i gynnyrch a'i wasanaeth i'r cwsmer. Mae'r uned hon yn archwilio gweithrediadau cyrchfan yn nhermau'r dyletswyddau a'r gweithgareddau a gyflawnir yn y swyddfa gyrchfan. Mae'r swyddfa gyrchfan yn gweithio'n agos gydag adrannau yn y DU a byddwch yn archwilio sefyllfaoedd lle byddant yn cysylltu â'i gilydd. Byddwch yn edrych hefyd ar ddyletswyddau'r cynrychiolydd cyrchfan ac yn datblygu sgiliau ymarferol i ddelio â sefyllfaoedd a drafodir dramor mewn sefyllfaoedd syml a chymhleth. Byddwch yn edrych ar arwyddocâd cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch i gynrychiolwyr tramor.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth*

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth*

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 6.1 Gweithgar-eddau'r swyddfa gyrchfan

Byddwch yn dysgu sut mae swyddfeydd cyrchfan gweithredwyr teithiau yn cael eu trefnu fel y gellwch ddisgrifio sut y maent yn gweithredu o ran paratoi a delio â chwsmeriaid yn y cyrchfan. Byddwch yn dysgu am y gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni yn y swyddfa gyrchfan megis:

- sut y trefnir ac y cyflenwir rhestri ystafelloedd
- sut y trefnir gwibdeithiau
- cysylltu ag asiantaethau lleol
- sut y trefnir cludiant i drosglwyddo teithwyr i ac o'r maes awyr
- sut mae'r swyddfa gyrchfan yn delio â dyraniad ystafelloedd ychwanegol
- y gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion ac argyfyngau.

Byddwch yn dysgu fod staff gwahanol yn delio â gweithrediadau cyrchfan. Byddwch yn dysgu disgrifio rolau swyddi'r staff tramor gwahanol a gyflogir gan y gweithredwr teithiau gan gynnwys:

- staff gweinyddol
- cynrychiolwyr tramor eraill
- arweinwyr tîm
- rheolwyr cyffredinol, ardal a thîm.

Byddwch yn dysgu disgrifio'r math o sefyllfaoedd lle mae staff cyrchfan yn cysylltu â swyddfa'r DU, fel diweddariadau ar waith adeiladu ac argyfyngau. Byddwch yn dysgu egluro pam a sut y delir â'r sefyllfaoedd hyn.

Byddwch yn dysgu egluro sut mae'r swyddfa gyrchfan yn gweithredu mewn termau cyffredinol ac yna trwy ymchwil sut y caiff hyn ei gymhwyso i weithredwyr teithiau gwahanol, gan gynnwys sut y mae'n gwahaniaethu rhwng cyrchfannau a rhwng gweithredwyr teithiau gwahanol. Byddwch yn ymchwilio enghreifftiau o'r mathau o sefyllfaoedd lle mae staff cyrchfan yn cysylltu â swyddfa'r DU hefyd.

## 6.2 Dyletswyddau cynrychiolydd cyrchfan

*Cyfarfod croeso*

Byddwch yn dysgu sut i drefnu a chyflwyno cyfarfod croeso llwyddiannus gan gynnwys sut i ddal sylw eich cynulleidfa. Byddwch yn dysgu am gynnwys cyfarfod croeso gan gynnwys:

- cyflwyniad a chroeso
- cyfeirio at iechyd a diogelwch
- gwybodaeth a ddarperir am yr eiddo, y cyrchnod
- gwerthu gwibdeithiau
- cyngor am yr amwynderau lleol.

Byddwch yn dysgu sut i strwythuro a chyflwyno cyfarfod croeso a sut i'ch cyflwyno eich hun mewn dull hyderus a phroffesiynol gan gyfleu delwedd gadarnhaol ar ran corff.

Byddwch yn dysgu hefyd sut i gynhyrchu defnyddiau a ddefnyddir i drefnu a chyflwyno cyfarfod croeso megis gwahoddiadau, llyfrynnau gwybodaeth am wibdeithiau a gwasanaethau eraill, mapiau a ffurflenni archebu.

Byddwch yn dysgu sut i ymchwilio am wybodaeth fel y gellwch baratoi a chyflwyno cyfarfod croeso gyda defnyddiau.

*Gwerthu*

Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd croeso yn rhoi cyfleoedd i gynrychiolwyr cyrchfannau werthu cynhyrchion a gwasanaethau ychwanegol y gweithredwr teithiau gan gynnwys hurio ceir a gwibdeithiau. Mae gan gynrychiolwyr tramor ymweliadau llety hefyd sy'n rhoi cyfle arall iddynt werthu. Byddwch yn dysgu am y cynhyrchion a'r gwasanaethau a werthir gan gynrychiolwyr tramor ac yn dysgu sut i arddangos sgiliau gwerthu effeithiol i werthu cynhyrchion a gwasanaethau i gwsmeriaid gwahanol.

*Dogfennaeth*

Byddwch yn dysgu sut i gwblhau'r ddogfennaeth a ddefnyddir mewn prosesau gwerthu, megis:

- derbynebau
- adroddiadau diddymu (*liquidation)*
- ffurflenni archebu gwibdeithiau
- ffurflenni archebu hurio car.

*Sefyllfaoedd problematig*

Un o gyfrifoldebau allweddol cynrychiolydd cyrchfan yw delio â sefyllfaoedd problematig eu cwsmeriaid. Byddwch yn dysgu sut y dylid delio â sefyllfaoedd problematig ac yn datblygu sgiliau i ddangos y gallwch gymhwyso'r wybodaeth honno mewn sefyllfaoedd efelychiadol megis:

- gorarchebu
- ystafell frwnt /fudr
- sŵn oherwydd gwaith adeiladu neu gwsmeriaid eraill
- damwain
- pasbort wedi'i golli neu wedi'i ddwyn.

Ar gyfer y cyfarfod croeso, y sefyllfaoedd gwerthu a phroblematig, byddwch yn cael ysgrifau portread o dwristiaid sy'n disgrifio'u hanghenion a'u hamgylchiadau. Byddwch yn dysgu cymhwyso'ch gwybodaeth o sut i ddelio â chwsmeriaid a'r wybodaeth y byddai'i hangen ar gyfer pob twrist ar gyfer pob sefyllfa a drafodir. Dylech ddysgu cynnwys gwybodaeth briodol am y cyrchnod sy'n cwrdd ag anghenion twristiaid fel y'u hamlygwyd ym mhob ysgrif bortread.

**6.3 Arwyddocâd cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch staff i roi gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel**

I lawer o gwsmeriaid, mae'r rôl mae'r cynrychiolydd cyrchfan yn ei chwarae yn hanfodol i'w mwynhad o'u gwyliau. Os na chaiff problemau mân hyd yn oed eu datrys yn effeithiol gallai hyn gael effaith andwyol ar lefel eu boddhad. I weithredwyr teithiau, y cynrychiolydd cyrchfan yw'r unig berson y mae'r cwsmer yn debyg o ddod i gyswllt ag e a rhaid i'r rhyngweithiad hwnnw gyflwyno delwedd gadarnhaol o'r corff . Mae gweithredwyr teithiau yn gwneud cryn fuddsoddiadau mewn cyflwyno a hyfforddi'u staff. Byddwch yn dysgu beth yw rhaglen gyflwyno a'r wybodaeth a gynhwysir yn y rhaglen. Byddwch yn dysgu hefyd faint a pha fath o hyfforddiant a wneir gan gynrychiolydd cyrchfan cyn ac yn ystod ei gyflogaeth, megis:

- mewnol
- mentora
- allanol
- cysgodi gweithiwr arall
- ymweliadau.

Byddwch yn dysgu hefyd am gynnwys yr hyfforddiant a roddir i gynrychiolydd cyrchfan er mwyn gwerthuso arwyddocâd gwybodaeth cynnyrch er mwyn rhoi gwasanaeth cwsmer o ansawdd. Byddwch yn dysgu ymchwilio i'r math o wybodaeth cynnyrch y mae angen i gynrychiolydd ei wybod, megis:

- y gwibdeithiau mae'r cwmni'n eu darparu
- gwybodaeth am bolisïau ac arferion cwmni
- proffil cwmni
- gofynion cyfreithiol a rheoliadol
- iechyd a diogelwch
- gwybodaeth cyrchfan a chyrchnod
- gofynion eiddo.

Byddwch yn dysgu sut i ymchwilio i ffynonellau gwahanol o wybodaeth fel y gellwch werthuso arwyddocâd, cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch ar gyfer cynrychiolwyr tramor er mwyn rhoi gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel, ac yn rhoi enghreifftiau o gyflwyno a hyfforddiant a wnaethpwyd gan weithredwyr teithiau.

## Tystiolaeth asesu

Gallai tystiolaeth asesu fod ar sawl ffurf wahanol i ganiatáu cymryd arddulliau a hoffterau dysgu dysgwyr i ystyriaeth. Bydd datganiadau tyst am y cyfarfod croeso, y datrys problem a'r gweithgaredd gwerthu. Dylai tystiolaeth atodol gynnwys dogfennaeth wedi'i chwblhau a defnydd i gefnogi megis taflenni gwybodaeth.

Dylid bod tystiolaeth o dasgau eraill trwy adroddiadau ysgrifenedig neu gyflwyniadau ynghyd â thystiolaeth ategol a datganiadau tyst tiwtor.

Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o:

(a) ddisgrifiad o sut mae gweithredwyr teithiau yn trefnu gweithrediadau cyrchfan i baratoi a thrafod cwsmeriaid mewn cyrchfan

ac

eglurhad o sefyllfaoedd sy'n gofyn i'r swyddfa gyrchfan gysylltu â'u swyddfa yn y DU

(b) trefnu a chyflwyno cyfarfod croeso, gwerthu gwasanaeth ychwanegol gan gynnwys cwblhau'r ddogfennaeth briodol ac ymdriniaeth effeithiol o sefyllfa broblematig i gwsmer y cewch wybodaeth am ei anghenion a'i amgylchiadau

(c) ymchwil a wnaethpwyd i gwblhau pob tasg

(ch) gwerthusiad o arwyddocâd cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch cynrychiolydd tramor sy'n rhoi gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel.

## Meini prawf asesu

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **a** <br> **(AA1)** | Disgrifiad sy'n ddamcaniaethol yn bennaf ac yn brin o fanylder o sut mae swyddfeydd cyrchfan tramor gweithredwyr teithiau yn gweithredu. <br><br> Eglurhad o rai sefyllfaoedd pan fydd swyddfa gyrchfan dramor gweithredwr teithiau yn cysylltu â'r swyddfa yn y DU. Mae'n tueddu i fod yn ddisgrifiadol ac yn brin o fanylder. Gall y sefyllfaoedd fod yn gyfyngedig eu manylion a'u hamrediad. <br><br> **(1-9)** | Disgrifiad o sut mae swyddfeydd cyrchfan gweithredwr teithiau yn gweithredu sy'n cynnwys manylder o ran dyfnder yr ymdriniaeth o weithgareddau swyddfa gyrchfan a'i gweithrediadau. Rhoddir enghreifftiau priodol o weithredwyr teithiau. <br><br> Eglurhad o sefyllfaoedd pan mae swyddfa gyrchfan gweithredwr teithiau yn cysylltu â'r swyddfa yn y DU gan ddefnyddio enghreifftiau i gefnogi'r eglurhad. <br><br> **(10-14)** | Disgrifiad manwl o sut mae swyddfeydd cyrchfan gweithredwr teithiau yn gweithredu sy'n cynnwys ymdriniaeth drwyadl o weithgareddau'r swyddfa gyrchfan a'i gweithrediad. Rhoddir amrediad addas o enghreifftiau o weithredwyr teithiau. <br><br> Eglurhad manwl o sefyllfaoedd pan mae swyddfa gyrchfan gweithredwr teithiau yn cysylltu â'r swyddfa yn y DU gan ddefnyddio amrediad o enghreifftiau i gefnogi'r eglurhad. <br><br> **(15-18)** | **18** |
| **b** <br> **(AA2)** | Caiff y cyfarfod croeso ei gyflwyno ond gall fod yn brin o strwythur a dyfnder gwybodaeth o'r cyrchnod. Gall fod rhai anghywirdebau yn y defnyddiau neu ddefnydd o ddefnyddiau cyfyngedig. <br><br> Rhai sgiliau gwerthu yn cael eu defnyddio i werthu gwasanaeth ychwanegol gan gwblhau peth dogfennaeth briodol. Gall y sefyllfa werthu fod yn ystyried dim ond rhai o'r anghenion cwsmeriaid a nodwyd yn yr ysgrif bortread. Gall fod rhai anghywirdebau yn y ddogfennaeth. <br><br> Delir â'r sefyllfa broblematig yn rhannol gan adael rhai materion heb eu datrys. Mae'r broblem yn un syml. <br><br> **(1-9)** | Cyfarfod croeso strwythuredig a threfnus sy'n amlygu dyfnder gwybodaeth o'r cyrchnod ac yn defnyddio defnyddiau priodol drwy'r amser. Mae'r cyfarfod croeso yn amlygu rhyngweithio gyda'r grŵp a defnydd effeithiol o ddefnyddiau. <br><br> Sgiliau gwerthu priodol yn cael eu defnyddio i werthu gwasanaeth ychwanegol gan gwblhau dogfennaeth briodol. Mae'r sefyllfa werthu yn adnabod anghenion y cwsmer a'r cyfle i werthu ac yn gwerthu cynnyrch neu wasanaeth addas sy'n cwrdd ag anghenion y cwsmer fel y'u nodir yn yr ysgrif bortread. <br><br> Delir â'r sefyllfa broblematig yn effeithiol a chaiff materion eu datrys. Mae'r broblem y delir â hi yn un gymhleth. <br><br> **(10-14)** | Cyfarfod croeso wedi'i strwythuro a'i drefnu'n dda sy'n amlygu gwybodaeth drwyadl o'r cyrchnod, yn defnyddio amrediad eang o ddefnyddiau addas yn effeithiol ac sy'n dal sylw'r gynulleidfa drwy'r amser. <br><br> Sgiliau gwerthu effeithiol i werthu gwasanaeth ychwanegol gan gwblhau'r holl ddogfennaeth briodol yn gywir. Mae'r sefyllfa werthu yn adnabod anghenion y cwsmer a chyfleoedd gwerthu ac yn gwerthu cynnyrch a gwasanaeth addas sy'n cwrdd â holl anghenion y cwsmer fel y'u nodir yn yr ysgrif bortread. <br><br> Delir â'r sefyllfa broblematig yn llawn ac yn effeithiol a datrysir yr holl bynciau a'r materion. Mae'r sefyllfa broblematig yn gymhleth. <br><br> **(15-18)** | **18** |

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marc 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **c** **(AA3)** | Gwnaed peth ymchwil a cheir tystiolaeth ohoni yn bennaf trwy lyfryddiaeth. Defnyddiwyd ffynonellau a gafwyd trwy gyfarwyddyd neu a ddarparwyd gan eraill. **(1-6)** | Gwnaed ymchwil yn defnyddio ffynonellau gwahanol y cafwyd rhai ohonynt yn annibynnol. Cyfeirnodir rhywfaint o dystiolaeth o ymchwil. **(7-9)** | Gwnaed ymchwil yn defnyddio amrediad o ffynonellau gwahanol y cafwyd hyd iddynt yn annibynnol. Cyfeirnodir llawer o dystiolaeth o ymchwil. **(10-12)** | **15** |
| **ch** **(AA4)** | Gwerthusiad o arwyddocâd cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch cynrychiolwyr tramor sy'n rhoi gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel sy'n ddisgrifiadol yn bennaf ac efallai yn brin o fanylder. Ni werthusir pob elfen. Mae'r gwerthusiad yn tueddu i fod yn ddamcaniaethol. **(1-6)** | Gwerthusiad o arwyddocâd cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch cynrychiolwyr tramor sy'n rhoi gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel. Mae'r gwerthusiad yn tynnu ar enghreifftiau o ymarfer a wnaethpwyd gan nifer o weithredwyr teithiau. Profir rhai casgliadau. **(7-9)** | Gwerthusiad beirniadol o arwyddocâd cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch cynrychiolwyr tramor sy'n rhoi gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel. Mae'r gwerthusiad yn tynnu ar amrediad eang o enghreifftiau o ymarfer a wnaethpwyd gan nifer o weithredwyr teithiau. Profir y rhan fwyaf o'r casgliadau a wnaed. **(10-12)** | **12** |
| | | | **Cyfanswm marciau** | **60** |

(Ar gyfer disgrifiadau o'r AA gweler t. 3.)

## Canllawiau asesu

### Band Marciau 1

Bydd tystiolaeth y dysgwyr yn tueddu i fod yn brin o fanylder, gyda bylchau ynddi, ac yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn arfarnol neu'n amlygu rhesymu manwl. Bydd angen cyflwyno ysgrifau portread i'r dysgwyr ar gyfer tasg (b). Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Darperir enghreifftiau o ysgrifau portread yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân. Gall y rhain fod yr un fath ar gyfer carfan o ddysgwyr neu gallant gael eu hysgrifennu i dargedu band marciau penodol. Byddai hyn yn cefnogi dysgwyr i ymgyrraedd at lefel briodol i'w potensial. Os ysgrifennir hwy i dargedu bandiau marciau penodol, gweler y sylwadau isod.

(a) Ar gyfer y band marciau hwn rhaid i ddysgwyr fod yn gallu rhoi disgrifiad o sut mae swyddfeydd cyrchfan tramor gweithredwyr teithiau yn gweithredu. Efallai na fydd y disgrifiadau yn ffocysu ar holl weithgareddau swyddfa gyrchfan a gallant fod yn brin o fanylder mewn mannau. Gall y staff tramor a'r rolau a ddisgrifir fod yn gyfyngedig. Gall tystiolaeth y dysgwr fod yn gyffredinol yn hytrach nag yn benodol i weithredwyr teithiau.

Rhaid i ddysgwyr roi eglurhad hefyd o sefyllfaoedd pan mae swyddfa gyrchfan gweithredwyr teithiau yn cysylltu â'r swyddfa yn y DU. Gall hyn fod yn ddisgrifiadol yn bennaf. Gall y sefyllfaoedd fod yn gyfyngedig a gallant fod yn brin o fanylder. Bydd y dystiolaeth yn tueddu i fod yn ddamcaniaethol ac i beidio â chyfeirio at enghreifftiau o weithredwyr teithiau.

(b) Ar gyfer y band marciau hwn rhoir ysgrifau portread sy'n syml gerbron y dysgwyr. Rhaid i ddysgwyr gyflwyno cyfarfod croeso. Gallai'r ysgrif bortread ar gyfer hwn fod yn un math o gwsmer megis grŵp 18-30 oed fel na fydd anghenion y cwsmeriaid mor amrywiol. Rhaid i ddysgwyr ddangos peth tystiolaeth o ymchwil o'u cyrchfan detholedig e.e Las Americas yn Tenerife. Dylent ymchwilio i’r cyrchnod yn nhermau'r cyrchfan, yr eiddo ac atyniadau'r ardal. Dylai'r cyfarfod croeso gynnwys cyflwyniad, dylai gyfeirio at iechyd a diogelwch, darparu peth gwybodaeth am yr eiddo e.e defnydd o'r pwll, ceisio gwerthu gwibdeithiau a chynghori am amwynderau lleol er na fydd yn strwythuredig ac y gall fod yn brin o fanylder. Rhaid i ddysgwyr ddefnyddio rhai defnyddiau megis gwahoddiadau croeso, taflenni gwibdeithiau, mapiau, fodd bynnag gall fod rhai anghywirdebau, a'r manylion neu'r amrediad a ddefnyddiwyd yn gyfyngedig.

Ar gyfer y band marciau hwn gall yr ysgrif bortread gynnwys anghenion syml a gallant fod yn benodol o safbwynt y wibdaith neu'r math o grŵp car sydd ei angen i'w hurio. Mae angen i ddysgwyr werthu gwasanaeth ychwanegol i gwsmer gan ddefnyddio rhai sgiliau gwerthu addas. Dylai dysgwyr ddarganfod rhai o anghenion y cwsmer fel y gellir cyfeirio cwestiynau at y cwsmer. Er enghraifft, petaent yn deulu efallai bod angen iddynt ddarganfod oedrannau'r plant a'r mathau o weithgareddau y maent i gyd yn eu hoffi er mwyn penderfynu ar y math priodol o wibdaith. Gall mai cyfyngedig yw'r anghenion sy'n cael eu cydweddu â'r cynnyrch. Mae angen i ddysgwyr gwblhau peth dogfennaeth er y gall fod rhai anghywirdebau a dogfennaeth gyfyngedig wedi'i defnyddio.

Ar gyfer y band marciau hwn gall yr ysgrif bortread fod yn sefyllfa syml i'w thrafod. Rhaid i ddysgwyr ddelio â chwsmer mewn sefyllfa broblematig a dangos rhai sgiliau datrys-problem. Rhaid delio â'r sefyllfa er y gall rhai materion fod heb eu datrys.

(c) Gwnaed peth ymchwil ond mae'n tueddu i fod o un neu ddwy ffynhonnell, efallai dim ond y rhai y cyfeiriwyd atynt gan diwtor / aseswr, a chyfyngir y dystiolaeth efallai i lyfryddiaeth yn unig. Mae angen i ddysgwyr ymchwilio ar gyfer pob tasg ond gall mai ymchwil gyfyngedig a wnaed ar gyfer agweddau o'r tasgau.

(ch) Rhaid i ddysgwyr geisio gwerthuso arwyddocâd cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch cynrychiolwyr tramor sy'n rhoi gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel. Gall mai cyfyngedig oedd yr ymchwil a ddefnyddiwyd i dynnu casgliadau. Mae'n debyg y bydd y gwerthusiad yn ddisgrifiadol ac yn ddamcaniaethol yn hytrach nag yn edrych yn benodol ar werthuso'r hyn mae gweithredwyr teithiau unigol yn ei wneud.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 2**

Bydd dysgwyr yn tueddu i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd â gofynion y dasg yn fanwl ac â pheth eglurder. Byddant yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn trwy'r gallu i gymhwyso peth o hynny mewn sefyllfaoedd galwedigaethol. Byddant yn amlygu peth gallu i ymchwilio'n annibynnol a defnyddio'u canfyddiadau i wneud rhai dyfarniadau rhesymegol. Bydd angen cyflwyno ysgrifau portread i'r dysgwyr ar gyfer tasg (b). Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Darperir enghreifftiau o ysgrifau portread yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân. Gall y rhain fod yr un fath ar gyfer carfan o ddysgwyr neu gallant gael eu hysgrifennu i dargedu band marciau penodol. Byddai hyn yn cefnogi dysgwyr i ymgyrraedd at lefel briodol i'w potensial. Os ysgrifennir hwy i dargedu bandiau marciau penodol, gweler y sylwadau isod.

(a) Ar gyfer y band marciau hwn rhaid i ddysgwyr fod yn gallu disgrifio sut mae swyddfeydd cyrchfan gweithredwyr teithiau yn gweithredu. Rhaid i'r disgrifiadau gynnwys manylion parthed dyfnder yr ymdriniaeth o weithgareddau'r swyddfa gyrchfan a'i gweithrediadau ac enghreifftiau addas yn cynnwys sut mae'r gweithrediad yn wahanol rhwng pob gweithredwr teithiau a chyrchfan.

Rhaid i ddysgwyr roi eglurhad o sefyllfaoedd o sut mae swyddfa gyrchfan dramor gweithredwr teithiau yn cysylltu â'r swyddfa yn y DU. Rhaid enghreifftio'r sefyllfaoedd hyn.

(b) Ar gyfer y band marciau hwn rhaid i ddysgwyr drefnu a chyflwyno cyfarfod croeso. Gall yr ysgrif bortread fod yn fwy cymhleth er mwyn delio ag amrediad o gwsmeriaid yn y grŵp. Rhaid i ddysgwyr ddangos tystiolaeth o ymchwil o'u cyrchfan detholedig e.e Las Americas yn Tenerife, yn ogystal ag anghenion y cwsmeriaid a nodwyd yn yr ysgrif bortread. Dylent ymchwilio i'r cyrchnod yn nhermau'r cyrchfan, yr eiddo ac atyniadau'r ardal trwy roi manylion i'r cwsmeriaid a nodwyd yn yr ysgrif bortread. Dylai'r cyfarfod croeso gynnwys cyflwyniad a chroeso, dylai gyfeirio at iechyd a diogelwch, darparu peth gwybodaeth am yr eiddo e.e defnydd o'r pwll, rhoi gwybodaeth gyffredinol am y cyrchfan, ceisio gwerthu gwibdeithiau a rhoi cyngor am amwynderau lleol a dangos rhywfaint o strwythur. Rhaid i ddysgwyr ystyried y gwahanol gwsmeriaid trwy eu dewis o wybodaeth i'w defnyddio yn y cyfarfod croeso. Rhaid i'r cyfarfod croeso amlygu rhyngweithio fodd bynnag, rhaid iddo gynnwys defnydd o ddefnyddiau addas megis gwahoddiadau croeso, taflenni gwibdeithiau, mapiau a.y.y.b. yn y paratoi a'r cyflwyno. Er enghraifft, dylid cynhyrchu mapiau a'u defnyddio i ddangos i gwsmeriaid ble mae llefydd yn ac o gwmpas y cyrchnod.

Ar gyfer y band marciau hwn dylid rhoi ysgrif bortread i'r dysgwyr sy ddim yn dynodi gwasanaeth ychwanegol penodol y mae'r cwsmer ei eisiau. Dylid caniatáu i'r dysgwr ofyn cwestiynau addas i fesur yr wybodaeth oddi wrth y cwsmer er mwyn gallu adnabod eu hanghenion a'r cyfle gwerthu. Mae angen i'r dysgwyr werthu gwasanaeth ychwanegol i'r cwsmer trwy ddefnyddio sgiliau gwerthu priodol. Rhaid i ddysgwyr adnabod anghenion yr ysgrif bortread a chydweddu'r anghenion hynny â'r cynnyrch priodol. Er enghraifft, os mai teulu oeddent efallai y dylent ddarganfod oedrannau'r plant a'r math o weithgareddau maen nhw i gyd yn eu hoffi er mwyn penderfynu ar y math priodol o wibdaith. Mae angen i ddysgwyr gwblhau dogfennaeth briodol gyda lleiafswm o fylchau.

Rhaid i ddysgwyr drafod cwsmer mewn sefyllfa broblematig a dangos sgiliau datrys-problem. Rhaid delio â'r sefyllfa yn effeithiol a dylid datrys y problemau. Ar gyfer y band marciau hwn byddai'r sefyllfa yn un gymhleth.

(c) Gwnaed ymchwil yn defnyddio amrediad o ffynonellau fel gwefannau, gwerslyfrau, pamffledi, arweinlyfrau a'r wasg. Gall rhai o'r rhain fod wedi'u cyfeirio gan diwtor ond bydd rhai a ddefnyddiwyd yn annibynnol. Bydd llyfryddiaeth yn manylu ar y ffynonellau a ddefnyddiwyd a bydd rhywfaint o gyfeirnodi ffynonellau yn y cynnwys. Bydd gweithrediad y cyrchfan ac arwyddocâd cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch cynrychiolwyr tramor yn cynnwys ymchwil i nifer o weithredwyr teithiau gwahanol. Rhaid bod tystiolaeth hefyd o ymchwil effeithiol i'r cyrchnod gan gynnwys y cyfarfod croeso a'r llyfrynnau gwybodaeth a ddefnyddir, yn ogystal â'r sefyllfa werthu.

(ch) Rhaid i ddysgwyr werthuso arwyddocâd cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch cynrychiolwyr tramor sy'n rhoi gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel. Rhaid wrth dystiolaeth o ymchwil i ddangos rhesymu profedig a chyfiawnhad. Rhaid i'r gwerthusiad ystyried amrywiaeth y cyflwyno a'r hyfforddi yr ymgymerir ag ef yn y DU e.e. yr hyfforddiant dwys cyn cael penodiad i swydd mewn cyrchfan, a'r hyfforddiant a wneir tramor e.e gwaith yn cysgodi cydweithwyr, mynd ar wibdeithiau i wella gwybodaeth cynnyrch a.y.y.b. ac arwyddocâd hyn. Rhaid i werthusiad ystyried arwyddocâd cyflwyno a hyfforddiant, a chysylltu hyn yn benodol ag enghreifftiau o ddyletswyddau yr ymgymerwyd â nhw gan y cynrychiolydd tramor.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 3**

Bydd dysgwyr yn cyflwyno tystiolaeth sy'n amlwg yn cwrdd â gofynion y dasg gyda manylder ac eglurder. Byddant yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth drwyadl ac yn cymhwyso hyn i sefyllfaoedd galwedigaethol. Byddant yn ymchwilio gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau y maent wedi dod o hyd iddynt a'u defnyddio yn annibynnol. Byddant yn dangos sut y gallant ddefnyddio'u canfyddiadau i gwrdd ag anghenion cwsmer cymhleth, gan ddefnyddio rhesymu drwy'r amser, a chan gynnwys llunio barn resymegol. Bydd angen cyflwyno ysgrifau portread i'r dysgwyr ar gyfer tasg (b). Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Darperir enghreifftiau o ysgrifau portread yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân. Gall y rhain fod yr un fath ar gyfer carfan o ddysgwyr neu gallant gael eu hysgrifennu i dargedu band marciau penodol. Byddai hyn yn cefnogi dysgwyr i ymgyrraedd at lefel briodol i'w potensial. Os ysgrifennir hwy i dargedu bandiau marciau penodol, gweler y sylwadau isod.

(a) Ar gyfer y band marciau hwn rhaid i ddysgwyr fod yn gallu rhoi disgrifiad manwl o sut mae swyddfeydd cyrchfan gweithredwr teithiau yn gweithredu, gan gynnwys ymdriniaeth drwyadl o'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy yn y swyddfa gyrchfan a sut mae gweithredwr teithiau yn gweithredu, gan roi amrediad o enghreifftiau priodol.

Rhaid i ddysgwyr roi eglurhad manwl o sefyllfaoedd o sut mae swyddfa gyrchfan gweithredwr teithiau yn cysylltu â'r swyddfa yn y DU. Rhaid enghreifftio pob sefyllfa.

(b) Ar gyfer y band marciau hwn dylid rhoi ysgrifau portread i ddysgwyr sy'n cynnig cyfle i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid gwahanol. Rhaid i ddysgwyr drefnu a chyflwyno'r cyfarfod croeso yn effeithiol. Rhaid i ddysgwyr ddangos tystiolaeth o ymchwil fanwl i'w cyrchfan detholedig e.e Las Americas yn Tenerife. Dylent ymchwilio i'r cyrchnod yn nhermau'r cyrchfan, yr eiddo ac atyniadau'r ardal. Dylai'r cyfarfod croeso gynnwys cyflwyniad a chroeso, cyfeirio at iechyd a diogelwch, darparu gwybodaeth am yr eiddo e.e defnydd y pwll, darparu gwybodaeth am y cyrchnod, gwerthu gwibdeithiau a rhoi cyngor ynglŷn ag amwynderau lleol. Dylai fod wedi'i strwythuro'n dda ac wedi'i gyflwyno mewn modd hyderus a phroffesiynol gan gyfleu delwedd gadarnhaol ar gyfer corff. Rhaid i ddysgwyr ystyried y gwahanol fathau o gwsmeriaid yn ôl eu dewis o wybodaeth a ddefnyddir yn y cyfarfod croeso. Rhaid i'r cyfarfod croeso amlygu rhyngweithio gyda'r gynulleidfa drwy'r amser. Dylid defnyddio defnyddiau addas megis gwahoddiadau croeso, taflenni gwibdeithiau, mapiau a.y.y.b. yn y paratoi a'r cyflwyno. Er enghraifft, dylid cynhyrchu mapiau a'u defnyddio i ddangos i gwsmeriaid ble mae llefydd yn ac o gwmpas y cyrchnod.

Ar gyfer y band marciau hwn mae angen i ddysgwyr werthu gwasanaeth ychwanegol i gwsmer gan ddefnyddio sgiliau gwerthu addas ac effeithiol. Rhaid i ddysgwyr archwilio anghenion cwsmeriaid yn fanwl felly rhaid i ysgrifau portread gynnig cyfle i adnabod anghenion cwsmeriaid a sefyllfaoedd gwerthu. Rhaid i ddysgwyr, felly, ofyn cwestiynau addas i fesur gwybodaeth gan gwsmeriaid. Er enghraifft petaent yn deulu efallai y byddai angen darganfod oedrannau'r plant a'r math o weithgareddau y maent yn eu hoffi, faint o wibdeithiau yr hoffent eu harchebu, yr hyd yr hoffent - hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn, eu cyllideb a.y.y.b. er mwyn penderfynu ar y math priodol o wibdaith. Dylid cwrdd â holl anghenion y cwsmer a chael y mwyafrif i gydweddu. Mae angen i ddysgwyr gwblhau'r holl ddogfennaeth briodol gyda lleiafswm o fylchau.

Rhaid i ddysgwyr ddelio yn llawn ac yn effeithiol â chwsmer mewn sefyllfa broblematig gan ddangos sgiliau datrys-problem ardderchog. Er enghraifft, petai cwsmer yn cwyno am waith adeiladu dylent gynnig atebion fel newid ystafelloedd, dangos yr ystafell newydd i'r cwsmeriaid, sicrhau bod cwsmeriaid yn hapus â'r datrysiad, cynnig mynd i nôl cymorth i symud bagiau. Dylid trafod cwsmeriaid mewn modd sensitif. Ar gyfer y band marciau hwn dylai'r ysgrif bortread fod yn un gymhleth.

(c) Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio amrediad eang o ffynonellau, megis gwefannau, gwerslyfrau, pamffledi, defnyddiau hyrwyddo cyrchnodau, arweinlyfrau teithio, cyfryngau cyrchnodau, erthyglau'r wasg genedlaethol a'r wasg fasnachol. Cafwyd hyd i'r ffynonellau hyn yn bennaf yn annibynnol heb gyfarwyddyd tiwtor. Bydd llyfryddiaeth yn manylu ar y ffynonellau a ddefnyddiwyd a bydd tystiolaeth hefyd o'r ffynonellau trwy'r cyfeirnodi trwy'r cynnwys.

Bydd gweithrediad y cyrchfan ac arwyddocâd cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch cynrychiolwyr tramor yn cynnwys ymchwilio i amrediad eang o weithredwyr teithiau gwahanol. Dylai'r dystiolaeth gael ei chyfeirnodi drwy'r gwaith. Rhaid i gynnwys y cyfarfod croeso, y pecyn gwybodaeth a'r sefyllfa werthu amlygu ymchwil trwyadl o'r cyrchnod a'r cynnyrch.

(ch) Mae angen i ddysgwyr ddangos gwerthusiad beirniadol o arwyddocâd cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch cynrychiolwyr tramor er mwyn rhoi gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel. Mae angen i'r gwerthusiad arddangos manylion am amrywiaeth y cyflwyno a'r hyfforddi sy'n cael ei wneud yn y DU e.e. hyfforddiant dwys cyn cael swydd mewn cyrchfan, a'r hyfforddiant a wneir tramor e.e gwaith yn cysgodi cydweithwyr, mynd ar wibdeithiau i wella gwybodaeth cynnyrch a.y.y.b., ac arwyddocâd hyn. Dylai'r gwerthusiad ystyried arwyddocâd cyflwyno a hyfforddiant a chysylltu yn benodol ag amrediad o ddyletswyddau a wneir gan gynrychiolydd tramor. Dylid bod tystiolaeth o ymchwil trwyadl yn gysylltiedig â'r dasg hon i amlygu manylder a rhesymu. Dylai'r gwerthusiad arddangos gwrthrychedd.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

## Cyflwyno'r uned hon

| | |
|---|---|
| **Ymchwil** | Dylid annog dysgwyr i gyrchu'r rhyngrwyd i ymchwilio i weithrediadau cyrchfan gweithredwyr teithiau. Gallent ddechrau trwy edrych ar y swyddi gwahanol sy ar gael i weld pa fath o staff a gyflogir yn strwythur y gweithrediadau cyrchfan a rolau'r swyddi yr ymgymerir â nhw. Gellir defnyddio'r rhyngrwyd hefyd i ymchwilio i wybodaeth am gyrchnod, a fyddai'n cefnogi'r asesiad o'r cyfarfod croeso. Gall dysgwyr gyrchu gwefannau gweithredwyr teithiau yn ogystal i gael gwybodaeth am raglenni cyflwyno a hyfforddiant. |
| **Chwaraeon rôl** | Mae'r uned hon yn gofyn i ddysgwyr gymryd rhan mewn amrediad o chwaraeon rôl. I ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol dylid annog dysgwyr i gymryd rhan mewn chwaraeon rôl efelychiadol. Gallai'r rhain gynnwys amrediad o gynrychiolwyr gwahanol yn delio ag amrediad o sefyllfaoedd e.e amrediad o gwsmeriaid gwahanol a gwasanaethau ychwanegol eraill. Gallai hyn gefnogi dealltwriaeth dysgwyr o swyddfa gyrchfan a'r cysylltiadau â'r swyddfa yn y DU, a'u datblygiad yn arddangos sgiliau gwerthu wrth ddelio â chwsmeriaid. |
| **Astudiaethau achos** | Gellid defnyddio astudiaethau achos yn cyfeirio at wybodaeth cynnyrch neu drafod sefyllfaoedd i ddatblygu dealltwriaeth o'u harwyddocâd yn darparu gwasanaeth cwsmer o ansawdd uchel neu o arwyddocâd hyfforddiant. Byddai astudiaethau achos ar sefyllfaoedd problematig yn cefnogi gwybodaeth dysgwyr o ddatrys problem hefyd. Gallant ddarparu cyfleoedd i drafod beth gellid ei wneud mewn sefyllfa fyw. Gallai roi'r cyfle hefyd i drafod y cwsmeriaid mewnol. |
| **Siaradwyr gwadd** | Gall y defnydd o gynrychiolwyr tramor fel siaradwyr gwadd roi dealltwriaeth dda i ddysgwyr o unrhyw agwedd ar yr uned hon. Mae siaradwyr gwadd yn rhoi hygrededd i'r gwaith yn ogystal ag yn rhoi cyfle i ddysgwyr ofyn cwestiynau. Dylai hyn gefnogi'u dealltwriaeth gan fod siaradwr gwadd yn gallu ateb cwestiynau rhywbeth na ellir ei wneud trwy werslyfr. Bydd hyn yn datblygu'u sgiliau cyfathrebu llafar nhw yn ogystal. |
| **Fideos** | Mae nifer o fideos dogfennol megis *Holiday Reps y* BBC sy'n darparu delwedd weledol o fywyd fel cynrychiolydd tramor ar gyfer dysgwyr ac enghreifftiau o sefyllfaoedd sy'n wynebu cynrychiolwyr tramor o ddydd i ddydd. Gall y fideos roi cyfle i drafod ymhellach yn ogystal â gweld pobl broffesiynol wrth eu gwaith. |
| **Diwydiant** | Dylai ymweliadau preswyl ffurfio rhan o'r asesiad. Gellid eu defnyddio fel ymchwil i gyrchnod fel paratoad ac i gyflwyno cyfarfod croeso. Gellid eu defnyddio hefyd fel rhan o'r ymchwil ar gyfer cyflwyno, hyfforddiant a gwybodaeth cynnyrch cyrff gan y gallai dysgwyr gyfweld cynrychiolwyr yn y cyrchfan. |

## Cysylltau

### Unedau eraill

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth* - mae hon yn adeiladu ar eu dealltwriaeth o'r diwydiant teithio a thwristiaeth.

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth* — mae hon yn rhoi cyfle i adeiladu ar y sgiliau gwasanaeth cwsmer a ddatblygwyd yn yr uned hon.

*Uned 10: Hyrwyddo a Gwerthiant mewn Teithio a Thwristiaeth* — mae'r cyfarfod croeso a gwerthu gwasanaeth ychwanegol yn adeiladu ar eu dealltwriaeth o werthu a hyrwyddo.

### Diwydiant

Gallai ymweliad preswyl tramor ddarparu cyfle i arsylwi ar y gweithrediadau cyrchfan. Gallai siaradwyr gwadd gynnig cysylltiadau â diwydiant hefyd.

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)

Gall yr uned hon ddarparu cysylltiadau â'r unedau canlynol o CGCau Gwasanaethau Teithio a Thwristiaeth:

T6 Rhoi argraff gadarnhaol i gwsmeriaid ohonoch chi'ch hun a'ch corff

T9 Cynorthwyo gyda phroblemau ac argyfyngau teithio a thwristiaeth lleol.

T23 Gwella'r berthynas â'r cwsmer

T24 Monitro a datrys problemau gwasanaeth cwsmer

T28 Cynllunio a chynnal digwyddiadau croeso

T29 Arwain pobl ar daith dywysedig

T37 Delio ag argyfyngau teithio a thwristiaeth

T48 Datrys problemau gwasanaeth cwsmer.

---

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Holloway J C — *The Business of Tourism* (Longman, 1998) ISBN 0582328810

Marks S — *Working as a Holiday Rep* (How to Books, 1996) ISBN 185703302

Taylor L and Outhart T — *Developing Customer Service in Leisure and Tourism for Advanced GNVQ* (Collins Educational, 1996) ISBN 0003290867

Yale P — *The Business of Tour Operations* (Longman, 1995) ISBN 0582277973

| | | |
|---|---|---|
| **Gwefannau** | Association of British Travel Agents | www.abta.com |
| | Cosmos Holidays | www.cosmos-holidays.co.uk |
| | First Choice | www.firstchoice.co.uk |
| | Federation of Tour Operators | www.fto.co.uk |
| | Holiday Travel Watch | www.holidaytravelwatch.org |
| | Holidays Uncovered | www.holidaysuncovered.co.uk |
| | Inghams | www.inghams.com |
| | MyTravel | www.mytravel.co.uk |
| | Thomas Cook | www.thomascook.co.uk |
| | Thomson Holidays | www.thomson.co.uk |
| | Travel Weekly | www.travelweekly.co.uk |
| | Watchdog | www.bbc.co.uk/watchdog |
| **Fideos** | BBC *Holiday Reps* | |
| | BBC Learning Zone — rhaglenni teithio a thwristiaeth | |
| | *Club Reps* | |
| **Amlgyfrwng** | *Travel Geography* CD-Rom — The Travel Training Company, 2000 | |
| **Darllen arall** | Adrannau teithio papurau newydd dyddiol a Sul | |
| | *Travel Trade Gazette* — CNP Information Ltd | |
| | *Travel Weekly* | |

# Uned 7: Twristiaeth Gyfrifol

## U2 Uned Orfodol

## Asesiad allanol

## Cyflwyniad

Yn yr uned hon byddwch yn edrych ar yr hyn a olygir gan 'twristiaeth gyfrifol'. I bwrpas yr uned hon, gall twristiaeth gyfrifol gynnwys twristiaeth amgen, gyfrifol, gynaliadwy, werdd a moesegol.

Byddwch yn dysgu sut y caiff twristiaeth ei datblygu a'r asiantaethau gwahanol sy'n ymwneud â hynny. Byddwch yn dysgu ynglŷn â sut y gellir perthnasu twristiaeth i fodel Cylch Bywyd Ardal Dwristaidd (*Tourist Area Life Cycle*) a sut y gellir rheoli effeithiau positif a negyddol posibl twristiaeth mewn ffordd gyfrifol a chynaliadwy.

Byddwch yn astudio amrediad o gyrchfannau o'r Byd Llai Datblygedig yn Economaidd (BLLDE / LEDW) yn ogystal â'r Byd Mwy Datblygedig yn Economiadd (BMDE / MEDW) i weld a ydy datblygiad twristiaeth yn y cyrchnodau hyn yn dilyn egwyddorion twristiaeth gyfrifol.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth*

*Uned 3: Cyrchnod Ewrop*

*Uned 4: Cyrchnod Prydain*

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 7.1 Twristiaeth gyfrifol

Byddwch yn dysgu beth a olygir wrth y term 'twristiaeth gyfrifol' fel y gellwch ddisgrifio sut y mae'r ymagwedd hon at ddatblygiad twristiaeth yn wahanol i fathau eraill o dwristiaeth.

Byddwch yn dysgu am egwyddorion twristiaeth gyfrifol fel y gellwch eu hadnabod a'u disgrifio. Mae egwyddorion twristiaeth gyfrifol yn weithredol pan fo datblygiad twristiaeth yn:

- lleihau effeithiau economaidd, amgylcheddol, a chymdeithasol-ddiwylliannol negyddol
- creu buddiannau economaidd i bobl leol ac yn gwella ansawdd eu bywydau
- hyrwyddo cadwraeth treftadaeth naturiol a diwylliannol
- hyrwyddo parch rhwng twristiaid a phobl leol.

Byddwch yn dysgu am yr egwyddorion hyn fel y gellwch ddisgrifio ac egluro'ch syniadau datblygu twristiaeth eich hunain a'u cyfiawnhau.

Byddwch yn dysgu hefyd i ymchwilio datblygiadau sy'n bodoli eisoes ac a gynigiwyd o amrediad o gyrchnodau fel y gellwch werthuso i ba raddau y maent yn cefnogi egwyddorion twristiaeth gyfrifol. Byddwch yn dysgu defnyddio'r enghreifftiau yr ydych wedi'u hymchwilio i gefnogi a chyfiawnhau'ch cynigion eich hunain ar gyfer datblygu twristiaeth gyfrifol.

## 7.2 Yr asiantau sy'n ymwneud â datblygiad twristiaeth

Byddwch yn dysgu am y llu o fathau gwahanol o gyrff ac asiantaethau sy'n ymwneud â datblygiad twristiaeth fel y gellwch adnabod a disgrifio pa gyrff/sefydliadau sy'n perthyn i'r tri phrif sector sy'n ymwneud â datblygiad twristiaeth - y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yw'r rhain:

- cyrff y sector preifat e.e perchnogion tir, cwmnïau datblygu, ymgynghoriaethau, Cyrff Teithio, cyrff adloniant, darparwyr llety e.e cadwyni o westai
- sefydliadau'r sector cyhoeddus e.e awdurdodau lleol, llywodraethau cenedlaethol, byrddau twrist cenedlaethol a rhanbarthol, asiantaethau datblygu rhanbarthol y DU, sefydliadau anllywodraethol, English Heritage, Bwrdd Croeso
- cyrff y sector gwirfoddol e.e grwpiau cymunedol, grwpiau pwyso, Tourism Concern, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac elusennau cofrestredig sy'n ymwneud â thwristiaeth a'i datblygiad.

Byddwch yn dysgu am gyrff/sefydliadau o bob un o'r sectorau hyn fel y gellwch ddisgrifio ac egluro'u rôl ym mhroses datblygu twristiaeth.

Byddwch yn dysgu hefyd am y rhesymau gwahanol sy gan gyrff / sefydliadau dros fod ynghlwm wrth ddatblygu twristiaeth fel y gellwch egluro'r rhain:

- cyrff y sector preifat - masnachol ac yn gwneud elw yn bennaf ond fwyfwy hefyd gofal cwsmer, pryder am yr amgylchedd
- sefydliadau'r sector cyhoeddus - yn anfasnachol yn bennaf ond yn uchafu cyfraniad economaidd twristiaeth yn lleol ac yn genedlaethol i hybu profiad cymunedol
- cyrff y sector gwirfoddol - cymysgedd o'r anfasnachol e.e addysg, codi ymwybyddiaeth, twristiaeth gyfrifol a'r masnachol e.e angen eu hariannu'u hunain i oroesi.

Byddwch yn dysgu am amcanion datblygu twristiaeth fel y gellwch nodi amcanion addas ar gyfer cyrff ac egluro cyffelybiaethau a gwahaniaethau rhwng amcanion gwahanol gyrff. Gall yr amcanion hyn gynnwys:

- economaidd e.e creu cyflogaeth, enillion arian tramor cynyddol, cyfraniadau twristiaeth i'r effaith lluosydd
- amgylcheddol e.e addysg amgylcheddol pobl leol a thwristiaid, cadwraeth cynefinoedd bywyd gwyllt, adfywiad, cadwraeth, symbylu gwelliannau amgylcheddol
- cymdeithasol-ddiwylliannol e.e hyrwyddo dealltwriaeth ddiwylliannol rhwng pobl leol (gwesteiwyr) a thwristiaid, annog rhyngweithio gwesteiwyr-twrist cadarnhaol, gwella 'ansawdd bywyd' y bobl leol trwy ddarparu amwynderau cymunedol yn ogystal ag amwynderau twristaidd
- gwleidyddol e.e gwella delwedd ardal, creu hunaniaeth ranbarthol neu genedlaethol.

Trwy archwilio cyrchnodau gwahanol byddwch yn dysgu am gyrff sy'n ymwneud â datblygiad twristiaeth sy ag amcanion sy'n gwrthdaro, fel y gellwch egluro pam eu bod y gwrthdaro a sut y gellid datrys y gwrthdrawiadau hyn. Byddwch yn dysgu sut y gall cyrff weithio mewn partneriaethau fel y gellwch gyfiawnhau pa mor effeithiol yw'r ymdriniaeth hon i ddatrys gwrthdrawiadau.

## 7.3 Effeithiau datblygu twristiaeth

Byddwch yn dysgu sut i ddehongli gwybodaeth am gyrchnodau lle mae datblygiadau twristaidd wedi'u cynllunio ac heb eu cynllunio wedi digwydd fel y gellwch egluro'r effeithiau cadarnhaol a negyddol ar economi ac ar amgylchedd cyrchnod, ac ar y bobl sy'n byw yno.

Y mathau gwahanol o effeithiau y byddwch yn dysgu amdanynt yw:

- economaidd
  - cadarnhaol: incwm domestig ac enillion arian tramor cynyddol, buddiannau effaith lluosydd, mwy o gyfleoedd cyflogaeth i bobl leol (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol), gwell isadeiledd
  - negyddol: colled, newid o gyfleoedd cyflogaeth traddodiadol, diweithdra tymhorol, costau byw uwch i'r gymuned leol e.e prisiau tai yn codi
- amgylcheddol
  - cadarnhaol; addysg amgylcheddol ar gyfer pobl leol a thwristiaid, gwell asedau, tirlunio, gwarchod cynefinoedd a chadwraeth, adfywio ardaloedd diffaith
  - negyddol: tagfeydd traffig, erydiad tir, colli cynefinoedd naturiol, llai o fioamrywiaeth a llygredd (awyr, dwr, sŵn, gweledol)
- cymdeithasol-ddiwylliannol
  - cadarnhaol: cadw arferion a chrefftau, adfywio gwyliau a seremonïau, darparu cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus, gwell isadeiledd ar gyfer y gymuned leol
  - negyddol: gwrthdrawiadau â, a dylanwad ar, y gymuned leol, trosedd, puteindra, dilysrwydd artiffisial gwyliau a digwyddiadau , colli hunaniaeth ddiwylliannol.

## 7.4 Cylch bywyd yr ardal dwristaidd

Byddwch yn dysgu am y model Cylch Bywyd Ardal Dwristaidd (TALC) sy'n dangos niferoedd twristiaid dros gyfnod fel y gellir adnabod a disgrifio nodweddion pob cyfnod.

Byddwch yn dysgu bod cylch bywyd ardal dwristaidd yn cynnwys nifer o gyfnodau gwahanol:

- fforiad — nifer fechan o ymwelwyr yn cyrraedd yn chwilio am gyrchnodau 'heb eu difetha' gan greu fawr ddim effeithiau negyddol. Agweddau pobl leol yn gadarnhaol tuag at dwristiaeth
- cymryd rhan — y bobl leol yn dechrau darparu adnoddau (cyfleusterau, pobl, digwyddiadau) ar gyfer twristiaid. Niferoedd y twristiaid yn cynyddu
- datblygiad — nifer y twristiaid yn dal i gynyddu yn cael eu denu gan atyniadau naturiol a diwylliannol ond hefyd darperir mwy o gyfleusterau wedi'u gwneud gan ddyn
- cyfnerthiad — yr economi leol yn dechrau dibynnu'n drwm ar dwristiaeth, twf mewn cyfleusterau a mynediad haws yn denu teithiau pecyn mwy trefnus - y straen ar yr amgylchedd yn cynyddu
- marweidd-dra — cyrhaeddir dirlawnder mewn cyrchnodau 'aeddfed'. Mae ansawdd y gwasanaethau a'r amwynderau twrist yn dirywio ac mae dirywiad amgylcheddol yn amlwg. Amrywia agweddau lleol at dwristiaeth

  o bosib naill ai:

- dirywiad — mae niferoedd twristiaid yn syrthio, yr economi yn dioddef yn yr ardal, delwedd wael o'r cyrchnod yn methu denu twristiaid yn ôl

  neu

- adfywiad — ail-ddelweddu ac adfywio'r ardal, ffocws newydd ar dwristiaeth, atyniadau newydd, niferoedd twristiaid yn dechrau codi eto.

Byddwch yn dysgu cymhwyso'r model i gyrchnodau gwahanol fel y gellwch adnabod ar ba gam yn y datblygiad y maent ac egluro'r cyswllt rhwng yr effeithiau sy'n newid a phoblogrwydd ac apêl.

## 7.5 Rheolaeth twristiaeth gyfrifol mewn cyrchnodau

Byddwch yn dysgu sut y rheolir effeithiau twristiaeth i gefnogi egwyddorion 'twristiaeth gyfrifol'. Byddwch yn dysgu egluro'n fanwl sut y gellir mwyhau effeithiau cadarnhaol a lleihau effeithiau negyddol trwy nifer o egwyddorion a strategaethau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mwyhau'r effeithiau cadarnhaol trwy:
  - dal gafael ar wariant ymwelwyr, lledu mynediad i gyfleusterau, datblygiad a hyfforddiant staff, buddsoddi incwm twristiaeth mewn prosiectau cymunedol, hyfforddi a chyflogi pobl leol ac addysg twristiaeth
- Lleihau'r effeithiau negyddol trwy:
  - rheoli ymwelwyr a thraffig, rheoli cynllunio, gweithredu newidiadau o ganlyniad i asesiadau effaith amgylcheddol ac archwiliadau amgylcheddol.

Byddwch yn dysgu cyfiawnhau i ba raddau y gall y rhain gefnogi datblygiad twristiaeth gyfrifol.

Byddwch yn dysgu ymchwilio i amrediad o gyrchnodau o'r DU, Ewrop ac yn fyd-eang o'r Byd Llai Datblygedig yn Economaidd (BLLDE / LEDW) yn ogystal â'r Byd Mwy Datblygedig yn Economaidd (BMDE / MEDW)) fel y gellwch roi enghreifftiau real i gefnogi'ch atebion yn yr asesiad allanol.

## Tystiolaeth asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu trwy asesiad allanol.

Y marc a enillwch am yr asesiad hwn fydd eich marc am yr uned.

Bydd yr asesiad allanol ar ffurf prawf wedi'i farcio. Bydd y prawf yn cynnwys cyfres o gwestiynau atebion byr a hir. Bydd cynnwys yr asesiad allanol yn perthnasu'n uniongyrchol i'r hyn y dylech fod wedi'i ddysgu o ganlyniad i'r gweithgareddau yr ydych wedi'u gwneud fel rhan o'ch gwaith yn yr uned hon.

Bydd angen i chi fod yn gallu cymhwyso'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o'r uned i alwadau'r cwestiynau a osodir. Mae'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o sefyllfaoedd gwahanol yn baratoad amhrisiadwy ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant, addysg bellach ac addysg uwch. Mae asesiad allanol yn un esiampl o lle mae'r trosglwyddiad hwn yn hanfodol e.e ymdopi ag amgylchiadau dan reolaeth asesiad allanol, y senarios ac ymateb i gwestiynau.

Bydd yr asesiad allanol yn gofyn am dystiolaeth o:

(a) gallu i arddangos gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o gynnwys pwnc yr uned hon, ac o sgiliau cysylltiedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol

(b) gallu cymhwyso'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o gynnwys pwnc yr uned hon, ac o sgiliau cysylltiedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol

(c) gallu defnyddio technegau ymchwil priodol i gaffael a dadansoddi gwybodaeth berthnasol i gynnwys pwnc yr uned hon

(ch) gallu gwerthuso gwybodaeth a dod i ddyfarniadau rhesymegol, tynnu casgliadau a gwneud argymhellion wedi'u seilio ar gynnwys pwnc yr uned hon.

## Cyflwyno'r uned hon

### Adolygu diffiniadau o dwristiaeth gyfrifol

Annog dysgwyr i archwilio diffiniadau gwahanol o fathau o dwristiaeth gyfrifol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â thwristiaeth 'amgen' neu 'dwristiaeth newydd'. Mae ffurfiau twristiaeth newydd yn cynnwys llawer o dermau gan gynnwys twristiaeth amgen (amgen i ormodeddau twristiaeth dorfol). O fewn twristiaeth amgen mae twristiaeth werdd (twristiaeth wledig/natur) ac eco-dwristiaeth. Mae twristiaeth amgen yn cwmpasu egwyddorion masnach deg, twristiaeth foesegol, gyfrifol a thwristiaeth gynaliadwy. Bydd hyn yn cefnogi dysgwyr i ymestyn eu dealltwriaeth o natur teithio a thwristiaeth o lefel y DU. Bydd yn galluogi dysgwyr hefyd i adolygu a chwestiynu eu hagweddau'u hunain ynglŷn â'r mathau gwahanol o dwristiaeth e.e 'ydy pob eco-dwristiaeth yn wyrdd?' neu 'ydy hi'n or-syml i ystyried bod pob twristiaeth dorfol yn anghyfrifol a phob twristiaeth amgen yn gyfrifol?'.

### Ymchwil

Bydd angen cymorth ar ddysgwyr i ddatblygu sgiliau ymchwil ac ymgyfarwyddo â ffynonellau gwahanol o wybodaeth am gyrff ac asiantaethau twristiaeth ddomestig, genedlaethol a rhyng-genedlaethol sy'n ymwneud â datblygu twristiaeth gyfrifol. Dylai dysgwyr ystyried pa gyrff ac asiantaethau sy'n ymwneud â hyn, adnabod sectorau ac amcanion a chanfod faint eu hymwneud. Gellid datblygu sgiliau dadansoddol trwy drafodaethau grŵp a allai annog dysgwyr i ymchwilio i sut y mae cyrff, asiantaethau a budd-ddeiliaid yn cydweithio yn eu hymchwil am dwristiaeth gyfrifol. Lle bo buddiannau budd-ddeiliaid yn gwrthdaro, anoger dysgwyr i awgrymu sut y gellir goresgyn y gwrthdrawiadau hyn. Gellid seilio hyn ar fenter datblygu twristiaeth leol.

Gellir defnyddio'r rhyngrwyd i gyrchu gwybodaeth am gyrchnodau twristiaeth allweddol, eu hapêl a'u marchnadoedd targed. Mae llawer o gyrchnodau yn cyhoeddi strategaethau twristiaeth ar eu gwefannau 'nawr hefyd. Dylid annog dysgwyr i ddadansoddi a gwerthuso i ba raddau mae strategaethau o'r fath yn cefnogi twristiaeth gyfrifol yn ymarferol.

Mae gwybodaeth o swyddfeydd twrist cenedlaethol a phamffledi gweithredwyr teithiau yn offer defnyddiol iawn hefyd ar gyfer ymchwilio cyrchnodau. Gall dysgwyr ddatblygu'u sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig trwy gysylltu trwy e-bost neu lythyr.

Mae ymchwil wreiddiol yn ddull da i benderfynu ar apêl cyrchnod. Gall hyn ddatblygu sgiliau'r dysgwyr mewn cyfweld, ysgrifennu holiadur, dadansoddi canlyniadau, a sgiliau TG dilynol wrth gyflwyno'u canfyddiadau.

Bydd angen i ddysgwyr fod yn gallu cefnogi'u hatebion yn yr asesiad allanol gydag amrediad o gyrchnodau astudiaeth achos lle mae agweddau gwahanol at ddatblygiad twristiaeth wedi bod. Bydd hyn yn caniatáu iddynt o bosib gael at fwy o farciau.

### Astudiaethau achos

Gall defnyddio astudiaethau achos ar gyrchnodau twrist allweddol yn y DU, ar gyfandir Ewrop ac yn fyd-eang, BLLDE / LEDW yn ogystal â BMDE / MEDW, ddatblygu gwybodaeth, gwerthoedd a barnau personol dysgwyr ynglŷn ag apêl cyrchnodau twrist allweddol a'r marchnadoedd y maent yn eu denu. Bydd hyn hefyd yn ymestyn eu dealltwriaeth o sut mae datblygiad wedi digwydd a'r effaith y mae hyn wedi'i gael. Gall astudiaethau achos ddarparu cyfle hefyd i drafod effeithiau cadarnhaol a negyddol a chynhyrchu syniadau ynglŷn â sut y gellir cynnal datblygiad twristiaeth neu sut y gall twristiaeth ddiwallu anghenion a gwerthoedd rhanddeiliaid gwahanol mewn twristiaeth. Bydd defnyddio astudiaethau achos o'r ardal leol yn caniatáu cyfleoedd i werthuso ymweliadau, siaradwyr gwadd a dehongliadau cyfryngau lleol. Mae cyfamseroldeb yn bwysig hefyd fel bod dysgwyr yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfredol.

### Gweithgareddau ymarferol yn ymwneud â sectorau gwahanol y diwydiant

Gellir cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o rolau ac amcanion gwahanol sectorau gwahanol y diwydiant trwy ymgymryd â gweithgareddau ymarferol. Gallai hyn fod ar ffurf ymateb i niferoedd ymwelwyr yn disgyn mewn cyrchnod twrist lleol a rhoi cynllun datblygu 'twristiaeth gyfrifol' gerbron i'w ystyried mewn cyfarfod cyhoeddus. Gallai cymryd rhan mewn cyfarfod cyhoeddus efelychiadol, gyda phob un yn chwarae rôl asiantau gwahanol, helpu i roi dealltwriaeth fwy trwyadl.

**Siaradwyr gwadd ac ymweliadau**

Mae gan lawer o gyrchnodau, ardaloedd twristaidd ac adloniant a chanolfannau siopa yn y DU reolwyr yn awr sy'n gallu darparu gwybodaeth ynglŷn â pham a sut mae cyrchnod wedi datblygu dros amser. Gall siaradwyr gwadd o gyrchnodau neu gyrff ddarparu cysylltiadau â diwydiant hefyd, gan roi esboniadau o sut y rheolir twristiaeth i sicrhau cynaladwyedd. Mae siaradwyr gwadd yn darparu gwybodaeth gyfamserol, gan roi'r wybodaeth mewn cyd-destun, yn ogystal â rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu'u sgiliau cyfathrebu, yn enwedig eu sgiliau cwestiynu a gwrando.

Bydd ymweliadau â chyrchnodau yn caniatáu i ddysgwyr ennill gwybodaeth uniongyrchol am apêl cyrchnod a'r effaith y mae datblygiad twristiaeth wedi'i gael. Mae ymweliadau preswyl tramor hefyd yn fodd i ddysgwyr brofi amrediad yr ymdriniaethau a fabwysiedir gan gyrchnodau.

**Fideos**

Mae nifer o enghreifftiau o sut mae twristiaeth wedi datblygu mewn cyrchnodau allweddol, ac felly mae llawer o fideos ar gael. Mae'n ddefnyddiol gwylio fideos ar gyrchnodau'r DU, cyfandir Ewrop a chyrchnodau byd-eang, i roi delweddau gweledol i ddysgwyr a chynorthwyo'u dealltwriaeth gogyfer â' r asesiad allanol hwn.

**Diweddaru gweithgareddau'r diwydiant yn rheolaidd trwy bapurau newydd, adolygiadau cylchgronau a datganiadau i'r wasg.**

Bydd adolygiadau wythnosol a misol o adrannau teithio papurau newyddion a'r wasg fasnachol e.e *Travel Weekly* a *Travel Trade Gazette* yn atgyfnerthu gwybodaeth dysgwyr o faterion a phryderon cyfoes yn ymwneud â 'thwristiaeth gyfrifol'. Gall dysgwyr ymchwilio i'r rhestri byrion ar gyfer 'Gwobr Twristiaeth Gynaliadwy' i werthuso'r meini prawf y cawsant eu dewis arnynt mewn perthynas â'u dealltwriaeth nhw'u hunain o'r hyn yw 'twristiaeth gyfrifol'.

## Cysylltau

**Unedau eraill**

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth* — mae hon yn adeiladu ar eu dealltwriaeth o'r diwydiant teithio a thwristiaeth.

*Uned 3: Cyrchnod Ewrop* — mae hon yn rhoi gwybodaeth am gyrchnodau ar Gyfandir Ewrop a'u hapêl.

*Uned 4: Cyrchnod Prydain* — mae hon yn rhoi gwybodaeth am gyrchnodau allweddol y DU a'u hapêl.

*Uned 8: Materion Cyfredol mewn Teithio a Thwristiaeth* — lle gellir astudio materion yn ymwneud â datblygu twristiaeth gyfrifol mewn cyrchnod mewn mwy o ddyfnder.

*Uned 11: Gwyliau Diddordebau Arbennig* — mae hon yn rhoi gwybodaeth leoliadol am gyrchnodau rhyngwladol a'u hapêl.

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Fennel D — *Ecotourism: An Introduction* (Routledge, 2003)
ISBN 0415303648

Holloway C — *The Business of Tourism* (Longman, 1995)
ISBN 0582290422

Jafari J (editor) — *Encyclopaedia of Tourism* (Routledge, 2003)
ISBN 0415308909

Prosser R — *Leisure, Recreation and Tourism* (Collins Educational, 2000)
ISBN 0003266508

Yale P — *The Business of Tour Operations* (Longman, 1995)
ISBN 0582277973

Youell R — *Vocational A-level Travel and Tourism* (Longman, 2000)
ISBN 0582404452

### Gwefannau

**Sefydliadau**

| | |
|---|---|
| Centre for Environmentally Responsible Tourism | www.c-e-r-t.org |
| Greenstop | www.greenstop.net |
| International Centre for Responsible Tourism | www.icrtourism.org |
| International Ecotourism Society | www.ecotourism.org |
| Oceans Blue Foundation | www.oceansblue.org |
| Planeta | www.planeta.com |
| Responsible Tourism Partnership | www.responsibletourism.org |
| Tourism Concern | www.tourismconcern.org.uk |
| Tourism for All | www.tourismforall.org.uk |
| Travel Foundation | www.thetravelfoundation.org.uk |
| Travel Mole | www.travelmole.com |
| Sustainable Development Commission | www.sd-commission.org.uk |
| UN Division for Sustainable Development | www.un.org/esa/sustdev/documents/agenda21/index.htm |
| UN Environment Programme | www.unep.org |
| World Tourism Organization | www.world-tourism.org |
| World Travel and Tourism Council | www.wttc.org |
| World Wildlife Fund | www.wwf.org.uk |

| | | |
|---|---|---|
| | **Gweithredwyr teithio/ teithiau** | |
| | Association of British Travel Agents (members' area) | www.abtamembers.org/ responsibletourism |
| | Association of Independent Tour Operators | www.aito.co.uk |
| | Responsible Travel | www.responsibletravel.com |
| | Tour Operators Initiative | www.toinitiative.org |
| | **Cwmnïau Teithio penodol** | |
| | British Airways | www.britishairways.com |
| | Exodus | www.exodus.co.uk |
| | Explore Worldwide | www.exploreworldwide.com |
| | **Eraill** | |
| | *Travel Weekly* | www.travelweekly.co.uk |

**Fideos**

*Goa Under Siege* — Tourism Concern, 1998

*International Forum for Indigenous Tourism* — Tourism Concern, 2002

*Looking Beyond the Brochure (Gambia)* — Tourism Concern, 1999

Cynyrchiadau Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol/BBC

**Darllen arall**

Papurau newydd dyddiol e.e *Times, Guardian*

*The Good Alternative Travel Guide* (Earthscan)

*Holiday Which*

Cylchgrawn *In Focus* (Tourism Concern) — e.e 2002 rhif 42 'Ecotourism', 43 'Sustainable Tourism' a 44 'The Fair Trade Tourist'

*Leisure Management*

*National Geographic*

Astudiaethau achos cyrchnodau penodol

Pamffledi gweithredwyr teithiau

*Tourism Intelligence Papers* and *Insights* (English Tourism Council)

*Travel Trade Gazette*

*Travel Weekly*

# Uned 8: Materion Cyfredol mewn Teithio a Thwristiaeth

## U2 Uned Orfodol

## Asesiad mewnol

## Cyflwyniad

Trwy'r uned hon cewch gyfle i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o bwnc sy'n effeithio neu sy wedi effeithio'n ddiweddar ar y diwydiant teithio a thwristiaeth. Gall hwn fod yn rhywbeth yr ydych wedi datblygu diddordeb ynddo trwy eich astudiaethau cynt neu'n rhywbeth y cewch eich cyflwyno iddo trwy'r uned hon. Bydd y pwnc yn un cyfredol gan y bydd wedi codi yn ystod y pum mlynedd diwethaf neu ei fod yn dal i fynd yn ei flaen.

Mae'r diwydiant teithio a thwristiaeth yn ddeinamig ac yn ymateb i alwadau a newidiadau yn yr amgylchedd yn barhaus. Mae llawer o'r galwadau a'r newidiadau hyn yn bynciau y gellir eu hastudio mewn dyfnder i fod yn ffocws prosiect ymchwil.

Trwy'r uned hon, byddwch yn gallu adlewyrchu ar yr wybodaeth yr ydych wedi'i hennill eisoes yn unedau eraill y cymhwyster hwn i werthfawrogi'r cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar eich addysg ac o'r diwydiant teithio a thwristiaeth.

Mae'r uned yn gofyn i chi gynllunio, gwneud a chyflwyno prosiect ymchwil ar bwnc yn gysylltiedig â theithio a thwristiaeth. Bydd hi'n bwysig ystyried yn ofalus bwnc mewn teithio a thwristiaeth yr ydych yn mwynhau'i astudio ac a fydd yn cynnig cyfleoedd ymchwilio pellach.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

Gall yr uned U2 hon adeiladu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd ym mhob uned arall o'r TAG hwn, gan dynnu ar agweddau o bob un, i oleuo'r dewis o bwnc i ymchwilio iddo.

# Beth sydd angen i chi ei ddysgu

## 8.1 Pynciau mewn teithio a thwristiaeth

Gall pynciau mewn teithio a thwristiaeth fod yn wleidyddol, economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol neu'n dechnegol ond byddant yn effeithio corff, sector neu ddiwydiant teithio a thwristiaeth fel cyfanwaith. Byddwch yn dysgu am nifer o bynciau fel y byddwch yn gallu dadansoddi'u heffaith ar gorff, sector neu ddiwydiant teithio a thwristiaeth. Byddwch yn ffocysu ar un o'r pynciau hyn ar gyfer asesiad.

Byddwch yn dysgu sut i ddethol pwnc ar gyfer prosiect trwy adolygu'i botensial i ddarparu data a lefel briodol o ddadansoddi. Byddwch yn dysgu penderfynu ar ofynion ymchwil y prosiect ac yn ymgymryd ag ymchwil cychwynnol i asesu argaeledd potensial gwybodaeth. Gall data fod ar gael mewn amrediad o fformatau, rhai ohonynt yn hawdd eu caffael a'u hystyried, tra bod angen ystyriaeth ofalus ar wybodaeth arall i ddynodi dull addas o gael gafael arno. Byddwch yn dysgu sut i gael gafael ar wybodaeth a data a gyflwynir mewn fformatau gwahanol a sut i'w defnyddio.

Wrth ddewis pwnc ymchwil efallai yr hoffech ystyried rhai o'r canlynol:

- Ymddangosiad e-dwristiaeth ac e-adwerthu mewn teithio a thwristiaeth a datblygiadau mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).
- Cynhesu byd-eang, a'r effaith ar yr hinsawdd megis cynyddu cryfder ac amlder corwyntoedd a ffenomenau hinsoddol eraill.
- Globaleiddio yn sectorau gwahanol y diwydiant teithio a thwristiaeth o gadwyni gwestai i brif weithredwyr teithiau'r DU.
- Cynnydd mewn terfysgaeth a gweithredoedd penodol o derfysgaeth megis yn Efrog Newydd, Bali, Madrid a'r Aifft.
- Mae symud y rhwystrau i deithio wedi gweld lledaenu clefydau sy wedi cael effaith ar y diwydiant teithio a thwristiaeth megis SARS a'r clwy traed a genau.
- Effaith datblygu twristiaeth ar ddiwylliant y Gwledydd Llai Datblygedig yn Economaidd (GLlDE /LEDCa).
- Yn ystod y ganrif ddiwetha, cysylltir y datblygiadau mewn trafnidiaeth a'r symud milwyr a welwyd yn ystod y ddau ryfel byd yn aml â datblygiad twristiaeth. Yn fwy diweddar, mae rhyfeloedd wedi cael effaith andwyol ar dwristiaeth mewn cyrchnodau fel Twrci, Cyprus ac Israel. Gallai cysylltiadau rhyngwladol gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar deithio a thwristiaeth.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn; bydd nifer o bynciau eraill yn werth eu hystyried o ddifri. Bydd angen i chi drafod y pwnc yr ydych chi'n bwriadu'i ymchwilio gyda'ch tiwtor, i sicrhau'i fod yn addas ac y bydd yn darparu'r cyfleoedd gofynnol ar gyfer ymchwil.

**8.2 Prosiect ymchwil teithio a thwristiaeth**

Er mwyn cwblhau'ch prosiect ymchwil yn llwyddiannus, byddwch yn dysgu sut i'w gynllunio, yna sut i'w wneud ac yn olaf sut i'w gyflwyno mewn fformat derbyniol. Bydd angen i chi ddysgu:

- cynhyrchu cynnig ymchwil; rhesymwaith yn cynnwys crynodeb o'r prosiect ymchwil, ei amcanion a pharamedrau'r astudiaeth, gan nodi 'beth', 'pam' a 'sut' y prosiect.
- defnyddio a gwerthuso methodoleg yr ymchwil, gan asesu rhinweddau technegau ymchwil gwahanol megis cyfweliadau, holiaduron, archwilio dogfennau yn ogystal â'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i gaffael gwybodaeth
- cyflwyno'ch prosiect mewn fformat priodol; yn cynnwys amcanion, methodoleg, ymchwil, dadansoddiad, casgliadau, cyfeiriadau/llyfryddiaeth.

---

## Tystiolaeth asesu

Bydd y dystiolaeth asesu yn cynnwys prosiect ymchwil wedi'i gwblhau, lle defnyddiwyd amrediad o ddulliau ymchwilio, sy'n ffocysu ar bwnc teithio a thwristiaeth. Bydd y dystiolaeth yn cynnwys peth sylwebaeth ysgrifenedig a gall gael ei gefnogi hefyd gan ddatganiadau tystion a gosodiadau arsylwi os cyflwynir rhai o'r tasgau ar lafar. Cyflwynir nodiadau ysgrifenedig i gefnogi unrhyw gyflwyniadau llafar.

Awgrymir y byddai rhwng dwy a phedair mil o eiriau yn briodol ar gyfer prosiect 'ysgrifenedig'.

Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o:

(a) cynnig ymchwil sy'n cynnwys disgrifiad o'r pwnc

a

chynllun sy'n dangos amcanion y prosiect a'r fethodoleg ymchwil fabwysiedig, gan gynnwys graddfeydd amser a ffynonellau cyfeirio wedi'u cynllunio

(b) sut yr ydych wedi gweithio'n annibynnol a dilyn eich cynllun ymchwil i gwrdd ag amcanion a graddfeydd amser y prosiect

a

sut yr ydych wedi delio â newidiadau i'ch cynllun

(c) ymchwil a wnaed yn unol â chynllun y prosiect

a

dadansoddiad o'r pwnc a'i effaith ar y diwydiant teithio a thwristiaeth neu ar un o'i sectorau cydrannol

(ch) gwerthusiad o'r prosiect a'r fethodoleg ymchwil gydag argymhellion ar gyfer ymagweddau i'w mabwysiadu ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

---

## Meini prawf asesu

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **a** **(AA1)** | Cynnig ymchwil sy'n adnabod ac yn disgrifio gyda manylder cyfyngedig, y pwnc a fydd yn ffocws y prosiect ymchwil. Mae'r cynllun yn dangos sut y bydd amcanion y prosiect yn cael eu cwrdd a'r fethodoleg ymchwil i'w defnyddio. Gall y cynllun fod yn brin o eglurder, yn afrealistig mewn rhannau a bod ynddo rai bylchau. **(1-6)** | Cynnig ymchwil sy'n disgrifio mewn peth manylder y pwnc a fydd yn ffocws y prosiect ymchwil. Mae'r cynllun yn disgrifio mewn peth manylder sut y bydd amcanion y prosiect yn cael eu cwrdd a'r fethodoleg ymchwil i'w defnyddio. Mae holl rannau'r cynllun yn glir a dichonadwy. **(7-9)** | Cynnig ymchwil cynhwysfawr sy'n adnabod ac yn disgrifio'n glir ac yn fanwl amrediad a graddfa'r pwnc a fydd yn ffocws y prosiect ymchwil. Mae'r cynllun yn egluro sut y bydd amcanion y prosiect yn cael eu cwrdd a'r fethodoleg ymchwil i'w defnyddio. Mae'r cynnig a'r cynllun yn adlewyrchu amcanion y prosiect ac yn cynnwys graddfa amser lle cydnabyddir y blaenoriaethau ynglŷn ag ymchwilio a chasglu data. Mae holl rannau'r cynllun yn glir, perthnasol, addas a dichonadwy. **(10-12)** | **12** |
| **b** **(AA2)** | Cwblhawyd y prosiect gyda chyfarwyddyd gan eraill. Mae'r prosiect yn cwrdd â'r rhan fwyaf o'r amcanion a'r graddfeydd amser a osodwyd gan gynnwys ei gwblhau'r derfynol erbyn y dyddiad cau a osodwyd. Ni ddiweddarwyd y newidiadau a wnaethpwyd i'r cynllun ac roeddent yn aml o ganlyniad i ffactorau o fewn eu rheolaeth. **(1-7)** | Cwblhawyd y prosiect gyda pheth cyfarwyddyd gan eraill ond yn bennaf yn annibynnol. Mae tystiolaeth fod y cynllun arfaethedig wedi'i ddilyn a bod yr amcanion a'r graddfeydd amser a nodwyd wedi'u cwrdd. Dogfennwyd y newidiadau a wnaethpwyd yn y cynllun. Roedd y rhain ar y cyfan o ganlyniad i ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth a gweithredwyd newidiadau priodol. **(8-12)** | Mae'r prosiect wedi'i gwblhau yn annibynnol. Dilynwyd cynllun y prosiect a chafodd pob amcan ei gwrdd yn glir a chadwyd at raddfeydd amser. Diwedderir y cynllun yn rheolaidd trwy gydol y broses gydag arwydd o sut y cafodd amcanion a graddfeydd amser eu cwrdd ac unrhyw newidiadau yr oedd eu hangen. Roedd cynlluniau wrth gefn ar gyfer unrhyw wyriadau gofynnol oddi ar y cynllun. **(13-15)** | **15** |

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarn-wyd |
|---|---|---|---|---|
| **c** **(AA3)** | Gwnaed ymchwil sy'n defnyddio amrediad cyfyngedig o ffynonellau sy wedi'u cyfeirio yn bennaf. Gwneir peth defnydd o'r fethodoleg ymchwil a nodwyd yng nghynllun y prosiect.<br>Mae rhywfaint o ddadansoddiad o'r pwnc a'i effaith ar y diwydiant teithio a thwristiaeth neu ar sector benodol o'r diwydiant ond mae hwn yn ddisgrifiadol yn bennaf.<br>**(1-9)** | Gwnaed ymchwil sy'n defnyddio amrediad o ffynonellau, llawer ohonynt wedi'u hadnabod a'u defnyddio yn annibynnol. Cyfeirnodir ffynonellau yn glir drwy'r gwaith. Mae'r ffynonellau a ddefnyddir fel y cawsant eu hadnabod yng nghynllun y prosiect.<br>Ceir dadansoddiad clir o'r pwnc a'i effaith ar y diwydiant teithio a thwristiaeth neu ar sector benodol o'r diwydiant.<br>**(10-14)** | Defnyddir amrediad o dechnegau ymchwil i gaffael data a chafwyd hyd i ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol. Cyfeirnodir ffynonellau yn glir ac yn llawn drwy'r gwaith. Defnyddiwyd mwy o ffynonellau nag a nodwyd yng nghynllun y prosiect ac eglurir pam fod angen y ffynonellau ychwanegol hyn.<br>Ceir dadansoddiad clir a chynhwysfawr o'r pwnc a'i effaith ar y diwydiant teithio a thwristiaeth neu ar sector benodol o'r diwydiant.<br>**(15-18)** | **18** |
| **ch** **(AA4)** | Mae gwerthusiad o'r prosiect. Mae hwn yn arwynebol a goddrychol yn bennaf.<br>Ceir gwerthusiad o'r fethodoleg ymchwil gyda pheth ymwybyddiaeth o gyfyngiadau'r ffynonellau gwybodaeth sy ar gael i gefnogi'r prosiect ymchwil neu beth cydnabyddiaeth o'u cyfyngiadau eu hunain o ran amrediad a thrylwyredd yr ymchwil a wnaethpwyd.<br>Gwneir argymhellion ond mae'r rhain yn brin o fanylder ac nid ydynt bob amser yn ddichonadwy ac/neu yn briodol.<br>**(1-7)** | Gwerthusiad sy'n gwerthuso'r prosiect â pheth gwrthrychedd ac â pheth dyfnder yn tynnu casgliadau dilys sy ar y cyfan wedi'u rhesymu.<br>Mae gwerthusiad o'r fethodoleg ymchwil sy'n cydnabod cyfyngiadau'r ymchwil lle bo hynny'n briodol a'i effaith ar ganlyniadau'r prosiect ymchwil.<br>Gwneir argymhellion am welliant, cyfiawnheir rhai ohonynt. Mae'r rhan fwyaf yn eithaf manwl ac yn briodol.<br>**(8-12)** | Gwerthusiad cynhwysfawr sy'n wrthrychol ac yn drylwyr gyda chasgliadau dilys a chywir sy wedi'u rhesymu'n glir.<br>Gwerthuswyd y fethodoleg ymchwil a'r data a gafwyd a lle bo cyfyngiadau eglurir y rhain yn glir parthed eu heffeithiau ar ganlyniadau'r prosiect ymchwil.<br>Gwneir argymhellion dilys am welliant sy wedi'u cyfiawnhau a'u cyflwyno'n fanwl.<br>**(13-15)** | **15** |
| | | | **Cyfanswm marciau** | **60** |

(Ar gyfer disgrifiad o'r AAau gweler tudalen 3.)

## Canllaw asesu

### Band Marciau 1

Ar gyfer yr asesiad hwn, dylai dysgwyr ddewis pwnc sydd yn, neu sydd wedi effeithio ar y diwydiant teithio a thwristiaeth, neu ar sector o'r diwydiant, o fewn y pum mlynedd diwethaf. O fewn carfan o ddysgwyr, gall y cyfan ddewis ymchwilio neu ddadansoddi'r un pwnc neu gall pob un ddewis pwnc gwahanol. Mae'r naill ymdriniaeth a'r llall yn dderbyniol. Asesir dysgwyr ar eu gallu i weithio'n annibynnol. Mae angen ystyried hyn pan fo carfan gyfan wedi dewis ymchwilio i'r un pwnc.

Bydd tystiolaeth dysgwyr yn tueddu i fod yn brin o fanylder, yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o bwnc ond mewn dull sy'n ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol ac sy'n dangos ychydig o dystiolaeth o gynllunio a defnydd effeithiol o fethodoleg ymchwil. Gofynnir i'r dysgwyr fod yn gallu adnabod maes ymchwil a threfnu sut y gwneir yr ymchwil. Ar y lefel hon, gall fod angen cynorthwyo'r dysgwr gyda nifer o faterion sy'n hanfodol i lwyddiant yr holl brosiect, gall y cynllun fod yn afrealistig mewn rhannau. Gall fod angen cyfeirio'r dysgwr hefyd at bynciau penodol a fyddai'n eu cynnig eu hunain ar gyfer ymchwil pellach neu'n darparu cyfle ar gyfer casglu data gwerthfawr a ffynonellau gwybodaeth addas trwy lyfrau, cylchgronau, y rhyngrwyd a chael mynediad i systemau cefnogi mewn llyfrgell.

(a) Bydd y cynnig ymchwil yn adnabod y pwnc. Gall na fydd y pwnc yn addas am nad yw'n gyfredol bellach (o fewn y pum mlynedd diwethaf). Bydd disgrifiad o'r pwnc hefyd er y gall fod yn brin o fanylder.

Cyflwynir cynllun ymchwil. Bydd yn cynnwys amcanion y prosiect er na fydd y rhain efallai yn benodol. At hyn ceir methodoleg ymchwil. Mae hon yn debygol o fod yn brin o fanylder gan y bydd gwybodaeth wedi"i rhestru ond y disgrifiad yn denau. Ni cheir fawr ymdrech i ddangos sut y bydd y cynllun yn galluogi i'r anghenion gael eu cwrdd. Gall peth o'r cynllun fod yn aneglur neu'n amwys a gall fod yn afrealistig hefyd mewn rhannau e.e graddfeydd amser, amrediad y ffynonellau gwybodaeth i'w defnyddio, ymdrechion i gasglu data gwreiddiol.

(b) Rhaid i ddysgwyr wneud y prosiect a dylai fod bron iawn wedi'i gwblhau er y gall fod rhai bylchau. Gall fod angen cefnogaeth a chyfarwyddyd gydol y prosiect ar y dysgwr naill i adnabod pa wybodaeth sy'n berthnasol, ei goblygiadau i'r diwydiant a sut y gellir ei chyflwyno. Efallai y bydd angen atgoffa dysgwyr o amcanion y prosiect fel bod y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn cefnogi'r ymchwil.

Nid yw'r dysgwr yn gyffredinol wedi dilyn y cynllun a gall na fydd yn cwrdd â'r dyddiadau cau a gynlluniwyd. Bydd y prosiect terfynol wedi'i gwblhau erbyn y dyddiad cau a osodwyd. Bydd mwyafrif yr amcanion wedi'u cyrraedd.

Ni wnaethpwyd newidiadau i'r cynllun hyd yn oed er na ddilynwyd y cynllun. Ble mae gofyn am newidiadau bydd hyn yn bennaf o ganlyniad i ffactorau o fewn eu rheolaeth e.e nid ydynt wedi cwrdd â'r dyddiadau cau.

(c) Gwnaed ymchwil ond amrediad cyfyngedig o ffynonellau a ddefnyddir e.e un neu ddwy wefan, gwerslyfrau neu gylchgronau. Bydd y ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cyfeirio gan diwtor yn bennaf a phrin fydd y rhai y cafwyd hyd iddynt yn annibynnol. Gwneir peth defnydd o 'r fethodoleg ymchwil a gyflwynwyd yn y cynllun ond mae hyn yn gyfyngedig.

Ceir peth dadansoddiad o'r pwnc er ei fod yn ddisgrifiadol yn bennaf. Cyfyngir yr effeithiau ar y diwydiant i un neu ddwy effaith yn unig ac ymdrinnir â'r rhain yn arwynebol ar y cyfan.

(ch) Gofynnir i'r dysgwr edrych ar eu prosiect gorffenedig. Bydd y gwerthusiad a wneir yn oddrychol yn bennaf heb fawr ddim tystiolaeth ategol. Bydd yr ymdriniaeth yn arwynebol.

Ceir gwerthusiad o'r fethodoleg ymchwil a fabwysiadwyd. Bydd hwn yn cynnwys peth cyfeirio at y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd a'r graddau yr oedd hyn yn ddigonol i gwrdd ag amcanion y prosiect.

Cymeradwyir meysydd mae'r dysgwyr yn meddwl y gellid eu gwella ond ni fydd eu hawgrymiadau yn berthnasol bob amser ac ni fydd syniadau ynglŷn â sut y gellid gwella bob amser yn realistig. Bydd argymhellion yn brin o fanylder.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 2**

Ar gyfer yr asesiad hwn, dylai dysgwyr ddethol pwnc sydd yn, neu sydd wedi effeithio ar y diwydiant teithio a thwristiaeth, neu ar sector o'r diwydiant, o fewn y pum mlynedd diwethaf. O fewn carfan o ddysgwyr, gall y cyfan ddewis ymchwilio neu ddadansoddi'r un pwnc neu gall pob un ddewis pwnc gwahanol. Mae'r naill ymdriniaeth a'r llall yn dderbyniol. Asesir dysgwyr ar eu gallu i weithio'n annibynnol. Mae angen ystyried hyn pan fo carfan gyfan wedi dewis ymchwilio i'r un pwnc.

Bydd dysgwyr yn tueddu i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd â gofynion y dasg â pheth manylder ac â pheth eglurder. Byddant yn gwneud ymchwil gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau a defnyddio'r wybodaeth a'r data a geir i ddadansoddi pynciau o safbwynt y diwydiant teithio a thwristiaeth. Byddant yn dangos y gallu i weithio'n annibynnol a delio â phroblemau fel y maen nhw'n codi.

(a) Bydd y cynnig ymchwil yn adnabod y pwnc yn glir. Bydd y pwnc yn gyfredol (o fewn y pum mlynedd diwethaf). Bydd disgrifiad pur fanwl o'r pwnc.

Cyflwynir cynllun ymchwil eithaf manwl. Bydd yn cynnwys amcanion prosiect sy'n benodol. Bydd yn manylu hefyd ar sut y cyrhaeddir yr amcanion hyn trwy fethodoleg ymchwil. Bydd y cynllun ar y cyfan yn glir ac yn realistig.

(b) Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r prosiect fel y cafodd ei amlinellu yn y cynllun. Gall fod rhai mân fylchau. Cwblheir y rhan fwyaf o'r prosiect yn annibynnol er y gall fod peth cyngor a chyfarwyddyd wedi'i roi. Gall fod angen atgoffa dysgwyr o amcanion y prosiect fel bod y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn ategu'r ymchwil.

Yn gyffredinol mae'r dysgwr wedi dilyn cynllun. Caiff y prosiect terfynol ei gwblhau erbyn y dyddiad cau a osodwyd. Cyrhaeddir yr amcanion.

Derbynnir cyfnewidiadau neu newidiadau fel rhan arferol o'r broses ac ymgorfforir hwy'n llawn yn niweddariad eu cynllun fel ymateb i newidiadau sydd eu hangen naill ai oherwydd prinder argaeledd tystiolaeth neu adnoddau neu newidiadau yn y gofynion ar eu hamser.

(c) Gwnaed ymchwil a oedd yn defnyddio amrediad o ffynonellau cynradd neu eilaidd. Cafwyd hyd i'r rhan fwyaf o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd yn annibynnol a chyfeirnodir hwy drwy'r prosiect. Defnyddir y fethodoleg ymchwil a gyflwynwyd yn y cynllun.

Dadansoddir y pwnc parthed ei effaith ar y diwydiant neu ar sector benodol ohono.

(ch) Gofynnir i'r dysgwr werthuso'u prosiectau gorffenedig. Bydd y gwerthusiad yn eitha gwrthrychol ac eitha trwyadl trwy ystyriaeth o amrediad o ffactorau neu trwy werthusiad manwl o un neu ddau ffactor. Defnyddir y gwerthusiad i dynnu casgliadau rhesymegol ar y cyfan.

Ceir gwerthusiad o'r fethodoleg ymchwil a fabwysiadwyd. Bydd hwn yn gwerthuso cyfyngiadau'r ymchwil a wnaed yn glir, naill ai'r amrediad o ffynonellau a ddefnyddiwyd neu ffynonellau penodol. Bydd eglurhad o sut mae'r ymchwil wedi effeithio ar ganlyniadau'r prosiect.

Gwneir argymhellion. Bydd peth manylder yn yr argymhellion sydd ar y cyfan yn addas ac wedi'u tynnu o'r casgliadau. Cyfiawnheir rhai argymhellion.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau am* gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 3**

Ar gyfer yr asesiad hwn, dylai dysgwyr ddethol pwnc sydd yn, neu sydd wedi effeithio ar y diwydiant teithio a thwristiaeth, neu ar sector o'r diwydiant, o fewn y pum mlynedd diwethaf. O fewn carfan o ddysgwyr, gall y cyfan ddewis ymchwilio neu ddadansoddi'r un pwnc neu gall pob un ddewis pwnc gwahanol. Mae'r naill ymdriniaeth a'r llall yn dderbyniol. Asesir dysgwyr ar eu gallu i weithio'n annibynnol. Rhaid ystyried hyn pan fo carfan gyfan wedi dewis ymchwilio i'r un pwnc.

Bydd dysgwyr yn cynhyrchu gwaith sy'n cwrdd â gofynion pob tasg yn fanwl a chydag eglurder. Byddant yn gwneud ymchwil cynhwysfawr gan ddefnyddio amrediad eang o ffynonellau ac yn dethol gwybodaeth a data priodol i ddadansoddi pynciau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant teithio a thwristiaeth. Byddant yn gweithio'n annibynnol ac yn delio yn effeithiol â phroblemau fel y maen nhw'n codi.

(a) Bydd y cynnig ymchwil yn adnabod y pwnc yn glir. Bydd y pwnc yn gyfredol (o fewn y pum mlynedd diwethaf). Bydd disgrifiad manwl o'r pwnc. Bydd hyn yn egluro cwmpas ac amrediad y pwnc.

Cyflwynir cynllun ymchwil fanwl. Bydd yn cynnwys amcanion prosiect sy'n benodol. Bydd yn manylu hefyd sut y bydd yr amcanion hyn yn cael eu cyrraedd trwy fethodoleg ymchwil. Cyfeirir at bob amcan yn glir yn y cynllun. Caiff blaenoriaethau eu hadnabod, eu disgrifio a'u hegluro. Bydd y cynllun yn glir ac yn realistig.

(b) Mae'r dysgwyr yn cwblhau'r prosiect fel y cafodd ei amlinellu yn y cynllun. Cwblheir y prosiect yn annibynnol.

Mae'r dysgwr yn amlwg wedi dilyn cynllun gyda'r holl amcanion wedi'u cyrraedd yn glir o fewn yr amrediad a'r cwmpas a ddisgrifiwyd a phob graddfa amser o bwys wedi'u cadw atynt.

Derbynnir cyfnewidiadau a newidiadau fel rhan arferol o'r broses a chânt eu hymgorffori yn niweddariad eu cynllun fel ymateb i newidiadau sy'n angenrheidiol. Mae newidiadau posibl wedi'u hadnabod a chynlluniau wrth gefn yn eu lle ymlaen llaw. Bydd angen iddynt arddangos y broses a gysylltir ag ymholiad systematig.

(c) Gwnaed ymchwil oedd yn defnyddio amrediad eang o ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd. Ceir hyd i'r ffynonellau a ddefnyddiwyd yn annibynnol a cheir cyfeiriadau clir a llawn atynt drwy'r prosiect. Defnyddir y fethodoleg ymchwil a gyflwynwyd yn y cynllun a phan ddefnyddir ffynonellau ychwanegol at y rhai a gynlluniwyd, cânt eu hegluro.

Dadansoddir y pwnc yn glir ac yn gynhwysfawr parthed ei effeithiau ar y diwydiant neu ar sector benodol ohono.

(ch) Gofynnir i'r dysgwr werthuso'u prosiect gorffenedig yn gynhwysfawr. Bydd y gwerthusiad yn wrthrychol ac yn drwyadl yn sgil ystyried amrediad o ffactorau mewn manylder. Defnyddir y gwerthusiad i dynnu casgliadau rhesymegol clir.

Ceir gwerthusiad o'r fethodoleg ymchwil a fabwysiadwyd. Bydd hwn yn gwerthuso amrediad a chyfyngiadau'r ymchwil a wnaed yn llawn. Bydd eglurhad clir a thrylwyr o sut mae'r ymchwil wedi effeithio ar ganlyniadau'r prosiect.

Gwneir nifer o argymhellion manwl a phriodol. Tynnir y rhain o gasgliadau a chyfiawnheir hwy'n llawn.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

## Cyflwyno'r uned hon

**Astudiaeth wedi'i harwain gan diwtor a hunangyfeiriol**

Cynlluniwyd yr uned hon â ffocws ymchwil i symbylu dysgwyr i ymgymryd ag astudiaeth yn cael ei harwain gan diwtor yn ogystal ag astudiaeth hunangyfeiriol. Gan ei bod yn cael ei hasesu yn fewnol mae cyfle gwych i'r diwydiant teithio a thwristiaeth gael ei berthnasu'n uniongyrchol i ddiddordebau'r dysgwyr. Gallai tiwtoriaid gyflwyno pynciau i ysgogi diddordeb a nodi ffynonellau gwybodaeth nodweddiadol. Gan y dyfernir marciau yn ôl lefel y gwaith annibynnol, dylid annog dysgwyr i weithio'n annibynnol trwy gyfres o weithdai. Dylid bod deilliannau dysgu clir i'r rhain gyda ffocws ar bwnc syml fel y gall y dysgwyr werthfawrogi sut i ymgymryd â phrosiect ymchwil.

**Siaradwyr gwadd**

Gall siaradwyr gwadd ysgogi meysydd ymchwil neu ddarparu ffynonellau gwybodaeth. Gall y llyfrgell ysbrydoli dysgwyr i adnabod defnydd ymchwil neu ddarparu gwybodaeth ar eu cyfer i ymchwilio llwybrau pellach o ddata posibl.

**Prosiect ymchwil**

Gall papurau newydd, cyfnodolion neu gylchgronau ddarparu ffocws i rai meysydd astudiaeth i roi trafodaethau mini neu beilot, gellid dadansoddi'r gwaith mewn seminarau neu ei gyfnewid trwy gyflwyniadau.

Rhagwelir y bydd y prif brosiect yn ffurfio prif ffocws yr uned hon a dylid ei gynllunio fel bod gan y dysgwyr ddigon o amser i gynllunio, trefnu ac ysgrifennu am eu canfyddiadau.

**Cyflwyniad**

Dylai cyflwyniadau ddilyn cyflwyno'r prosiect ymchwil yn naturiol a gellid eu gwneud mewn sawl dull; o gyflwyniad wedi'i gefnogi gan Bwerbwynt, i arweinlyfr neu daflen llawn gwybodaeth.

## Cysylltau

**Unedau eraill**

Mae'n bosibl i'r uned hon gysylltu â phob uned yn y cymhwyster hwn, yn ddibynnol ar y pwnc a ddefnyddiwyd i fod yn ffocws y prosiect ymchwil. Bydd unedau eraill y cymhwyster yn ffurfio sylfaen wybodaeth i'r dysgwyr allu ystyried y pynciau sydd angen mynd i'r afael â nhw.

**Diwydiant**

Gellid datblygu cysylltiadau â diwydiant i helpu'r dysgwyr trwy'u cyflwyno nhw i bwnc i ymchwilio iddo neu i drafod sut y mae pwnc wedi effeithio ar eu corff.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)**

Gall yr uned hon ddarparu cysylltiadau â'r unedau canlynol o CGCau Gwasanaethau Teithio a Thwristiaeth:

T15 Casglu a chynnal gwybodaeth a data twristiaeth

T16 Dadansoddi a chyflwyno data twristiaeth.

## Adnoddau

| | |
|---|---|
| **Gwerslyfrau** | Bydd testunau sy'n trafod dulliau ymchwil, yn enwedig rhai â ffocws hamdden, yn adnodd defnyddiol, gan gynnwys:<br>Lady Bell — *Doing Your Research Project* (Open University Press, 2005) ISBN 0335215041<br>Burns R — *Introduction to Research Methods* (Sage Publications, 2000) ISBN 0761965939 |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwefannau** | BBC | www.bbc.co.uk |
| | *Daily Telegraph* | www.dailytelegraph.co.uk |
| | English Heritage | www.english-heritage.org.uk |
| | *Guardian* | www.guardian.co.uk |

# Uned 9: Gweithio mewn Teithio a Thwristiaeth

## U2 Uned Ddewisol (Dyfarniad Sengl)
## U2 Uned Orfodol(Dyfarnaid Dwbl)

## Asesiad mewnol

## Cyflwyniad

Un o atyniadau'r diwydiant teithio a thwristiaeth i lawer o bobl yw'r amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a gynigia. Yn yr uned hon byddwch yn edrych ar natur ac amrediad y cyfleoedd cyflogaeth hynny a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer gyrfa lwyddiannus mewn teithio a thwristiaeth. Byddwch yn archwilio hefyd sut i weithio'n effeithiol mewn tîm ac yn datblygu sgiliau gweithio mewn tîm a fydd yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn gweithio yn y diwydiant.

Trwy ddeall y sgiliau y bydd eu hangen arnoch i weithio yn y diwydiant, byddwch yn gallu gwerthuso lefel eich sgiliau eich hunan trwy gynnal archwiliad sgiliau personol a chreu cynllun datblygu personol ar gyfer cyfle cyflogaeth detholedig o fewn y diwydiant.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth*

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth*

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

**9.1 Yr amrediad, natur a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth o fewn teithio a thwristiaeth**

Byddwch yn dysgu ymchwilio i'r amrediad o gyfleoedd cyflogaeth sy ar gael o fewn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Byddwch y dysgu ymhle mae cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu hysbysebu fel y byddwch yn gwybod ymhle i edrych am wybodaeth am gyfleoedd cyflogaeth. Byddwch yn dysgu archwilio amrediad o hysbysebion swyddi a ffynonellau eraill o wybodaeth fel y gallwch dynnu casgliadau am natur ac amrediad y cyfleoedd cyflogaeth sy ar gael ar lefelau gwahanol, yn sectorau gwahanol y diwydiant. Byddwch yn dysgu archwilio

- gofynion cytundebol swyddi yn y diwydiant teithio a thwristiaeth e.e dros dro a pharhaol, hunangyflogedig neu statws cyflogedig
- y graddfeydd cyflog sy ar gael am swyddi gwahanol
- oriau gwaith swyddi gwahanol e.e oriau anghymdeithasol, sifftiau hollt, hyd diwrnod gwaith
- lleoliad swyddi gwahanol e.e lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, rhyngwladol, dim ond mewn rhai lleoliadau y ceir rhai swyddi (maes awyr, terfynfa fferi, gweithredwyr teithiau, atyniadau)
- natur dymhorol swyddi gwahanol
- oedran a gofynion mynediad mathau gwahanol o swyddi e.e. yr oedran ieuengaf ar gyfer cynrychiolwyr cyrchfan, gofynion ffisiolegol ar gyfer criw caban.

Byddwch yn dysgu dadansoddi'r dystiolaeth a gafwyd trwy ymchwil yn ymwneud â natur ac amrediad cyfleoedd cyflogaeth o fewn y diwydiant teithio a thwristiaeth.

Gyda'r wybodaeth am y swyddi gwahanol sy ar gael, a'r gwaith a wneir yn y swyddi hynny, byddwch yn dysgu archwilio'r sgiliau a'r priodoleddau technegol a rhyngbersonol sydd eu hangen fel y gellwch ddeall y sgiliau a'r priodoleddau allweddol sydd eu hangen i weithio o fewn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Byddwch y deall y perthnasoedd rhwng rolau swyddi gwahanol yn sectorau gwahanol y diwydiant fel y gellwch ddadansoddi sut y gall caffael y sgiliau a'r priodoleddau hyn arwain at yrfa sy'n cwmpasu sectorau gwahanol y diwydiant ar lefelau gwahanol.

**9.2 Gwaith tîm**

Byddwch y dysgu am ddamcaniaeth gwaith tîm effeithiol fel y gellwch ddeall sut a pham mae mathau gwahanol o dimau yn cael eu creu ac yn gweithredu. Y mathau gwahanol o dimau yw:

- timau ffurfiol ac anffurfiol
- byrdymor, hirdymor, a thimau *ad hoc*.

Byddwch yn dysgu am sefyllfaoedd gwahanol pan ddatblygir y timau hyn mewn teithio a thwristiaeth.

Byddwch yn dysgu am rôl yr unigolyn mewn unrhyw dîm a sut y mae'n rhaid ystyried ei anghenion i reoli datblygiad a chydlyniad y tîm yn effeithiol, yn ogystal ag unrhyw wrthdrawiadau a all godi rhwng aelodau tîm.

Byddwch yn dysgu datblygu eich sgiliau eich hunan ar gyfer gweithio fel aelod o dîm hefyd. Byddwch yn dysgu cymhwyso'ch dealltwriaeth o ddamcaniaeth gwaith tîm i gymryd rhan yn ffurfio tîm yn gweithio tuag at gwblhau tasg teithio a thwristiaeth-berthynol benodol a delio â materion a gwrthdrawiadau sy'n codi trwy'u gweithredu.

Byddwch yn dysgu gwerthuso'ch perfformiad mewn gweithgaredd tîm, yn seiliedig ar wybodaeth o amrediad o ffynonellau.

**9.3 Sgiliau personol a datblygiad gyrfa**

Byddwch yn dysgu gwerthuso'ch potensial eich hun ac asesu gyrfaoedd posibl o fewn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Byddwch yn dysgu ymgymryd ag archwiliad sgiliau personol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth a gwerthuso eich:

- eich sgiliau personol eich hun
- agweddau
- priodoleddau
- gwybodaeth a phrofiad.

Byddwch yn dysgu defnyddio'r ddealltwriaeth hon o'ch sgiliau personol i asesu cyfleoedd gyrfa posibl o fewn y diwydiant. Byddwch yn dysgu dyfeisio cynllun datblygu gyrfa bersonol yn seiliedig ar eich archwiliad sgiliau personol. Bydd y cynllun datblygu gyrfa bersonol yn ymestyn dros leiafswm o bum mlynedd ac yn cynnwys:

- eich nod gyrfa
- y mathau o swyddi sy'n ymwneud ag ymgyrraedd at eich nod gyrfa
- sut y byddwch yn datblygu'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol
- sut y byddwch yn caffael yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol
- sut y byddwch yn datblygu'r priodoleddau angenrheidiol
- sut y byddwch yn addasu'ch agweddau i fod yn llwyddiannus yn yr yrfa a nodwyd
- y graddfeydd amser perthnasol
- y ffynonellau cefnogaeth y bydd eu hangen.

## Tystiolaeth asesu

Gallai tystiolaeth asesu fod ar sawl ffurf wahanol yn unol â’ch hoffterau a’ch cryfderau dysgu. Ceid tystiolaeth ar gyfer tasg (b) trwy ddatganiadau tystion. Gellid cael tystiolaeth ar gyfer llawer o'r tasgau trwy adroddiadau ysgrifenedig, ond gallai datganiadau tystion o gyflwyniadau llafar gyda nodiadau ategol fod ar gael hefyd.

Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o:

(a) eich cyfranogiad mewn tîm, yn gweithio tuag at gwblhau tasg teithio a thwristiaeth-berthynol arwyddocaol. Gallai hyn fod o ganlyniad i waith a gwblhawyd ar uned arall yn y cymhwyster neu dasg benodol a gynlluniwyd ar gyfer yr uned hon

(b) dadansoddiad o amrediad o gyfleoedd cyflogaeth a'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol ar gyfer gyrfa lwyddiannus yn y diwydiant teithio a thwristiaeth

(c) cynllun datblygu gyrfa manwl yn seiliedig ar archwiliad sgiliau personol a gynhyrchwyd gan ddefnyddio gwybodaeth o amrediad o ffynonellau.

## Meini prawf asesu

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **a** **(AA1)** **(AA2)** | Cymerwyd rôl o fewn tîm. Gall nad yw'r rôl yn arwyddocaol ond mae fel y cytunwyd arni gydag aelodau eraill y tîm.<br>Bu'r cyfranogiad yn y tîm yn effeithiol er na fu'r cyfraniad efallai yn arwyddocaol i gwblhau'r dasg.<br>Cydnabyddir cyfraniad aelodau eraill yn y tîm.<br>**(1-9)** | Cymerwyd rôl arwyddocaol o fewn y tîm.<br>Bu'r cyfranogiad yn y tîm yn effeithiol gan wneud cyfraniad dilys tuag at gwblhau'r dasg.<br>Cydnabyddir cyfraniad aelodau eraill o fewn y tîm a delir â gwrthdrawiadau sy'n codi yn effeithiol.<br>Tynnir tystiolaeth o gyfranogiad o amrediad o ffynonellau.<br>**(10-17)** | Cymerwyd rôl arwyddocaol o fewn y tîm.<br>Bu'r cyfranogiad yn y tîm yn gyson effeithiol, gan wneud cyfraniad arwyddocaol tuag at gwblhau'r dasg. Nodir anawsterau posibl o safbwynt cwrdd â'r amcanion a chynigir a mabwysiedir dulliau amgen.<br>Cydnabyddir cyfraniad aelodau eraill o fewn y tîm yn glir a rhoddir cefnogaeth i eraill yn ôl y gofyn. Nodir gwrthdrawiadau posibl a chynigir atebion a'u gweithredu.<br>Tynnir tystiolaeth o gyfranogiad o amrediad eang o ffynonellau.<br>**(18-21)** | **21** |
| **b** **(AA1)** **(AA3)** | Gwnaed peth ymchwil a cheir tystiolaeth ohoni trwy lyfryddiaeth yn bennaf. Ffynonellau wedi'u cyfeirio gan eraill a ddefnyddiwyd.<br>Ceir dadansoddiad elfennol o natur ac amrediad cyfleoedd cyflogaeth a'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol ar gyfer gyrfa lwyddiannus yn y diwydiant sy'n ddisgrifiadol yn bennaf.<br>**(1-8)** | Gwnaed ymchwil trwy ddefnyddio ffynonellau gwahanol, y cafwyd rhai ohonynt yn annibynnol. Cyfeirnodir peth tystiolaeth o ymchwil drwy'r testun, yn ogystal ag mewn llyfryddiaeth.<br>Ceir dadansoddiad o natur ac amrediad y cyfleoedd cyflogaeth a'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol i yrfa lwyddiannus yn y diwydiant. Cynhwyswyd amrediad o gyfleoedd cyflogaeth yn y dadansoddiad, sy'n glir ar y cyfan.<br>**(9-14)** | Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau gwahanol a gafwyd yn annibynnol. Cyfeirnodir llawer o'r dystiolaeth o ymchwil drwy'r testun, yn ogystal ag mewn llyfryddiaeth.<br>Ceir dadansoddiad clir o natur ac amrediad cyfleoedd cyflogaeth a'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol i yrfa lwyddiannus yn y diwydiant. Cynhwyswyd amrediad o gyfleoedd cyflogaeth yn y dadansoddiad.<br>**(15-18)** | **18** |

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **c** **(AA1)** **(AA4)** | Mae'r cynllun datblygu gyrfa yn brin o fanylder mewn rhai rhannau a gall fod rhai bylchau er nad ydynt yn arwyddocaol. Gall ffocws y cynllun fod ar y tymor-byr yn hytrach na'r dyfodol tymor-canolig. Mae'r cynllun yn gwneud defnydd cyfyngedig o'r archwiliad sgiliau personol. Mae'r archwiliad sgiliau personol yn brin o beth manylder ac yn oddrychol yn bennaf. **(1-9)** | Mae peth manylder a pheth cyfiawnhad yn y cynllun datblygu gyrfa. Gall fod rhai bylchau ond nid ydynt yn arwyddocaol. Mae ffocws y cynllun ar y dyfodol tymor-canolig. Defnyddiwyd yr archwiliad sgiliau personol i ddatblygu cynllun datblygiad gyrfa. Mae'r archwiliad sgiliau personol yn fanwl ac wedi'i resymu gyda rhai rhannau wedi'u profi. Tynnwyd tystiolaeth o amrediad o ffynonellau. **(10-17)** | Mae'r cynllun datblygiad gyrfa yn gynhwysfawr, wedi'i resymu'n dda ac wedi'i gyfiawnhau yn llawn gan wneud defnydd clir a chyson o'r archwiliad sgiliau personol. Mae ffocws y cynllun ar nodau gyrfa hirdymor. Mae'r archwiliad sgiliau personol yn gynhwysfawr a manwl gan dynnu o dystiolaeth o amrediad eang o ffynonellau i brofi casgliadau yn llawn. **(18-21)** | **21** |
| | | | **Cyfanswm marciau** | **60** |

(Am ddisgrifiad o AAau gweler tudalen 3.)

## Canllaw asesu

### Band Marciau 1

Ar gyfer tasg (b) rhaid i'r dysgwr gymryd rhan mewn digwyddiad tîm. Gall hwn fod wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y dasg hon neu gall gyfrannu tuag at gwblhau uned arall. Rhaid iddi ymwneud â theithio a thwristiaeth. Dylai'r digwyddiad tîm fod yn ystyrlon. Gall hyn fod yn drefnu ymweliad preswyl, gwneud prosiect ymchwil ar ran sefydliad teithio a thwristiaeth, cyflwyno sesiwn hyfforddi i grŵp teithio a thwristiaeth arall, trefnu arddangosfa neu gynhadledd deithio. Efallai fod digwyddiadau tîm teithio a thwristiaeth-berthynol eraill y gallant gymryd rhan ynddynt. Bydd y digwyddiad tîm yn dasg benodol y maent yn gweithio tuag ati.

Ar gyfer y band marciau hwn, bydd dysgwyr yn tueddu i gynhyrchu gwaith sy'n ddisgrifiadol a goddrychol yn bennaf ac yn brin o fanylder. Maen nhw'n debygol o wneud ymchwil ond gan ddefnyddio ffynonellau sy'n cael eu darparu ar eu cyfer yn hytrach na chwilio am rai eraill. Bydd cyfranogiad mewn tîm yn tueddu i fod wedi'i gyfeirio ac yn arwynebol heb gael fawr effaith ar y canlyniad cyffredinol.

(a) Gall na fydd gan y dysgwr rôl arwyddocaol ond bydd hyn wedi'i gytuno ar y dechrau yn hytrach nag o ganlyniad iddynt fethu â chyflawni'u gofynion.

    Mae peth tystiolaeth fod y dysgwr wedi cydnabod cyfraniad aelodau eraill yn y tîm. Gall hyn fod trwy werthusiad neu trwy sylwadau a wnaethpwyd gydol y broses dîm. Bydd hyn yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaeth gwaith tîm a sut y gellir cymhwyso hynny i sefyllfaoedd real.

(b) Gwnaed peth ymchwil ond bydd yn tueddu i fod o un neu ddwy ffynhonnell, efallai dim ond y rhai y cyfeiriwyd hwy atynt gan diwtor a bydd tystiolaeth yn gyfyngedig i lyfryddiaeth yn unig efallai.

    Mae dysgwyr i fod i gynhyrchu dadansoddiad o natur ac amrediad cyfleoedd cyflogaeth a'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol ar gyfer gyrfa lwyddiannus yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Gall hwn fod yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol. Bydd y dadansoddi wedi'i gysylltu'n bennaf â swyddi penodol ac nid yn orolwg o natur cyflogaeth yn y diwydiant. Mae'n debygol y bydd pwyslais ar swyddi gweithredol ac nid ar ystod o lefelau. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn amlwg ond ychydig o ddefnydd a wneir o dystiolaeth i brofi'u canfyddiadau.

(c) Gofynnir i ddysgwyr gynhyrchu cynllun datblygiad gyrfa. Gall hwn fod yn brin o fanylder mewn rhai rhannau a bod â rhai bylchau. Nid yw'r cyfyngderau a'r bylchau yn arwyddocaol. Gall fod ffocws y cynllun ar y tymor byr yn hytrach na'r dyfodol tymor-canolig gan y bydd yn ffocysu efallai ar y swydd yr hoffent ei chael ar ôl gadael yr ysgol/coleg. Cynhyrchir archwiliad sgiliau personol. Mae hwn yn brin o fanylder gan na chynhwysir rhai sgiliau allweddol a nodwyd fel rhai angenrheidiol i'r diwydiant. Bydd tystiolaeth yn tueddu i fod yn oddrychol gyda dysgwyr yn methu â thynnu o unrhyw ffynonellau annibynnol. Gwneir peth defnydd o'r archwiliad sgiliau personol i gynhyrchu cynllun datblygiad personol ond mae hwn yn gyfyngedig ac yn aneglur.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 2**

Ar gyfer tasg (b) rhaid i'r dysgwr gymryd rhan mewn digwyddiad tîm. Gall hwn fod wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y dasg hon neu gall gyfrannu tuag at gwblhau uned arall. Rhaid iddi ymwneud â theithio a thwristiaeth. Dylai'r digwyddiad tîm fod yn ystyrlon. Gall hyn fod yn drefnu ymweliad preswyl, gwneud prosiect ymchwil ar ran sefydliad teithio a thwristiaeth, cyflwyno sesiwn hyfforddi i grŵp teithio a thwristiaeth arall, trefnu arddangosfa neu gynhadledd deithio. Gall fod digwyddiadau teithio a thwristiaeth-berthynol eraill y gallant gymryd rhan ynddynt. Bydd y digwyddiad tîm yn dasg benodol y maent yn gweithio tuag ati.

Ar gyfer y band marciau hwn, bydd dysgwyr yn tueddu i gynhyrchu gwaith sy'n ddadansoddol ac arfarnol, yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrediad o bynciau. Maen nhw'n debygol o wneud ymchwil yn eang ar draws yr holl dasgau. Bydd cyfranogiad mewn tîm yn arwyddocaol gan ei fod yn debygol o effeithio canlyniad cyffredinol y dasg. Byddant yn amlygu gallu i ddefnyddio menter ac i weithio yn annibynnol yn fynych.

(a) Bydd gan y dysgwr rôl arwyddocaol. Gallai hyn fod yn sgil gweithio mewn grŵp bach o ddim mwy na phump o bobl, aelodau eraill o'r dosbarth mae'n debyg. Gallai fod hefyd trwy arwain tîm mwy lle mae un neu ddau aelod o'r dosbarth efallai yn gweithio gyda grwpiau eraill sy'n dilyn eu cyfarwyddiadau. Gallai hyn fod trwy weithio gyda grŵp o ysgol leol neu grŵp cymunedol. Bydd y dysgwr wedi gwneud cyfraniad dilys i'r tîm sy'n cwblhau'i waith. Byddant wedi gwneud tasgau fel y cytunwyd er y gall fod rhai bylchau a rhai tasgau heb eu gorffen i'r safon ofynnol. Ni fyddai'r bylchau hyn wedi achosi straen na gwaith ychwanegol sylweddol i eraill yn y tîm. Bydd eu cyfraniad wedi bod yn effeithiol gan na fyddai wedi bod yn bosibl cwblhau'r dasg hebddo.

    Mae tystiolaeth fod y dysgwr wedi cydnabod cyfraniad aelodau eraill yn y tîm. Gall hyn fod trwy werthusiad neu trwy sylwadau a wnaethpwyd trwy'r broses dîm. Mae'r dysgwr wedi gallu delio â gwrthdrawiadau sy wedi codi yn ogystal. Gall hyn fod trwy weithredu ymlaen llaw neu trwy weithred adferol. Bydd hyn yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaeth gwaith tîm a sut y gellir ei gymhwyso i sefyllfaoedd real.

(b) Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau, y bydd rhai ohonynt wedi'u caffael yn annibynnol heb gyfarwyddyd gan eraill megis tiwtor. Ceir tystiolaeth o'r rhain trwy beth cyfeirnodi ffynonellau o fewn y cynnwys. Bydd llyfryddiaeth yn ogystal.

    Bydd y dysgwr yn cynhyrchu dadansoddiad o natur ac amrediad y cyfleoedd cyflogaeth a'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol ar gyfer gyrfa lwyddiannus yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Bydd hyn yn tynnu ar dystiolaeth yn gysylltiedig ag amrediad o swyddi ar lefelau gwahanol gan arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth mewn peth dyfnder. Bydd y dysgwr yn dangos y sgiliau a'r priodoleddau generig i'r diwydiant yn amlwg. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn amlwg, a gwneir defnydd o dystiolaeth i brofi'u canfyddiadau.

(c) Gofynnir i ddysgwyr gynhyrchu cynllun datblygiad gyrfa. Bydd hwn yn cynnwys peth manylder parthed y gweithredu sy'n ofynnol. Gall gynnwys manylion costau a graddfeydd amser hefyd. Bydd yn ystyried datblygiad sgiliau a phriodoleddau yn ogystal â gwybodaeth, profiad a chymwysterau. Mae rhai rhannau o'r cynllun wedi'u cyfiawnhau gyda chysylltiadau clir â'u harchwiliad sgiliau personol. Gall fod rhai bylchau ond nid yw'r rhain yn arwyddocaol. Mae'r cynllun yn ymdrin â lleiafswm o gyfnod pum mlynedd felly bydd iddo o leia ddau gam h.y. ôl-ysgol/coleg a cham nesaf y gyflogaeth gyntaf. Enghraifft bosibl fyddai gweithio yn trafod ar y ddaear (ground handling) ar ôl gadael yr ysgol/coleg ac yna mynd ymlaen i fod yn gynrychiolydd tramor.

Cynhyrchir archwiliad sgiliau personol. Mae hwn yn ymdrin â'r holl sgiliau allweddol a ddynodwyd fel rhai angenrheidiol ar gyfer y diwydiant. Mae peth manylder a rhesymu yn yr archwiliad sgiliau personol. Caiff rhai canfyddiadau eu profi gan dystiolaeth a dynnwyd o rai ffynonellau annibynnol. Rhoir disgrifiad o amrediad o gyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Bydd cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu disgrifio ar bob lefel ac ar gyfer amrediad o sectorau'r diwydiant. Disgrifir rolau swyddi mewn peth manylder gan amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn y golyga'r swyddi hyn a lle gall fod gwahaniaethau.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 3**

Yn nhasg (b) rhaid i'r dysgwr gymryd rhan mewn digwyddiad tîm. Gall hwn fod wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y dasg hon neu gall gyfrannu tuag at gwblhau uned arall. Rhaid iddi ymwneud â theithio a thwristiaeth. Dylai'r digwyddiad tîm fod yn ystyrlon. Gall hyn fod yn drefnu ymweliad preswyl, gwneud prosiect ymchwil ar ran sefydliad teithio a thwristiaeth, cyflwyno sesiwn hyfforddi i grŵp teithio a thwristiaeth arall, trefnu arddangosfa neu gynhadledd deithio. Gall fod digwyddiadau teithio a thwristiaeth-berthynol eraill y gallant gymryd rhan ynddynt. Bydd y digwyddiad tîm yn dasg benodol y maent yn gweithio tuag ati.

Ar gyfer y band marciau hwn, bydd dysgwyr yn tueddu i gynhyrchu gwaith sy'n amlwg yn ddadansoddol ac arfarnol, yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth drwyadl o amrediad o bynciau. Maen nhw'n debygol o wneud ymchwil yn eang ar draws yr holl dasgau. Bydd eu cyfranogiad gyda thîm yn gyson arwyddocaol gan y bydd yn debygol o effeithio canlyniad cyffredinol y dasg. Byddant yn dangos yn glir y gallu i ddefnyddio menter a gweithio'n annibynnol, gan ymgymryd â rolau arwain effeithiol yn un neu fwy o agweddau cwblhau'r dasg.

(a) Mae'r dysgwr wedi cymryd rhan mewn digwyddiad tîm. Ar y lefel hon, bydd gan y dysgwr rôl arwyddocaol gydol cwblhau'r dasg. Gallai hyn fod o ganlyniad i weithio mewn grŵp bach o ddim mwy na 5 person, aelodau eraill o'r dosbarth mae'n debyg. Gallai fod hefyd trwy arwain tîm mwy lle mae un neu fwy o aelodau'r dosbarth yn gweithio efallai gyda grwpiau eraill sy'n dilyn eu cyfarwyddiadau. Gallai hyn olygu gweithio gyda grŵp o ysgol leol neu grŵp cymunedol.

Bydd y dysgwr wedi gwneud cyfraniad sylweddol a dilys i'r tîm sy'n cwblhau'i dasg. Byddant wedi gwneud tasgau fel y cytunwyd i safon briodol. Ni fyddai'u perfformiad yn y tîm wedi achosi straen na gwaith ychwanegol arwyddocaol i eraill. Byddant wedi ymgymryd â thasgau ychwanegol gan ddefnyddio'u menter eu hunain i liniaru'r straen a'r baich gwaith ar eraill. Bydd eu cyfraniad wedi bod yn arwyddocaol fodd bynnag oherwydd hebddo ni fyddai'r dasg wedi'i chwblhau.

Bydd y dysgwr wedi ymgymryd â rôl arweinydd o fewn y tîm. Gall hyn fod trwy wneud penderfyniadau neu trwy ddelio â chanlyniadau heb eu cynllunio neu annisgwyl. Nid oes raid iddynt fod wedi ymgymryd â rôl arweinydd gydol y broses ond dylai fod ar adeg arwyddocaol er enghraifft pan oedd angen cyfeiriad clir i alluogi cwblhau tasg neu lle roedd problemau sylweddol wrth gwrdd ag amcanion neu am gyfnod sylweddol o amser.

Bydd anawsterau posibl cwrdd ag amcanion wedi cael eu hadnabod yn annibynnol. Bydd dulliau amgen i oresgyn anawsterau sy'n ddilys a dichonadwy wedi cael eu hawgrymu.

Mae tystiolaeth fod y dysgwr wedi cydnabod cyfraniad eraill yn y tîm. Bydd hyn trwy sylwadau a wnaethpwyd gydol y broses dîm. Mae'r dysgwr wedi gallu adnabod gwrthdrawiadau posibl o fewn y tîm yn ogystal ag wedi defnyddio technegau naill ai i rwystro gwrthdaro neu wedi delio â nhw fel maent wedi codi. Bydd hyn wedi digwydd trwy weithredu ymlaen llaw neu trwy weithred adferol.

Tynnir tystiolaeth o ymrwymiad o amrediad eang o ffynonellau a bydd yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth drwyadl o waith tîm a datrys problem.

(b) Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio amrediad eang o ffynonellau, y bydd y mwyafrif ohonynt wedi'u caffael yn annibynnol heb gyfarwyddyd gan eraill megis tiwtor. Ceir tystiolaeth o'r ffynonellau hyn trwy gyfeirnodi ffynonellau o fewn y cynnwys. Ceir llyfryddiaeth yn ogystal.

Bydd y dysgwr yn cynhyrchu dadansoddiad cynhwysfawr o natur ac amrediad y cyfleoedd cyflogaeth a'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol ar gyfer gyrfa lwyddiannus yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Bydd hwn yn tynnu ar dystiolaeth o amrediad o ffynonellau gwybodaeth i brofi'u canfyddiadau. Bydd y dadansoddiad yn perthnasu i amrediad eang o swyddi ar lefelau gwahanol, ar draws holl sectorau'r diwydiant, gan arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth drwyadl. Bydd y dysgwr yn amlygu'r sgiliau a'r priodoleddau generig i'r diwydiant yn glir.

Cynhyrchir archwiliad sgiliau personol cynhwysfawr a manwl. Mae hwn yn ymdrin â'r holl sgiliau allweddol y nodwyd eu bod yn angenrheidiol i'r diwydiant, yn ogystal ag eraill y gellir bod gofyn amdanynt ar gyfer swyddi penodol neu lefelau penodol o swyddi addas i uchelgeisiau'r dysgwr. Caiff canfyddiadau eu profi trwy dystiolaeth a dynnwyd o amrediad o ffynonellau annibynnol.

(c) Gofynnir i ddysgwyr gynhyrchu cynllun datblygiad gyrfa. Bydd hwn yn fanwl parthed y gweithredu sydd ei angen, y graddfeydd amser a'r costau. Bydd yn ystyried datblygiad sgiliau a phriodoleddau yn ogystal â gwybodaeth, profiad a chymwysterau. Mae'r cynllun wedi'i resymu a'i gyfiawnhau ac wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'u harchwiliad sgiliau personol. Bydd y cynllun yn ymdrin â chyfnod sylweddol o amser, o leia bum mlynedd. Dylai ymdrin ag o leia dri cham e.e ôl ysgol /coleg, y gyflogaeth gyntaf yn y diwydiant ac yna ddilyniant. Gallai enghraifft o hyn fod - mynd ymlaen i brifysgol i astudio am radd, yna yn griw caban ac yna yn hyfforddwr i gwmni hedfan.

Cynhyrchir archwiliad sgiliau personol. Mae hwn yn ymdrin â'r holl sgiliau allweddol y nodwyd eu bod yn angenrheidiol i'r diwydiant. Mae rhesymu a manylder clir yn yr archwiliad sgiliau personol. Bydd canfyddiadau yn cael eu profi gan dystiolaeth a dynnwyd o amrediad o ffynonellau annibynnol.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

## Cyflwyno'r uned hon

### Ymchwil

Dylid annog dysgwyr i greu ffeil o hysbysebion swyddi teithio a thwristiaeth i'w galluogi i gael dealltwriaeth realistig o'r mathau o gyfleoedd sy'n addas iddynt ac y maent wedi'u hymgymhwyso i geisio amdanynt. Tra gall y wasg fasnachol ddarparu hysbysebion bydd enghreifftiau hefyd mewn papurau newyddion lleol a rhanbarthol. Mae llawer o gyrff teithio a thwristiaeth yn cynnwys crynodebau gyrfa (ac, yn aml, ffurflenni cais ar-lein) y gall dysgwyr gael gwybodaeth bellach ohonynt. Bydd dysgwyr nid yn unig yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pynciau, byddant hefyd yn dysgu lle i ymchwilio am gyfleoedd cyflogaeth pan fyddant yn chwilio am waith eu hunain.

Trwy ymchwil, bydd dysgwyr yn caffael gwybodaeth am ddamcaniaethau gwaith tîm hefyd. Gallant benderfynu ar eu rôl ddewisol mewn tîm, a ddylai fod o gymorth iddynt wrth weithio ar eu prosiect tîm. Bydd hyn o gymorth iddynt hefyd wrth ddadansoddi gweithgareddau eu gwaith tîm gan y gallent eu perthnasu i'r damcaniaethau y maent wedi'u hymchwilio.

**Siaradwyr gwadd**

Mae llawer o gyrff teithio a thwristiaeth yn awyddus i siarad â dysgwyr am gyfleoedd gyrfa. Ffynhonnell arall o gyngor gwerthfawr yw'r asiantaethau cyflogaeth - mae gan lawer ohonynt gyflwyniadau a phecynnau gwybodaeth ar bynciau fel sgiliau cyfweliad, ysgrifennu CVau, cynllunio gyrfa a.y.y.b. Tra nad oes gofyn gwneud y cyfan hyn ar gyfer yr uned, mae'r mewnbwn hwn yn berthnasol a byddai'n gymorth i ddysgwyr wrth ddatblygu'u cynlluniau gyrfa'u hunain.

**Gweithdai**

Wrth werthuso'u sgiliau a'u priodoleddau eu hunain, eu perfformiadau eu hunain mewn gwaith tîm ac wrth ddysgu datblygu'u cynlluniau gyrfa'u hunain, bydd angen cefnogaeth a chyfarwyddyd o ffynonellau amrywiol ar ddysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys athrawon ac ymgynghorwyr gyrfaoedd yn ogystal â dysgwyr eraill yn eu dosbarth. Byddai gweithgareddau ar lun gweithdai, gyda deilliannau dysgu clir ac wedi'u ffocysu ac adnoddau addas ar gael yn galluogi dysgwyr i gwblhau gweithgareddau yn llawn.

**Astudiaethau achos**

Trwy ddefnyddio astudiaethau achos, gall dysgwyr ddysgu dadansoddi perfformiad i weld lle roedd sgiliau yn ddiffygiol a lle mae angen gwelliannau. Gall astudiaethau achos eu cyflwyno hefyd i broblemau a gwrthdrawiadau posibl. Gallent ddefnyddio'r rhain i drafod agweddau gwahanol at ddatrysiad ac i ddatblygu'u sgiliau datrys-problem eu hunain. Byddai hyn yn cynorthwyo dysgwyr hefyd wrth weithio mewn timau gan y gallent adnabod problemau a gwrthdrawiadau posibl yn haws a gweithredu'r syniadau a drafodwyd. Gellir datblygu astudiaethau achos trwy weithgareddau dosbarth gan dynnu o brofiadau'r dysgwyr a'r athrawon eu hunain o weithio mewn timau. Gellid gwneud hyn hefyd trwy archwilio penodau o raglenni teledu megis *Airline* neu *Airport*.

**Chwaraeon rôl**

Gallai dysgwyr gymryd rhan mewn chwaraeon rôl i ennill dealltwriaeth fwy eglur o rolau swyddi a'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol i ymgymryd â thasgau'n effeithiol. Trwy'r chwaraeon rôl gallent ddysgu dadansoddi perfformiad unigolyn hefyd.

**Lleoliad gwaith**

Pan fo dysgwyr yn ymgymryd â lleoliad gwaith, mae amrediad o gyfleoedd ychwanegol yn codi, gan alluogi dysgwyr i ddysgu am rolau swydd benodol a'r sgiliau angenrheidiol i wneud y swydd honno. Maen nhw'n debygol hefyd o ddatblygu sgiliau gwaith tîm. Trwy leoliad gwaith, gall dysgwyr ystyried eu gwerthoedd a'u hagweddau'u hunain tuag at weithio yn y diwydiant teithio a thwristiaeth.

---

## Cysylltau

**Unedau eraill**

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth* — mae hon yn adeiladu ar ddealltwriaeth dysgwyr o sectorau gwahanol o fewn y diwydiant a rolau penodol.

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth* — tra'n edrych ar y sgiliau rhyngbersonol angenrheidiol gofynnol ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth, bydd angen i ddysgwyr ystyried y sgiliau a ddysgwyd yn Gwasanaeth Cwsmer.

*Uned 6:Gweithrediadau Cyrchfan* — lle mae dysgwyr wedi dewis cyfleoedd cyflogaeth o weithrediadau cyrchfan byddant yn elwa o'u dealltwriaeth o'r uned hon.

*Uned 12: Cyrff Teithio* — lle mae dysgwyr wedi dewis cyfleoedd cyflogaeth o gyrff teithio byddant yn elwa o'u dealltwriaeth o'r uned hon.

**Y diwydiant**

Bydd cynnwys cynrychiolwyr y diwydiant i ddarparu mewnbwn i gyflogaeth a'r sgiliau angenrheidiol yn gwella cyflwyniad yr uned hon yn fawr. Efallai hefyd y gallant gynnig prosiect realistig i ddysgwyr i arddangos sgiliau gwaith tîm neu gallent ddarparu profiad gwaith lle gall dysgwyr ddysgu am gyfleoedd cyflogaeth a sgiliau a phriodoleddau angenrheidiol o fewn sector o'r diwydiant.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)**

Gall yr uned hon ddarparu cysylltiadau â'r unedau canlynol o CGCau Gwasanaethau Teithio a Thwristiaeth:

T10 Datblygu a chynnal eich effeithiolrwydd

T21 Trefnu'ch gwaith a'ch datblygiad personol

T22 Cyfrannu at gefnogi a datblygu cydweithwyr.

## Adnoddau

**Gwerslyfrau**

Belbin M — *Team Roles at Work* (Butterworth-Heinemann, 1996) ISBN 0750626755

Collins V — *Working in Tourism: The UK, Europe and Beyond* (Vacation Work Publications, 1998) ISBN 1854582186

Gagnon P — *Travel Career Development: Student Workbook* (Institute of Certified Travel, 2002) ISBN 0931202531

Poore C — *Building Your Career Portfolio* (Career Press, 2001) ISBN 1564145409

**Darllen arall**

*Leisure Management*

*Leisure Opportunities*

*Travel Trade Gazette*

*Travel Weekly*

**Gwefannau**

Mae gan y rhan fwyaf o gyrff teithio a thwristiaeth wefannau ac mae nifer fawr ohonynt yn cynnwys adran ar yrfaoedd o fewn y corff yn ogystal ag yn darparu ffurflenni cais ar-lein. Mae'r prif weithredwyr teithiau, yr trefnwyr teithiau, y cwmnïau hedfan, y gweithredwyr trên a fferi, y cadwyni gwestai a llawer o atyniadau ymwelwyr yn cynnwys disgrifiadau swyddi hefyd. At hyn, gall y wefan ganlynol fod yn ddefnyddiol:

Springboard www.springboarduk.org.uk

**Fideos**

Gall rhaglenni dogfen pry-ar-y-wal ar gyrff megis cwmnïau hedfan, gwestai a gweithredwyr teithiau ddarparu defnydd trafod gyrfaoedd cyffrous ar gyfer dysgwyr.

Mae *TV Choice* yn cynnig fideos ar sectorau amrywiol y diwydiant teithio a thwristiaeth yn ogystal â rhai wedi'u ffocysu ar waith tîm ar gyfer y farchnad addysgiadol (TV Choice Ltd, PO Box 597, Bromley, Kent BR2 0YB, UK).

Mae gan BBC Learning Zone nifer o raglenni defnyddiol yn ymwneud â gweithio mewn teithio a thwristiaeth hefyd.

# Uned 10: Hyrwyddo a Gwerthiant mewn Teithio a Thwristiaeth

## U2 Uned Ddewisol (Dyfarniad Sengl)
## U2 Uned Orfodol(Dyfarniad Dwbl)

## Asesiad allanol

## Cyflwyniad

Yn yr uned hon byddwch yn dysgu am y broses farchnata a'r rôl allweddol sy gan hyrwyddo. Byddwch yn dysgu am dechnegau gwahanol a ddefnyddir gan gyrff teithio a thwristiaeth i hyrwyddo eu cynhyrchion a'u gwasanaethau a byddwch yn gwerthuso effeithiolrwydd y technegau hyn. Gan mai pwrpas hyrwyddo yn fynych yw cynyddu gwerthiant cynhyrchion a gwasanaethau'r corff , byddwch yn dysgu am y broses werthu a sut i'w defnyddio i ddatblygu'ch sgiliau gwerthu eich hun.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth*

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth*

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 10.1 Y broses werthu ac ymddygiad prynwyr

Mae Cyrff Teithio a thwristiaeth yn defnyddio dulliau gwahanol i werthu'u cynhyrchion a'u gwasanaethau. Gall y rhain fod yn rhai wyneb-yn-wyneb, ar y ffôn neu electronig. Byddwch yn dysgu disgrifio'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol i werthu cynnyrch neu wasanaeth yn effeithiol ac yn egluro sut y gallant wahaniaethu yn ôl y sefyllfa sydd ohoni.

Byddwch yn dysgu disgrifio'r sefyllfaoedd gwerthu gwahanol sy'n bodoli ar gyfer Cyrff Teithio a thwristiaeth ac yn egluro sut y gall ymddygiad prynwyr wahaniaethu ym mhob sefyllfa.

Byddwch yn dysgu'r camau sy ynghlwm wrth y broses werthu:

- sefydlu perthynas
- penderfynu ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid
- amlinellu nodweddion a buddiannau
- goresgyn gwrthwynebiadau
- cau'r gwerthiant
- gwasanaeth ôl-werthiant.

Byddwch yn dysgu disgrifio pob cam. Byddwch yn dysgu cymhwyso'r broses werthu mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth wahanol hefyd.

## 10.2 Rôl hyrwyddo yn y broses farchnata

Byddwch yn dysgu am y broses farchnata a'r camau allweddol cysylltiedig. Ar gyfer pob cam byddwch yn dysgu am y rôl mae hyrwyddo yn ei chwarae i sicrhau'i effeithiolrwydd. Y camau yn y broses farchnata y byddwch yn dysgu amdanynt yw:

- gosod amcanion marchnata — fel y gellwch egluro sut y gellir defnyddio agweddau gwahanol at hyrwyddo i gwrdd â'r amcanion hyn
- dyraniad y farchnad — byddwch yn dysgu am y ffyrdd gwahanol a ddefnyddir i rannu'r farchnad (oedran, grŵp cymdeithasol-economaidd, ffordd o fyw, rhyw, ethnigrwydd a daearyddiaeth) a sut y gellir defnyddio hyn i ddatblygu defnyddiau ac ymgyrchoedd hyrwyddol.
- ymchwil farchnad - Byddwch yn dysgu'r gwahaniaeth rhwng ymchwil wreiddiol ac eilaidd a'r dulliau a ddefnyddir ar gyfer pob agwedd. Byddwch yn dysgu dadansoddi'r dulliau hyn ac egluro'u manteision a'u hanfanteision i fathau gwahanol o gyrff a sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth. Byddwch yn ffocysu ar ddysgu am ymchwil farchnad a ddefnyddir i helpu rhannu'r farchnad i ddatblygu gweithgareddau hyrwyddo ac i benderfynu ar effeithiolrwydd y gweithgareddau hyrwyddo yr ymgymerir â nhw.
- dadansoddi ffactorau allweddol yr amgylchfyd busnes sy'n debygol o effeithio ar weithgareddau hyrwyddol (cyfreithiol, amgylcheddol, proffidioldeb, cystadleuaeth, economaidd, technolegol)
- datblygu cymysgedd marchnata (marketing mix) trwy ddisgrifio cynhyrchion, pris, lleoliad a hyrwyddiad corff ac egluro sut maen nhw'n cydweithio i gwrdd ag amcanion y corff.

## 10.3 Y cyfuniad hyrwyddo

Byddwch yn dysgu deall a defnyddio amrediad o derminoleg wahanol a ddefnyddir yng nghyswllt gweithgareddau hyrwyddo Cyrff Teithio a thwristiaeth:

- cysylltiadau marchnata
- sianeli cyfathrebiadau
- cyfryngau
- technegau hyrwyddo
- defnyddiau hyrwyddo.

Byddwch yn dysgu am y technegau hyrwyddo canlynol:

- hysbysebu — er enghraifft teledu, y wasg leol a chenedlaethol, radio, cylchgronau, y rhyngrwyd, posteri, y man gwerthu
- pamffledi gwyliau
- arddangosfeydd
- marchnata uniongyrchol — er enghraifft post unionsyth/cylchlythyrau, telefarchnata, drws-i-ddrws, ymateb uniongyrchol cyfryngol
- cysylltiadau cyhoeddus (PR) — er enghraifft datganiad i'r wasg, cynnwys yn y cyfryngau (*media inclusion*), cysylltiadau cymunedol, cyfathrebu corfforaethol (lliwiau, logos, a.y.y.b.)
- nawdd
- hyrwyddo gwerthiant - er enghraifft disgowntiau, cymhellion, rhoddion am ddim, cynigion arbennig, cystadlaethau, cynlluniau ffyddlondeb, cynhyrchion ychwanegol, hyrwyddiadau masnachol
- gwerthu personol — wyneb yn wyneb, gwerthu ar y ffôn, galw heb rybudd.

Byddwch yn dysgu disgrifio pob techneg ac adnabod ble y cânt eu defnyddio gan gorff. Byddwch y dysgu hefyd i argymell pa dechnegau sy'n addas i gyrraedd amcanion corff, gan gyfiawnhau'ch dewisiadau. Byddwch yn dysgu gwerthuso addasrwydd technegau a ddefnyddir gan gyrff teithio a thwristiaeth.

Byddwch yn dysgu gwerthuso defnyddiau hyrwyddo a ddefnyddir gan gyrff teithio a thwristiaeth. Byddwch yn dysgu yn ogystal i gynllunio defnyddiau hyrwyddo effeithiol sy'n addas ar gyfer marchnad darged benodol.

Byddwch yn dysgu am ymgyrchoedd hyrwyddo. Byddwch yn dysgu dyfeisio cynllun hyrwyddo sy'n cwmpasu cyfnod o amser ac yn defnyddio amrediad o dechnegau a defnyddiau i gyrraedd nodau penodol, gan weithio o fewn cyllideb. Byddwch yn dysgu cyfiawnhau'ch cynigion ar gyfer cynllun hyrwyddo. Hefyd byddwch yn dysgu ymchwilio i ymgyrchoedd hyrwyddo a wnaed gan gyrff teithio a thwristiaeth fel y gellwch werthuso'u heffeithiolrwydd hefyd.

## Tystiolaeth asesu

Asesir yr uned hon trwy asesiad allanol.

Y marc a gewch am yr asesiad hwn fydd eich marc am yr uned.

Bydd yr asesiad allanol ar ffurf prawf wedi'i farcio. Bydd y prawf yn cynnwys cyfres o gwestiynau atebion-byr a hir. Bydd cynnwys yr asesiad allanol yn perthnasu'n uniongyrchol i'r hyn y dylech fod wedi'i ddysgu o ganlyniad i'r gweithgareddau yr ydych wedi'u gwneud fel rhan o'ch gwaith ar gyfer yr uned hon.

Bydd angen i chi fod yn gallu cymhwyso'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o'r uned i alwadau'r cwestiynau a osodir. Mae'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i sefyllfaoedd gwahanol yn baratoad amhrisiadwy ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg uwch. Mae asesiad allanol yn un esiampl o lle mae'r trosglwyddiad hwn yn hanfodol e.e ymdopi ag amgylchiadau dan reolaeth asesiad allanol, y senarios ac ymateb i gwestiynau.

Bydd yr asesiad allanol yn gofyn am dystiolaeth o:

(a) bod yn gallu amlygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o gynnwys pwnc yr uned hon, ac o sgiliau perthynol mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol

(b) bod yn gallu cymhwyso'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o gynnwys pwnc yr uned hon, ac o sgiliau perthynol mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol

(c) bod yn gallu defnyddio technegau ymchwil priodol i gaffael gwybodaeth i ddadansoddi materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol

(ch) bod yn gallu gwerthuso gwybodaeth i lunio barn resymegol, tynnu casgliadau a gwneud argymhellion ynglŷn â materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol.

---

## Cyflwyno'r uned hon

### Ymchwil

Yn benodol bydd angen i ddysgwyr wneud ymchwil i ymgyrchoedd hyrwyddo Cyrff Teithio a thwristiaeth gan y gallant gael eu gofyn i ddadansoddi'r rhain mewn asesiad allanol. Dylid eu hannog i gaffael manylion o fathau gwahanol o ymgyrchoedd a ddefnyddir gan fathau gwahanol o gyrff megis ymgyrch amgueddfa leol ar gyfer cylch newydd o arddangosion neu reid newydd ar gyfer parc thema mawr neu lawnsiad pamffled gweithredwr teithiau neu gynhyrchion newydd cwmni hedfan. Gallent wneud eu hymchwil mewn grwpiau a chyflwyno'u canfyddiadau i eraill yn y dosbarth ar ffurf seminar. Byddai angen trafod a dadansoddi canlyniadau'r ymchwil.

Gellid gwneud ymchwil hefyd ar gynhyrchion a gwasanaethau gwahanol a ddarperir gan gyrff a sut y maent yn cael eu hyrwyddo. Gellid mabwysiadu'r un dull ar gyfer pob agwedd o'r cyfuniad marchnad.

Gellid gwneud ymchwil hefyd i werthuso effeithiolrwydd defnyddiau ac ymgyrchoedd hyrwyddo. Byddai hyn yn hybu'u dealltwriaeth o ddulliau gwahanol o wneud ymchwil farchnad a gallai yn ogystal ddatblygu'u sgiliau cyfathrebu a'u sgiliau dadansoddol, rhif a TG wrth ddehongli'r canlyniadau.

**Siaradwyr gwadd**

Gellid gwahodd siaradwyr gwadd sy'n arbenigwyr marchnata mewn meysydd sy ddim yn gysylltiedig â theithio a thwristiaeth i ffocysu ar sut y defnyddir technegau hyrwyddo gwahanol, sut y maen nhw'n sicrhau bod defnyddiau hyrwyddo yn effeithiol, a sut maen nhw'n mesur a monitro'u heffeithiolrwydd.

Gellid gwahodd siaradwyr gwadd yn ogystal i roi cyflwyniadau ar dechnegau gwerthu a sut i oresgyn gwrthwynebiadau gan gwsmeriaid posibl.

**Gweithdai**

Gellid cael gweithdai lle mae dysgwyr yn datblygu'u defnyddiau hyrwyddo eu hunain. Gallai'r rhain fod yn defnyddio offer TGCh neu offer clywedol/gweledol i ystyried dulliau o ddefnyddio amrediad o gyfryngau.

## Cysylltau

**Unedau eraill**

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth* — mae'r uned hon yn adeiladu ar ddealltwriaeth dysgwyr o sectorau gwahanol o fewn y diwydiant y gallant ei defnyddio i benderfynu ar ymatebion priodol i ymddygiad gwerthwyr a phrynwyr yn ogystal â sut mae gweithgareddau hyrwyddo yn amrywio yn ôl sectorau gwahanol yn y diwydiant.

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth* - wrth edrych ar y sgiliau rhyngbersonol angenrheidiol a rôl gwerthu a gwerthiannau mewn gwasanaeth cwsmer.

*Uned 6: Gweithrediadau Cyrchfan* — lle mae dysgwyr yn ymwneud â gwerthu gwasanaethau ychwanegol a hyrwyddo gwasanaethau sy ar gael trwy gyfarfodydd croeso a defnyddiau ategol.

*Uned 8: Materion Cyfredol mewn Teithio a Thwristiaeth* - lle gall dysgwyr ddewis astudio newidiadau yn ymddygiad prynwr a sut mae hyn wedi effeithio ar weithgareddau hyrwyddo Cyrff Teithio a thwristiaeth.

**Diwydiant**

Bydd defnyddio cynrychiolwyr y diwydiant i roi mewnbwn yn gwella cyflwyno agweddau gwerthiant yr uned hon. Gall cynrychiolwyr diwydiant roi enghreifftiau penodol o fathau gwahanol o sefyllfaoedd gwerthiant, sut y gellir defnyddio sgiliau, y mathau o wrthwynebiadau y dônt ar eu traws a sut y gellir eu goresgyn.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)**

Gall yr uned hon ddarparu cysylltiadau â'r unedau canlynol o CGCau Gwasanaethau Teithio a Thwristiaeth:

T1 Gwerthu gwasanaethau teithio

T5 Cynorthwyo gyda hyrwyddo gwasanaethau teithio

T6 Rhoi argraff bositif ohonoch eich hun a'ch corff i gwsmeriaid

T8 Datblygu a chynnal perthnasoedd cefnogol gyda galwyr ar y ffôn

T13 Gwerthu cynhyrchion a gwasanaethau twristiaeth

T19 Helpu cwsmeriaid i ddewis a bwcio gwasanaethau teithio

T35 Cyfrannu at gynhyrchu cyfryngau hyrwyddo a dehongli

T42 Trefnu a gweithredu gweithgareddau hyrwyddo teithio a thwristiaeth

T48 Datrys problemau gwasanaeth cwsmer.

## Adnoddau

| | |
|---|---|
| **Gwerslyfrau** | Briggs S — *Successful Tourism Marketing* (Kogan Page, 2001) ISBN 0749434694<br><br>Horner S and Swarbrooke J — *Consumer Behaviour in Tourism: An International Perspective* (Heinemann Educational, 1998) ISBN 0750632836<br><br>Kotler P et al — *Principles of Marketing for Hospitality* (Pearson US Imports and PHIPEs, 1996) ISBN 0133956253<br><br>Smith I — *Meeting Customer Needs* (Butterworth Heinemann, 1997) ISBN 0750633913<br><br>Stewart M — *Keep the Right Customers* (McGraw-Hill, 1996) ISBNs 0077091396 |
| **Gwefannau** | Mae gan y mwyafrif o gyrff teithio a thwristiaeth wefannau ac mae gan nifer ohonynt adrannau penodol ar gyfer dysgwyr a /neu wybodaeth marchnata. At hyn, gall y canlynol fod yn ddefnyddiol:<br><br>*Marketing Magazine* www.brandrepublic.com/magazines/marketing/index.cfm |
| **Fideos** | Mae rhaglenni dogfen ar y teledu am gyrff teithio a thwristiaeth yn aml yn darparu defnydd trafod defnyddiol am farchnata.<br><br>Mae *TV Choice* yn cynnig amrediad eang o fideos cyffredinol a phenodol ar deithio a thwristiaeth ar gyfer y farchnad addysgol (TV Choice Ltd, PO Box 597, Bromley, Kent BR2 0YB). |

# Uned 11: Gwyliau Diddordebau Arbennig

## U2 uned ddewisol (Dyfarniad Sengl)
## U2 uned orfodol (Dyfarniad Dwbl)

## Asesiad mewnol

## Cyflwyniad

Yn yr uned hon byddwch yn dysgu am wyliau diddordebau arbennig mewn cyrchnodau ledled y byd. Byddwch yn edrych ar nodweddion gwyliau diddordebau arbennig, y cyrchnodau ar eu cyfer a'r gweithredwyr teithiau sy'n darparu ar gyfer y farchnad hon. Byddwch yn asesu'r ffactorau sy'n effeithio ar eu poblogrwydd gyda thwristiaid ac yn argymell gwyliau addas a gynlluniwyd gennych chi i gwrdd ag anghenion mathau gwahanol o dwristiaid.

Byddwch yn cael cyfle i ddysgu am amrediad o wyliau diddordebau arbennig, rhai ohonynt mewn manylder.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth*

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth*

*Uned 3: Cyrchnod Ewrop*

*Uned 4: Cyrchnod Prydain*

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

**11.1 Amrediad, dosbarthiad daearyddol, nodweddion a darparwyr gwyliau diddordebau arbennig**

Gwyliau yn ffocysu ar weithgaredd penodol yw gwyliau diddordebau arbennig. Mae dau gategori o ddiddordebau arbennig. Enghreifftiau o fathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig ar gyfer pob categori yw:

- gwyliau sy fel arfer yn digwydd mewn un cyrchnod ar ei hyd
  - diwylliannol megis mynychu gŵyl gerddorol
  - crefyddol megis pererindod neu encil
  - treftadaeth a allai fod yn ddiwydiannol neu yn hanesyddol
  - chwaraeon a allai fod yn mynychu fel gwyliwr megis yn y gemau Olympaidd neu Gwpan y Byd neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon megis golff neu sgwba-ddeifio
  - gweithgaredd arbenigol megis dawnsio neu goginio
  - iechyd a ffitrwydd megis aros mewn sba iechyd
  - priodasau a misoedd mêl
  - gweithio megis ar gibwts neu wersyll haf
  - cadwraeth megis adfer cynefinoedd naturiol
- gwyliau sy'n gofyn i dwristiaid symud o gwmpas yn ystod eu harhosiad, gyda rhyw fath ar daith neu deithio; yn y math hwn o wyliau diddordebau arbennig, mae'r teithio yn aml yn elfen hanfodol
  - hirdeithio megis cerdded neu ferlota
  - beicio
  - mynd ar fordaith
  - siwrneion trên gan ddefnyddio systemau rheilffyrdd sefydledig megis Blue Train, Orient Express, Trans Siberian
  - teithiau arbenigol megis i flasu gwin
  - antur dros dir
  - saffarïau
  - teithio annibynnol megis gwarbacio (backpacking).

Byddwch yn dysgu am amrediad o fathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig ym mhob categori, eu dosbarthiad daearyddol, eu prif nodweddion a'u darparwyr.

Byddwch yn dysgu am gyrchnodau ledled y byd lle gall twristiaid brofi mathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig. Byddwch yn dysgu grwpio cyrchnodau ar gyfer pob math o wyliau diddordebau arbennig ac i'w lleoli ar fap i ddangos eu dosbarthiad daearyddol. Byddwch yn dysgu sut i ychwanegu manylion ac eglurder i'ch mapiau trwy anodi a labelu nodweddion allweddol.

Byddwch yn dysgu am nodweddion y cyrchnodau a ddefnyddir i gefnogi mathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig. Byddwch yn dysgu ble i gael hyd i wybodaeth fel y gellwch ddethol y nodweddion hynny sy'n arwyddocaol i fath o wyliau diddordebau arbennig ac wedyn gellir eu disgrifio a'u crynhoi. Byddwch yn ystyried:

- yr hinsawdd
- y tirlun
- llwybrau cludiant a hygyrchedd
- llety
- gwasanaethau lleol
- atyniadau naturiol ac wedi'u hadeiladu
- digwyddiadau ac adloniant
- diwylliant a threftadaeth leol
- gweithgareddau a chyfleusterau.

Byddwch yn dysgu egluro pam mae rhai cyrchnodau a nodweddion yn arwyddocaol ar gyfer gwyliau diddordebau arbennig.

Byddwch yn dysgu am ddarparwyr gwyliau diddordebau arbennig. Byddwch yn dysgu adnabod y rhai sy'n darparu gwyliau diddordebau arbennig penodol. Bydd y darparwyr yn cynnwys:

- y farchnad dorfol a gweithredwyr teithiau annibynnol
- arbenigwyr ar wyliau wedi'u teilwra
- arbenigwyr mewn un cyrchnod neu ran o'r farchnad
- y prif systemau cludiant (*transport principals*)

## 11.2 Teithlenni ar gyfer gwyliau diddordebau arbennig

Cynllun neu raglen i dwristiaid ei dilyn yw teithlen. Byddwch yn dysgu sut i lunio teithlen ar gyfer gwyliau diddordebau arbennig sy'n cymryd lle mewn un cyrchnod. Byddwch yn dysgu cynnwys y canlynol mewn teithlen:

- ar gyfer pwy y darparwyd y deithlen
- dyddiadau
- amseriad
- beth sy'n gynwysedig megis gweithgareddau, gwibdeithiau, llety
- manylion cyswllt
- manylion y cyrchnod megis yr atyniadau a amlygir.

Byddwch yn dysgu faint o fanylion sydd eu hangen a'r fformat sy'n briodol.

Byddwch yn derbyn ysgrifau portread o dwristiaid gan eich tiwtor sy'n disgrifio'u hanghenion a'u hamgylchiadau. Byddwch yn dysgu cymhwyso'ch gwybodaeth o nodweddion a chyrchnodau allweddol sy'n cefnogi mathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig trwy gynhyrchu teithlen sy'n cwrdd â'u hanghenion a'u hamgylchiadau fel y disgrifir hwy mewn ysgrifau portread. Byddwch yn dysgu fod anghenion 'sylfaenol' ac anghenion 'cymhleth' gan gynnwys:

- addysg
- hamdden
- chwaraeon
- crefyddol
- ymlacio
- trefniadau teithio arbennig
- gwasanaethau a chyfleusterau arbennig
- gweithgareddau amgen ar gyfer aelodau gwahanol o grŵp
- safonau, ansawdd, natur ddethol.

Byddwch yn dysgu hefyd i gyfiawnhau unrhyw argymhellion a wnewch.

Byddwch yn dysgu am nifer o fathau o wyliau diddordebau arbennig ac yn ffocysu ar un math ar gyfer asesiad y pwnc hwn.

**11.3 Apêl a phoblogrwydd gwyliau diddordebau arbennig**

Byddwch yn dysgu ble i gael hyd i wybodaeth am boblogrwydd ac apêl mathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig. Byddwch yn dysgu dadansoddi'r wybodaeth a gewch a'i defnyddio i gymharu poblogrwydd ac apêl mathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig. Byddwch yn dysgu dehongli data ystadegol a gwybodaeth arall i dynnu casgliadau am sut mae cyrchnodau a'u nodweddion yn arwyddocaol i boblogrwydd ac apêl gwyliau diddordebau arbennig.

**11.4 Ffactorau sy’n dylanwadu ar boblogrwydd gwyliau diddordebau arbennig**

Byddwch yn dysgu am y ffactorau sy wedi dylanwadu ar boblogrwydd mathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig fel y gellwch asesu pa rai sy wedi bod yn arwyddocaol i boblogrwydd mathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig. Gallai'r ffactorau i chi'u hystyried gynnwys:

- newidiadau bywyd-gwaith
- hygyrchedd
- argaeledd atyniadau a chyfleusterau twristaidd eraill
- agweddau yn newid
- ymwybyddiaeth gynyddol o bynciau diwylliannol, amgylcheddol ac iechyd
- iechyd, cyfoeth a ffitrwydd cynyddol pobl wedi ymddeol
- diddordeb cynyddol mewn chwaraeon cenedlaethol, addysg, antur
- patrymau gwyliau cyfnewidiol - mwy o alw am wyliau byr.

Byddwch yn dysgu sut i ymchwilio i ddata ystadegol cyfredol fel y gellwch asesu poblogrwydd gwyliau diddordebau arbennig a gwneud dyfarniadau ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar eu hapêl.

## Tystiolaeth asesu

Gallai'r dystiolaeth asesu fod ar lawer ffurf wahanol yn unol â'ch hoffterau a'ch cryfderau dysgu. Bydd mapiau o leia ar gael ar gyfer tasg a, a theithlen ar gyfer tasg b, ond gallai fod adroddiadau ysgrifenedig hefyd, neu dystiolaeth tyst o gyflwyniadau llafar neu chwaraeon rôl gwasanaeth cwsmer gyda nodiadau ategol.

Ar gyfer tasg (a) yr asesiad dylech ystyried pob math o wyliau diddordebau arbennig o'r amrediad a nodir yn 11.1.

Mae tasg (b) yn gofyn i chi ddewis math o wyliau diddordebau arbennig sy'n seiliedig ar un cyrchnod.

Ar gyfer tasg (c) a thasg (ch) gofynnir i chi ymchwilio i ddau fath o wyliau diddordebau arbennig. Rhaid i chi ddewis un math o wyliau o bob un o'r ddau gategori a roddir h.y. rhaid i un ohonynt fod yn wyliau sy'n golygu taith neu rywfaint o deithio a rhaid i'r llall fod yn seiliedig ar un cyrchnod. Gallwch ddewis yr un mathau o wyliau ar gyfer tasgau (c) a (ch).

Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o:

(a) mapiau yn dangos dosbarthiad daearyddol mathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig

a

disgrifiad ac eglurhad o ddosbarthiad daearyddol a darparwyr amrediad o wyliau diddordebau arbennig

(b) teithlen ar gyfer gwyliau diddordebau arbennig yn seiliedig ar un cyrchnod ac eglurhad o sut mae'r deithlen yn cwrdd ag anghenion twristiaid fel y cawsant eu darparu ar eich cyfer gan eich tiwtor ar ffurf ysgrif bortread

(c) cymhariaeth o nodweddion, mathau o dwristiaid a phoblogrwydd dau fath gwahanol o wyliau diddordebau arbennig; un yn ymwneud â thaith ac un yn seiliedig ar un cyrchnod

(ch) asesiad o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar boblogrwydd dau fath o wyliau diddordebau arbennig; un yn ymwneud â thaith ac un yn seiliedig ar gyrchnod.

## Meini prawf asesu

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| a<br><br>(AA1) | Disgrifir lleoliad cyrchnodau ar gyfer amrediad cyfyngedig o wyliau diddordebau arbennig heb gyfeirio fawr ddim at y dosbarthiad daearyddol. Darperir amrediad cyfyngedig. Bydd rhai anghywirdebau o safbwynt dethol cyrchnod a lleoliad ar rai mapiau er y bydd rhai cyrchnodau priodol wedi'u lleoli. Bydd y disgrifiad o'r dosbarthiad daearyddol yn ddisgrifiadol yn bennaf.<br><br>Nodir rhai darparwyr gwyliau diddordebau arbennig ond gall fod y cyswllt rhyngddynt a mathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig yn gyfyngedig.<br><br>**(1-6)** | Disgrifir lleoliadau amrediad o wyliau diddordebau arbennig mewn peth manylder gyda chyfeiriadau clir at eu dosbarthiad daearyddol. Cyflwynir mapiau ar gyfer cyrchnodau priodol sy wedi'u lleoli'n gywir. Bydd peth manylder ynddynt. Mae eglurhad o ddosbarthiad daearyddol amrediad o wyliau diddordebau arbennig sy'n cyfeirio at nodweddion allweddol.<br><br>Caiff amrediad o fathau gwahanol o ddarparwyr gwyliau diddordebau arbennig eu hadnabod, enghreifftir rhai ohonynt.<br><br>**(7-9)** | Disgrifir amrediad eang o wyliau diddordebau arbennig yn fanwl gyda chyfeiriadau clir at eu dosbarthiad daearyddol. Mae mapiau yn dangos cyrchnodau priodol ledled y byd ar gyfer amrediad eang o wyliau diddordebau arbennig ynghyd â'u lleoliadau a'u nodweddion allweddol. Mae mapiau yn fanwl, wedi'u labelu'n llawn ac yn gywir. Rhoddir eglurhad clir a chynhwysfawr o ddosbarthiad daearyddol amrediad eang o wyliau diddordebau arbennig sy'n gwneud cysylltiadau clir rhwng nodweddion allweddol â'r dosbarthiad daearyddol.<br><br>Nodir amrediad eang o ddarparwyr ystod eang o wyliau diddordebau arbennig gydag enghreifftiau o gynhyrchion penodol a enwir.<br><br>**(10-12)** | **12** |
| b<br><br>(AA2) | Cyflwynir teithlen y gall fod rhai anghywirdebau neu fylchau ynddi ac sy'n brin o fanylder. Mae'n addas ar gyfer anghenion twristiaid fel y darparwyd hwy yn yr ysgrif bortread. Gall y dystiolaeth awgrymu fod teithlen sy'n bod eisoes neu becyn wedi cael eu defnyddio. Gall arddull y cyflwyniad olygu nad yw gwybodaeth yn eglur.<br><br>Bydd eglurhad yr apêl yn ddisgrifiadol yn bennaf a bydd yn gwneud cysylltiadau cyfyngedig ag anghenion twristiaid. Bydd y pwyslais ar eu hanghenion sylfaenol.<br><br>**(1-7)** | Bydd y deithlen yn realistig ac yn addas i anghenion y twrist. Bydd y deithlen yn cynnwys yr holl wybodaeth briodol, llawer ohoni wedi'i disgrifio'n fanwl. Bydd y deithlen yn cynnwys llawer o elfennau gwreiddiol. Cyflwynir y deithlen mewn arddull glir a hawdd ei dehongli.<br><br>Mae eglurhad o sut mae'r deithlen yn cwrdd ag anghenion y twrist gyda chysylltiadau clir ag anghenion penodol, y gall llawer ohonynt fod yn gymhleth.<br><br>**(8-12)** | Bydd y deithlen yn realistig ac yn amlwg yn addas ar gyfer anghenion twristiaid. Ni fydd ynddi unrhyw anghywirdebau na bylchau. Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn fanwl a phenodol. Bydd y deithlen yn wreiddiol. Caiff ei chyflwyno yn glir ac mewn arddull sy'n addas ar gyfer y dasg.<br><br>Mae eglurhad cynhwysfawr o sut mae'r deithlen gyfan yn cwrdd ag anghenion y twrist gyda chysylltiadau clir â'u hanghenion cymhleth.<br><br>**(13-15)** | **15** |

| 00 | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **c** **(AA3)** | Gwnaed peth ymchwil a gall fod tystiolaeth o hynny mewn llyfryddiaeth. Cynhwyswyd apêl a phoblogrwydd dau fath gwahanol o wyliau diddordebau arbennig ond prin yw'r gymhariaeth. Mae'r casgliadau yn oddrychol yn bennaf heb fawr ddefnydd o wybodaeth na data ystadegol i'w cefnogi. **(1-7)** | Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol, y mae rhai ohonyn nhw wedi'u cyfeirnodi. Cymharwyd apêl a phoblogrwydd dau fath gwahanol o wyliau diddordebau arbennig. Tynnwyd casgliadau o wybodaeth a data ystadegol. Profir rhai canfyddiadau. **(8-12)** | Mae ymchwil annibynnol yn amlwg ac mae tystiolaeth o amrediad o ffynonellau gwybodaeth, sy wedi'u cyfeirnodi. Ceir cymhariaeth gynhwysfawr o apêl a phoblogrwydd dau fath gwahanol o wyliau diddordebau arbennig sy'n tynnu ar wybodaeth a data ystadegol a gafwyd o ganlyniad i ymchwil a wnaed. Profir canfyddiadau. **(13-15)** | **15** |
| **ch** **(AA4)** | Ceir asesiad o'r ffactorau sy'n effeithio ar boblogrwydd ac apêl dau fath gwahanol o wyliau diddordebau arbennig. Bydd hwn yn oddrychol a disgrifiadol yn bennaf heb fawr dystiolaeth a manylder ategol. Mae'n debyg y ceir sylwadau cyffredinol. **(1-9)** | Gwneir asesiad sy'n ystyried amrediad o ffactorau sy'n dylanwadu ar boblogrwydd dau fath o wyliau diddordebau arbennig. Defnyddir tystiolaeth a gafwyd trwy ymchwil i gefnogi'r asesiadau a wnaethpwyd, y gall peth ohono fod yn drwyadl. **(10-14)** | Gwneir asesiad manwl o amrediad eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar boblogrwydd dau fath o wyliau diddordebau arbennig. Defnyddir data ystadegol a thystiolaeth arall i brofi'r asesiadau a wneir. **(15-18)** | **18** |
| | | | **Cyfanswm marciau** | **60** |

## Canllaw Asesu

**Band Marciau 1**

Bydd tystiolaeth dysgwyr yn tueddu i fod yn brin o fanylder, yn fylchog, ac yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol neu'n dangos rhesymu manwl. Bydd angen cyflwyno ysgrifau portread i ddysgwyr ar gyfer tasg (b). Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Darperir enghreifftiau o ysgrifau portread yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân. Gall y rhain fod yr un fath ar gyfer carfan o ddysgwyr neu gallant gael eu hysgrifennu i dargedu band marciau penodol. Byddai hyn yn symbylu dysgwyr i ymgyrraedd at lefel briodol i'w potensial. Os ysgrifennir nhw i dargedu bandiau marciau penodol, gweler y sylwadau isod.

(a) Mae dysgwyr yn debygol o ddisgrifio lleoliad mathau o wyliau diddordebau arbennig. Bydd hyn yn gyfyngedig parthed niferoedd y cyrchnodau a gynhwysir neu'r manylder a ddarparwyd ar gyfer pob un. Mae'n debygol nad oes unrhyw ddisgrifiad yn rhoi gorolwg o ddosbarthiad daearyddol (h.y. ar raddfa ranbarthol, genedlaethol na byd-eang) gan mai cyrchnodau penodol a ddisgrifir yn hytrach na'u nodweddion a'r cyswllt rhyngddynt â'i gilydd. Gall y mapiau a ddarperir fod yn brin o gyrchnodau sy wedi'u hadnabod neu fod eu lleoliadau yn anghywir. Byddant yn tueddu i gynnwys y lleiafswm o wybodaeth. Bydd dysgwyr yn nodi darparwyr gwyliau diddordebau arbennig ond bydd y rhain yn debyg o fod yn gyfyngedig o ran amrediad ac yn ddarparwyr mwy generig yn hytrach nag yn rhai sy'n benodol gysylltiedig â'r mathau o wyliau diddordebau arbennig a roddwyd iddynt.

(b) Bydd dysgwyr yn cyflwyno teithlen ar gyfer gwyliau diddordebau arbennig. Mae'n debygol y bydd nifer o fylchau ynddi, er y gall na fyddant yn arwyddocaol. Bydd y deithlen yn cwrdd â mwyafrif yr anghenion a nodwyd yn yr ysgrif bortread. Mae'r deithlen yn debygol o amlygu gorddibyniaeth ar becynnau sy'n bod eisoes a gwybodaeth wedi'i chodi'n syth o bamffledi gwyliau heb fanylion nodweddion penodol, gwybodaeth bellach na newidiadau. Gall cyflwyniad y deithlen fod yn brin o eglurder. Gwneir rhyw ymgais i egluro apêl rhai nodweddion ar gyfer pob teip o dwrist, ond bydd hwn yn ffocysu ar anghenion sylfaenol twristiaid heb fawr wahaniaethu o ran nodweddion a gynhwyswyd na sut y maent yn cwrdd ag anghenion cymhleth twristiaid. Bydd y dysgwr naill ai wedi derbyn ysgrif bortread o dwrist sy ag anghenion syml neu bydd wedi methu ag ystyried yr anghenion cymhleth oedd yn yr ysgrif bortread. Manylion cyfyngedig fydd mewn ysgrif bortread sy'n canolbwyntio ar anghenion syml e.e bydd yn ymdrin â math, nifer, hyd, anghenion cyffredinol e.e sgïo, bywyd nos. Gall rhai rhannau o'r deithlen fod yn afrealistig megis amserau a chostau teithio teithlen, neu'n anghywir megis yr hinsawdd.

(c) Gwnaed peth ymchwil ond mae'n tueddu i fod o ffynonellau sy'n hawdd eu cael ac sy wedi'u cyfeirio yn bennaf gan eraill megis tiwtor. Cyfyngir tystiolaeth o ymchwil efallai i lyfryddiaeth yn unig. Nodwyd apêl a phoblogrwydd dau fath gwahanol o wyliau diddordebau arbennig ond ni cheir fawr gymhariaeth rhwng y ddau. Mae'r casgliadau a wnaed yn oddrychol yn bennaf heb ddefnyddio llawer o dystiolaeth i gefnogi'u syniadau. Prin yw'r defnydd a wneir o ddata a gwybodaeth felly mae sylwadau yn generig.

(ch) Mae dysgwyr yn debygol o gynhyrchu asesiad o nifer cyfyngedig o ffactorau. Mae'n debygol o gynnwys sylwadau penagored heb fawr dystiolaeth ategol. Bydd yr asesiad yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol yn bennaf ac yn oddrychol gyda pheth rhesymu. Bydd y casgliadau a wneir yn or-syml a phenagored heb fawr gyfeiriad penodol at y cyrchnodau. Ar gyfer y band marciau hwn, mae'n debygol y bydd un cyrchnod yr ymdrinnir ag ef yn arwynebol.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 2**

Bydd dysgwyr yn tueddu i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd â gofynion y dasg â chryn fanylder a chryn eglurder. Byddant yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn trwy eu gallu i gymhwyso peth o hynny i sefyllfaoedd galwedigaethol. Byddant yn dangos peth gallu i ymchwilio yn annibynnol ac i ddefnyddio'u canfyddiadau i wneud rhai dyfarniadau rhesymegol. Bydd angen cyflwyno ysgrifau portread i ddysgwyr ar gyfer tasg (b). Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Darperir enghreifftiau o ysgrifau portread yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân. Gall y rhain fod yr un fath ar gyfer carfan o ddysgwyr neu gallant gael eu hysgrifennu i dargedu band marciau penodol. Byddai hyn yn symbylu dysgwyr i ymgyrraedd at lefel briodol i'w potensial. Os ysgrifennir nhw i dargedu bandiau marciau penodol, gweler y sylwadau isod.

(a) Bydd dysgwyr yn disgrifio lleoliad amrediad o wyliau diddordebau arbennig mewn peth manylder, h.y. byddant yn cynnwys amrediad o bob categori. Ar gyfer pob math bydd cyrchnodau yn dangos dosbarthiad byd-eang a/neu bydd pob un wedi'i ddisgrifio mewn peth manylder. Bydd cyfeiriad clir at ddosbarthiad daearyddol sy'n crynhoi'u lledaeniad byd-eang gyda chyfeiriadau at nodweddion cyrchnodau. Darperir mapiau i ategu'u disgrifiadau. Mae lleoliadau cyrchnodau ar y map yn briodol ac yn gywir. Bydd manylion ar y mapiau o ran nodweddion daearyddol sy'n perthnasu i'r gwyliau diddordebau arbennig. Bydd dysgwyr yn darparu manylion am amrediad o ddarparwyr gwyliau diddordebau arbennig gwahanol sy'n cael eu henghreifftio h.y. maen nhw'n enghreifftiau penodol o bob teip a gynhwysir yn eu tystiolaeth.

(b) Bydd dysgwyr yn cyflwyno teithlen ar gyfer gwyliau diddordebau arbennig. Bydd hi'n addas i anghenion twristiaid ac yn realistig. Bydd yn gywir ar y cyfan gydag anghywirdebau di-nod. Bydd y deithlen yn rhoi tystiolaeth o'r dysgwr yn defnyddio ffynonellau gwreiddiol yn hytrach na phecyn i greu teithlen i gwrdd ag anghenion cwsmer. Cyflwynir y deithlen mewn fformat sy'n glir ac yn hawdd ei ddehongli. Bydd eglurhad o sut mae'r deithlen yn cwrdd ag anghenion twristiaid. Bydd cyswllt clir rhwng y nodweddion yn y deithlen a'r cyrchnod ac anghenion sylfaenol a rhai anghenion cymhleth twristiaid. Bydd y dysgwr wedi derbyn ysgrif bortread o deip o dwrist sy â rhai anghenion cymhleth neu sy ag amrediad o anghenion cymhleth a dim ond rhai ohonyn nhw fydd wedi'u hystyried. Bydd rhywfaint o fanylder yn yr ysgrif bortread e.e teulu â thri phlentyn dan bump gydag un yn faban, mae un oedolyn yn sgïwr o safon uwch, mae un o'r plant yn hoffi eirafyrddio ac mae'r plant eraill eisiau dysgu sgïo ond yn y boreau yn unig, maen nhw eisiau sgïo rhewlifau ac yn hwyr yn y tymor. Gall dysgwyr fod wedi methu â chyfeirio at rai o'r manylion yn yr ysgrif bortread.

(c) Gwnaed ymchwil sy'n defnyddio amrediad o dechnegau a ffynonellau gwybodaeth, y bydd rhai ohonynt wedi'u caffael yn annibynnol o ganlyniad i ymchwil cychwynnol. Cyfeirnodir rhai ffynonellau yn glir trwy'u gwaith. Nodwyd apêl a phoblogrwydd dau fath gwahanol o wyliau diddordebau arbennig. Ceir cymhariaeth rhwng y ddau fath sy'n adnabod ac yn egluro nifer o nodweddion sy'n debyg a nifer sy'n wahanol. Mae'r casgliadau a wneir wedi'u rhesymu ac wedi'u tynnu'n bennaf o ddata a gwybodaeth a gyflwynwyd.

(ch) Mae dysgwyr yn darparu asesiad sy'n ystyried amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar apêl y ddau wyliau diddordebau arbennig a ddewiswyd. Bydd cysondeb yn yr ymdriniaeth o'r ddau gyrchnod. Mae'r asesiadau a wnaed yn dangos rhesymu clir, peth ohono wedi'i dynnu o dystiolaeth i brofi dyfarniadau a wnaethpwyd. Mae rhai o'r asesiadau a wnaethpwyd yn drwyadl.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 3**

Bydd dysgwyr yn cyflwyno tystiolaeth sy'n amlwg yn cwrdd â gofynion y dasg gyda manylder ac eglurder. Byddant yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ac yn cymhwyso hyn i sefyllfaoedd galwedigaethol. Byddant yn gwneud ymchwil gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau y maent wedi cael hyd iddynt a'u defnyddio yn annibynnol. Byddant yn dangos sut y gallant ddefnyddio'u canfyddiadau i gwrdd ag anghenion cymhleth cwsmer, gan resymu drwy'r amser, a chan gynnwys gwneud dyfarniadau rhesymegol. Bydd angen cyflwyno ysgrifau portread i ddysgwyr ar gyfer tasg (b). Dylai'r aseswr ysgrifennu'r ysgrifau portread. Darperir enghreifftiau o ysgrifau portread yn y *Canllaw Athrawon* i'w gyhoeddi ar wahân. Gall y rhain fod yr un fath ar gyfer carfan o ddysgwyr neu gallant gael eu hysgrifennu i dargedu band marciau penodol. Byddai hyn yn symbylu dysgwyr i ymgyrraedd at lefel briodol i'w potensial. Os ysgrifennir nhw i dargedu bandiau marciau penodol, gweler y sylwadau isod:

(a) Disgrifia dysgwyr amrediad eang o wyliau diddordebau arbennig mewn manylder. Bydd y manylion yn cynnwys nifer o wyliau diddordebau arbennig o bob categori, nifer yr amrediad o gyrchnodau a ddisgrifir i sicrhau ymdriniaeth fyd-eang a bydd pob un wedi'i ddisgrifio'n fanwl. Bydd crynodeb clir o ddosbarthiad daearyddol amrediad eang o wyliau diddordebau arbennig sy'n egluro'n llawn y cyswllt rhwng nodweddion a'u lleoliad. Darperir mapiau i ategu'r disgrifiadau ym mhob achos. Mae'r rhain yn dangos cyrchnodau byd-eang priodol a nodweddion allweddol. Mae lleoliadau cyrchnodau a nodweddion ar fapiau yn gyson-gywir. Bydd dysgwyr yn rhoi manylion amrediad eang o ddarparwyr gwyliau diddordebau arbennig gwahanol sy'n cynnwys enghreifftiau penodol o bob math sy'n manylu ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau y mae'r rhain yn eu darparu.

(b) Bydd dysgwyr yn cyflwyno teithlen ar gyfer gwyliau diddordebau arbennig. Bydd yn amlwg yn addas i anghenion twristiaid ac yn realistig. Bydd yn gywir heb unrhyw anghywirdebau na bylchau. Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn fanwl a phenodol a bydd pob rhan ohoni'n wreiddiol. Cyflwynir y deithlen mewn fformat sy'n glir ac yn hawdd ei ddehongli. Bydd eglurhad cynhwysfawr o sut y mae'r deithlen yn cwrdd ag anghenion twristiaid. Bydd cyswllt clir rhwng y nodweddion yn y deithlen a'r cyrchnod ac anghenion cymhleth twristiaid. Bydd y dysgwr wedi derbyn ysgrif bortread o deip o dwrist sy ag amrediad o anghenion cymhleth a bydd y rhain i gyd wedi'u hystyried. Bydd peth manylder yn yr ysgrif bortread e.e teulu â thri phlentyn dan bump gydag un yn faban, mae oedolyn yn sgïwr o safon uwch, mae un o'r plant yn hoffi eirafyrddio ac mae'r plant eraill eisiau dysgu sgïo ond yn y boreau yn unig, maen nhw eisiau sgïo rhewlifau ac yn hwyr yn y tymor.

(c) Gwnaed ymchwil annibynnol gan ddefnyddio amrediad eang o dechnegau addas a ffynonellau gwybodaeth. Ceir cyfeirnodi cyson drwy'r gwaith a gyflwynwyd. Nodwyd apêl a phoblogrwydd dau fath gwahanol o wyliau diddordebau arbennig. Ceir cymhariaeth gynhwysfawr rhwng y ddau fath sy'n adnabod yn glir ac yn egluro'n gynhwysfawr y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Mae'r casgliadau a wneir yn glir, wedi'u rhesymu'n gyson ac wedi'u tynnu o ddata a gwybodaeth a gyflwynwyd.

(ch) Mae dysgwyr yn darparu asesiad sy'n ystyried amrediad eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar apêl y ddau wyliau o ddiddordebau arbennig a ddetholwyd. Bydd cysondeb yn yr ymdriniaeth o'r ddau gyrchnod. Mae'r asesiadau a wneir yn fanwl a chynhwysfawr yn defnyddio data ystadegol a gwybodaeth arall i dynnu casgliadau a phrofi dyfarniadau a wnaethpwyd.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

---

## Cyflwyno'r uned hon

**Ymchwil**

Efallai y bydd angen cyflwyno dysgwyr i adnoddau sy'n darparu gwybodaeth briodol i gefnogi cwblhau'r uned. Gall y rhain gynnwys atlasau, pamffledi gwyliau, arweinlyfrau, y wasg fasnachol, atodiadau teithio yn y wasg genedlaethol, y cyfryngau a'r rhyngrwyd. Bydd angen i ddysgwyr wybod sut i gynhyrchu llyfryddiaeth a chyfeirnodi ffynonellau. Dylid trafod y math o wybodaeth y byddant yn dod ar ei thraws yn yr adnoddau hyn hefyd. Gellir gwneud hyn trwy gyflwyniad enghreifftiol o ganfyddiadau ar un neu fwy o'r gwyliau diddordebau arbennig. Bydd angen i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ymchwil er mwyn cwblhau gofynion asesu'r uned ond fel paratoad bydd angen cyfarwyddyd clir arnynt parthed lled a dyfnder a defnyddioldeb yr wybodaeth sy ar gael. Mae ymchwil yn berthnasol i holl agweddau'r uned. Gall dysgwyr ymchwilio i'r amrediad o wyliau diddordebau arbennig, darparwyr gwyliau diddordebau arbennig, lleoliadau cyrchnodau sy'n darparu'r mathau yma o wyliau, elfennau gwyliau pecyn, nodweddion allweddol gwyliau diddordebau arbennig ac apêl at anghenion twristiaid, tueddiadau, mathau o dwristiaid a'r ffactorau sy'n effeithio poblogrwydd. Mae'r diwydiant teithio a thwristiaeth yn gwneud sylwadau parhaus ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth o gyrchnodau teithio ymhlith y rhai sy'n ceisio am swyddi. Trwy'r uned hon, mae cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o amrediad o fathau gwahanol o gyrchnodau trwy weithgareddau dysgu. Gallai dysgwyr wneud ymchwil mewn grwpiau bach a rhoi adborth o'u canfyddiadau i weddill y grŵp. Trwy hyn, bydd y grŵp yn cael gorolwg o amrediad eang o gyrchnodau. Gallent ddatblygu sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig effeithiol hefyd trwy'r adborth a roddwyd. Gallai'r adborth fod ar fformat cyfarfod croeso, chwarae rôl cwsmer neu stondin arddangosfa.

**Siaradwyr gwadd**

Gall siaradwyr gwadd fod yn fantais fawr a gallant ddarparu gwybodaeth uniongyrchol nad yw ar gael o ffynonellau confensiynol. Yn wahanol i werslyfrau gallant ymateb i gwestiynau, ac mae cwestiynu yn datblygu sgiliau cyfathrebu a rhesymu. Y mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr hefyd i adolygu'u hagweddau a'u gwerthoedd eu hunain parthed apêl mathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig a gwerthfawrogiad o amrediad o fathau gwahanol o anghenion twristiaid.

Gall trefnwr teithiau lleol annibynnol sy'n argymell pob math o wyliau gwahanol i amrediad eang o gwsmeriaid bob dydd fod ar gael ar 'ddiwrnodau tawel' a ragwelir; efallai y gallant ddarparu gwybodaeth hefyd am ffactorau sy'n dylanwadu ar boblogrwydd gwyliau diddordebau arbennig. Gall cynrychiolwyr tramor fod ar gael yn ystod misoedd y gaeaf i roi cyflwyniadau ar gyrchnodau lle maent wedi gweithio a'r math o dwristiaid y buont yn delio â nhw.

**Astudiaethau achos**

Er mwyn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o apêl a phoblogrwydd gwyliau diddordebau arbennig, mae angen i ddysgwyr fod yn gyfarwydd ag anghenion mathau gwahanol o dwristiaid. Trwy'r uned hon, gellid darparu portffolio o fathau gwahanol o dwristiaid gydag anghenion cynyddol gymhleth ar gyfer dysgwyr neu gallent ddatblygu'u portffolio'u hunain. Gallai'r rhain gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig, efallai fel cais am wybodaeth oddi wrth fwrdd twristiaeth neu weithredwr teithiau neu trwy chwarae rôl pryd, trwy gyfrwng cwestiynu, gall dysgwyr benderfynu ar anghenion a rhoi adborth o'u canfyddiadau. Bydd hyn yn datblygu sgiliau cyfathrebu megis gwrando, siarad ac ysgrifennu yn ogystal â sgiliau rhesymu, a bydd yn caniatáu mynd i'r afael ag arddulliau dysgu gwahanol.

**Ymweliadau**

Gall ymweliadau preswyl tramor roi gwybodaeth uniongyrchol i ddysgwyr o gyrchnodau twristiaeth Ewropeaidd unigol ac fe'u cymeradwyir os yn bosibl. Gallai dysgwyr wneud ymchwil gychwynnol i benderfynu ar addasrwydd cyrchnodau gwahanol i'r pwrpas hwn ac i gynllunio gweithgareddau i'w gwneud yn ystod yr ymweliad.

---

## Cysylltau

**Unedau eraill**

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth* — mae'r uned hon yn adeiladu ar ddealltwriaeth dysgwyr o'r diwydiant teithio a thwristiaeth.

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth* — lle mae dysgwyr yn dysgu am gwsmeriaid a'u hanghenion.

*Uned 4: Cyrchnod Prydain* — lle ceir mynediad i fathau tebyg o adnoddau i gaffael gwybodaeth.

**Diwydiant**

Byddai defnyddio siaradwyr o'r tu allan a darpariaeth defnyddiau o'r diwydiant teithio a thwristiaeth yn rhoi llawer iawn o wybodaeth.

Byddai ymweliad preswyl tramor yn rhoi cyfle i brofi cyrchnod a'i gysylltiadau cludiant.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)**

Gall yr uned hon ddarparu cysylltiadau â'r unedau canlynol o CGCau Gwasanaethau Teithio a Thwristiaeth:

T1 Gwerthu gwasanaethau teithio

T15 Casglu a chynnal gwybodaeth a data twristiaeth

T16 Dadansoddi a chyflwyno data twristiaeth

T39 Ymchwilio a datblygu teithlenni taith.

---

## Adnoddau

### Gwerslyfrau

Holloway J C — *The Business of Tourism* (Longman, 1998) ISBN 0582328810

Outhart T et al — *Travel and Tourism for Vocational A-Level* (Collins Educational, 2001) ISBN 0007113854

Youell R — *Vocational A-level Travel and Tourism* (Longman, 2000) ISBN 0582404452

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| Association of Independent Tour Operators | www.aito.co.uk |
| Audley Travel | www.audleytravel.com |
| Blakes | www.blakes.co.uk |
| British Airways | www.britishairways.com |
| Brittany Ferries Holidays | www.brittanyferries.com |
| Colours of Sri Lanka | www.partnershiptravel.co.uk |
| Cox and Kings | www.coxandkings.co.uk |
| Crystal Cruises | www.crystalcruises.com |
| Earthwatch Institute | www.earthwatch.org |
| Esprit Holidays | www.esprit-holidays.co.uk |
| Eurocamp | www.eurocamp.com |
| Exodus | www.exodus.co.uk |
| Explore | www.explore.co.uk |
| First Choice | www.firstchoice.co.uk |
| French Life Ski | www.frenchlifeski.co.uk |
| GeoProjects | www.geoprojects.co.uk |
| Great Rail Journeys | www.greatrail.com |
| Guerba | www.guerba.com |
| Headwater | www.headwater.com |
| Himalaya Kingdoms (Everest) | www.himalayankingdoms.com |
| Holiday Travel Watch | www.holidaytravelwatch.org |
| Journey Latin America | www.journeylatinamerica.com |
| Kirker Holidays | www.kirkerholidays.com |
| Lonely Planet | www.lonelyplanet.com |
| Mark Warner | www.markwarner.co.uk |
| MyTravel | www.mytravel.co.uk |
| Neilson BeachPlus | www.feelfreeplus.com |
| Noble Caledonia | www.noble-caledonia.co.uk |
| On the Go Tours | www.onthegotours.com |
| Orient Express | www.orient-express.com |
| P&O Ferries | www.poferries.com |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwefannau** (parhad) | QE2 | www.cunard.co.uk |
| | Ramblers Holidays | www.ramblersholidays.co.uk |
| | Solo's Holidays | www.solosholidays.co.uk |
| | South African Affair | www.southafricanaffair.com |
| | Sunsail | www.sunsail.com |
| | Thomas Cook | www.thomascook.co.uk |
| | Thomson Holidays | www.thomson-holidays.com |
| | Titan Tours | www.titantours.com |
| | Trailfinders | www.trailfinders.com |
| | Travel Renaissance Holidays | www.travelrenaissance.com |
| | Travel Weekly | www.travelweekly.co.uk |
| | Virgin Atlantic | www.virgin-atlantic.com |
| | Voyages of Discovery | www.voyagesofdiscovery.com |

**Aml-gyfrwng**

*Travel Geography* CD-Rom — The Travel Training Company, 2000

**Darllen arall**

*Cruise and Ferry Guide*

*Guide to International Travel*

*Lonely Planet*

*OAG Holiday Guide* — haf a gaeaf

*Rough Guide*

Amserlenni

Sianeli teithio ar y teledu

Adrannau teithio mewn papurau newydd dyddiol a dydd Sul

*Travel Trade Gazette* — CNP Information Ltd

*Travel Weekly*

*World Travel Atlas* — Columbus Press

*World Travel Guide* — Columbus Press

# Uned 12: Cyrff Teithio

## U2 Uned ddewisol (Dyfarniad Sengl)
## U2 Uned orfodol (Dyfarniad Dwbl)

## Asesiad mewnol

## Cyflwyniad

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i chi ymchwilio un sector o'r diwydiant teithio a thwristiaeth. Mae'r sectorau yn cynnwys trefnwyr teithiau, gweithredwyr teithiau, cwmnïau hedfan, atyniadau, byrddau twristiaeth a.y.y.b. Byddwch yn dewis un sector o'r diwydiant ac yn archwilio'i gysylltiadau â sectorau eraill yn y diwydiant. Byddwch yn archwilio'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol yn y sector a sut mae'r rhain wedi effeithio ar eu gweithrediadau. Byddwch yn dewis corff o'ch sector y gellwch ei astudio'n drwyadl, gan ystyried ei weithrediadau, ei gynhyrchion a'i wasanaethau a sut y gellir eu haddasu i gwrdd ag anghenion ei gwsmeriaid gwirioneddol a phosibl. Gallech wneud llawer o'ch astudio ar gyfer yr uned hon trwy brofiad gwaith neu trwy ymchwil ddesg.

## Dysgu blaenorol a argymhellir

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth*

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth*

*Uned 9: Gweithio mewn Teithio a Thwristiaeth*

## Beth sydd angen i chi ei ddysgu

### 12.1 Sectorau'r diwydiant teithio a thwristiaeth

Mae llawer o sectorau gwahanol yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- trefnwyr teithiau
- Byrddau twristiaeth
- atyniadau
- gweithredwyr teithiau
- darparwyr cludiant megis cwmnïau hedfan
- darparwyr llety.

Trwy ymchwil, byddwch yn dysgu caffael a dehongli data ystadegol ynglŷn â chyfran marchnad, trosiant ac elw yn ogystal â'u hamcanion marchnata i benderfynu ar y prif gyrff yn y sector ac ar faint o ddylanwad sydd ganddynt.

Byddwch yn dysgu hefyd sut y mae gan eich dewis sector gysylltiadau â sectorau eraill yn y diwydiant fel y gellwch ddadansoddi ei arwyddocâd.

## 12.2 Gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol cyrff mewn sector detholedig o'r diwydiant teithio a thwristiaeth

Mae rheoliadau a deddfwriaethau y mae'n rhaid i gyrff yn y diwydiant teithio a thwristiaeth lynu wrthynt. Mae'r rhain wedi effeithio'u gweithrediadau yn ogystal â'r cynhyrchion a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae peth o'r ddeddfwriaeth hon yn benodol i'r diwydiant neu i sector o fewn y diwydiant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfarwyddeb Pecyn yr UE
- Cod Ymddygiad Corff Trefnwyr teithiau Prydain
- ATOL.

Mae eraill yn fwy generig ac felly'n berthnasol i bob corff. Mae'r rhain yn cynnwys:

- iechyd a diogelwch e.e Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle, Gorchmynion /Cyfarwyddebau Amser Gweithio
- cyfleoedd cyfartal e.e Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw, Deddf Cysylltiadau Hiliol, Deddf Gwahaniaethu ar sail Oedran
- diogelwch cwsmer e.e Deddf Disgrifiadau Masnachol, Deddf Gwerthiant Nwyddau, Deddf Gwerthiant Nwyddau a Gwasanaethau
- gwarchod data e.e Deddf Gwarchod Data.

Dim ond enghreifftiau ydy'r rhain o ddeddfwriaethau sy'n effeithio ar gyrff yn y diwydiant. Byddwch yn dysgu crynhoi manylion deddfwriaethau cyfredol sy'n effeithio ar gyrff ac yn dadansoddi faint mae cyrff wedi addasu'u gweithrediadau i gwrdd â'r gofynion.

## 12.3 Corff teithio, sut y mae'n gweithredu ac yn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid

Byddwch yn dysgu am un corff o oddi mewn i'r sector yr ydych wedi'i astudio. Byddwch yn dysgu disgrifio'r corff yn nhermau'i raddfa a'i strwythur yn ogystal â'r modd y mae'n gweithredu yn nhermau'i systemau busnes. Byddwch yn dysgu hefyd am y cynhyrchion a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer ei gwsmeriaid fel y gellir eu disgrifio. Byddwch yn dysgu egluro sut y mae'r cynhyrchion a'r gwasanaethau sy ar gael yn cwrdd â gofynion gwahanol fathau o gwsmeriaid ac yn adnabod bylchau yn y ddarpariaeth hefyd. O'r bylchau hyn byddwch yn dysgu argymell cynhyrchion a gwasanaethau, cyfleusterau a systemau newydd neu wedi'u haddasu y gall y corff eu cyflwyno.

## Tystiolaeth Asesu

Gallai tystiolaeth asesu fod ar lawer ffurf wahanol yn ôl eich hoffterau dysgu a'ch cryfderau. Gellid cael tystiolaeth o dasgau trwy adroddiadau ysgrifenedig, neu ddatganiadau tystion o gyflwyniadau llafar gyda nodiadau ategol. Ar gyfer tasg (b) gellir defnyddio diagramau neu ddelweddau hefyd. Mae gofyn i chi ymchwilio un sector o'r diwydiant teithio a thwristiaeth ac un corff o fewn y sector hwnnw.

Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o:

(a) disgrifiad o gorff detholedig o fewn eich sector detholedig o'r diwydiant. Dylai'r disgrifiad gynnwys math, graddfa a strwythur eich corff, yn ogystal â disgrifiad o'i chynhyrchion a'i gwasanaethau.

Dylech egluro hefyd sut mae'r cynhyrchion a'r gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion ei chwsmeriaid, gan adnabod bylchau yn y ddarpariaeth.

(b) eich cynnig ar gyfer cynnyrch, gwasanaeth neu gyfleuster newydd neu wedi'i addasu ar gyfer eich corff detholedig i lenwi'r bwlch(bylchau) a nodwyd yn y ddarpariaeth. Dylai gynnwys disgrifiad manwl o'ch cynnig ac eglurhad o sut mae'n cwrdd â gofynion cwsmer

(c) ymchwil wedi'i gwneud i gwblhau pob tasg a dadansoddiad o i ba raddau mae gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol wedi effeithio ar weithrediad y sector detholedig o'r diwydiant.

(ch)gwerthusiad o faint o ddylanwad sy gan gyrff allweddol yn y sector a'r cysylltiadau rhwng y sector ag eraill yn y diwydiant teithio a thwristiaeth.

## Meini prawf asesu

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **a**<br><br>**(AA1)** | Disgrifiad o gorff detholedig o fewn eich sector ddewisol o'r diwydiant. Mae'r disgrifiad yn cynnwys teip, gradd a strwythur eich corff. Gall manylion am raddfa a strwythur fod yn gyfyngedig.<br><br>Disgrifir amrediad o gynhyrchion a gwasanaethau. Mae peth manylder yn llawer o'r rhain er bod eraill yn brin o fanylion.<br><br>Darperir eglurhad o sut mae'r cynhyrchion a'r gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion mathau gwahanol o gwsmeriaid. Gall mai amrediad cyfyngedig o gwsmeriaid a ystyrir a gall yr eglurhad fod yn sylfaenol a mwy disgrifiadol.<br><br>Nodir bylchau yn y ddarpariaeth heb fawr gyswllt â chwsmeriaid na manylder.<br><br>**(1-6)** | Disgrifiad o gorff detholedig o fewn eich sector ddewisol o'r diwydiant. Mae'r disgrifiad yn fanwl o ran teip, graddfa a strwythur eich corff.<br><br>Disgrifir amrediad o gynhyrchion a gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn fanwl.<br><br>Darperir eglurhad clir o sut mae'r cynhyrchion a'r gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion gwahanol fathau o gwsmeriaid. Ystyrir amrediad o gwsmeriaid ac mae'r eglurhad yn cysylltu yn glir â phob math o gwsmer.<br><br>Disgrifir bylchau yn y ddarpariaeth a chysylltir hwy â chwsmeriaid.<br><br>**(7-9)** | Disgrifiad cynhwysfawr o gorff detholedig o fewn eich sector ddewisol yn y diwydiant. Mae'r disgrifiad yn fanwl o ran teip, graddfa a strwythur eich corff.<br><br>Disgrifir amrediad eang o gynhyrchion a gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn fanwl.<br><br>Darperir eglurhad wedi'i enghreifftio o sut mae'r cynhyrchion a'r gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion amrediad eang o gwsmeriaid gyda'r esboniadau yn cysylltu yn glir â'r math o gwsmer.<br><br>Mae'r bylchau yn y ddarpariaeth yn briodol wedi'u disgrifio'n fanwl ac wedi'u cysylltu'n glir â chwsmeriaid.<br><br>**(10-12)** | **12** |
| **b**<br><br>**(AA2)** | Cyflwynir cynnig ar gyfer cynnyrch, gwasanaeth neu gyfleuster newydd neu wedi'i addasu. Gall hwn fod yn brin o fanylder neu yn amhriodol i lenwi'r bwlch a nodwyd yn y ddarpariaeth.<br><br>Rhoddir eglurhad o'r cynnig ond gall hwn fod yn gyfyngedig yn nhermau'i gysylltiadau ag anghenion cwsmeriaid.<br><br>**(1-7)** | Cyflwynir cynnig ar gyfer cynnyrch, gwasanaeth neu gyfleuster wedi'i addasu. Mae'r cynnig yn addas i lenwi'r bylchau a nodwyd ac i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid. Mae disgrifiad clir o'r cynnig.<br><br>Darperir eglurhad o'r cynnig sy'n gwneud cysylltiadau clir rhwng bylchau yn y ddarpariaeth ag anghenion cwsmeriaid.<br><br>**(8-12)** | Cyflwynir cynnig ar gyfer cynnyrch, gwasanaeth neu gyfleuster newydd neu wedi'i addasu. Mae'r cynnig yn addas i lenwi'r bylchau a nodwyd ac yn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid. Mae disgrifiad clir a chynhwysfawr o'r cynnig.<br><br>Darperir eglurhad trylwyr o'r cynnig sy'n gwneud y cyswllt rhwng bylchau yn y ddarpariaeth a sut mae'n cwrdd ag anghenion cwsmeriaid yn glir.<br><br>**(13-15)** | **15** |

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **c**<br><br>**(AA3)** | Gwnaed peth ymchwil a cheir tystiolaeth ohono yn bennaf trwy lyfryddiaeth. Ffynonellau wedi'u cyfeirio gan eraill a ddefnyddiwyd.<br><br>Ceir peth dadansoddi elfennol o'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol sy wedi effeithio ar weithrediad y sector detholedig o'r diwydiant ond mae'r dystiolaeth yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol. Gall fod rhai gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol allweddol heb eu hystyried neu fod rhai ddim yn briodol i'r sector. Mae peth cyfeirio at sut mae'r gweithrediadau yn y sector o'r diwydiant wedi cael eu heffeithio ond nid ydynt yn cael eu cyflwyno'n glir.<br><br>**(1-7)** | Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol, rhai ohonynt wedi'u caffael yn annibynnol. Cyfeirnodir peth tystiolaeth o ymchwil drwy'r testun, yn ogystal ag mewn llyfryddiaeth.<br><br>Ceir peth dadansoddi o'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol sy wedi effeithio ar weithrediad sector detholedig o'r diwydiant. Dewiswyd detholiad priodol o ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol i'w dadansoddi, y rhan fwyaf ohonynt mewn peth dyfnder. Mae'r dadansoddiad yn ymwneud â sut mae'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol wedi effeithio gweithrediadau o fewn y sector ac yn cynnwys peth enghreifftio. Mae'r dadansoddiad yn glir ar y cyfan.<br><br>**(8-12)** | Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau gwahanol sy wedi'u caffael yn annibynnol. Cyfeirnodir llawer o dystiolaeth yr ymchwil drwy'r testun, yn ogystal ag mewn llyfryddiaeth.<br><br>Mae dadansoddiad clir o amrediad eang o ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol sy wedi effeithio ar weithrediad sector detholedig o'r diwydiant. Mae'r dadansoddiad yn ymwneud â sut mae pob un wedi effeithio ar weithrediad sector o'r diwydiant teithio a thwristiaeth. Mae'r dadansoddiad wedi'i enghreifftio'n dda ac wedi'i gyflwyno yn glir.<br><br>**(13-15)** | **15** |

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **ch** **(AA4)** | Ceir gwerthusiad o faint o ddylanwad sy gan gyrff allweddol yn y sector ond mae hwn yn ddisgrifiadol yn bennaf. Gall rhai cyrff allweddol fod wedi'u hepgor a rhai cyrff llai pwysig fod wedi'u cynnwys. Mae'r gwerthusiad yn cyfeirio rhywfaint at ddata ystadegol ond mae hwn yn gyfyngedig.<br>Mae gwerthusiad o'r cysylltiadau rhwng y sector a sectorau eraill yn y diwydiant teithio a thwristiaeth ond mae hwn yn ddisgrifiadol yn bennaf. Gall fod cyfeiriad cyfyngedig at rai sectorau o'r diwydiant. Gall dyfarniadau a wnaed fod yn brin o resymu ac yn oddrychol yn bennaf.<br>**(1-9)** | Ceir gwerthusiad o faint y dylanwad sy gan gyrff allweddol yn y sector. Cynhwyswyd y cyrff allweddol. Mae'r gwerthusiad yn gwneud defnydd o ddata ystadegol, peth ohono yn gyfredol. Dehonglir data yn gywir ar y cyfan.<br>Mae gwerthusiad o'r cysylltiadau rhwng y sector a sectorau eraill yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Mae cyfeiriadau clir at holl sectorau allweddol y diwydiant er y gall na chynhwyswyd rhai sectorau ategol. Mae dyfarniadau a wnaed yn dangos rhywfaint o resymu a phrofir rhai ohonynt.<br>**(10-14)** | Ceir gwerthusiad cynhwysfawr o faint y dylanwad sy gan gyrff allweddol yn y sector. Cynhwyswyd y cyrff allweddol. Cyfeirir at gyrff eraill i gefnogi'r casgliadau a wnaed. Mae'r gwerthusiad yn defnyddio amrediad o ddata ystadegol cyfredol. Dehonglir y data yn gywir ac fe'i defnyddir yn briodol.<br>Ceir gwerthusiad cynhwysfawr o'r cysylltiadau rhwng y sector a sectorau eraill yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Mae cyfeiriadau clir at holl sectorau'r diwydiant. Mae dyfarniadau a wnaed yn rhesymegol ac wedi'u profi.<br>**(15-18)** | **18** |
| | | | **Cyfanswm marciau** | **60** |

## Canllaw asesu

**Band Marciau 1**

Bydd tystiolaeth dysgwyr yn tueddu i fod yn brin o fanylder, yn fylchog ac yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol ac yn dangos rhesymu manwl.

(a) Mae corff teithio a thwristiaeth detholedig wedi'i ddisgrifio. Bydd y disgrifiad yn cynnwys cyfeiriad at deip, graddfa a strwythur y corff. Gall rhai agweddau o'r disgrifiad fod yn gyfyngedig mewn manylion neu yn fylchog. Er enghraifft, gall graddfa gyfeirio at gyfran marchnad yn unig heb ymwneud â'r niferoedd a gyflogir, nifer y cyfleusterau/allfeydd, niferoedd y cwsmeriaid a.y.y.b. Gall strwythur y corff gyfeirio at un cyfleuster neu allfa yn hytrach na'r corff gyfan, er enghraifft gall y ffocws fod ar Lunn Poly yn hytrach na TUI. At hyn, gall y corff a ddewiswyd fod yn brin o botensial ar gyfer disgrifiad manwl e.e amgueddfa sector gwirfoddol fechan neu asiantaeth deithio annibynnol.

Disgrifir amrediad o gynhyrchion a gwasanaethau. Disgrifir rhai o'r cynhyrchion a'r gwasanaethau yn fanwl ond gall eraill fod wedi'u rhestru. Gall manylion fod wedi'u hepgor. Mae'n debygol y bydd y ffocws ar y prif gynhyrchion a'r gwasanaethau gyda gwasanaethau ategol ac atodol yn cael eu cynnig neu na chynhwysir y rhai wedi'u darparu am ddim.

Darperir eglurhad o sut mae'r cynhyrchion a'r gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion gwahanol fathau o gwsmeriaid. Gall fod amrediad cyfyngedig o gwsmeriaid yn cael ei ystyried neu fod cyfeiriadau at gwsmeriaid yn gyffredinol. Gall yr eglurhad fod yn elfennol ac yn fwy disgrifiadol heb fawr resymu. Gall na fydd y rhesymu yn cysylltu ag anghenion penodol cwsmeriaid ond ei fod yn gyffredinol iawn.

Nodir bylchau mewn darpariaeth ond nid yn fanwl. Gall fod bylchau a gafodd eu hepgor. Gall na fydd y bylchau a nodwyd wedi'u cysylltu â'r eglurhad cynharach.

(b) Cyflwynir cynnig ar gyfer cynnyrch, gwasanaeth neu gyfleuster newydd neu wedi'i addasu. Gall na fydd y cynnig yn briodol i'r corff ac anghenion ei chwsmeriaid, er enghraifft gall mai cynnig am reid codi gwallt pen (*white knuckle ride*) mewn parc thema a geir lle mae'r bwlch yn y ddarpariaeth wedi ffocysu ar gwrdd ag anghenion plant bach. Gall y cynnig fod yn brin o fanylder ac eglurder gan nad oes gweledigaeth glir ar gyfer y cynnyrch, y gwasanaeth na'r cyfleuster.

Rhoddir eglurhad o'r cynnig ond gall hwn fod yn gyfyngedig o ran ei gysylltiadau ag anghenion cwsmeriaid. Gall fod yn gyffredinol o ran cwrdd ag anghenion sefydliadol megis cynyddu elw ond nad yw'n dangos cysylltiadau â bylchau a nodwyd.

(c) Gwnaed peth ymchwil ond mae'n tueddu i fod o un neu ddwy ffynhonnell, efallai dim ond rhai sy wedi'u cyfeirio gan diwtor, ac mae tystiolaeth yn gyfyngedig efallai i lyfryddiaeth yn unig.

Detholwyd a chrynhowyd amrediad o ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol sy wedi effeithio ar weithrediad sector detholedig o'r diwydiant. Gall fod rhai bylchau yn nhermau'r gofynion hynny a ddetholwyd neu gall fod rhai yr ymdriniwyd â nhw ddim yn anaddas i'r sector, er enghraifft gall fod cyfeiriad at ATOLau neu God Ymddygiad Cymdeithas Trefnwyr teithiau Prydain ar gyfer atyniadau. Mae rhai cyfeiriadau at sut mae'r gweithrediadau yn y sector o'r diwydiant wedi cael eu heffeithio ond nid yw'r rhain wedi'u cyflwyno'n glir ac maen nhw'n tueddu i fod yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol.

(ch) Darperir manylion o gyrff allweddol yn y sector ac mae'r rhain yn ddisgrifiadol yn bennaf gyda pheth gwerthusiad. Gall rhai cyrff allweddol fod wedi'u hepgor a rhai cyrff llai pwysig fod wedi'u cynnwys sy ddim wedi cael eu defnyddio i werthuso maint y dylanwad o fewn y diwydiant. Mae'r gwerthusiad yn cyfeirio rhywfaint at ddata ystadegol ond mae hyn yn gyfyngedig. Cyflwynir data ystadegol ond ni chânt eu defnyddio'n llawn. Gall fod bylchau yn yr ymdriniaeth o ddata ystadegol.

Ceir gwerthusiad o'r cysylltiadau rhwng y sector a sectorau eraill yn y diwydiant teithio a thwristiaeth ond mae hyn yn ddisgrifiadol yn bennaf. Gall fod cyfeiriad cyfyngedig at rai sectorau yn y diwydiant. Gall dyfarniadau a wnaed fod yn brin o resymu ac yn oddrychol yn bennaf.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 2**

Bydd dysgwyr yn tueddu i gynhyrchu gwaith sy'n cwrdd â gofynion y dasg â pheth manylder a pheth eglurder. Byddant yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn trwy'r gallu i gymhwyso peth o hynny mewn sefyllfaoedd galwedigaethol. Byddant yn amlygu peth gallu i ymchwilio yn annibynnol ac i ddefnyddio'u canfyddiadau i wneud rhai dyfarniadau rhesymegol.

(a) Disgrifiwyd corff teithio a thwristiaeth detholedig. Bydd y disgrifiad yn cynnwys cyfeiriad at deip, graddfa a strwythur y corff. Bydd peth manylder ym mhob agwedd o'r disgrifiad ond gall na fydd yn gynhwysfawr. Mae teip yn debygol o gyfeirio at berchnogaeth, statws cyfreithiol a lefel annibyniaeth. Mae graddfa yn debygol o gyfeirio at gyfran marchnad, y niferoedd a gyflogir, nifer y cyfleusterau/allfeydd, niferoedd y cwsmeriaid a.y.y.b. Bydd rhai o'r rhain wedi'u disgrifio'n fanwl. Bydd strwythur yn cyfeirio at y corff gyfan a sut mae'n gweithredu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er na ddarperir manylion efallai ar bob lefel.

Disgrifir amrediad o gynhyrchion a gwasanaethau. Disgrifir llawer o'r cynhyrchion a'r gwasanaethau yn fanwl. Gall fod rhai bylchau ond bydd y rhain yn tueddu i fod yn wasanaethau ategol ac atodol dibwys a gynigir, neu ni chynhwysir y rhai a ddarperir yn rhad ac am ddim.

Darperir eglurhad o sut mae'r cynhyrchion a'r gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion gwahanol fathau o gwsmeriaid. Gall amrediad o gwsmeriaid fod yn cael eu nodi'n glir. Bydd peth rhesymu clir yn yr eglurhad a bydd yn dangos cysylltiadau clir rhwng y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir ac anghenion y cwsmeriaid penodedig. Disgrifir bylchau yn y ddarpariaeth mewn peth manylder a byddant wedi'u tynnu o'r eglurhad cynharach.

(b) Cyflwynir cynnig ar gyfer cynnyrch, gwasanaeth neu gyfleuster newydd neu wedi'i addasu. Mae'r cynnig yn briodol yn gysyniadol ac mewn manylder gan y bydd yn llenwi bwlch trwy gwrdd ag anghenion cwsmer canfyddedig. Cyflwynir y cynnig mewn manylder. Mae eglurder yn y disgrifiad. Mae'n amlwg fod y dysgwr wedi ystyried eu cynnig yn llawn yn ôl y manylder a roddir.

Rhoddir eglurhad o'r cynnig ac y mae'n gwneud cysylltiadau wedi'u rhesymu'n glir â sut y bydd yn galluogi'r corff i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid. Mae'r dysgwr wedi cysylltu'u cynnig â'r bylchau canfyddedig.

(c) Gwnaed ymchwil gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau, y bydd rhai ohonynt wedi'u caffael yn annibynnol heb gyfarwyddyd gan eraill megis tiwtor. Ceir tystiolaeth o'r ffynonellau hyn trwy rywfaint o gyfeirnodi ffynonellau o fewn y cynnwys. Ceir llyfryddiaeth yn ogystal. Mae'r dysgwr wedi rhoi dadansoddiad o sut mae gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol wedi effeithio ar weithrediad sector detholedig. Dewiswyd gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol priodol i ymdrin â nhw. Mae'r dadansoddiad yn ymwneud â sut mae'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol wedi effeithio ar weithrediadau o fewn y sector ac mae'n cynnwys peth enghreifftio.

(ch) Ceir gwerthusiad o faint y dylanwad sy gan gyrff allweddol yn y sector. Cynhwyswyd pob corff allweddol briodol. Mae maint y dylanwad yn eglur. Mae'r gwerthusiad yn gwneud defnydd o ddata ystadegol, peth ohono'n gyfredol, i dynnu casgliadau. Dehonglir data yn gywir ar y cyfan er y gall fod rhai anghywirdebau.

Mae gwerthusiad o'r cysylltiadau rhwng y sector a sectorau eraill yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Mae cyfeiriadau clir at holl sectorau allweddol y diwydiant er y gall na fydd rhai sectorau ategol wedi'u cynnwys. Mae'r bylchau yn ddibwys ac nid ydynt yn arwyddocaol i'r gwerthusiad a wnaed. Mae dyfarniadau a wnaed yn dangos peth rhesymu a phrofir rhai ohonynt.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

**Band Marciau 3**

Bydd dysgwyr yn cyflwyno tystiolaeth sy'n cwrdd â gofynion y dasg â manylder ac â pheth eglurder. Byddant yn amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ac yn eu cymhwyso mewn sefyllfaoedd galwedigaethol. Byddant yn ymchwilio gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau y cawsant hyd iddynt a'u defnyddio yn annibynnol. Byddant yn dangos sut y gallant ddefnyddio'u canfyddiadau i gwrdd ag anghenion cwsmer cymhleth, gan ddefnyddio rhesymu drwy'r amser, gan gynnwys gwneud dyfarniadau rhesymegol.

(a) Disgrifiwyd corff teithio a thwristiaeth detholedig. Bydd y disgrifiad yn gynhwysfawr ac yn fanwl. Bydd teip yn ymdrin â pherchnogaeth a statws cyfreithiol yn ogystal â lefel o annibyniaeth. Bydd graddfa yn ymdrin â chyfran marchnad, y niferoedd a gyflogir, nifer y cyfleusterau/allfeydd, niferoedd y cwsmeriaid a.y.y.b. Bydd strwythur yn ymdrin â'r holl gorff a'i gweithrediad ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Caiff pob un o'r rhain eu disgrifio yn fanwl gan ddefnyddio gwybodaeth gyfredol.

Disgrifir amrediad eang o gynhyrchion a gwasanaethau yn fanwl. Bydd hynny'n cynnwys gwasanaethau ategol ac atodol a gynigir a'r rhai a ddarperir yn rhad ac am ddim.

Darperir eglurhad o sut mae'r cynhyrchion a'r gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion mathau gwahanol o gwsmeriaid. Bydd amrediad o gwsmeriaid wedi'u hadnabod yn glir a'u hanghenion wedi'u disgrifio'n glir. Bydd yr eglurhad wedi'i enghreifftio gyda rhesymu clir yn dangos cysylltiadau rhwng cynhyrchion a gwasanaethau a ddarperir ac anghenion y cwsmeriaid penodedig. Disgrifir amrediad o fylchau yn y ddarpariaeth yn fanwl a chysylltir y rhain yn glir â chwsmeriaid ac â'r eglurhad cynharach.

(b) Cyflwynir cynnig ar gyfer cynnyrch, gwasanaeth neu gyfleuster newydd neu wedi'i addasu. Mae'r cynnig yn briodol yn gysyniadol ac mewn manylder gan y bydd yn llenwi bwlch trwy gwrdd ag anghenion cwsmer canfyddedig. Mae'r disgrifiad o'r cynnig yn gynhwysfawr gan ymdrin â phrif agweddau'r cynnyrch, y gwasanaeth neu'r cyfleuster yn ogystal ag unrhyw elfennau ategol neu atodol. Mae eglurder yn y disgrifiad. Mae'n amlwg fod y dysgwyr wedi ystyried eu cynnig yn llawn yn ôl y manylder a roddir.

Rhoddir eglurhad trwyadl o'r cynnig ac mae'n gwneud cysylltiadau rhesymegol clir â sut y bydd yn galluogi corff i gwrdd ag anghenion cwsmer. Dangosir nid yn unig y cysyniad ond manylder y cynnig i gysylltu â bylchau canfyddedig ac anghenion cwsmeriaid. Rhoddir rhesymau llawn.

(c) Gwnaed ymchwil yn defnyddio ystod o ffynonellau, llawer ohonynt wedi'u caffael yn annibynnol heb gyfarwyddyd gan eraill megis tiwtor. Ceir tystiolaeth o'r rhain trwy gyfeirnodi'r ffynonellau drwy'r cynnwys. Mae yna lyfryddiaeth yn ogystal. Dewiswyd amrediad eang o ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol priodol ar gyfer eu dadansoddi a dadansoddir ac enghreifftir eu heffaith ar weithrediadau sector detholedig y diwydiant yn gyson.

(ch) Ceir gwerthusiad cynhwysfawr o faint y dylanwad sy gan gyrff allweddol yn y sector. Cynhwyswyd yr holl gyrff allweddol yn y gwerthusiad. Cyfeirir at gyrff eraill ac fe'u defnyddir i ategu'r casgliadau a wnaed. Tynnir y casgliadau o'r dystiolaeth ac maent wedi'u rhesymu. Defnyddia'r gwerthusiad amrediad o ddata ystadegol cyfredol. Dehonglir data yn gywir ac fe'i defnyddir yn briodol.

Ceir gwerthusiad cynhwysfawr o'r cysylltiadau rhwng y sector a sectorau eraill yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Ceir cyfeiriadau clir at holl sectorau allweddol y diwydiant. Mae'r dyfarniadau a wneir wedi'u rhesymu a'u profi.

(Gweler yr adran *Defnyddio'r bandiau marciau* am gyfarwyddyd pellach.)

## Cyflwyno'r uned hon

| | |
|---|---|
| **Ymchwil** | Gall y bydd angen cyflwyno dysgwyr i adnoddau sy'n darparu gwybodaeth addas i gefnogi cwblhau'r uned. Bydd angen i ddysgwyr wybod sut i gynhyrchu llyfryddiaeth a chyfeirnodi ffynonellau. Dylid trafod y math o wybodaeth y byddant yn cael hyd iddo yn yr adnoddau hyn hefyd i alluogi dysgwyr i fynd ar drywydd eu ffynonellau eu hunain yn annibynnol. Bydd angen i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ymchwil er mwyn cwblhau gofynion asesu'r uned ond fel paratoad bydd angen cyfarwyddyd clir o ran ehangder, dyfnder a defnyddioldeb yr wybodaeth sy ar gael. Bydd ymchwil yn berthnasol i holl agweddau'r uned. Bydd angen i ddysgwyr ddysgu sut i ddefnyddio'u canfyddiadau, gan gynnwys dehongli ystadegau, dadansoddi gwybodaeth a thynnu casgliadau rhesymegol. Gallai dysgwyr wneud ymchwil mewn grwpiau bach a rhoi adborth o'u canfyddiadau i weddill y grŵp. |
| **Siaradwyr gwadd** | Gall y defnydd o siaradwyr gwadd fod yn fantais fawr a gallant roi gwybodaeth nad yw ar gael o ffynonellau confensiynol yn seiliedig ar brofiad personol. Yn wahanol i werslyfrau gallant ymateb i gwestiynau ac mae cwestiynu yn datblygu sgiliau rhesymu a chyfathrebu.<br><br>Gellir defnyddio staff o sectorau gwahanol y diwydiant. Gallant roi mewnbwn ar sut mae'u sector nhw wedi ymateb i ofynion cyfreithiol a deddfwriaethol a sut y maent wedi effeithio ar arferion gweithio a chyfleoedd cyflogaeth, lle bo hynny'n berthnasol. Gall hyn ymwneud â sectorau sy ddim yn ffocws asesiad fel y gall dysgwyr ddysgu dadansoddi gwybodaeth ac yna cymhwyso hyn i'w sector detholedig. Gallant gymharu hefyd yr hyn maent wedi'i ddysgu o ffynonellau eraill a ymchwiliwyd â'r hyn a ddysgant gan y siaradwr gwadd.<br><br>Gall siaradwyr gwadd egluro hefyd sut mae'u cyrff yn gweithio gyda sectorau eraill fel y gall dysgwyr ddysgu am y cysylltiadau o fewn y diwydiant a dechrau gwerthuso faint mae hyn yn digwydd.<br><br>Gall siaradwyr gwadd drafod sut mae'u cynhyrchion a'u gwasanaethau wedi newid dros amser, awgrymu bylchau mewn darpariaeth y maent wedi'u hadnabod a gosod gweithgareddau datrys-problem. |
| **Astudiaethau achos** | Gellir cyflwyno astudiaethau achos i ddatblygu sgiliau datrys-problem. Gall senarios amlinellu arferion gweithredol a gall dysgwyr awgrymu sut y gellir eu haddasu i gwrdd â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Gall astudiaethau achos amlinellu bylchau mewn darpariaeth hefyd fel y gall dysgwyr awgrymu ffyrdd y gellir eu llenwi a dysgu sut i gynnig y rhain yn fanwl. |
| **Profiad gwaith** | Trwy brofiad gwaith, caiff dysgwyr y cyfle i arsylwi ar arferion gweithredol o fewn corff a'r cysylltiadau rhwng y corff a sectorau eraill y diwydiant teithio a thwristiaeth. Gallant ymchwilio yn drwyadl y mathau o gwsmeriaid yn y corff a sut mae cynhyrchion a gwasanaethau yn cwrdd â'u hanghenion. |
| **Ymweliadau** | O fewn y DU, yr ymweliad mwyaf defnyddiol fyddai i gorff allweddol o fewn y sector i arsylwi ar ei arferion gweithredol. |

## Cysylltau

**Unedau eraill**

*Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth* — mae'r uned hon yn adeiladu ar ddealltwriaeth y dysgwyr o'r diwydiant teithio a thwristiaeth i ffocysu ar un sector.

*Uned 2: Y Cwsmer Teithio a Thwristiaeth* — lle mae dysgwyr yn dysgu am gwsmeriaid a'u hanghenion.

*Uned 9: Gweithio mewn Teithio a Thwristiaeth* — lle bydd dysgwyr yn dysgu am arferion gweithredol yn y diwydiant ac yn ystyried eu dyheadau gyrfaol eu hunain.

**Diwydiant**

Byddai defnyddio siaradwyr o'r tu allan a darpariaeth defnyddiau o'r diwydiant teithio a thwristiaeth yn cyfrannu llawer iawn o wybodaeth.

Byddai profiad gwaith yn rhoi cyfle i ddysgwyr ennill gwybodaeth a dealltwriaeth drwyadl o'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir gan gorff deithio a thwristiaeth a sut mae gan y sector gysylltiadau ag eraill yn y diwydiant.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)**

Gall yr uned hon ddarparu cysylltiadau â'r unedau canlynol o CGCau Gwasanaethau Teithio a Thwristiaeth:

T15 Casglu a chynnal gwybodaeth a data twristiaeth

T16 Dadansoddi a chyflwyno data twristiaeth

T38 Cyfrannu at gynnal ansawdd sefydliadau teithio a thwristiaeth.

---

## Adnoddau

**Gwerslyfrau**

Holloway J C — *The Business of Tourism* (Longman, 1998) ISBN 0582328810

Page S J — *Transport for Tourism* (International Thomson Business Press, 1994) ISBN 0415102383

Outhart T et al — *Travel and Tourism for Vocational A-level* (Collins Educational, 2001) ISBN 0007113854

Youell R — *Vocational A-level Travel and Tourism* (Longman, 2000) ISBN 0582404452

**Gwefannau**

| | |
|---|---|
| British Airways | www.britishairways.com |
| First Choice | www.firstchoice.co.uk |
| Holiday Travel Watch | www.holidaytravelwatch.org |
| MyTravel | www.mytravel.co.uk |
| P&O Ferries | www.poferries.com |
| Thomas Cook | www.thomascook.co.uk |
| Thomson Holidays | www.thomson.co.uk |
| Tourism Concern | www.tourismconcern.org.uk |
| Travel Weekly | www.travelweekly.co.uk |

| | |
|---|---|
| **Darllen arall** | Sianeli teithio ar y teledu<br>Adrannau teithio mewn papurau newyddion dyddiol a dydd Sul<br>*Travel Trade Gazette*<br>*Travel Weekly* |

# Gwybodaeth Asesu

## Amcanion Asesu

Mae pedwar amcan asesu ar gyfer TAG mewn Teithio a Thwristiaeth. Maen nhw'n manylu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth mae angen i ddysgwr eu hamlygu.

Ar gyfer y cymhwyster hwn, rhoir y pwysiadau ar gyfer pob amcan asesu isod.

| Amcanion Asesu | | Pwysiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | UG | U2 | TAG Uwch Gyfrannol a TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl) |
| AA1 | **Arddangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau**<br>Ymgeiswyr yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys penodedig, ac o sgiliau perthynol mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol. | 25-35% | 15-25% | 20-30% |
| AA2 | **Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau**<br>Ymgeiswyr yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys penodedig, ac o sgiliau perthynol mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol. | 20-30% | 20-30% | 20-30% |
| AA3 | **Ymchwil a dadansoddiad**<br>Ymgeiswyr yn defnyddio technegau ymchwil priodol i gaffael gwybodaeth i ddadansoddi materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | 20-30% | 20-30% | 20-30% |
| AA4 | **Gwerthusiadau**<br>Ymgeiswyr yn gwerthuso gwybodaeth i wneud dyfarniadau, tynnu casgliadau a gwneud argymhellion am faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | 15-25% | 25-35% | 20-30% |

## Asesu Allanol

Asesir yr unedau canlynol yn Edexcel TAG mewn Teithio a Thwristiaeth yn allanol:

- *Uned 1: Y Diwydiant Teithio a Thwristiaeth*
- *Uned 5: Teithio'n Ddiogel*
- *Uned 7: Twristiaeth Gyfrifol*
- *Uned 10: Hyrwyddo a Gwerthiant mewn Teithio a Thwristiaeth*

Bydd yr asesu ar gyfer yr unedau hyn yn cynnwys arholiad ysgrifenedig 1.5-awr wedi'i gosod a'i marcio gan Edexcel. Bydd cwestiynau atebion-byr a hir yn ymwneud â senarios a gwybodaeth a roddir ym mhob papur. Bydd y papurau ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb a fydd ar gael i ddysgwyr yn Ionawr a Mehefin bob blwyddyn.

## Asesu Mewnol

### Arolygu dysgwyr a dilysu gwaith a gyflwynir

Rhaid i ddysgwyr gyflwyno portffolio o waith ar gyfer pob uned a asesir yn fewnol. Disgwylir i athrawon dywys a chynghori dysgwyr ar gynhyrchu eu portffolios. Dylai athrawon fonitro cynnydd i sicrhau bod y gwaith yn briodol i ofynion y fanyleb. Mae Cod Ymarfer TGAU, TAG a CGCC yn mynnu bod aseswyr yn cofnodi manylion llawn natur unrhyw gymorth a roddwyd i ddysgwyr unigol y tu hwnt i'r hyn a roddir i'r grŵp dysgu yn gyfan, ond o fewn y ffiniau a nodir yn y fanyleb hon. Dylid ystyried lefel y cymorth a roddwyd wrth asesu gwaith y dysgwyr; nodir hyn yn yr adran ganllaw sy'n perthyn i bob uned yn y fanyleb hon a asesir yn fewnol. Yn ogystal rhaid bod digon o waith yn cael ei wneud o dan arolygiaeth uniongyrchol i ganiatáu i'r athro sy'n marcio'r gwaith ddilysu gwaith pob dysgwyr yn hyderus.

Os caiff sgiliau ymarferol dysgwyr eu hasesu mae'n bwysig bod rhestri gwirio / datganiadau tystion yn cael eu cwblhau gan aseswyr i ddilysu gwaith dysgwyr a rhoi tystiolaeth bod dysgwyr wedi cyrraedd y lefel perfformiad angenrheidiol yn y grid meini prawf asesu.

Ceir cofnodion arsylwi yn y *Canllaw Athrawon* a gyhoeddir ar wahân ynghyd â'r taflenni marciau y mae'n rhaid eu defnyddio i recordio graddau dysgwyr ar gyfer yr unedau.

### Defnyddio'r bandiau marciau

Caiff portffolios eu marcio gan y ganolfan, a'u safoni'n allanol gan Edexcel. Mae gan bob un o'r unedau a asesir yn fewnol grid meini prawf asesu, wedi ei rannu'n dri band marciau eang, gan ddangos sut i ddyfarnu marciau mewn perthynas â'r dasg a'r Amcanion asesu. Mae'r gridiau meini prawf asesu'n nodi'r deilliannau asesu angenrheidiol yn ogystal ag ansawdd y deilliannau y mae eu hangen i ddangos cyrhaeddiad ym mhob un o'r bandiau marciau. Yn gyffredinol, dyma nodweddion cynnydd ar draws y bandiau.

- Mae'r grid meini prawf asesu'n dangos dyraniad marciau trwy feini prawf asesu a thrwy fand marciau. Dylid defnyddio'r grid hwn i bennu marciau am gyrhaeddiad dysgwr ym mhob uned. Gall dysgwyr gael marciau mewn gwahanol fandiau am bob Amcan Asesu. Bydd cyfanswm y marciau a gyrhaeddir yn dibynnu ar i ba raddau y mae'r dysgwr wedi cwrdd â'r meini prawf asesu yn gyffredinol.
- O fewn pob maen prawf asesu, mae'n egwyddor gyffredinol fod modd i wendidau mewn rhai agweddau o'r gofynion asesu gael eu cydbwyso gan well perfformiad mewn eraill. Serch hynny, y mae hi hefyd yn bwysig nodi fod rhaid cyflawni'r holl ofynion er mwyn cael marciau llawn mewn unrhyw faen prawf asesu penodol.

- Dylid dyfarnu marciau yn ôl y meini prawf am bob llinyn a nodir yn y grid marcio, a dylai aseswyr ddefnyddio'u barn broffesiynol lle y mae hyn yn berthnasol. Mae'r adran *Tystiolaeth Asesu* ym mhob uned yn rhoi manylion penodol ar sut y dylid neilltuo marciau.
- Ni ddylid bod unrhyw betruster rhag defnyddio'r ystod lawn o farciau, ac os oes haeddiant, dylai aseswyr ddyfarnu marciau llawn. Dylid ystyried ymatebion dysgwyr yn gadarnhaol. Ni ddylid rhoi marc o 0 ond lle nad yw gwaith y dysgwr yn cyrraedd unrhyw un o'r meini prawf angenrheidiol.
- Mae hawl gan bob dysgwr i gael cyfarwyddyd cychwynnol wrth gynllunio eu gwaith, ond dylid ystyried lefel y cymorth pan gaiff eu gwaith ei asesu. Yn y gridiau meini prawf asesu, cyfeirir at ddysgwyr yn gweithio gyda 'pheth cefnogaeth a chyfarwyddyd', 'gyda chyfarwyddyd cyfyngedig' ac 'yn annibynnol' Wrth farcio'r gwaith, dylai aseswyr ddefnyddio'r canllawiau canlynol.

  '*Peth cefnogaeth a chyfarwyddyd'*: Mae rhaid i'r dysgwr gael ei dywys a'i gynghori trwy'r cyfan i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud. Mae'r dysgwr yn dibynnu ar gefnogaeth yr athro, a rhaid i hwn roi cymorth yn y rhan fwyaf o agweddau'r gwaith. Mae lefel y gefnogaeth yn cyfyngu marc y dysgwr i fand 1, beth bynnag fo ansawdd y deilliannau.

  '*Cyfarwyddyd cyfyngedig'*: Mae'r athro'n cefnogi'r dysgwyr ar y cychwyn wrth ddewis y testun i'w archwilio. Yna mae'r athro'n ymateb i gwestiynau'r dysgwr ac yn awgrymu amrywiaeth o syniadau ac mae'r dysgwyr yn gweithredu ar sail y rhain. Mae'r dysgwr yn aml yn gwirio manylion. Mae angen i'r athro gynorthwyo yn rhai agweddau o'r gwaith. Mae lefel y gefnogaeth yn cyfyngu marciau'r dysgwr i fandiau 1 neu 2, beth bynnag fo ansawdd y deilliannau.

  '*yn annibynnol'*: Mae'r athro'n cefnogi'r dysgwr ar y cychwyn wrth ddewis y testun ar gyfer yr archwiliad neu dasg. Wedi hynny, mae'r athro weithiau'n rhoi cymorth i'r dysgwr, ond dim ond pan gaiff gais, ond mae'n monitro cynnydd trwy'r cyfan. Mae'r lefel hon o gefnogaeth yn rhoi modd i gyrraedd y tri band o farciau.
- Ar gyfer dibenion cadw cofnod, efallai y bydd canolfannau am wneud copi o'r grid marcio i bob dysgwyr a'i ddefnyddio i gofnodi'r marc am yr uned honno. Mae Cod Ymarfer TGAU, TAG, CGCC yn mynnu bod aseswyr yn dangos yn glir sut y caiff credyd ei roi. Caiff canllawiau ar sut y gellir gwneud eu cynnwys yn y deunydd cefnogi ar wahân a fydd yn dod gyda'r fanyleb hon.

## Gwahaniaethu ar draws unedau UG ac U2

Nodweddir gwahaniaethu ar draws unedau UG ac U2 yn gyffredinol gan:

- cynnydd o ran dyfnder ac ehangder dealltwriaeth
- cynnydd o ran defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau
- cynnydd o ran dadansoddi, cydgrynhoi a chloriannu
- cynnydd o ran annibyniaeth.

Mae gwahaniaethu hefyd yn digwydd trwy gynnwys yr unedau. Mae cynnwys uned UG yn ffurfio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol sy'n sail i'r cysyniadau lefel uwch a geir yn yr unedau U2.

## Asesiad synoptig

Mae asesu synoptig yn digwydd yn U2 yn *Uned 8: Materion Cyfredol mewn Teithio a Thwristiaeth*. Mae wedi'i gynllunio i gysylltu cysyniadau, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ynghyd ar draws y cwrs cyfan. Asesir yr uned synoptig yn fewnol fel prosiect lle gall dysgwyr ddewis pwnc sy'n ymwneud â'r diwydiant teithio a thwristiaeth y gallant ymchwilio iddo, ei ddadansoddi a chyflwyno'u canfyddiadau.

### Safoni a chymedroli

Lle y mae marcio am y fanyleb wedi ei wneud gan un neu ragor o aseswyr mewn canolfan, mae'n rhaid cael proses o safoni mewnol i sicrhau bod defnydd cyson o'r meini prawf, fel y'u nodwyd yn y gridiau meini prawf asesu.

Caiff marciau a ddyfernir gan y ganolfan eu cymedroli'n allanol gan Edexcel. Bwriad hyn yw sicrhau cysondeb â safonau cenedlaethol. Caiff sampl o bortffolios dysgwyr eu harholi, a chaiff marciau eu cymhwyso lle y cafwyd eu bod yn amrywio o'r safon genedlaethol. Os yw'r broses gymedroli'n dangos bod defnydd anghyson wedi ei wneud o'r meini prawf asesu gan aseswyr y ganolfan, mae Edexcel yn cadw'r hawl i ddychwelyd y sampl o waith er mwyn i safoni mewnol ddigwydd eto.

## Iaith yr asesu

Bydd asesu ar gyfer y fanyleb hon ar gael fel arfer yn Saesneg yn unig. Caiff deunyddiau asesu eu cyhoeddi fel arfer yn Saesneg yn unig a rhaid i bob gwaith ysgrifenedig a llafar a gyflwynir i'w arholi a'i safoni ei gyflwyno yn Saesneg. Nodir yr eithriad isod.

## Datganiad Cymraeg

Caiff y cymhwyster hwn ei asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae angen i ganolfannau roi gwybod i Edexcel am eu ceisiadau sydd am ddefnyddio'r Gymraeg erbyn y dyddiad a gyhoeddir yn *Llawlyfr Gwybodaeth* Edexcel.

Dylai canolfannau sydd am gynnig y cymhwyster hwn trwy gyfrwng y Gymraeg gysylltu â'r swyddfa ranbarthol (manylion i ddod) a fydd yn falch o gynnig cyngor.

Rheolwr Swyddfa Ranbarthol Cymru
Edexcel Cymru
Uned C
Fairway House
Links Business Park
Llaneirwg
Caerdydd

Ffôn: 0292 079 4865
Ffacs: 0292 036 2830

## Gofynion statudol

Gwneir yr holl asesu ar gyfer y fanyleb hon yn unol â Chod Ymddygiad TGAU, TAG a CGCC, a gyhoeddir yn flynyddol gan yr awdurdodau rheoli.

# Gwybodaeth graddio

## Bandiau marciau

Mae'r asesiadau wedi eu cynllunio i ganiatáu i ymgeiswyr ddangos cyrhaeddiad cadarnhaol ac i gael profiad cadarnhaol wrth gwblhau pob asesiad.

Yn unol â'r uchod, mae'r meini prawf am asesu pob aseiniad wedi eu hysgrifennu fel y dylai ymgeisydd sy'n gweithio ar ben isaf amrediad gallu TAG allu cwrdd yn fras ag 80 y cant o feini prawf band 1. Mae hyn yn cyfateb yn fras i 40 y cant o gyfanswm y credydau sydd ar gael am yr aseiniad.

## Graddio, cydgrynhoi a chywerthedd

Y radd gyffredinol ar gyfer:

- Caiff cymwysterau Uwch Gyfrannol eu graddio ar raddfa pum-gradd o A i E lle yw'r radd uchaf.
- Caiff cymwysterau Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl) eu graddio ar raddfa naw-gradd AA i E.E, lle AA yw'r radd uchaf.

Caiff cymwysterau TAG Uwch eu graddio ar raddfa pum-gradd o A i E lle A yw'r radd uchaf.

Caiff cymwysterau TAG Uwch Dyfarniad Dwbl eu graddio ar raddfa naw-gradd AA i E.E, lle AA yw'r raddfa uchaf.

Nid yw'r bandiau marciau a ddefnyddir am asesu mewnol yn perthyn i ffiniau graddau a bennwyd o flaen llaw. Yn dilyn pob cyfres arholi a safoni bydd Edexcel yn gosod y ffiniau graddau am unedau a asesir yn fewnol ac am unedau a asesir yn allanol mewn cyfarfod dyfarnu.

Caiff y ffiniau marciau crai eu trosi i farciau unffurf ar raddfa o 0–100. Caiff y radd derfynol am y cymhwyster ei phennu trwy gydgrynhoi'r marciau unffurf am yr unedau. Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion y graddfeydd marciau unffurf (GMU) a ddefnyddir am yr unedau ac am y cymhwyster.

### Canlyniadau uned

Y marciau unffurf lleiaf y mae eu hangen am bob gradd:

| Gradd uned | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|
| Marc unffurf uchaf = 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon angenrheidiol am radd E farc unffurf o fewn ystod 0–39.

## Canlyniadau cymwysterau

Y marciau unffurf isaf y mae eu hangen am bob gradd:

**Uwch Gyfrannol**

| Gradd Cymhwyster | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|
| Marc unffurf uchaf = 300 | **240** | **210** | **180** | **150** | **120** |

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon angenrheidiol am radd E farc unffurf o fewn ystod 0–119.

**TAG Uwch**

| Gradd cymhwyster | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|
| Marc unffurf uchaf = 600 | **480** | **420** | **360** | **300** | **240** |

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon angenrheidiol am radd E farc unffurf o fewn ystod 0-239.

**Uwch Gyfrannol (Dyfarniad Dwbl)**

| Gradd cymhwyster | AA | AB | BB | BC | CC | CD | DD | DE | E.E |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Marc unffurf uchaf = 600 | **480** | **450** | **420** | **390** | **360** | **330** | **300** | **270** | **240** |

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon angenrheidiol am radd EE farc unffurf o fewn ystod 0-239.

**TAG Uwch (Dyfarniad Dwbl)**

| Gradd cymhwyster | AA | AB | BB | BC | CC | CD | DD | DE | E.E |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Marc unffurf uchaf =1200 | **960** | **900** | **840** | **780** | **720** | **660** | **600** | **540** | **480** |

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon angenrheidiol am radd E farc unffurf o fewn ystod 0-479.

# Disgrifiadau perfformiad

Disgrifiadau perfformiad for this subject are given in *Atodiad ch.*

## Pwysiadau amcanion asesu

| Uned | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 25-30% | 25-30% | 20-25% | 20-25% |
| 2 | 30% | 25% | 25% | 20% |
| 3 | 30% | 25% | 25% | 20% |
| 4 | 30% | 25% | 25% | 20% |
| 5 | 25-30% | 25-30% | 20-25% | 20-25% |
| 6 | 30% | 30% | 20% | 20% |
| 7 | 20-25% | 20-25% | 25-30% | 25-30% |
| 8 | 20% | 25% | 30% | 25% |
| 9 | 20% | 25% | 25% | 30% |
| 10 | 20-25% | 20-25% | 25-30% | 25-30% |
| 11 | 20% | 25% | 25% | 30% |
| 12 | 20% | 25% | 25% | 30% |

(Gweler tudalen 3 am destun llawn yr amcanion asesu.)

# Gwybodaeth ychwanegol

## Gwneud cais am y cymhwyster hwn

Mae manylion am sut i gyflwyno ymgeiswyr am y cymhwyster hwn i'w cael yn *Information Manual* Edexcel. Caiff copïau o hwn eu hanfon i bob swyddog arholiadau. Ceir gwybodaeth hefyd ar wefan Edexcel website: www.edexcel.org.uk.

## Ailsefyll

Nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gellir rhoi cais ar uned cyn hawlio ardystiad am y cymhwyster. Bydd y canlyniad gorau sydd ar gael am bob uned yn cyfrif tuag at y radd derfynol.

Cedwir canlyniadau unedau yng nghronfa ddata Edexcel am gynifer o flynyddoedd ac y bydd y fanyleb hon yn para. Ar ôl i gymhwyster lefel Uwch neu UG gael ei ardystio, bernir bod yr holl ganlyniadau uned wedi eu defnyddio. Ni ellir defnyddio'r canlyniadau hyn eto tuag at ddyfarniad pellach o'r un cymhwyster ar yr un lefel.

## Argaeledd

Dyma bolisi Edexcel ar argaeledd ein cymwysterau:

- rhaid iddynt fod ar gael i bawb sy'n gallu cyrraedd y safon angenrheidiol
- rhaid iddynt fod yn rhydd o rwystrau sy'n cyfyngu argaeledd a chynnydd
- mae cyfleoedd cyfartal yn bod i bob dysgwr.

## Cysylltiad â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Mae TAG Edexcel mewn Teithio a Thwristiaeth yn cysylltu â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol newydd mewn Teithio a Thwristiaeth ar Lefel 3. Datblygwyd y rhain gan *People 1st*, y Cyngor Sgiliau Sector a ffurfiwyd trwy gyfuno'r Hospitality Training Foundation (*HtF*) a'r Travel, Tourism and Events National Training Organisation (*TTENTO*). Gellir cysylltu â *People 1st* fel a ganlyn:

*People 1st*

2nd Floor
Armstrong House
38 Market Square
Uxbridge
Middlesex UB8 1LH

Rhif ffôn: 0870 060 2550
Gwefan: www.people1st.co.uk

Dangosir y cysylltiadau â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol o fewn pob uned.

## Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig

Asesir ymgeiswyr ar eu gallu i:

- dethol a defnyddio cywair ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas ac i gynnwys pwnc cymhleth
- trefnu gwybodaeth berthnasol yn glir a chydlynol, gan ddefnyddio geirfa arbenigol lle bo hynny'n briodol
- sicrhau bod y testun yn ddarllenadwy a bod y sillafu, y gramadeg a'r atalnodi yn gywir fel bod yr ystyr yn glir.

## Dysgwyr â gofynion penodol

Efallai y bydd ar ddysgwyr â gofynion penodol angen cefnogaeth ychwanegol, er enghraifft cymhorthion technegol neu ddulliau asesu sydd wedi eu haddasu neu eu dyfeisio'n arbennig, gydag amser ychwanegol os oes angen.

Bydd Edexcel yn asesu a ellir, neu a oes angen rhoi ystyriaeth neu gonsesiynau arbennig i ddysgwyr â gofynion penodol. Dylid anfon ceisiadau at:

Special Requirements
Edexcel
One90 High Holborn
London
WC1V 7BH

## Y cwricwlwm ehangach

### Sgiliau allweddol

Mae'r fanyleb hon yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu a chynhyrchu tystiolaeth i asesu'r sgiliau allweddol a restrir isod:

- cymhwyso rhif
- cyfathrebu
- technoleg gwybodaeth
- gwella eich dysgu a'ch perfformiad
- datrys problemau
- gweithio gydag eraill.

Mae *Atodiad A* yn mapio'r cyfleoedd sydd ar gael ar lefel 3 ac mae *Atodiad B* yn cynnig awgrymiadau datblygu sgiliau allweddol. Lle y bo'n briodol, dylid croesgyfeirio'r cyfleoedd hyn yn uniongyrchol, ar lefel(au) penodedig, i'r meini prawf a restrir yn Rhan B y manylebau sgiliau allweddol.

## Cysylltiadau ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol (YMMCD) a rhai eraill y cwricwlwm ehangach

Mae'r fanyleb hon yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol, ynghyd ag ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol, ystyriaethau iechyd a diogelwch, a datblygiadau Ewropeaidd sy'n gyson â chytundebau rhyngwladol priodol fel y'u cymhwysir i'r sector Celfyddydau Perfformio. Mae *Atodiad C* yn arwyddnodi'r cyfleoedd sydd ar gael.

## Cefnogaeth i athrawon

Mae amrediad llawn o ddeunydd cefnogi wedi ei gynllunio ar gyfer pob TAG yn y gyfres hon. Mae'r amrediad yn cynnwys:

- profion enghreifftiol a chynlluniau marcio cysylltiedig
- defnyddiau sampl ar gyfer cyflwyno'r unedau - pecynnau cefnogi tiwtoriaid
- defnyddiau sampl ar gyfer asesu'r unedau mewnol
- adroddiadau Prif Arholwyr
- gwefan Edexcel — www.edexcel.org.uk.

Mae Edexcel yn cyflwyno rhaglen HMS lawn i gefnogi'r TAGau hyn. Y mae'n cynnwys cynadleddau generig a phwnc-benodol, seminarau, gweithdai a digwyddiadau wedi eu teilwra ar gyfer canolfannau unigol.

Ceir gwybodaeth bellach am raglenni HMS o'r Gwasanaeth i Gwsmeriaid ar 0870 240 9800.

Gellir cael gwybodaeth ar ddeunyddiau cefnogi oddi wrth:

Edexcel Publications
Adamsway
Mansfield
NG18 4FN

| | |
|---|---|
| Ffôn: | 01623 467467 |
| Ffacs: | 01623 450481 |
| Ebost: | publications@linneydirect.com |

# Atodiadau

Atodiad A: Mapio sgiliau allweddol

Atodiad B: Awgrymiadau datblygu sgiliau allweddol

Atodiad C: Y cwricwlwm ehangach

Atodiad CH: Disgrifiadau perfformiad

# Atodiad A: Mapio sgiliau allweddol

| Sgiliau allweddol (lefel 3) | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 | Uned 5 | Uned 6 | Uned 7 | Uned 8 | Uned 9 | Uned 10 | Uned 11 | Uned 12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymhwyso rhif** | | | | | | | | | | | | |
| Rh3.1 | 3 | 3 | | | | | | 3 | 3 | | | 3 |
| Rh3.2 | 3 | 3 | | | | | | 3 | 3 | | | 3 |
| Rh3.3 | 3 | 3 | | | | | | 3 | 3 | | | 3 |
| **Cyfathrebu** | | | | | | | | | | | | |
| C3.1a | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| C3.1b | | | 3 | 3 | 3 | | 3 | 3 | | | 3 | 3 |
| C3.2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| C3.3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Technoleg gwybodaeth** | | | | | | | | | | | | |
| TGCh3.1 | 3 | 3 | | | | | | 3 | 3 | | | 3 |
| TGCh3.2 | | 3 | | | | | | 3 | | | | |
| TGCh3.3 | 3 | 3 | | | | | | 3 | | | | |

| **Sgiliau allweddol (lefel 3)** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** | **Uned 4** | **Uned 5** | **Uned 6** | **Uned 7** | **Uned 8** | **Uned 9** | **Uned 10** | **Uned 11** | **Uned 12** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella eich dysgu a'ch perfformiad** | | | | | | | | | | | | |
| GDP3.1 | | | | | | | | 3 | 3 | | | |
| GDP3.2 | | | | | | | | 3 | 3 | | | |
| GDP3.3 | | | | | | | | 3 | 3 | | | |
| **Datrys problemau** | | | | | | | | | | | | |
| DP3.1 | | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | |
| DP3.2 | | 3 | | | | | | | 3 | | | |
| DP3.3 | | | | | | | | | 3 | | | |
| **Gweithio gydag eraill** | | | | | | | | | | | | |
| GGE3.1 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | | 3 | | 3 | 3 | | |
| GGE3.2 | 3 | | 3 | 3 | 3 | | 3 | | 3 | | | |
| GGE3.3 | 3 | | 3 | 3 | 3 | | 3 | | 3 | | | |

# Atodiad B: Awgrymiadau datblygu sgiliau allweddol

## Cymhwyso rhif — lefel 3

Gynllunio a chyflawni o leiaf un gweithgaredd neu fwy sy’n cynnwys tasgau ar gyfer Rh3.1, Rh3.2 (a neu b neu c neu ch) a Rh3.3 yr un.

**Yn gyffredinol, trwy ddefnyddio un neu fwy o weithgareddau, mae’n rhaid i chi**:

- ddefnyddio dau wahanol fath o ffynhonnell, gan gynnwys set data fawr h.y. mwy na 50 eitem o ddata (Rh3.1)
- gwneud cyfrifiadau sy’n ymwneud ag a, b, c a ch (Rh3.2)
- cyflwyno canfyddiadau mewn dwy ffordd wahanol gan ddefnyddio siartiau, graffiau neu ddiagramau (Rh3.3).

| **Gofyniad tystiolaeth portffolio sgìl allweddol** | | **Unedau UG/U2** | **Rhaid i’r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:** |
|---|---|---|---|
| **Rh3.1** | Cynllunio gweithgaredd a chasglu gwybodaeth berthnasol o ffynonellau perthnasol. | Uned 1 | Wrth ddysgu dehongli ystadegau. |
| | | Uned 2 | Wrth werthuso gwasanaeth cwsmer o fewn corff, gellid casglu data trwy arolwg cwsmer/staff. |
| | | Uned 8 | Wrth ymchwilio i Faterion Cyfredol, gall y bydd yn briodol casglu data. |
| | | Uned 9 | Wrth ystyried cyfleoedd cyflogaeth posibl, casglu data sy'n ymwneud â lefelau cyflogaeth yn y diwydiant. |
| | | Uned 12 | Wrth ystyried y gyfran marchnad, y trosiant a'r elw a phenderfynu ar gyrff allweddol mewn sector, gall casglu data gefnogi trafodaethau a dadansoddiad. |
| **Rh3.2** | Defnyddio’r wybodaeth hon i wneud cyfrifiadau amlran sy’n ymwneud â:<br>a niferoedd neu feintiau<br>b graddfeydd neu gyfrannedd<br>c trin ystadegau<br>ch defnyddio fformiwlâu. | Uned 1 | Lle mae dysgwyr yn dysgu dehongli ystadegau yn ymwneud â graddfa'r diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 2 | Gallai dysgwyr drin data a gasglwyd trwy arolwg o ansawdd gwasanaeth cwsmer o fewn corff. |
| | | Uned 8 | Gallai dysgwyr wneud cyfrifiadau gan ddefnyddio data a gasglwyd ar bwnc cyfredol y maent wedi'i ymchwilio neu y maent yn ei drafod fel gweithgaredd dosbarth. |
| | | Uned 9 | Gellid defnyddio data ar lefelau cyflogaeth i ddatblygu'r gallu i wneud cyfrifiadau amlran. |
| | | Uned 12 | Wrth ystyried y gyfran o’r farchnad, y trosiant a'r elw a phenderfynu ar gyrff allweddol mewn sector, gall fod angen cyfrifiadau. |

| Gofyniad tystiolaeth portffolio sgìl allweddol | | Unedau UG/U2 | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru: |
|---|---|---|---|
| **Rh3.3** | Dehongli canlyniadau eich cyfrifiadau, cyflwyno eich canfyddiadau a chyfiawnhau eich dulliau. | Uned 1 | Gallai dysgwyr gyflwyno'u dehongliadau o raddfa'r diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 2 | Gellid cyflwyno canlyniadau arolwg o wasanaeth cwsmer mewn corff. |
| | | Uned 8 | Gellid cyflwyno dadansoddiad o ganfyddiadau ar bwnc cyfredol. |
| | | Uned 9 | Gellid cyflwyno graddfa cyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 12 | Gellir cyflwyno cyfran marchnad, trosiant ac elw cyrff allweddol mewn sector. |

## Cyfathrebu — lefel 3

| Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol | | Unedau UG/U2 | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru: |
|---|---|---|---|
| **C3.1a** | Cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp. | Uned 1 | Gellid cynnal trafodaeth ar agweddau a gwerthoedd mewn teithio a thwristiaeth wrth benderfynu ar ddiffiniad o dwristiaeth. Mae cyfleoedd i drafod sut mae'r diwydiant yn fregus yn wyneb ffactorau allanol a natur a nodweddion y diwydiant hefyd. |
| | | Uned 2 | Ceir cyfleoedd i drafod safonau ansawdd a meincnodi mewn gwasanaeth cwsmer yn ogystal â'u profiadau eu hunain yn cyflwyno a derbyn gwasanaeth cwsmer, naill ai mewn teithio a thwristiaeth neu mewn sector diwydiant arall megis mân-werthu. |
| | | Uned 3 | Mae llawer o'r dysgwyr yn debygol o fod wedi cael profiad o dwristiaeth yn y DU a gallant drafod y profiadau hyn. Gellid bod trafodaethau hefyd am y ffactorau sy'n debygol o effeithio poblogrwydd ac apêl yn y dyfodol. |
| | | Uned 4 | Gellid cynnal trafodaethau ar y nodweddion sy'n gwneud cyrchnod yn boblogaidd ac yn apelgar yn seiliedig ar ymchwil a wnaed neu ar eu profiadau eu hunain. |
| | | Uned 5 | Gallai trafodaethau godi yn sgil ystyried gwybodaeth a gyflwynwyd mewn astudiaethau achos neu'n dilyn ymweliadau â chyrff teithio a thwristiaeth. Mae cyfleoedd hefyd i drafod yr effaith mae TGCh wedi'i chael ar iechyd, diogelwch a diogeliad yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 6 | Wrth gyflwyno cyfarfodydd croeso, mae cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn trafodaethau. Wrth ddysgu dadansoddi pwysigrwydd cyflwyno a hyfforddiant, gallai hynny fod trwy drafodaeth. |
| | | Uned 7 | Wedi ystyried astudiaethau achos ar ddatblygiad twristiaeth mewn cyrchnodau gwahanol, mae trafodaethau yn debygol o fod yn canoli ar wrthdrawiadau rhwng asiantau datblygu twristiaeth ac agweddau a gwerthoedd rhanddeiliaid allweddol, yn ogystal â'u gwerthoedd a'u hagweddau hwy'u hunain at dwristiaeth. |
| | | Uned 8 | Wrth ystyried y pwnc cyfredol y dymunant ei ymchwilio mewn dyfnder, gall dysgwyr drafod dewisiadau posibl yn y dosbarth. Gallai dysgwyr arwain seminarau ar bynciau dewisol hefyd, gan arwain at drafodaeth o fewn eu grŵp. |
| | | Uned 9 | Trwy weithgaredd gwaith tîm, bydd cyfleoedd i drafod wrth gynllunio, gweithredu a gwerthuso. |
| | | Uned 10 | Wrth ddysgu gwerthuso defnyddiau hyrwyddo, ceir llawer o gyfleoedd i drafod. Gellir trafod hefyd wrth ddysgu cynllunio ymgyrch hyrwyddo. Mae pwnc ymddygiad prynwr yn rhoi cyfleoedd i drafod hefyd, yn seiliedig ar eu profiadau a'u harsylwadau eu hunain yn ogystal â thrwy astudiaethau achos. |

| Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol | | Unedau UG/U2 | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru: |
|---|---|---|---|
| | | Uned 11 | Gall esblygiad mathau gwahanol o wyliau arbenigol gynnig cyfleoedd am drafodaeth. Gallai hyn fod trwy seminarau, cyflwyniadau dysgwyr, neu yn dilyn fideos a chyflwyniadau gan siaradwyr gwadd. Ceir cyfleoedd i drafod eu hagweddau a'u gwerthoedd eu hunain tuag at dwristiaeth. |
| | | Uned 12 | Gall seminarau ar sectorau gwahanol y diwydiant arwain at drafodaethau. |
| **C3.1b** | Gwneud cyflwyniad ffurfiol sy'n parhau o leiaf wyth munud gan ddefnyddio delwedd neu ddeunydd cefnogi arall. | Uned 1 | Gallai dysgwyr wneud cyflwyniadau ar rolau a chyfrifoldebau cyrff gwahanol neu ar sut mae'r diwydiant yn fregus yn wyneb pwysau allanol. |
| | | Uned 2 | Gallai dysgwyr wneud cyflwyniadau ar ansawdd gwasanaeth cwsmer o fewn corff. |
| | | Uned 3 | Gellid cael cyflwyniadau ar gyrchnodau Ewropeaidd a'r nodweddion allweddol sy'n eu gwneud yn boblogaidd ac yn apelgar. |
| | | Uned 4 | Gellid cael cyflwyniadau ar nodweddion cyrchnodau yn y DU a/neu'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar eu poblogrwydd a'u hapêl yn y dyfodol. |
| | | Uned 5 | Gellid cael cyflwyniadau ar ymchwil y maent wedi'i wneud ar sefyllfa argyfyngus a sut y deliwyd â hi gan y diwydiant. |
| | | Uned 6 | Byddai'r cyfarfod croeso yn gyflwyniad o o leiaf wyth munud. |
| | | Uned 7 | Gellid cael cyflwyniadau ar ddatblygiad twristiaeth mewn cyrchnodau gwahanol a / neu rôl asiantau gwahanol mewn datblygu twristiaeth. |
| | | Uned 8 | Dysgwyr yn rhoi cyflwyniad ar eu cynnig ar gyfer ymchwilio i bwnc cyfredol. |
| | | Uned 9 | Gellid cael cyflwyniadau ar gyfleoedd cyflogaeth o fewn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Gall fod cyflwyniadau hefyd o ganlyniad i'r gweithgaredd tîm a gynlluniwyd. |
| | | Uned 10 | Gallai dysgwyr roi cyflwyniad ar ymgyrch hyrwyddo arfaethedig ar gyfer corff teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 11 | Gallai dysgwyr roi cyflwyniad ar fathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig. |
| | | Uned 12 | Lle mae dysgwyr yn ymchwilio sector o'r diwydiant, neu gorff o fewn y sector, gallai'u canfyddiadau gael eu cyflwyno ar lafar. |

| Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol | | Unedau UG/U2 | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru: |
|---|---|---|---|
| **C3.2** | Darllen a chyfuno gwybodaeth o **ddwy** ddogfen o leiaf sy'n ymwneud â'r un pwnc.<br>Rhaid i bob dogfen gynnwys o leiaf 1,000 o eiriau. | Uned 3 | Wrth ymchwilio i wybodaeth am gyrchnodau twristiaeth Ewropeaidd. |
| | | Uned 4 | Wrth ymchwilio i wybodaeth am gyrchnodau teithio yn y DU. |
| | | Uned 5 | Wrth ymchwilio i sefyllfaoedd *force majeure* o fewn y diwydiant teithio a thwristiaeth a sut y delir â hwy fel paratoad ar gyfer yr arholiad. |
| | | Uned 7 | Wrth ymchwilio i astudiaethau achos ar dwristiaeth gyfrifol fel paratoad ar gyfer yr arholiad. |
| | | Uned 8 | Wrth ymchwilio i bwnc teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 11 | Wrth ymchwilio i fathau gwahanol o wyliau diddordebau arbennig. |
| | | Uned 12 | Wrth ymchwilio i gyrff o fewn sectorau penodol o'r diwydiant. |
| **C3.3** | Ysgrifennu **dwy** ddogfen o fath gwahanol, gyda'r ddwy yn cynnwys gwybodaeth wahanol am bynciau cymhleth.<br>Rhaid i un ddogfen gynnwys o leiaf 1,000 o eiriau. | Uned 1 | Papur seminar ar un o'r pwysau allanol sy'n effeithio ar y diwydiant teithio a thwristiaeth neu ar strwythur y diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 2 | Adroddiad ar ansawdd gwasanaeth cwsmer o fewn corff, gan ddefnyddio graffiau a siartiau cylch i brofi canfyddiadau. |
| | | Uned 3 | Defnyddiau hyrwyddo sy'n pwysleisio nodweddion allweddol cyrchnod. |
| | | Uned 4 | Teithlen ar gyfer taith yn amlygu cyrchnodau gwahanol yn y DU. |
| | | Uned 5 | Erthygl bapur newydd yn ymwneud â sefyllfa argyfyngus sy'n effeithio ar y diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 6 | Llyfryn gwybodaeth ar gyrchnod i'w ddefnyddio mewn cyfarfod croeso. |
| | | Uned 7 | Papur seminar ar gyrchnod a ymchwiliwyd. |
| | | Uned 8 | Adroddiad ar bwnc cyfredol. |
| | | Uned 9 | Gwerthusiad ar eu perfformiad eu hunain ac eraill yn gweithio ar weithgaredd tîm. |
| | | Uned 10 | Rhesymwaith ar gyfer ymgyrch hyrwyddo arfaethedig neu adolygiad o weithgareddau hyrwyddo corff teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 11 | Papur seminar ar deip o wyliau diddordebau arbennig. |
| | | Uned 12 | Adroddiad ar sector o'r diwydiant teithio a thwristiaeth. |

Defnyddiwch o leia un ddelwedd, **naill ai** i gaffael gwybodaeth, **neu** i gyfleu gwybodaeth yn un o'r dogfennau rydych chi'n ei hysgrifennu.

## Technoleg gwybodaeth — lefel 3

Ddangos eich bod yn medru **cynllunio** a chyflawni nifer o dasgau, a rhaid i un o'r rhain fod yn dasg fawr sy'n cwmpasu TGCh3.1, TGCh3.2 a TGCh3.3.

Rhaid cwrdd â gofynion pob cydran, TGCh3.1, TGCh3.2 a TGCh3.3, o leiaf ddwywaith, a rhaid cwrdd â gofynion TGCh3.3 ar gyfer o leiaf ddwy gynulleidfa wahanol. Gellir defnyddio tasgau llai i sicrhau bod pob cydran wedi'i chynnwys.

**Yn gyfan gwbl, trwy wneud o leiaf ddau weithgaredd, mae'n rhaid i chi**:

- gynnwys o leiaf un ffynhonnell wybodaeth wedi'i seilio ar TGCh
- cynnwys o leiaf un ffynhonnell wybodaeth heb ei seilio ar TGCh
- defnyddio o leiaf un enghraifft o destun, un enghraifft o ddelwedd ac un enghraifft o rif
- defnyddio un enghraifft o wybodaeth gyfunol, megis testun â rhif, neu ddelwedd â rhif neu destun â delwedd
- cyflwyno tystiolaeth o anfon a derbyn negeseuon e-bost; mae'n rhaid i un o'r negeseuon hyn gynnwys atodiad sy'n berthnasol i'r dasg.

| **Gofyniad tystiolaeth portffolio sgìl allweddol** | | **Unedau UG/U2** | **Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru**: |
|---|---|---|---|
| **TGCh3.1** | Chwilio am wybodaeth, gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau a defnyddio meini prawf chwilio lluosol mewn o leiaf un achos. | Uned 1 | Gallai hwn fod am ddata ystadegol ar raddfa'r diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 2 | Gallai hwn fod trwy arolwg o ansawdd gwasanaeth cwsmer mewn corff. |
| | | Uned 8 | Bydd angen i ddysgwyr chwilio ffynonellau gwahanol, a all gynnwys ffynonellau'n seiliedig ar TGCh, i gael gwybodaeth am bwnc cyfredol. |
| | | Uned 9 | Gall fod llawer o ffynonellau gwybodaeth yn seiliedig ar TGCh ar gyfleoedd cyflogaeth a thueddiadau cyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 12 | Gallai dysgwyr chwilio am wybodaeth am sector o'r diwydiant neu gorff o fewn sector o'r diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| **TGCh 3.2** | Bwydo i mewn a datblygu'r wybodaeth ac olrheinio gwybodaeth newydd. | Uned 2 | Gellid bwydo canlyniadau arolwg i gronfa ddata neu daenlen y gellid eu defnyddio wedyn i ddadansoddi data. |
| | | Uned 8 | Gellid datblygu llawer o'r wybodaeth a gafwyd ar bwnc cyfredol i ddeillio gwybodaeth newydd. |

| Gofyniad tystiolaeth portffolio sgìl allweddol | | Unedau UG/U2 | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru: |
|---|---|---|---|
| **TGCh 3.3** | Cyflwyno gwybodaeth gyfunol megis testun â delwedd, testun â rhif, delwedd â rhif. | Uned 1 | Gellid cyflwyno ystadegau ar raddfa teithio a thwristiaeth gan ddefnyddio llawer o ddulliau gwahanol. |
| | | Uned 2 | Gellid cyflwyno deilliannau arolwg ar ansawdd gwasanaeth cwsmer fel adroddiad gyda delweddau ategol megis siartiau cylch neu siartiau bar. |
| | | Uned 8 | Gellid ei gyflwyno fel adroddiad ond hefyd yn llafar wedi'i gefnogi gan gyflwyniad PwerBwynt. |

## Gwella eich dysgu a'ch perfformiad eich hun — lefel 3

Ddarparu o leiaf **un** enghraifft ohonoch yn cwrdd â'r safon ar gyfer GDP3.1, GDP3.2 a GDP3.3 (dylai'r enghraifft gwmpasu tri tharged o leiaf). Yn gyffredinol, dangoswch eich bod yn medru defnyddio o leiaf **ddwy** ffordd wahanol o ddysgu i wella eich perfformiad.

| **Gofyniad tystiolaeth portffolio sgìl allweddol** | | **Unedau UG/U2** | **Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru:** |
|---|---|---|---|
| **GDP3.1** | Gosod targedau gan ddefnyddio gwybodaeth oddi wrth bobl briodol a chynllunio sut y byddwch yn cyrraedd y rhain. | Uned 8 | Wrth ystyried pa bwnc cyfredol i'w ymchwilio, bydd angen cryn gynllunio. |
| | | Uned 9 | Wrth gymryd rhan yn y gweithgaredd tîm, bydd angen gosod targedau a ffurfio cynllun parthed sut y gellir eu cyflawni. Wrth gwblhau archwiliad sgiliau personol, mae cyfleoedd i'w ddefnyddio i osod targedau datblygu personol. |
| **GDP3.2** | Cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu drwy ddefnyddio eich cynllun i'ch helpu i gyrraedd targedau a gwella eich perfformiad. | Uned 8 | Trwy gwblhau'r ymchwiliad o bwnc cyfredol, mae cyfleoedd i adolygu cynnydd ac addasu cynlluniau ymchwil fel y bo'n briodol. |
| | | Uned 9 | Gall fod cyfleoedd trwy'r gwaith tîm i adolygu cynnydd gan ddefnyddio cynllun ac ystyried dulliau eraill i wella perfformiad. Gall fod cyfleoedd i adolygu cynllun datblygu personol o ganlyniad i ddiddordebau newydd neu gyflawniadau personol. |
| **GDP3.3** | Adolygu cynnydd a sicrhau tystiolaeth o'ch cyflawniadau. | Uned 8 | Dylid adolygu cynnydd yr ymchwil yn gyson i sicrhau y gellir cwrdd â thargedau. |
| | | Uned 9 | Mae angen tystiolaeth o weithgaredd gwaith tîm a'ch perfformiad eich hun ac eraill. Gellir adolygu a diweddaru'r cynllun datblygu personol a'r archwiliad sgiliau hefyd gan y gall tystiolaeth a chyflawniadau newydd effeithio ar syniadau a chynigion cychwynnol. |

## Datrys problemau — lefel 3

Ddarparu o leiaf **un** enghraifft ohonoch yn cwrdd â'r safon ar gyfer DP3.1, DP3.2 a DP3.3. Dylai'r enghraifft gynnwys o leiaf **tair** ffordd wahanol o ddelio â phroblem (ar gyfer DP3.1).

| Gofyniad tystiolaeth portffolio sgìl allweddol | | Unedau UG/U2 | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru: |
|---|---|---|---|
| **DP3.1** | Archwilio problem a nodi ffyrdd gwahanol o ddelio â hi. | Uned 2 | Mae llawer o ffyrdd y gellid gwerthuso ansawdd gwasanaeth cwsmer mewn corff. Gallai dysgwyr ystyried dulliau eraill. |
| | | Uned 3 | Pan fydd dysgwyr yn ystyried amrediad o gyrchnodau fydd yn cwrdd ag anghenion cymhleth ymwelydd. |
| | | Uned 4 | Wrth roi teithlen at ei gilydd sy'n cynnwys mathau gwahanol o gyrchnodau sy, yn unigol neu yn gydlynol, yn cwrdd ag anghenion cwsmer, mae dulliau gwahanol o fynd i'r afael â hyn y gellid eu hystyried. |
| | | Uned 5 | O astudiaeth achos ar sefyllfa argyfyngus, gallai dysgwyr ystyried dulliau gwahanol i ddelio â hi. |
| | | Uned 6 | Mae gofyn i ddysgwyr ddelio â phroblem cwsmer. |
| | | Uned 7 | Bydd twristiaeth gyfrifol yn ystyried ffyrdd o leihau effeithiau negyddol a mwyhau effeithiau cadarnhaol twristiaeth ar gyrchnod. Gellid ystyried yr agweddau gwahanol. |
| | | Uned 8 | Wrth ddatblygu methodoleg ymchwil ar gyfer eu hymchwiliadau, mae dulliau eraill i'w hystyried. |
| | | Uned 9 | Mae gweithgaredd gwaith tîm yn debygol o amlygu llawer o broblemau posibl lle gall dysgwyr adnabod dulliau gwahanol o fynd i'r afael â nhw. |
| | | Uned 10 | Bydd amrywiaeth o ddulliau posibl ar gyfer datblygu ymgyrch hyrwyddo y gellid eu dilyn a'u hystyried. |
| | | Uned 11 | Gofynnir i ddysgwyr roi pecyn at ei gilydd ar gyfer gwyliau diddordebau arbennig sy'n debygol o ymgorffori nifer o newidynnau. |
| **DP3.2** | Cynllunio a gweithredu o leiaf un ffordd o ddatrys y broblem. | Uned 2 | Wrth wneud gwerthusiad o ansawdd gwasanaeth cwsmer mewn corff, gall dysgwyr weithredu un o'r cynigion maen nhw wedi'i ystyried. |
| | | Uned 9 | Gall fod cyfleoedd trwy'r gwaith tîm i weithredu'u syniadau ar gyfer delio â phroblemau sy'n codi. |
| **DP3.3** | Gwirio a yw'r broblem wedi cael ei datrys ac adolygu eich dull o weithredu wrth ddatrys problemau. | Uned 9 | Trwy'r gweithgareddau gwaith tîm byddant yn gallu gwirio a yw'r broblem wedi'i datrys. |

## Gweithio gydag eraill - lefel 3

Ddarparu o leiaf **un** enghraifft ohonoch yn cwrdd â'r safon ar gyfer GGE3.1, GGE3.2 a GGE3.3, gan gynnwys gwaith mewn sefyllfa grŵp neu dîm. Mae'n rhaid i chi wirio cynnydd ar ddau achlysur (ar gyfer GGE3.2).

| Gofyniad tystiolaeth portffolio sgìl allweddol | | Unedau UG/U2 | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn medru: |
|---|---|---|---|
| **GGE3.1** | Cynllunio gwaith gydag eraill. | Uned 1 | Gallai dysgwyr weithio mewn grwpiau, pob un yn ymchwilio nodwedd o'r diwydiant teithio a thwristiaeth neu bwnc allanol a allai effeithio'n andwyol ar y diwydiant. |
| | | Uned 2 | Gallai dysgwyr weithio mewn grwpiau, yn ystyried sut mae sectorau gwahanol y diwydiant yn cwrdd ag anghenion cwsmer. |
| | | Uned 3 | Gallai dysgwyr wneud peth gwaith cychwynnol mewn grwpiau, er mwyn iddynt benderfynu ar lefel yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol cyn asesiad, trwy ymchwilio cyrchnodau gwahanol. |
| | | Uned 4 | Gallai dysgwyr wneud peth gwaith cychwynnol mewn grwpiau, er mwyn iddynt benderfynu ar lefel yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol cyn asesiad, trwy ymchwilio cyrchnodau gwahanol. |
| | | Uned 5 | Gallai dysgwyr weithio mewn grwpiau, pob un yn ymchwilio sefyllfa argyfyngus sy wedi effeithio ar y diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| | | Uned 7 | Gallai dysgwyr weithio mewn grwpiau, pob un yn ymchwilio twristiaeth gyfrifol mewn cyrchnod. |
| | | Uned 9 | Rhaid i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgaredd tîm. |
| | | Uned 10 | Gallai dysgwyr weithio mewn grwpiau i gynllunio ymgyrch hyrwyddo. |
| **GGE3.2** | Ceisio datblygu cydweithrediad a gwirio cynnydd tuag at eich amcanion cytunedig. | Uned 1 | Gall dysgwyr wirio cynnydd yr ymchwil a wnaed a'u cyflwyniad o'u canfyddiadau. |
| | | Uned 3 | Gall dysgwyr wirio cynnydd eu gweithgareddau i sicrhau'u bod yn gweithio i safon ofynnol y cymhwyster. |
| | | Uned 4 | Gall dysgwyr wirio cynnydd eu gweithgareddau i sicrhau'u bod yn gweithio i safon ofynnol y cymhwyster. |
| | | Uned 5 | Gall dysgwyr wirio cynnydd yr ymchwil a wnaed a'u cyflwyniad o ganfyddiadau. |
| | | Uned 7 | Gall dysgwyr wirio cynnydd yr ymchwil a wnaed a'u cyflwyniad o ganfyddiadau. |
| | | Uned 9 | Gellir gwneud hyn drwy'r gweithgaredd tîm. |

| Gofyniad tystiolaeth portffolio sgil allweddol | | Unedau UG/U2 | Cyfleoedd ar gyfer datblygu neu asesiad mewnol |
|---|---|---|---|
| **GGE3.3** | Adolygu gwaith gydag eraill a chytuno ar ffyrdd o wella'r cydweithio yn y dyfodol. | Uned 1 | Gellir cwblhau hyn, gyda chefnogaeth, yn dilyn cyflwyno canfyddiadau. |
| | | Uned 3 | Gellir cwblhau hyn, gyda chefnogaeth, yn dilyn cyflwyno canfyddiadau. |
| | | Uned 4 | Gellir cwblhau hyn, gyda chefnogaeth, yn dilyn cyflwyno canfyddiadau. |
| | | Uned 5 | Gellir cwblhau hyn, gyda chefnogaeth, yn dilyn cyflwyno canfyddiadau. |
| | | Uned 7 | Gellir cwblhau hyn, gyda chefnogaeth, yn dilyn cyflwyno canfyddiadau. |
| | | Uned 9 | Gellir gwneud hyn gydol y broses ond mae'n ofynnol ar gwblhau'r gweithgaredd ar gyfer asesu. |

# Atodiad C: Y cwricwlwm ehangach

## Arwyddnodi

| Mater | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 | Uned 5 | Uned 6 | Uned 7 | Uned 8 | Uned 9 | Uned 10 | Uned 11 | Uned 12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysbrydol | 3 | 3 | 3 | 3 | | | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Moesol | | 3 | | | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | |
| Moesegol | | 3 | | | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | |
| Cymdeithasol | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Diwylliannol | | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | | 3 | |
| Dinasyddiaeth | 3 | | | 3 | | | 3 | | 3 | | | |
| Amgylchedd | 3 | | 3 | 3 | | 3 | 3 | 3 | | | 3 | |
| Datblygiadau Ewropeaidd | 3 | | | | 3 | 3 | | 3 | 3 | 3 | | |
| Iechyd a diogelwch | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | | 3 | |

## Awgrymiadau datblygu

| Mater | Unedau UG/U2 | Cyfleoedd ar gyfer datblygu neu asesiad mewnol |
|---|---|---|
| Ysbrydol | Uned 1 | Gall agweddau o ddatblygiad twristiaeth a mathau gwahanol o dwristiaeth arwain at ddatblygu materion ysbrydol. |
| | Uned 2 | Gall materion ysbrydol effeithio ar anghenion mathau gwahanol o gwsmer a gellir trafod a chyflwyno'r rhain i mewn i chwaraeon rôl. Gellir trafod hefyd y modd y mae Cyrff Teithio a thwristiaeth yn cwrdd ag anghenion ysbrydol cwsmeriaid. |
| | Uned 3 | Wrth ddatblygu dealltwriaeth o anghenion ac amgylchiadau cwsmer, mae'n bwysig ystyried eu hanghenion ysbrydol. Gellir cynnwys y rhain mewn ysgrifau portread. |
| | Uned 4 | Wrth ddatblygu dealltwriaeth o anghenion ac amgylchiadau cwsmer, mae'n bwysig ystyried eu hanghenion ysbrydol. Gellir cynnwys y rhain mewn ysgrifau portread. |
| | Uned 7 | Mae twristiaeth yn cael effeithiau cymdeithasol-ddiwylliannol a all effeithio ar bobl sy'n byw mewn cyrchnod. Ceir cyfleoedd i ystyried effaith twristiaeth ar ysbrydolrwydd y gymuned sy'n ei chynnal. |
| | Uned 8 | Gellir ystyried materion ysbrydol mewn dyfnder ar gyfer yr uned hon neu gellir eu cyflwyno ar gyfer trafodaeth gychwynnol wrth i ddysgwyr ystyried amrediad o bynciau ar gyfer ymchwiliad pellach. |
| | Uned 9 | Gan fod cyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth yn fyd-eang ac yn gofyn i weithwyr weithio ar unrhyw ddiwrnod, unrhyw bryd, mae llawer o faterion ysbrydol posibl y gellir eu trafod trwy gyflwyno'r uned hon. |
| | Uned 10 | Gellid trafod materion ysbrydol yng nghyswllt gwerthusiad neu ddatblygiad defnyddiau ac ymgyrchoedd hyrwyddo. Gellir eu trafod hefyd yng nghyswllt ymddygiad prynwr. |
| | Uned 11 | Mae llawer o dwristiaid yn cymryd rhan mewn gwyliau diddordebau arbennig am resymau ysbrydol ac felly wrth ddysgu am rai o'r rhain ceir cyfleoedd i drafod materion ysbrydol. |
| Moesol | Uned 2 | Ceir cyfleoedd i drafod ffyrdd y mae gan gyrff teithio a thwristiaeth gyfrifoldeb moesol i gwrdd ag anghenion cwsmer, pan nad oes ganddynt unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol efallai. |
| | Uned 5 | Ceir cyfleoedd i drafod ffyrdd y mae gan gyrff teithio a thwristiaeth gyfrifoldeb moesol i ystyried diogelwch cwsmer sy efallai yn fwy na'u cyfrifoldebau cyfreithiol. Er enghraifft, pan fod cwsmer yn profi sefyllfa o argyfwng a phan nad oes unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol ar y gweithredwr teithiau. |
| | Uned 6 | Gellir dod ar draws llawer o sefyllfaoedd wrth weithio fel cynrychiolydd tramor y gellir eu trafod i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o faterion moesol. |
| | Uned 7 | Ceir llawer o gyfleoedd i drafod materion moesol wrth ystyried effeithiau twristiaeth a syniadau am ddatblygu twristiaeth. |

| Mater | Unedau UG/U2 | Cyfleoedd ar gyfer datblygu neu asesiad mewnol |
|---|---|---|
| Moesol (parhad) | Uned 8 | Gellir trafod materion moesol mewn dyfnder ar gyfer yr uned hon neu gellir eu cyflwyno ar gyfer trafodaeth gychwynnol wrth i ddysgwyr ystyried amrediad o faterion i'w hymchwilio ymhellach. |
| | Uned 9 | Gall trafodaeth ar ymddygiad pobl sy'n gweithio yn y diwydiant teithio a thwristiaeth arwain at ystyried materion moesol. |
| | Uned 10 | Gall y modd y mae Cyrff Teithio a thwristiaeth yn ceisio goresgyn gwrthwynebiadau cwsmeriaid i brynu un o'u cynhyrchion neu'u gwasanaethau a'r modd y maen nhw'n eu hyrwyddo arwain at drafodaeth ar faterion moesol. |
| | Uned 11 | Ceir cyfleoedd i drafod materion moesol perthynol i rai mathau o wyliau arbenigol. |
| Moesegol | Uned 2 | Gellid trafod materion moesegol wrth ystyried y modd y mae Cyrff Teithio a thwristiaeth yn cwrdd ag anghenion gwahanol fathau o gwsmer. |
| | Uned 5 | Ceir cyfleoedd i drafod materion moesegol yn ymwneud â chyfrifoldeb cyfreithiol a rheoleiddiol Cyrff Teithio a thwristiaeth a chyfyngiadau a roir ar deithwyr. |
| | Uned 6 | Wrth drafod dyletswyddau a chyfrifoldebau cynrychiolydd cyrchfan, ceir cyfleoedd i gynnwys materion moesegol. |
| | Uned 7 | Gellid cyflwyno materion moesegol wrth ystyried sut y mae cyrchnodau gwahanol wedi neu yn cynllunio i ddatblygu twristiaeth. |
| | Uned 8 | Gall materion moesegol gael eu hystyried yn drwyadl ar gyfer yr uned hon neu gellir eu cyflwyno ar gyfer trafodaeth gychwynnol wrth i ddysgwyr ystyried amrediad o faterion i'w hymchwilio ymhellach. |
| | Uned 9 | Gallai natur cyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth symbylu trafodaeth ar faterion moesegol. |
| | Uned 10 | Gallai gwerthusiad o ddefnyddiau hyrwyddo a ddefnyddir gan gyrff teithio a thwristiaeth arwain at drafodaeth ar faterion moesegol. |
| | Uned 11 | Ceir cyfleoedd i drafod materion moesegol yn ymwneud â rhai mathau o wyliau arbenigol. |
| Cymdeithasol | Uned 1 | Cafwyd llawer o ddatblygiadau mewn twristiaeth o ganlyniad i newidiadau cymdeithasol a gallai'r nodweddion tebyg rhwng datblygiadau hanesyddol a rhai cyfoes arwain at drafodaeth ar faterion cymdeithasol. |
| | Uned 2 | Ceir materion cymdeithasol y gellir eu trafod yng nghyswllt mathau o gwsmeriaid a'u hanghenion. |
| | Uned 3 | Gellir cyflwyno anghenion ac amgylchiadau cymdeithasol cwsmeriaid i ysgrifau portread. |
| | Uned 4 | Gellir cyflwyno anghenion ac amgylchiadau cymdeithasol cwsmeriaid i ysgrifau portread. |
| | Uned 5 | Materion cymdeithasol yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a diogeliad teithwyr a'u heiddo. |
| | Uned 6 | Mae cynrychiolwyr cyrchfan yn debygol o ddod ar draws materion cymdeithasol wrth ymgymryd â'u dyletswyddau a gall y rhain symbylu trafodaeth. |

| Mater | Unedau UG/U2 | Cyfleoedd ar gyfer datblygu neu asesiad mewnol |
|---|---|---|
| Cymdeithasol (parhad) | Uned 7 | Gellid cyflwyno materion cymdeithasol wrth ystyried sut mae cyrchnodau gwahanol wedi neu yn cynllunio datblygu twristiaeth. |
| | Uned 8 | Gall materion cymdeithasol fod yn un mater a ystyrir yn drwyadl ar gyfer yr uned hon neu gellid eu cyflwyno ar gyfer trafodaeth gychwynnol wrth i ddysgwyr ystyried amrediad o faterion ar gyfer ymchwiliad pellach. |
| | Uned 9 | Gallai natur cyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth symbylu trafodaeth ar faterion cymdeithasol. |
| | Uned 10 | Gallai gwerthusiad o ddulliau hyrwyddo a ddefnyddir gan gyrff teithio a thwristiaeth arwain at drafodaeth ar faterion cymdeithasol. |
| | Uned 11 | Ceir cyfleoedd i drafod materion cymdeithasol yn ymwneud â rhai mathau o wyliau arbenigol. |
| | Uned 12 | Gall fod materion cymdeithasol yn ymwneud â sector benodol o'r diwydiant y gellir eu trafod. |
| Diwylliannol | Uned 2 | Gall diwylliant effeithio ar anghenion a disgwyliadau cwsmer a gellir trafod hyn fel rhan o'r uned hon a'u cynnwys mewn chwaraeon rôl. |
| | Uned 3 | Gellir trafod materion diwylliannol o ran nodweddion allweddol cyrchnodau Ewropeaidd. Gellir eu trafod hefyd o ran anghenion ac amgylchiadau cwsmer a'u cynnwys mewn ysgrifau portread. |
| | Uned 4 | Gellir trafod materion diwylliannol wrth ystyried beth sy'n denu ymwelwyr tramor i Brydain. Ceir cyfleoedd hefyd i drafod gwahaniaethau diwylliannol sy'n bodoli yn rhanbarthau a gwledydd gwahanol Prydain. |
| | Uned 6 | Mae cynrychiolwyr cyrchfannau yn debyg o ddod ar draws pobl o gefndiroedd diwylliannol gwahanol ac i weithio mewn cyrchnodau â diwylliannau gwahanol. Disgwylir iddynt gynghori ymwelwyr am ddiwylliannau lleol hefyd. Bydd yr uned yn darparu llawer o gyfleoedd i drafod materion diwylliannol. |
| | Uned 7 | Bydd effeithiau twristiaeth a dulliau datblygu twristiaeth mewn cyrchnod ill dau yn symbylu trafodaeth ar faterion diwylliannol. |
| | Uned 8 | Gellir ystyried materion diwylliannol yn drwyadl ar gyfer yr uned hon neu gellir eu cyflwyno ar gyfer trafodaeth gychwynnol wrth i ddysgwyr ystyried amrediad o faterion ar gyfer ymchwiliad pellach. |
| | Uned 9 | Gallai natur cyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth symbylu trafodaeth ar faterion diwylliannol. |
| | Uned 11 | Ceir cyfleoedd i drafod materion diwylliannol sy'n ymwneud â rhai mathau o wyliau arbenigol. |
| Dinasyddiaeth | Uned 1 | Wrth ystyried treftadaeth a datblygiad twristiaeth, ceir cyfleoedd i drafod dinasyddiaeth. |
| | Uned 4 | Wrth ystyried sut mae rhanbarthau a gwledydd ym Mhrydain yn gwahaniaethu, gellir trafod dinasyddiaeth. |
| | Uned 7 | Wrth ystyried datblygiad twristiaeth, yn enwedig yn y DU, ceir cyfleoedd i drafod dinasyddiaeth. |
| | Uned 9 | Gall cyfleoedd cyflogaeth mewn teithio a thwristiaeth ddarparu cyfleoedd i drafod dinasyddiaeth. |

| Mater | Unedau UG/U2 | Cyfleoedd ar gyfer datblygu neu asesiad mewnol |
|---|---|---|
| Amgylchedd | Uned 1 | Gellir trafod materion amgylcheddol wrth gyflwyno dysgwyr i effeithiau twristiaeth. |
| | Uned 3 | Wrth ystyried nodweddion allweddol sy'n gwneud cyrchnodau yn apelgar a'r rhai sy wedi effeithio ar boblogrwydd ac apêl cyrchnod, gellir trafod materion amgylcheddol. |
| | Uned 4 | Wrth ystyried nodweddion allweddol sy'n gwneud cyrchnodau yn apelgar, gellir trafod materion amgylcheddol. |
| | Uned 6 | Gall cynrychiolwyr cyrchfannau ddarparu gwybodaeth ar faterion amgylcheddol i dwristiaid trwy gyfarfodydd croeso a gallai eu cyflwyno arwain dysgwyr i ystyried y materion hyn. |
| | Uned 7 | Trafodir materion amgylcheddol wrth ddysgu am effeithiau twristiaeth. |
| | Uned 8 | Gellir ystyried materion amgylcheddol yn drwyadl ar gyfer yr uned hon neu gellir eu cyflwyno ar gyfer trafodaeth gychwynnol wrth i ddysgwyr ystyried amrediad o faterion ar gyfer ymchwiliad pellach. |
| | Uned 11 | Ar gyfer rhai sectorau yn y diwydiant teithio a thwristiaeth, bydd materion amgylcheddol yn allweddol. |
| Datblygiadau Ewropeaidd | Uned 1 | Gall ffactorau allanol sy'n effeithio ar y diwydiant teithio a thwristiaeth fod o ganlyniad i ddatblygiadau Ewropeaidd. |
| | Uned 5 | Mae llawer o ddatblygiadau Ewropeaidd sy wedi effeithio ar iechyd a diogelwch teithwyr. |
| | Uned 6 | Mae datblygiadau Ewropeaidd wedi effeithio ar arferion gwaith cynrychiolwyr tramor a gellir trafod y rhain trwy'r uned hon. |
| | Uned 8 | Gellir ystyried datblygiadau Ewropeaidd yn drwyadl ar gyfer yr uned hon neu gellir eu cyflwyno ar gyfer trafodaeth gychwynnol wrth i ddysgwyr ystyried amrediad o faterion ar gyfer ymchwiliad pellach. |
| | Uned 9 | Mae llawer o ddatblygiadau Ewropeaidd wedi effeithio ar arferion gwaith yn y diwydiant teithio a thwristiaeth ac wedi darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd. |
| | Uned 10 | Mae datblygiadau Ewropeaidd wedi creu marchnadoedd targed newydd i'r diwydiant teithio a thwristiaeth. |

| Mater | Unedau UG/U2 | Cyfleoedd ar gyfer datblygu neu asesiad mewnol |
|---|---|---|
| Iechyd a diogelwch | Uned 1 | Gellir trafod iechyd a diogelwch yn nhermau'r ffactorau ysgogol a galluogi sy wedi effeithio ar ddatblygiad twristiaeth. |
| | Uned 2 | Gallai iechyd a diogelwch fod yn un o'r meini prawf ansawdd allweddol a ddefnyddir i werthuso gwasanaeth cwsmer mewn corff. |
| | Uned 3 | Gallai iechyd a diogelwch mewn cyrchnod fod yn un o'r nodweddion i'w ystyried ar gyfer poblogrwydd ac apêl. |
| | Uned 4 | Gallai iechyd a diogelwch mewn cyrchnod fod yn un o'r nodweddion i'w ystyried ar gyfer poblogrwydd ac apêl. |
| | Uned 5 | Dylai iechyd a diogelwch fod yn elfen allweddol yng nghyflwyniad yr uned hon. |
| | Uned 6 | Mae cyfrifoldebau cynrychiolwyr cyrchfan yn cynnwys iechyd a diogelwch y cwsmer. |
| | Uned 7 | Gellid trafod iechyd a diogelwch o ran datblygiad twristiaeth mewn Gwledydd Llai Datblygedig yn Economaidd (LEDCs) |
| | Uned 8 | Gall iechyd a diogelwch fod yn un o'r materion a drafodir yn drwyadl ar gyfer yr uned hon neu gellir eu cyflwyno ar gyfer trafodaeth gychwynnol wrth i ddysgwyr ystyried amrediad o faterion i'w hymchwilio ymhellach. |
| | Uned 9 | Gellid trafod iechyd a diogelwch o ran natur y gyflogaeth ond gellir eu trafod hefyd yn nhermau'r gweithgaredd tîm. |
| | Uned 11 | Gellid trafod iechyd a diogelwch yng nghyswllt mathau gwahanol o wyliau arbenigol megis saffaris a mordeithiau. |
| | Uned 12 | Gellir trafod iechyd a diogelwch a'u perthnasedd i sectorau gwahanol y diwydiant. |

# Atodiad CH: Disgrifiadau perfformiad

- Nod y disgrifiadau perfformiad ar gyfer TAG Iechyd a Gofal Corffol yw disgrifio deilliannau dysgu a lefelau cyrhaeddiad sy'n debygol o gael eu dangos gan ddysgwyr cynrychioliadol sy'n perfformio ar ffiniau A/B ac E/U ar gyfer UG ac U2. Mae'r disgrifiadau perfformiad yn darlunio'r disgwyliadau ar y ffiniau hyn ar gyfer UG ac U2 yn gyfan; nid ydynt wedi eu hysgrifennu ar lefel manyleb neu uned.
- Mae pob disgrifiad perfformiad wedi ei gysylltu ag un Amcan Asesu. Defnyddiwyd system yr wyddor i ddynodi pob elfen o ddisgrifiad perfformiad. Nid oes hierarchaeth o elfennau.
- Cafodd disgrifiadau perfformiad eu cynllunio i gynorthwyo arholwyr wrth ddefnyddio'u barn broffesiynol mewn cyfarfodydd dyfarnu lle y bydd y ffiniau am raddau A/B ac E/U wedi eu gosod gan arholwyr gan ddefnyddio barn broffesiynol. Bydd y farn hon yn adlewyrchu ansawdd gwaith y dysgwyr, ar sail tystiolaeth ystadegol a thechnegol sydd ar gael. Caiff y disgrifiadau perfformiad eu hadolygu'n barhaus a'u diweddaru pan fydd angen.
- Efallai y caiff athrawon fod disgrifiadau perfformiad yn ddefnyddiol wrth ddeall perfformiad dysgwyr ar draws cymwysterau yn gyfan ond dylid defnyddio'r meini prawf marcio a nodwyd yn y fanyleb wrth asesu gwaith dysgwyr.

Mae'r disgrifiadau perfformiad ar gyfer UG yn dynodi lefel cyrhaeddiad nodweddiadol o ymgeiswyr ffiniol A/B a E/U. Maen nhw'n rhoi dangosydd cyffredinol o'r deilliannau dysgu gofynnol. Dylid dehongli'r disgrifiadau yng nghyswllt y cynnwys a amlinellwyd yn y fanyleb; ni fwriedir iddynt ddiffinio'r cynnwys. Bydd y radd a ddyfernir yn dibynnu yn ymarferol ar i ba raddau mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu cyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau o'r asesu gael eu cydbwyso gan well perfformiad mewn eraill. Bydd y gofyniad ar gyfer pob manyleb lefel UG a U2 i asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig ymgeiswyr yn cael ei gwrdd trwy'r pedwar amcan asesu.

| | **Amcan asesu 1** | **Amcan asesu 2** | **Amcan asesu 3** | **Amcan asesu 4** | **Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcanion asesu ar gyfer lefelau UG ac Uwch** | Ymgeiswyr yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys penodedig, ac o sgiliau cysylltiedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cynnwys penodedig ac o'r sgiliau cysylltiedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn defnyddio technegau ymchwil priodol i gaffael gwybodaeth i ddadansoddi materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn gwerthuso gwybodaeth i wneud dyfarniadau rhesymegol, tynnu casgliadau a gwneud argymhellion am faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | |
| **Disgrifiadau perfformiad ffiniol UG A/B** | Ymgeiswyr:<br>a) yn arddangos, gydag ychydig fylchau, gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r cynnwys penodedig ar draws amrywiaeth o gyd-destunau galwedigaethol-berthynol.<br>b) yn arddangos, gydag ychydig fylchau, wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r sgiliau galwedigaethol-berthynol sy'n ofynnol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. | Ymgeiswyr:<br>a) yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth fwy neu lai perthnasol o gynnwys penodedig i sefyllfaoedd galwedigaethol-berthynol cyfarwydd a rhai anghyfarwydd<br>b) yn defnyddio sgiliau perthnasol yn effeithiol mewn sefyllfaoedd galwedigaethol-berthynol cyfarwydd a rhai anghyfarwydd. | Ymgeiswyr:<br>a) yn defnyddio amrediad o dechnegau ymchwilio i gaffael gwybodaeth berthnasol o amrediad o ffynonellau<br>b) yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddadansoddi amrediad o faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr:<br>a) yn gwerthuso addasrwydd yr wybodaeth a gafwyd trwy ymchwilio<br>b) yn defnyddio'r dystiolaeth i dynnu casgliadau dilys am faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol<br>c) yn gwneud dyfarniadau ac argymhellion wedi'u rhesymu'n dda ynglŷn â materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr:<br>a) yn defnyddio mynegiant ysgrifenedig<br>• sy'n cyfleu ystyr priodol<br>• sy'n defnyddio geirfa arbenigol briodol. |

| | Amcan asesu 1 | Amcan asesu 2 | Amcan asesu 3 | Amcan asesu 4 | Ansawdd Cyfathrebu ysgrifenedig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcanion Asesu ar gyfer lefelau UG ac Uwch** | Ymgeiswyr yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys penodedig, ac o'r sgiliau cysylltiedig, mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys penodedig, a'r sgiliau cysylltiedig, mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn defnyddio technegau ymchwil priodol i gaffael gwybodaeth i ddadansoddi materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn gwerthuso gwybodaeth i wneud dyfarniadau rhesymol, tynnu casgliadau a gwneud argymhellion am faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | |
| **Disgrifiadau perfformiad ffiniol UG E/U** | Ymgeiswyr:<br>a) yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth elfennol o'r cynnwys penodedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol. Gall fod bylchau sylweddol<br>b) yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth elfennol o'r sgiliau galwedigaethol-berthynol sy'n ofynnol mewn sefyllfaoedd penodol. Gall fod bylchau sylweddol. | Ymgeiswyr:<br>a) yn cymhwyso peth gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys penodedig i sefyllfaoedd galwedigaethol-berthynol cyfarwydd<br>b) yn cymhwyso rhai sgiliau perthnasol i sefyllfaoedd galwedigaethol-berthynol cyfarwydd, gyda chyfarwyddyd. | Ymgeiswyr:<br>a) yn defnyddio technegau ymchwil gyda chyfarwyddyd i gaffael gwybodaeth<br>b) yn gwneud rhywfaint o ddadansoddi elfennol o faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr:<br>a) yn cyflwyno gwybodaeth ac yn tynnu casgliadau sylfaenol am faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr:<br>a) yn defnyddio cyfathrebu ysgrifenedig<br>• sy'n ddigonol i gyfleu ystyr<br>• y gall ei fod wedi'i fynegi mewn dull anarbenigol. |

Mae disgrifiadau perfformiad ar gyfer U2 yn dynodi lefel cyrhaeddiad nodweddiadol ymgeiswyr ffiniol A/B ac E/U. Maen nhw'n rhoi dangosydd cyffredinol o'r deilliannau dysgu gofynnol. Dylid dehongli'r disgrifiadau yng nghyswllt y cynnwys a amlinellwyd yn y fanyleb; ni fwriedir iddynt ddiffinio'r cynnwys. Bydd y radd a ddyfernir yn dibynnu yn ymarferol ar i ba raddau mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu cyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau o'r asesu gael eu cydbwyso gan well perfformiad mewn eraill. Bydd y gofyniad ar gyfer pob manyleb lefel UG a U2 i asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig ymgeiswyr yn cael ei gwrdd trwy'r pedwar amcan asesu.

| | **Amcan asesu 1** | **Amcan asesu 2** | **Amcan asesu 3** | **Amcan asesu 4** | **Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcanion asesu ar gyfer lefelau UG ac Uwch** | Ymgeiswyr yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys penodedig, ac o sgiliau cysylltiedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cynnwys penodedig ac o'r sgiliau cysylltiedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn defnyddio technegau ymchwil priodol i gaffael gwybodaeth i ddadansoddi materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn gwerthuso gwybodaeth i wneud dyfarniadau rhesymol, tynnu casgliadau a gwneud argymhellion am faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | |
| **Disgrifiadau perfformiad ffiniol U2 A/B** | Ymgeiswyr:<br>a) yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth drwyadl o gynnwys penodedig ar draws amrediad o gyd-destunau galwedigaethol-berthynol<br>b) yn arddangos gwybodaeth drwyadl a dealltwriaeth drylwyr o sgiliau galwedigaethol-berthynol angenrheidiol mewn amrediad o sefyllfaoedd. | Ymgeiswyr:<br>a) yn cymhwyso gwybodaeth berthnasol a dealltwriaeth hanfodol o gynnwys penodedig i sefyllfaoedd galwedigaethol-berthynol cyfarwydd ac anghyfarwydd<br>b) yn cymhwyso yn effeithiol ac eithrio rhai eithriadau y sgiliau perthnasol mewn sefyllfaoedd galwedigaethol-berthynol cyfarwydd ac anghyfarwydd<br>c) yn arddangos gafael dda ar iaith dechnegol. Maen nhw'n dethol, trefnu a chyflwyno gwybodaeth berthnasol mewn dull priodol, rhesymegol a chlir. | Ymgeiswyr:<br>a) yn dethol a defnyddio amrediad o dechnegau ymchwil priodol yn effeithiol i gaffael gwybodaeth berthnasol o amrediad o ffynonellau<br>b) yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud dadansoddiad beirniadol o faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol cymhleth. | Ymgeiswyr:<br>a) yn gwerthuso yn feirniadol addasrwydd yr wybodaeth a gafwyd trwy ymchwilio<br>b) yn defnyddio tystiolaeth i dynnu casgliadau dilys a chadarn am faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol<br>c) yn gwneud dyfarniadau ac argymhellion wedi'u rhesymu'n dda am faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr:<br>a) yn defnyddio mynegiant ysgrifenedig<br>• sy'n cyfleu ystyr priodol<br>• sy'n defnyddio geirfa arbenigol briodol. |

| | Amcan asesu 1 | Amcan asesu 2 | Amcan asesu 3 | Amcan asesu 4 | Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcanion asesu ar gyfer lefelau UG ac Uwch** | Ymgeiswyr yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys penodedig, ac o'r sgiliau cysylltiedig, mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cynnwys penodedig ac o'r sgiliau cysylltiedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn defnyddio technegau ymchwil priodol i gaffael gwybodaeth i ddadansoddi materion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr yn gwerthuso gwybodaeth i wneud dyfarniadau rhesymol, tynnu casgliadau a gwneud argymhellion am faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | |
| **Disgrifiadau perfformiad ffiniol U2 E/U** | Ymgeiswyr:<br>a) yn arddangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys penodedig mewn cyd-destunau galwedigaethol-berthynol penodol. Gall fod bylchau sylweddol<br>b) yn arddangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o sgiliau galwedigaethol-berthynol gofynnol mewn sefyllfaoedd galwedigaethol-berthynol. Gall fod bylchau sylweddol. | Ymgeiswyr:<br>a) yn cymhwyso peth gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys penodedig i sefyllfaoedd galwedigaethol-berthynol rhai yn gyfarwydd a rhai yn anghyfarwydd<br>b) yn cymhwyso sgiliau perthnasol mewn sefyllfaoedd galwedigaethol-berthynol rhai yn gyfarwydd a rhai yn anghyfarwydd. | Ymgeiswyr:<br>a) yn defnyddio technegau ymchwil gyda chyfarwyddyd i gaffael gwybodaeth berthnasol o ffynonellau cyfyngedig<br>b) yn gwneud defnydd o'r wybodaeth hon i wneud dadansoddiad syml o faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr:<br>a) yn gwerthuso addasrwydd peth gwybodaeth a gafwyd trwy ymchwilio<br>b) yn defnyddio tystiolaeth i dynnu casgliadau<br>c) yn gwneud dyfarniadau am faterion a phroblemau galwedigaethol-berthynol. | Ymgeiswyr:<br>a) yn defnyddio mynegiant ysgrifenedig<br>• sy'n ddigonol i gyfleu ystyr<br>• sy'n cael ei fynegi mewn modd anarbenigol efallai. |

906sb310505 S:\LT\PD\APPLIED GCE\WELSH GCEs\UA015718 CYMRAEG TRAVEL AND TOURISM.DOC.1-3/0

Mehefin 2005

Am ragor o wybodaeth ar gymwysterau Edexcel a BTEC cysylltwch â
Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0870 240 9800
neu http://enquiries.edexcel.org.uk
neu ewch i'n gwefan: www.edexcel.org.uk

Edexcel Limited. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 4496750
Swyddfa Gofrestredig: One90 High Holborn, Llundain WC1V 7BH